




Ministry
of Justice

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

2025



Mae Data a Dadansoddiadau yn bodoli i wella prosesau llunio polisiâu, gwneud penderfyniadau ac arferion y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gwna hynny drwy ddarparu data a chyngor cadarn, amserol a pherthnasol a dynnwyd o ymchwil a dadansoddiadau a gynhaliwyd gan ddadansoddwyr yr adran a'r gymuned ymchwil ehangach.

Ymwadiad

Barn yr awduron yw'r safbwyntiau a fynegir ac nid ydynt o reidrwydd yn cael eu rhannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (ac nid ydynt ychwaith yn cynrychioli polisi'r Llywodraeth).

Cyhoeddwyd gyntaf 2025

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i

nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn rocla@justice.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn [Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil - GOV.UK](#)

Cynnwys

Rhestr o dablau

Rhestr o ffigurau

Crynodeb Gweithredol	1
Cyflwyniad	13
Methodoleg	15
Cefndir	16
Rhan 1: Hygyrchedd y gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil	23
1.1 Proffil defnyddwyr a'r rhwystrau a wynebir gan grwpiau agored i niwed	23
1.2 Diffyg ymwybyddiaeth a galluogrwydd	28
1.3 Lefelau uchel o alw	38
1.4 Materion cyfreithiol sy'n gwaethygu a chlystyru ac ymyrraeth gynnar	47
1.5 Y darlun cyffredinol o hygyrchedd cymorth cyfreithiol sifil	59
Rhan 2: Effeithiolrwydd y systemau cymorth cyfreithiol sifil	56
2.1 Natur gymhleth a beichus systemau	56
2.2 Y defnydd o dechnoleg	77
2.3 Y darlun cyffredinol o effeithiolrwydd y systemau cymorth cyfreithiol sifil	76
Rhan 3: Gweithrediad y farchnad cymorth cyfreithiol sifil	78
3.1 Cyd-destunoli darparwyr cymorth cyfreithiol sifil	78
3.2 Heriau allweddol: Ffioedd a hyfywedd ariannol	88
3.3 Heriau allweddol: Recriwtio a chadw	97
3.4 Effeithiau: Cyflenwi a chynaliadwyedd	129
Y camau nesaf	137
Cyfeiriadau	138
Atodiad A	156
Ymgysylltiad yr Adolygiad yng Nghymru	144

Rhestr o dablau

Tabl 1: Ystod yn ôl categorïau'r gyfraith	82
Tabl 2: Proffidioldeb gwahanol gategorïau o'r gyfraith i ddarparwyr	94
Tabl 3: Cyfanswm y cyfreithwyr sy'n ymuno a dychwelyd sy'n gweithio i gwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol fesul blwyddyn	100
Tabl 4: Cyfreithwyr sy'n gweithio mewn cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol yn ôl blynyddoedd ers ymuno â'r proffesiwn a'r maes ymarfer, 2014-15 a 2021-22	101
Tabl 5: Nifer y bargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil, yn ôl maes ymarfer a blwyddyn	102
Tabl 6: Dosbarthiad bargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil yn ôl maes ymarfer a'r bandiau nifer yr achosion, yn 2022-23	103
Tabl 7: Dosbarthiad bargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil yn ôl maes ymarfer a bandiau incwm ffioedd cymorth cyfreithiol sifil gros, yn 2022-23	104
Tabl 8: Y nifer o gwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol yn ôl maes ymarfer a blwyddyn	121
Tabl 9: Cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol yn ôl y nifer o bartneriaid a maes ymarfer, 2014-15	128
Tabl 10: Cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol yn ôl y nifer o bartneriaid a maes ymarfer, 2021-22	128

Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Lefelau galw a adroddwyd ar draws y darparwyr	38
Ffigur 2: Y galw a gofnodwyd gan ddarparwyr am gymorth cyfreithiol sifil wedi'i ddadansoddi yn ôl y maes o'r gyfraith	42
Ffigur 3: Hyd cyfartalog materion a gwblhawyd ar gyfer help cyfreithiol, 2010-11 i 2022-23	88
Ffigur 4: Refeniw cyfartalog darparwyr fesul mater a gwblhawyd ar gyfer help cyfreithiol, 2010-11 i 2022-23	89
Ffigur 5: Rhesymau pam fod darparwyr ymarfer preifat wedi rhoi'r gorau i fod yn ddeiliaid contract cymorth cyfreithiol sifil	98
Ffigur 6: Cynrychiolaeth sifil: cyfanswm y tystysgrifau a gymeradwywyd, 2014-15 i 2022-23	122
Ffigur 7: Cymorth cyfreithiol: cyfanswm y materion a ddechreuwyd, 2014-15 i 2022-23	122
Ffigur 8: Dadansoddiad ffynonellau refeniw cyfartalog cwmnïau nid-er-elw	125
Ffigur 9: Nifer cyfartalog yr achosion a gwblhawyd fesul swyddfa darparwyr ar gyfer cynrychiolaeth sifil, 2010-11 i 2022-23	126
Ffigur 10: Nifer cyfartalog y materion a gwblhawyd fesul swyddfa darparwyr ar gyfer help cyfreithiol, 2010-11 i 2022-23	127

Crynodeb Gweithredol

Cefndir ac Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Mae gallu unigolion i ddatrys eu materion cyfreithiol yn hollbwysig ar gyfer cymdeithas gyfiawn. Mae angen i bobl allu defnyddio'r system gyfiawnder i fynnu eu hawliau cyfreithiol. Yng Nghymru a Lloegr, mae gan y system cymorth cyfreithiol sifil rôl bwysig yn sicrhau mynediad at gyngor cyfreithiol sydd wedi'i ariannu'n gyhoeddus, cyfryngu teuluol a chynrychiolaeth sifil mewn llys neu dribiwnlys. Mae Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr 2012 (LASPO) yn nodi'r materion sy'n cael eu cynnwys yng nghwmpas cymorth cyfreithiol sifil a'r meini prawf cymhwysedd, ac yn ceisio sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gael i'r rhai â'r angen mwyaf. Lanswyd yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil (AoGCS) yn Ionawr 2023 i ddeall sut mae'r system yn gweithredu ac ymchwilio i arwyddion bod y system cymorth cyfreithiol sifil yn profi heriau.

Nod yr Adolygiad oedd nodi opsiynau ar sail tystiolaeth a fydd yn gwella cynaliadwyedd y ddarpariaeth cymorth cyfreithiol sifil, gan sicrhau ei bod yn darparu mynediad at gyfiawnder yn yr hirdymor. Er mwyn casglu'r dystiolaeth hon, roedd yr AoGCS yn cynnwys pedair prif ffrwd waith ddadansoddol: y Dadansoddiad Economaidd; Dadansoddiad Cymharol; Ymchwil Gymdeithasol Taith y Defnyddiwr; a Chyhoeddiadau Data. Casglodd y Cais am Dystiolaeth fewnbwn ychwanegol gan y sector, yn ogystal â rhaglen o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Er bod nifer o adroddiadau ffrydiau gwaith wedi'u cyhoeddi sy'n cynnwys dadansoddiadau mwy manwl o ganfyddiadau unigol, mae'r adroddiad hwn yn cyfuno canfyddiadau allweddol o sylfaen dystiolaeth gyfan yr AoGCS, yn ogystal â thystiolaeth ategol pan fo hynny'n fuddiol. Mae'r canfyddiadau wedi'u gosod mewn grwpiau o themâu dethol sy'n cynnig adolygiad cyfannol o'r system.

Hygyrchedd y gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil

Casglodd yr AoGCS dystiolaeth ar hygyrchedd y system cymorth cyfreithiol sifil, i geisio deall profiad unigolion (neu “ddefnyddwyr”) wrth iddynt gael mynediad at y system, a rhyngweithio â hi.

Proffiliau defnyddwyr a rhwystrau a wynebwr gan ddefnyddwyr agored i niwed

Er nad oes un math o unigolyn a all ddefnyddio cymorth cyfreithiol sifil, gall defnyddwyr y system yn aml iawn fod yn unigolion agored i niwed. Gellir profi bregusrwydd oherwydd amgylchiadau personol neu rwystrau cymdeithasol, yn ogystal â chael profiad o gyflwr dros dro, neu gyflwr mwy hirdymor. Ymhlith y rhwystrau cyffredin a wynebwr gan unigolion agored i niwed mae: llythrennedd a dealltwriaeth wael; mynediad at, a sgiliau digidol cyfyngedig; rhwystrau ieithyddol; anghenion addysgol arbennig ac anabledd (AAAA) ac anabledau corfforol; wynebu neu ddod dros amgylchiadau trawmatig; ac amodau byw anhrefnus neu ansicr.

Gall oedi sy'n digwydd yn y system cymorth cyfreithiol gael effaith anghymesur ar bobl agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd wedi profi digwyddiadau trawmatig, neu'r rhai â phroblemau iechyd meddwl. Soniodd defnyddwyr a darparwyr am oedi yn deillio o amser a dreulwyd yn casglu tystiolaeth o gymhwysedd, cael cyllid yn ei le, anawsterau gyda chapasiti darparwyr, amser a dreulir yn delio â thrydydd partïon (e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau, awdurdodau lleol neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol), perthnasoedd gwaith gwael neu araf gyda chleientiaid.

Yn gysylltiedig â hyn mae adroddiadau am anghenion gynyddol gymhleth defnyddwyr. Gall anghenion mwy cymhleth ei gwneud yn anos i drin a thrafod achosion, a allai arwain at ddefnyddwyr mwy rhwystredig a mwy o straen ar eu perthnasoedd â darparwyr.

Diffyg ymwybyddiaeth a galluogrwydd

Yn aml iawn, nid yw unigolion yn ymwybodol bod eu problemau yn gyfreithiol eu natur, neu bod datrysiad cyfreithiol posibl. Roedd darparwyr cymorth cyfreithiol o'r farn bod gwybodaeth gyfreithiol bresennol eu darpar gleientiaid neu eu cleientiaid presennol yn isel. Roedd hyn yn cynnwys bodolaeth cymorth cyfreithiol sifil, prosesau cymorth cyfreithiol a'r

system gyfiawnder yn fwy cyffredinol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod lefelau o alluogrwydd cyfreithiol yn y boblogaeth gyffredinol yn dueddol o fod yn isel.

Gall camsyniadau achosi i ddefnyddwyr gredu nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, neu nad yw ar gael ar gyfer eu problem hwy, a gall hyn arwain at oedi wrth ddatrys eu materion cyfreithiol. Mae rhai defnyddwyr yn treulio amser ac arian ar fathau eraill o gyngor cyfreithiol cyn gwneud cais am gymorth cyfreithiol. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth wael am gwmpas a meini prawf cymhwysedd, gofynion tystiolaeth, amserlenni posibl ar gyfer symud achosion ymlaen a chanlyniadau realistig yn golygu bod yn rhaid i ddarparwyr reoli disgwyliadau a chefnogi defnyddwyr.

Lefelau uchel o alw

Mae Arolwg Defnyddwyr AoGCS yn pwysleisio lefelau uchel o alw a adroddwyd am wasanaethau cymorth cyfreithiol, gyda 80% o gyfranogwyr yn datgan bod y galw am eu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil yn uwch na lefel safonol a 50% yn datgan bod y galw yn uchel iawn.¹ Dywedodd rhai darparwyr eu bod yn gwrthod achosion cymorth cyfreithiol sifil a allai fod yn gymwys – ymhlith y darparwyr a nododd lefel ormodol o alw, roedd 26 achos cymwys posibl ar gyfartaledd wedi'u gwrthod yn y mis cyn yr arolwg, fesul darparwr. Yn yr un modd, dywedodd ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth a darparwyr a gyfranogodd yn yr Ymchwil Defnyddwyr eu bod wedi gwrthod darpar ddefnyddwyr gwasanaeth oherwydd materion capasiti sefydliadol. Nid yw'n glir a aeth y darpar ddefnyddwyr hyn ymlaen i ganfod darparwr. Adroddodd rhai defnyddwyr eu bod wedi cael anhawster i ganfod darparwr cymorth cyfreithiol â'r capasiti i dderbyn eu hachos, gyda rhai'n cysylltu â nifer fawr o ddarparwyr, yn aflwyddiannus.

Nid yw gallu defnyddwyr i gael mynediad at y cymorth cyfreithiol yn ddarlun cyfartal ar draws Cymru a Lloegr. Clywodd yr Adolygiad adroddiadau am unigolion yn cael anhawster i ddod o hyd i ddarparwyr mewn rhai categorïau o'r gyfraith mewn rhanbarthau penodol, gyda darparwyr hefyd yn adrodd eu bod yn derbyn galwadau gan ddarpar gleientiaid ymhellach i ffwrdd gan na all yr unigolion hyn ddod o hyd i ddarparwyr cymorth cyfreithiol yn eu hardal. Roedd yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth a'r ymgysylltu â rhanddeiliaid yn aml yn dangos tai a dyled a mewnfudo yn cael eu nodi fel meysydd o bryder, dau gategori

¹ [Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Arolwg Darparwyr - GOV.UK](#)

sifil mwyaf y gyfraith, gyda'r ymatebwyr yn nodi y gallai fod yn heriol sicrhau darparwr yn y meysydd hyn o'r gyfraith. Mae dadansoddiad is-segment o'r Arolwg Darparwyr yn awgrymu, ar gyfer contractau cymorth cyfreithiol sifil penodol, bod galw uchel iawn yn llawer iawn mwy tebygol o gael ei adrodd ar gyfer tai a dyled (65%) a gwasanaethau mewnfudo (83%) o gymharu â'r cyfartaledd ar draws y categorïau cymorth cyfreithiol sifil yn yr arolwg².

Mae adroddiadau lluosog am ddefnyddwyr yn cael anhawster i sicrhau darparwyr a darparwyr yn troi darpar gleientiaid i ffwrdd oherwydd capasiti yn dangos y gallai angen cyfreithiol heb ei ddiwallu fod yn faes sy'n peri pryder. Byddai gwaith ymchwil pellach yn helpu i gael dealltwriaeth o lefelau'r galw a beth allai fod yn digwydd os nad yw darpar ddefnyddwyr yn sicrhau darpariaeth cymorth cyfreithiol.

Pan na fydd defnyddwyr yn sicrhau cymorth cyfreithiol, gallent fwrw ymlaen fel Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain, neu mae'n bosibl y gallai rhai dderbyn gwasanaethau pro bono. Mewn sefyllfaoedd eraill, gelwir ar wasanaethau cyfreithiol heb eu rheoleiddio, er enghraifft McKenzie Friends neu gynghorwyr lleyg. Gallai beri pryder os bydd unigolion yn troi at gyngor heb ei reoleiddio oherwydd nid ydynt yn derbyn cyngor cyfreithiol ffurfiol ac nid oes unrhyw warrant o ansawdd y cyngor. Rhannwyd adroddiadau gan y rhai sy'n gweithio yn y sector am gynnydd yn y nifer o Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain a'r effeithiau negyddol tybiedig y gallai hyn eu creu. Roeddynt o'r farn y gallai bwrw ymlaen ag achos fel Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain heb gyngor cyfreithiol ffurfiol arwain at ganlyniadau gwael i unigolion ac y gallai fod yn niweidiol i weithrediad y llysoedd sifil, gan arwain at gostau uwch. Roedd cyfranogwyr yn aml o'r farn, pe gallai mwy o unigolion gael mynediad at gyngor cyfreithiol sifil ar gamau cynharaf eu hachos, yna byddai llai o Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain a llai o achosion yn mynd i'r llys yn gyffredinol.

Materion cyfreithiol sy'n gwaethygu a chlystyru ac ymyrraeth gynnar

Gall problemau lles cymdeithasol waethygu a chlystyru â'i gilydd os na lwyddir i fynd i'r afael â phroblem gychwynnol yn gywir, gan greu problem sy'n fwy cymhleth.

² Mae'n bwysig nodi bod meintiau'r samplau yn cyfyngu'r dadansoddiad hwn i bedwar categori o'r gyfraith, ond mae hyn yn parhau i ddangos gwahaniaeth clir rhwng y categorïau hyn a chyfraith teulu a chyfraith gyhoeddus, a'r cyfartaledd ar draws y categorïau cymorth cyfreithiol sifil yn yr arolwg.

Yn aml, erbyn i unigolyn geisio ymyrraeth neu gyngor cyfreithiol, neu gymorth cyfreithiol yn fwy penodol, bydd eu mater eisoes wedi cyrraedd cam datblygedig. Wrth i faterion cyfreithiol waethygu, maent nid yn unig yn dueddol o fod yn fwy cymhleth a beichus (i'r unigolyn, y gweithwyr cyfreithiol proffesiynol cysylltiedig a chymdeithas yn ehangach), ond mae'r opsiynau ar gyfer datrysiad cyfreithiol yn dod yn fwyfwy cyfyngedig. Er enghraifft, dywedodd rhai o'r defnyddwyr a ymgysylltodd yn ystod yr AoGCS eu bod ond wedi dod yn ymwybodol o gymorth cyfreithiol pan oedd eu mater cyfreithiol eisoes wedi cyrraedd y cam achos llys.

Nid oes unrhyw reswm cyffredinol pam mae materion rhai unigolion yn clystyru ac yn gwaethygu a pham eu bod yn oedi cyn ceisio cyngor cyfreithiol; fodd bynnag, mae hyn yn aml yn digwydd oherwydd lefelau isel o ymwybyddiaeth a gallu. Pan nad oes gan unigolion y wybodaeth gyfreithiol i ystyried eu mater fel un cyfreithiol, neu'r ymwybyddiaeth i ddeall yr ystod o opsiynau sydd ar gael iddynt, er enghraifft cyngor cyfreithiol neu ddulliau datrys eraill, nid yw'n syndod fod materion yn gwaethygu.

Roedd ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn cydnabod pwysigrwydd a buddiannau posibl ymyrraeth gynnar. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y gallai cymorth cyfreithiol chwarae rhan mewn camau ymyrraeth gynnar ac atal. Roeddynt yn cydnabod buddiannau ymyrraeth gynnar a bod angen amdano o ystyried bod cleientiaid yn aml iawn ond yn dod yn ymwybodol o'r cymorth pan oedd eu mater ar gam datblygedig iawn. Fodd bynnag, roeddynt yn credu nad oedd y gwaith hwn yn digwydd mor aml ag y gallai.

Effeithiolrwydd systemau cymorth cyfreithiol sifil

Mae'r Adolygiad wedi cronni tystiolaeth ar ymgysylltu a llywio'r system cymorth cyfreithiol i ddefnyddwyr a darparwyr, gyda'r bwriad o ddeall unrhyw rwystrau neu aneffeithlonrwydd a allai fodoli.

Natur gymhleth a beichus systemau

Codwyd lefel y cymhlethdod sy'n gynhenid i'r rhan fwyaf o'r system cymorth cyfreithiol sifil a'r rheoliadau fel rhwystr i effeithiolrwydd y system:

Gofynion tystiolaethol ac ariannol

Codwyd y gofynion tystiolaethol ac ariannol presennol ar gyfer ceisiadau am gymorth cyfreithiol amlaf fel rhwystr allweddol i'r rhai a oedd yn ceisio cymorth. Mae defnyddwyr yn profi anawsterau sy'n cynnwys: sicrhau slipiau cyflog, gwybod sut i gael mynediad at gyfriflenni banc, diffyg mynediad at y dechnoleg i argraffu neu e-bostio'r dogfennau, neu'r llythrennedd digidol i wybod sut i wneud hynny a mynediad cyfyngedig at wasanaethau bancio wyneb yn wyneb. Mae'r gofynion ariannol hyn yn rhoi baich ar ddarparwyr hefyd oherwydd gallent fod yn cefnogi cleientiaid drwy gasglu tystiolaeth.

Gweinyddiaeth

Cyfeiriwyd yn aml at weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â chymorth cyfreithiol fel baich i ddarparwyr yn y system. Pwysleisiodd yr Arolwg Darparwyr bod gwaith gweinyddol yn bwynt poen allweddol i'r rhai sy'n gweithredu yn y sector. Dywedodd hanner yr ymatebwyr eu bod yn wynebu pwyntiau poen gweinyddol yn wythnosol, gyda 49% o'r ymatebwyr yn pwysleisio bod gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â chael eu talu yn broblem a oedd yn debygol o atal eu gallu i barhau i ddarparu gwasanaeth. Roedd y beichiau gweinyddol ar nifer o wahanol ffurfiau, gan gynnwys: llywio'r system ffioedd; y broses filio; rheoli defnyddwyr gwasanaeth; gofynion cymhwysedd/tystiolaethol; archwiliadau; a llywio systemau/cyflwyno ceisiadau i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae'r tasgau hyn i gyd yn llenwi swm sylweddol o amser darparwyr ac yn aml ni ellir bilio amdanynt ac ystyrir eu bod yn cymryd swm anghymesur o amser i'w cwblhau a'u bod yn aneffeithlon. Wrth eu holi yn y Cais am Dystiolaeth pa newidiadau allai wella'r system, roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr o'r farn bod angen lleihau'r beichiau gweinyddol. Mae awydd aruthrol ymhlith y rhai sy'n ymarfer yn y sector i symleiddio'r system.

Contractau

Cyfeiriodd y darparwyr at faterion ynghylch agweddau penodol o gontractau cymorth cyfreithiol sifil. Ystyriwyd bod amllder cymharol y broses o dendro ar gyfer Contract Sifil

Safonol 2018 bob pedair blynedd yn anhyblyg ac yn rhywbeth a allai atal darparwyr newydd rhag ymuno â'r farchnad.³

Cyfeiriodd rhai o'r rhanddeiliaid at natur gymhleth y Contract Sifil Safonol ac ystyriwyd bod rhywfaint o'r ddarpariaeth yn y contract yn cyfrannu ymhellach at y lefelau uchel o reoleiddio a biwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â rheoli ac archwilio cydymffurfiaeth â'r cynllun cymorth cyfreithiol. Er gwaethaf hyn, ystyriwyd y gallai agweddau o'r contract fod yn aneglur ac y gallent gael eu dehongli'n oddrychol. Gallai'r cymhlethdod hwn unwaith eto atal darparwyr newydd rhag ymuno â'r farchnad. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at ofynion megis presenoldeb swyddfa gorfodol mewn categorïau lle mae mwyafrif y cleientiaid yn cael eu cadw, sydd, yn eu barn hwy, yn ysgwyddo costau sylweddol. Roedd gan ymatebwyr farn debyg hefyd am y cyfyngiad o 50% ar gyngor o bell mewn contractau, gyda llawer yn dymuno cael mwy o hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd y teimlent oedd yn gwasanaethu eu cleientiaid orau.

Bilio

Mae tystiolaeth ar draws yr Adolygiad yn dangos bod y broses o filio tystiolaeth yn feichus i ddarparwyr. Gall y gofynion hawlio fod yn fanwl iawn a gall gymryd swm sylweddol o amser i'w llenwi a'u cyflwyno ym mhob cyfnod. Yn yr Arolwg Darparwyr, roedd 94% o'r ymatebwyr wedi profi problemau a oedd yn deillio o'r amser sy'n gysylltiedig â gwaith gweinyddol ynghylch cael eu talu – gyda 45% o'r ymatebwyr yn profi'r problemau hyn yn wythnosol.

Systemau TG

Mae systemau TG cymorth cyfreithiol, yn arbennig y System Rheoli Costau Cleientiaid (CCMS) yn bwynt poen i ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil. Roedd cryfder y teimladau hyn yn amlwg yn yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth a'r ymgysylltiad ar draws yr Adolygiad.

³ Dylid nodi, yn dilyn y gwaith o gasglu data ar gyfer yr adroddiad hwn, yn Rhagfyr 2024 symudodd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC) i broses dendro "bob amser ymlaen", sy'n golygu y bydd gan ddarpar ymgeiswyr gyfleoedd lluosog i wneud cais am contract yn ystod oes contract.

Gwneud Penderfyniadau

Yn yr Arolwg Darparwyr, roedd y ffordd y mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC) yn gwneud penderfyniadau yn ennyn lefelau uchel o anfodlonrwydd. Nodwyd seilwaith yr ACC a'r broses o wneud penderfyniadau yn yr arolwg fel un o'r pwyntiau poen cyffredin (wythnosol) allweddol i ddarparwyr, sy'n dangos anfodlonrwydd ag arfer presennol a'r rheoliadau cymorth cyfreithiol y mae'n rhaid i'r ACC eu dilyn. Roedd teimlad cyffredinol y gellid gwneud gwelliannau yn y gofod hwn. Mae rhanddeiliaid yn nodi anghysondebau o ran canlyniadau achosion a bilio. Ystyriwyd bod penderfyniadau weithiau yn cael eu gwneud heb lawer o resymeg, neu y byddai gwrthodiadau (er enghraifft ar gyfer bilio) yn cael eu gwneud heb unrhyw ymgynghori ymlaen llaw. Aeth rhai ymhellach, gan feirniadu'r berthynas waith rhwng yr ACC a darparwyr a'i ddisgrifio fel un wrthwynebus.

Cyllid achosion eithriadol

O ran Cyllid Achosion Eithriadol (CAE), ystyriwyd bod ceisiadau yn gymhleth, yn llafurus ac yn feichus yn ariannol i ddarparwyr. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau, os yw gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn cael anhawster i'w trin a'u trafod, nid oes llawer o obaith i gyfryngwyr dibynadwy ddeall pryd y gallai unigolyn fod yn gymwys i gael CAE, neu i unigolion ymgysylltu â CAE yn annibynnol.

Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n ymgymryd ag achosion CAE oherwydd y risgiau tybiedig sy'n gysylltiedig â hwy, er enghraifft amseroedd prosesu hir a chanlyniadau ansicr. Roeddynt o'r farn bod angen proses fwy syml a dynamig, gyda rhai'n dweud y byddai rhyddhau cyllid yn syth ar ôl cymeradwyaeth CAE yn lliniaru'r oedi ac yn darparu cymorth amserol. Roedd llawer o'r farn bod yr heriau sy'n gysylltiedig â'r broses CAE yn arafu'r ddarpariaeth cynrychiolaeth gyfreithiol.

Ieithoedd

Nid yw'r system cymorth cyfreithiol wedi'i hoptimeiddio ar gyfer unigolion sy'n profi rhwystrau ieithyddol. Efallai y bydd angen cyfieithydd ar ddefnyddwyr i gael mynediad effeithiol i'r system ac i ymgysylltu â hi. Casglodd ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr adroddiadau am anawsterau i ddod o hyd i gyfieithydd sy'n meddu ar gymwysterau addas ac sy'n barod i weithio am y cyfraddau cymorth cyfreithiol a nodir mewn deddfwriaeth (ystyriwyd nad oeddynt yn gystadleuol). Gallai hyn achosi oedi i'r broses gyfreithiol.

Codwyd pryderon ynghylch costau ac ansicrwydd ynglŷn â chyllid ar gyfer cyfieithwyr ar y pryd. Weithiau roedd yn rhaid i ddarparwyr ysgwyddo costau cychwynnol eu hunain a dod o hyd i ffyrdd o ddarparu ar gyfer cleientiaid â rhwystrau iaith. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cael cyfieithydd cyson y gellir ymddiried ynddynt gan gyfranogwyr a oedd yn gweithio gyda chleientiaid agored i niwed, yn enwedig y rheini yn y meysydd teulu a mewnfudo a lloches.

Y defnydd o dechnoleg

Mae'r defnydd o dechnoleg wedi esblygu yn y sector cymorth cyfreithiol, gyda'r pandemig COVID-19 yn cyflymu'r defnydd o ffyrdd o weithio digidol. Datblygodd y sector cymorth cyfreithiol ddulliau cymysg, gan ddarparu'r gwasanaeth wyneb yn wyneb ac o bell.

Safbwyntiau cymysg ar gyflenwi gwasanaeth digidol

Neges gyffredinol a ddeilliodd o'r Adolygiad oedd bod buddiannau mawr i'w cael o ddefnyddio a manteisio ar offer digidol ym maes cymorth cyfreithiol, ond nid yw technoleg yn ateb i bob problem ac mae'n bwysig deall risgiau allgáu digidol a phwysigrwydd cefnogaeth wyneb yn wyneb mewn rhai cyd-destunau. Roedd darparwyr a defnyddwyr yn croesawu'r hyblygrwydd a gynigir gan ddarparu gwasanaethau digidol yn fawr iawn. Er hynny, teimlwyd y gallai gwasanaeth personol fod yn fuddiol o ran meithrin perthynas, cyfleu gwybodaeth gymhleth ac i rai defnyddwyr agored i niwed.

Hygyrchedd, allgau digidol a gallu

Mae'r AoGCS wedi clywed bod hygyrchedd technoleg yn creu heriau ar gyfer darparu cyngor o bell. Mae'r allgáu digidol hwn, sy'n cael ei ddwysáu gan ffactorau fel diffyg Wi-Fi neu gynlluniau data, yn llesteirio cymorth digidol. Hyd yn oed pan allai fod gan unigolion fynediad at dechnoleg, gall lefelau galluogrwydd fod yn wael. Gallai defnydd cynyddol o lwyfannau digidol yn y maes cymorth cyfreithiol fod yn anafteisiol i unigolion, yn fwyaf tebygol y rhai mwyaf agored i niwed, sy'n golygu bod mynediad i leoliad ffisegol yn hollbwysig i rai pobl ac y dylai allgáu digidol a gallu digidol fod yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu polisi. Mynegwyd pryder arbennig bod defnyddwyr o leiafrifoedd ethnig sy'n wynebu rhwystrau iaith yn llai tebygol o gael mynediad at wasanaethau o bell. Yn yr un modd, mae mwy o rwystrau'n bodoli i'r rhai yn y gofod mewnfudo a lloches a'r rhai sy'n profi digartrefedd.

Gweithrediad y farchnad cymorth cyfreithiol sifil

Heriau Allweddol: Ffioedd a hyfywedd ariannol

Mae darparwyr yn adrodd heriau hyfywedd ariannol yn y system cymorth cyfreithiol sifil, sydd wedi'u hysgogi'n bennaf gan lefelau ffioedd a strwythurau ffioedd presennol.

Lefelau ffioedd

Nid yw'r rhan fwyaf o'r lefelau ffioedd ym maes cymorth cyfreithiol sifil wedi cynyddu ers 1996. Yn ogystal, gostyngwyd llawer o'r cyfraddau ffioedd hyd at 10% drwy'r Rhaglen Diwygio Cymorth Cyfreithiol yn 2011. Mae swm sylweddol o adborth gan y sector (drwy ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth a'r ymgysylltiad) yn dangos bod ffioedd is yn her allweddol sy'n wynebu darparwyr. Roedd yr ymatebwyr yn datgan nad yw lefelau ffioedd y wladwriaeth yn cwmpasu costau'r cymorth cyfreithiol. Mae Ymchwil Cynaliadwyedd Cymdeithas y Gyfraith⁴ yn dangos nad yw'r lefelau ffioedd presennol yn ddigonol i gwmpasu costau cymorth cyfreithiol darparwyr ar gyfer y sampl o ddarparwyr tai a theulu presennol a arolygwyd.

Strwythurau ffioedd

Mae strwythur ffioedd yn gymhleth mewn rhai categorïau o'r gyfraith ac, ar draws y cynllun cydnabyddiaeth i bob categori, mae'n cynnwys 288 o wahanol ffioedd a chyfraddau fesul awr. Dywed y darparwyr bod yn rhaid iddynt dreulio swm anghymesur o amser yn gweithio drwy'r system ffioedd a chyflwyno gwybodaeth filio: rhaid nodi'r ffi gywir, a gall hyn newid yn ôl pryd yr agorwyd achos, y math o achos, a pha mor uchel yw lefel y llys dan sylw; cofnodir gweithgarwch ar lefel ronynnog; a rhaid casglu a mewnbynnu'r wybodaeth ronynnog hon yn gywir. Mae'r cymhlethdod hwn yn creu costau gweinyddol uwch i ddarparwyr.

Mae darparwyr yn adrodd nad yw ffioedd sefydlog (a ddefnyddir ar gyfer y mwyafrif o achosion cymorth cyfreithiol) yn talu eu costau. Cynhaliwyd y modelu sy'n sail i gyfraddau ffioedd sefydlog, ar y cymysgedd achosion cymorth cyfreithiol cyfartalog, ddiwethaf yn 2006. Ers hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu bod cymhlethdod achosion cymorth cyfreithiol wedi cynyddu, gan gynnwys cynnydd yn hyd cyfartalog achosion cymorth

⁴ [Cymorth cyfreithiol: ymchwil cynaliadwyedd i Cymdeithas y Gyfraith](#)

cyfreithiol, y refeniw darparwr cyfartalog a enillwyd ohonynt, yn ogystal â chynnydd yng nghyfran yr achosion ffi sefydlog sy'n cyrraedd eu trothwy dianc. Felly, mae'n annhebygol bod lefelau ffioedd sefydlog yn adlewyrchu'r cymysgedd achosion cymorth cyfreithiol cyfartalog heddiw, ac yn ei dro, mae'n bosibl bod yr achos cymorth cyfreithiol cyfartalog yn ysgwyddo costau sy'n fwy na'r ffi sefydlog gyfatebol.

Mae darparwyr a bargyfreithwyr hefyd yn adrodd na ellir bilio cyfran sylweddol o'u gwaith ar achosion cymorth cyfreithiol. Mae Cyfrifiad Cymorth Cyfreithiol y Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol wedi canfod, am bob 90 munud o waith a fuddsoddir mewn achos sy'n defnyddio cyfraddau fesul awr, dim ond 60 munud sy'n cael eu had-dalu'n ariannol, gyda ffigur tebyg yn cael ei nodi ar gyfer achosion ffi sefydlog.⁵ Mae darparwyr a bargyfreithwyr yn adrodd nad yw'r gweithgareddau canlynol yn cael eu bilio'n ddigonol: elfennau paratoi achos ac ymchwil gyfreithiol, gwaith gweinyddol a darparu cymorth ychwanegol i gleientiaid. Mewn rhai achosion, efallai na ellir bilio am y gwaith hwn o gwbl, neu pan fydd ffioedd sefydlog ar waith, mae'n bosibl y bydd angen mwy o amser ar y gwaith na'r hyn y mae'r ffi sefydlog yn ei ystyried.

Hyfywedd ariannol darparwyr

O ganlyniad i'r cyfuniad o heriau gyda lefelau ffioedd a strwythurau ffioedd, mae llawer o ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil yn adrodd eu bod yn gwneud colled. Ar draws y system cymorth cyfreithiol sifil, dywedodd 33% o'r ymatebwyr i Arolwg Darparwyr yr Adolygiad eu bod yn gwneud colled, gyda 22% yn adennill costau a 45% yn gwneud elw. Wrth edrych ar ddata categorïau penodol, canfu ymchwil Cymdeithas y Cyfreithwyr i gynaliadwyedd cymorth cyfreithiol sifil fod y darparwr tai canolrifol yn gwneud colled o tua £30,000 fesul aelod o staff llawn amser sy'n ennill ffioedd (cyfwerth ag amser llawn). Ar gyfer darparwyr teulu, roedd y darparwr canolrifol yn adennill costau yn fras, ond roedd hyn yn cuddio colled ar waith cyfraith teulu preifat ac elw bach ar waith cyfraith teulu cyhoeddus.

Mae proffidioldeb hefyd yn amrywio rhwng y gwasanaethau cyfreithiol, gyda gwaith help cyfreithiol yn cael ei nodi'n aml fel opsiwn nad yw'n hyfyw yn ariannol i'w ddarparu i ddarparwyr. Mae gwaith help cyfreithiol yn defnyddio ffioedd sefydlog yn bennaf ond mae

⁵ [We are Legal Aid. Canfyddiadau o Gyfrifiad Cymorth Cyfreithiol 2021](#)

cynrychiolaeth sifil yn defnyddio cyfraddau fesul awr gan amlaf, gyda'r olaf yn cael ei ystyried fel adlewyrchiad tecach o'r costau a brofir yn nodweddiadol gan ddarparwyr.

Heriau allweddol: Recriwtio a chadw

Mae darparwyr yn adrodd eu bod yn profi heriau sylweddol wrth recriwtio a chadw cyfreithwyr. At ei gilydd, mae'r gweithlu cyfreithwyr yn lleihau mewn maint, o 20,680 ymarferydd yn 2014–15 i 18,140 yn 2021–22, gostyngiad o 12%.⁶

O ran recriwtio cyfreithwyr, o 2015–16 i 2021–22, gostyngodd y nifer o gyfreithwyr a ymunodd â'r maes cymorth cyfreithiol y flwyddyn o 3,370 i 2,460 (27%).⁷ Mae sawl ffactor yn sail i'r heriau hyn. Mae'n bosibl bod darpar ymarferwyr o'r farn bod y cymhellion i ymuno â'r proffesiwn yn wan oherwydd y gwahaniaethau mawr mewn cyflog rhwng gwaith cymorth cyfreithiol sifil a gwaith cyfreithiol preifat, a bod gwahaniaethau cyflog hyd yn oed rhwng cymorth cyfreithiol sifil a chyrrff cyhoeddus (er enghraifft Awdurdodau Lleol). Gallai llwybrau hyfforddiant i mewn i'r proffesiwn fod yn rhwystr arall, gyda llwybrau'n cynnig llai o strwythur yn nhermau dyddiau agored cadarn, interniaethau â thâl, ac ychydig iawn o gyfleoedd cyllido i gwmpasu costau cymhwyso cyfreithwyr, yn ogystal â'r diwylliant o addysg gyfreithiol (e.e. safbwyntiau'r athrawon) yn ôl pob tebyg yn darbwyllo darpar ymarferwyr i beidio ymuno â'r proffesiwn cymorth cyfreithiol. Mae gallu'r system i hyfforddi ymarferwyr iau hefyd yn llesteirio ymdrechion recriwtio, gyda diffyg goruchwylwyr yn y proffesiwn a goruchwylwyr yn methu hyfforddi am eu bod yn blaenoriaethu gwaith achos.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cadw cyfreithwyr yn fwy o her i ddarparwyr na denu cyfreithwyr newydd, ac mae'n ymddangos bod daliadaeth o 3–12 o flynyddoedd yn y proffesiwn cyffredinol yn bwynt gadael allweddol i gyfreithwyr. Un rheswm dros yr heriau hyn i gadw staff yw'r diffyg cyfle i ddatblygu gyrfa. Dywedir pan fydd rhywun yn symud ymlaen i rolau uwch, mae'r codiadau cyflog cyfatebol yn gyfyngedig. Mae'r diffyg dilyniant hefyd yn gysylltiedig â natur rolau cyfreithwyr; mewn rhai achosion, nid yw uwch ymarferwyr yn gallu cyflawni rolau rheolaethol yn gyfan gwbl gan fod heriau o ran

⁶ [Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Trosolwg o Ddarparwyr - Tabl 2.1.1.](#)

⁷ Ibid., Tabl 2.2.1

adnoddau a hyfywedd ariannol yn golygu bod angen i aelodau staff ymwneud yn uniongyrchol â gwaith achos.

Gall amodau gwaith heriol yn y proffesiwn arwain at lefelau uchel o straen a gorweithio. Mae ymarferwyr yn aml yn cefnogi defnyddwyr agored i niwed a allai fod yn profi sefyllfaoedd trawmatig, sy'n rhoi straen emosiynol uchel ar ymarferwyr. Mae hyn yn gyffredin iawn ym maes mewnfudo a lloches. Mae'r amodau gwaith heriol hyn yn cael eu gwaethygu gan yr angen a nodir yn aml i weithio ymhell y tu hwnt i oriau eu contract.

Ochr yn ochr â'r heriau o recriwtio a chadw cyfreithwyr, mae data yn awgrymu y gallai cymhellion i fargyfreithwyr ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol sifil nad yw'n waith teulu fod yn her i'r system. Mae nifer y bargyfreithwyr sy'n ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol sifil nad yw'n waith teulu wedi gostwng o 1,050 yn 2015–16 i 980 yn 2022–23 (7%),⁸ ac mae gor-gynrychiolaeth o fargyfreithwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu yn y grwpiau isaf o'r incwm a geir o waith cymorth cyfreithiol sifil a nifer yr achosion. O ganlyniad, yn Ymchwil Eiriolaeth yr Adolygiad, adroddodd cyfreithwyr cyfarwyddo brinder bargyfreithwyr sy'n gallu ymgymryd ag achosion cymorth cyfreithiol sifil.

Effeithiau: Cyflenwad a chynaliadwyedd

Mae'r rhwystrau a'r diffyg cymhellion a drafodwyd, gan gynnwys heriau a hyfywedd ariannol, recriwtio a chadw, a chostau gweinyddol uchel, yn effeithio ar effeithio ar benderfyniadau darparwyr ar eu cyfraniad a'u darpariaeth yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil.

Penderfyniadau darparwyr ar adael y farchnad, y swm o ddarpariaeth cymorth cyfreithiol sifil a gynigir ganddynt a maint darparwyr cymorth cyfreithiol sifil

O 2014–15 i 2021–22, mae darparwyr wedi bod yn gadael y farchnad cymorth cyfreithiol sifil ar sail net ym mhob blwyddyn ac eithrio 2019–20 (ymunodd mwy o ddarparwyr â'r farchnad ar sail net yn 2019–20 o ganlyniad i rownd caffael a gynhaliwyd yn 2018–19). Yn ystod y cyfnod hwn, gostyngodd nifer y darparwyr cymorth cyfreithiol sifil o 1,570 i 1,230 (22%).⁹ Yn y cyfnod hwn, mae darparwyr wedi cynyddu'r nifer cyfartalog o achosion

⁸ [Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Trosolwg o Ddarparwyr - Tabl 3.1.1](#)

⁹ Ibid., Tabl 1.1.3

cynrychiolaeth sifil a gyflenwir ganddynt (fesul darparwr), gan gynyddu o 42 yn 2014–15 i 47 yn 2021–22 (11%).¹⁰

Ni ellir llunio casgliadau ar sut mae cyfansoddiad y farchnad, yn nhermau maint darparwyr, wedi newid dros amser, oherwydd bod tueddiadau cymysg yn digwydd ar draws y system. Er hynny, mae rhywfaint o gydgrynhoi yn digwydd rhwng darparwyr, gyda 17.2% o'r swyddfeydd darparu a adawodd eu contractau cymorth cyfreithiol sifil rhwng Medi 2017 ac Awst 2023 yn gwneud hynny oherwydd cydgrynhoi.

At ei gilydd, gyda'r niferoedd o ddarparwyr a maint y gweithlu cyfreithwyr a bargyfreithwyr (y rhai sy'n ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol sifil) wedi gostwng, mae'n debygol y bydd cyflenwad yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil yn gostwng, oherwydd mae tuedd i'r ffactorau hyn fod yn brif benderfynyddion y cyflenwad cyffredinol yn y farchnad. Fodd bynnag, mae'n nodedig bod rhai grymoedd sy'n gwrthweithio yng nghyflenwad y farchnad, oherwydd y cynnydd mewn llwythi achosion cynrychiolaeth sifil a chydgrynhoi darparwyr.

Penderfyniadau darparwyr ar y math o ddarpariaeth cymorth cyfreithiol sifil a gynigir ganddynt

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwaith help cyfreithiol yn llai proffidiol na gwaith cynrychiolaeth sifil. Goblygiad hyn yw ei bod yn ymddangos bod darparwyr yn fwyfwy amharod i ymgymryd â gwaith help cyfreithiol. O 2014–15 i 2021–22, gwelwyd gostyngiad yn nifer y swyddfeydd darparwyr a oedd yn dechrau ar waith help cyfreithiol o 2,232 i 1,620 (27.4%), ac mae darparwyr wedi lleihau eu llwyth achosion help cyfreithiol.

Iechyd y farchnad a'r cysylltiad rhwng cyflenwad a hygyrchedd i ddefnyddwyr

Mae canfyddiadau ar leihad yn y cyflenwad yn peri pryderon o ran iechyd y farchnad cymorth cyfreithiol sifil. Gall ymadawiadau parhaus o'r farchnad awgrymu bod darparwyr yn asesu nad yw amodau'r farchnad yn ffafriol i ddarpariaeth gynaliadwy.

Mae'n bosibl bod gostyngiad yng nghyflenwad y farchnad yn arwain at broblemau hygyrchedd i ddefnyddwyr. Mae'r ffaith bod darparwyr yn gadael y farchnad, cyfreithwyr yn gadael y proffesiwn a llai o fargyfreithwyr sy'n ymgymryd â gwaith nad yw'n waith teulu, i

¹⁰ [Ystadegau cymorth cyfreithiol: Ionawr - Mawrth 2023 - GOV.UK](#) Tabl 6.3

gyd yn cael effaith negyddol ar allu'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil i gyflawni galw defnyddwyr. Mae amharodrwydd cynyddol darparwyr i ymgymryd â gwaith help cyfreithiol hefyd yn nodedig hefyd gan y gallai hyn fod yn lleihau argaeledd gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at ymyrraeth gynnar.

Cyflwyniad

Mae gallu unigolion i ddatrys eu materion cyfreithiol yn hollbwysig ar gyfer cymdeithas gyfiawn. Mae'r system cymorth cyfreithiol sifil yng Nghymru a Lloegr yn darparu mynediad at gyngor cyfreithiol sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus, cyfryngu teuluol a chynrychiolaeth sifil mewn llys neu driwlynys ar gyfer materion a nodir yn Neddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO).

Lansiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil (AoGCS) ar 5 Ionawr 2023.¹¹ Amcan yr Adolygiad yw nodi opsiynau ar sail tystiolaeth a fydd yn gwella **cynaliadwyedd y ddarpariaeth cymorth cyfreithiol sifil**, gan sicrhau ei bod yn cyflawni mynediad at gyfiawnder yn yr hirdymor. Wrth fynd i'r afael â chynaliadwyedd, mae'r Adolygiad hefyd yn ystyried **effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd** y system.

Mae'r AoGCS yn cynnwys pedair ffrwd waith ymchwil a dadansoddi, a ddyluniwyd i fabwysiadu dull cynhwysfawr o gasglu tystiolaeth.¹² I ategu'r gwaith casglu tystiolaeth hwn, cynhaliwyd Cais am Dystiolaeth hefyd. **Pwrpas yr adroddiad cryno hwn yw cyfosod a chyflwyno'r dystiolaeth o bob rhan o ffrydiau gwaith yr Adolygiad a'r Cais am Dystiolaeth mewn un naratif. Yn eu tro, mae canfyddiadau'r AoGCS yn helpu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i flaenoriaethu ble i ganolbwyntio datblygiad polisi.**

Methodoleg

Canfyddiadau'r AoGCS

Mae ehangder ffrydiau gwaith dadansoddol yr Adolygiad yn golygu bod ystod o ganfyddiadau o'r system cymorth cyfreithiol sifil gyfan, ac mae rhai o'r canfyddiadau yn cael eu cadarnhau ar draws ffrydiau gwaith lluosog ac eraill yn dod o un yn bennaf. Mewn

¹¹ [Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil - GOV.UK](#)

¹² [Cylch Gorchwyl Trosfwaol yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil](#)

mannau, mae canfyddiadau'r AoGCS yn cyd-fynd â'r rhai o ddarnau ehangach o waith y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'u gwneud, ac mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y cysylltiadau hyn, lle bo'n ddefnyddiol. Ar y cychwyn, cynlluniwyd yr AoGCS i gymryd agwedd gyfannol at gasglu tystiolaeth, gan ddwyn ynghyd ffynonellau tystiolaeth lluosog, i benderfynu sut i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cymorth cyfreithiol sifil, gan sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. O ganlyniad, mae'n hollbwysig bod tystiolaeth yn cael ei hystyried fel corff cyfunol. Mae'r adroddiad hwn felly'n chwarae rhan bwysig wrth ddwyn ynghyd dystiolaeth yr Adolygiad i nodi materion allweddol o fewn y system.

Er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau, mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n dair rhan: mae Rhan 1 yn canolbwyntio ar hygyrchedd cymorth cyfreithiol sifil i ddefnyddwyr; mae Rhan 2 yn archwilio effeithiolrwydd systemau cymorth cyfreithiol sifil i ddefnyddwyr a darparwyr; ac mae Rhan 3 yn archwilio gweithrediad y farchnad cymorth cyfreithiol sifil. Yn y tair rhan hyn, mae'r adroddiad yn grwpio'r canfyddiadau yn nifer o feysydd neu bynciau thematig. Dewiswyd y pynciau hyn gyda'r bwriad o adolygu'r system yn gyfannol, nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a beth sy'n llai llwyddiannus. Bydd hyn yn helpu i amlygu materion a meysydd penodol y mae'r dystiolaeth yn awgrymu eu bod yn haeddu newidiadau polisi.

Y pynciau yw:

- Rhan 1: Hygyrchedd gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil
 - Proffil Defnyddwyr a'r rhwystrau a wynebir gan grwpiau agored i niwed
 - Diffyg ymwybyddiaeth a galluogrwydd
 - Lefelau uchel o alw
 - Materion cyfreithiol sy'n gwaethygu a chlystyru ac ymyrraeth gynnar
 - Y darlun cyffredinol o hygyrchedd cymorth cyfreithiol sifil
- Rhan 2: Effeithiolrwydd systemau cymorth cyfreithiol sifil
 - Natur gymhleth a beichus systemau
 - Y defnydd o dechnoleg
 - Y darlun cyffredinol o effeithiolrwydd systemau cymorth cyfreithiol sifil
- Rhan 3: Gweithrediad y farchnad cymorth cyfreithiol sifil
 - Cyd-destunoli darparwyr cymorth cyfreithiol sifil
 - Heriau allweddol: Ffioedd a hyfywedd ariannol

- Heriau allweddol: Recriwtio a chadw
- Effeithiau: Cyflenwad a Chynaliadwyedd

Er bod yr Adolygiad wedi ceisio casglu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr, gan edrych ar y system gyfan a thynnu ar ffynonellau niferus, mae'n wir bod bylchau mewn mannau yn y dystiolaeth. Y meysydd hyn yw'r rhai lle gallai'r dystiolaeth a gasglwyd fod yn annigonol neu bod cyfyngiadau arni. Pan fydd bylchau o'r fath yn bodoli yn y dystiolaeth, mae'r adroddiad hwn yn eu hamlygu. Mewn ymateb i hyn, casglwyd dystiolaeth ychwanegol yn ystod ystod y broses AoGCS, a phan fo'n briodol, mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu ar dystiolaeth ehangach sy'n berthnasol o'r tu allan i'r AoGCS. Mae'n bosibl y bydd angen cynnal gwaith ymchwil pellach i ddeall y meysydd hyn yn llwyr.

Mae'r Adolygiad wedi casglu dystiolaeth o ystod eang o ffynonellau a rhanddeiliaid. O ganlyniad, gallai rhywfaint o'r dystiolaeth a'r safbwyntiau a rennir gan gyfranogwyr fod yn wrthgyferbyniol neu gallai arwain at gasgliadau gwahanol ar yr un materion. O ystyried amrywiaeth y rhanddeiliaid yn y system cymorth cyfreithiol, mae'n ddealladwy bod gwahanol safbwyntiau, anghenion a blaenoriaethau wedi dod i'r amlwg. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r dystiolaeth a safbwyntiau gwahanol a gasglwyd yn yr AoGCS, er budd cyflwyno crynodeb cynhwysfawr, ond nid yw hyn yn golygu bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cefnogi'r holl safbwyntiau a rennir yn llwyr nac yn cytuno â hwy.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau pennawd o'r AoGCS cyfan mewn un lle, yn eu hesbonio a'u gosod mewn grwpiau thematig. Nod hyn yw rhoi trosolwg cyflawn o ganfyddiadau'r Adolygiad. Ar gyfer canfyddiadau mwy manwl, argymhellir eich bod yn darllen yr allbynnau ffrydiau gwaith unigol. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys lefel uwch o fanylder ac yn esbonio'r fethodoleg sy'n sail i'r ymchwil.

Amserlenni'r Data

Mae rhywfaint o anghysondeb yn amserlenni'r data a ddefnyddir ar draws yr AoGCS, yn bennaf oherwydd argaeledd data ar wahanol gamau o'r gwaith dadansoddi. Oherwydd bod ffrydiau gwaith wedi'u cwblhau ar wahanol amseroedd a'u bod wedi dibynnu ar ffynonellau data amrywiol, mae hynny'n naturiol wedi golygu bod data o wahanol gyfnodau wedi'u defnyddio. Er enghraifft, roedd llawer o Ymchwil i'r Farchnad PA Consulting yn tynnu ar ddata o *Ystadegau Cymorth Cyfreithiol: Ionawr - Mawrth 2023* a data ychwanegol

gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC). Yn y cyfamser, cafodd y ffrwd waith Cyhoeddiadau Data ei hysbysu gan ymarfer rhannu data gyda Chymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar. I gyfreithwyr, mae'r data hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 2014/15 i 2021/22, ac i fargyfreithwyr mae'n rhychwantu 2015/16 i 2022/23. Er y gall defnyddio data o wahanol amserlenni ei gwneud yn anos gwneud cymariaethau, mae'n galluogi i dueddiadau gael eu nodi. Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod yn glir ffynonellau a chyfnodau'r data a ddefnyddiwyd drwy'r adolygiad.

Cefndir

Cyd-destun

Mae gan gymorth cyfreithiol rôl hollbwysig yn sicrhau mynediad at gyfiawnder. Mae wedi profi llawer o newidiadau ers cyflwyno Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO).¹³ Felly, mae'r adran hon yn cyflwyno'r cyd-destun ar gyfer cynnal yr Adolygiad hwn.

Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd statudol i sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gael yn unol â Rhan 1 LASPO, ac wrth wneud darpariaethau i wneud hynny, sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r egwyddor na ddylid gwrthod mynediad at gyfiawnder. Er mwyn bod â hawl i gymorth cyfreithiol, yn gyffredinol rhaid i ymgeiswyr: fod â mater cyfreithiol sydd o fewn y cwmpas; ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, sef unrhyw brofion modd a theilyngdod perthnasol. O dan Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999, roedd mater cyfreithiol o fewn cwmpas ac yn gymwys ar gyfer cyllid cymorth cyfreithiol, oni bai ei fod wedi'i eithrio'n benodol gan y Ddeddf. Newidiodd LASPO y dull hwn i restru materion o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol yn unig yn Atodlen 1 Rhan 1 LASPO. Mae hefyd yn darparu llwybr, trwy gynllun Cyllid Achosion Eithriadol, i bobl wneud cais am gymorth cyfreithiol mewn achosion nad ydynt yn dod o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol sifil, ond lle byddai methu â gwneud hynny yn mynd yn groes i, neu'n creu'r risg o fynd yn groes i hawliau'r unigolyn o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), neu gyfraith arall a gymathwyd, neu lle mae budd cyhoeddus ehangach sylweddol mewn ariannu cynrychiolaeth gyfreithiol.'

¹³ [Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012](#)

Mae LASPO wedi diddymu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'i ddisodli gyda'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC)¹⁴. Mae'r ACC yn asiant gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda chylch gwaith i gomisiynu a gweinyddu cymorth cyfreithiol yn unol â LASPO a'r polisi a'r strategaeth a gyflwynir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar y cyfan, mae'r ACC yn darparu contractau gyda darparwyr trydydd parti, fel cwmnïau cyfreithwyr a chanolfannau'r gyfraith, ac mae'n gweinyddu cymorth cyfreithiol drwy ystyried ceisiadau ardystiedig sifil a thalu darparwyr. Mae Contract Sifil Safonol 2024 yn llywodraethu'r system o ddarparu cyngor cyfreithiol¹⁵. Sefydlodd LASPO hefyd benodiad Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (DLAC) swyddog cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau cyllid ar achosion unigol.

Cynhaliwyd Adolygiad Ôl-weithredol¹⁶ i asesu'r graddau y cyflawnodd LASPO ei amcanion o sicrhau arbedion sylweddol i gost y cynllun drwy ganolbwyntio ar gymorth cyfreithiol ar yr achosion â'r flaenoriaeth uchaf (gan ystyried pa mor effeithiol yr oedd cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei gyflawni yn y broses). Daeth i'r casgliad bod LASPO yn cyflawni rhai o'i amcanion, ond nodwyd nifer o heriau sy'n wynebu'r system. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd a'r syniadau a awgrymwyd, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol¹⁷ (LSAP). Roedd y cynllun hwn yn nodi ymateb i heriau yn y system, gan geisio defnyddio dull cyfannol a oedd yn ystyried yr holl gymorth a oedd ar gael i bobl, o wybodaeth, canllawiau a chyfeirio ar un pen o'r sbectwm i gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol ar y pen arall.

Cefndir yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil (AoGCS)

Yn y cyfnod yn dilyn cyflwyno LASPO, ac yn benodol yn dilyn yr Adolygiad Ôl-weithredol, gwelwyd arwyddion nad oedd y system cymorth cyfreithiol yn gweithredu i'w lefel uchaf, gan gynnwys darparwyr yn gadael y farchnad, gwybodaeth a gasglwyd gan yr ACC ac adroddiadau wedi'u harwain gan randdeiliaid o ddefnyddwyr yn profi anawsterau wrth sicrhau gwasanaethau cymorth cyfreithiol. Mynegodd rhanddeiliaid a'r rhai sy'n gweithredu yn y sector bryderon ynglŷn â chynaliadwyedd cymorth cyfreithiol sifil yn yr hirdymor.

¹⁴ [Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol – GOV.UK](#)

¹⁵ [Contract sifil safonol 2024 – GOV.UK](#)

¹⁶ [Adolygiad Ôl-weithredol o Ran 1 LASPO - GOV.UK](#)

¹⁷ [Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol - GOV.UK](#)

Lansiwyd yr Adolygiad i ddeall sut mae'r system yn gweithredu, ac ymchwilio i'r pryderon hyn, gyda'r bwriad o sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Mae'n cynnwys dau gam, gyda'r cyntaf yn gam casglu tystiolaeth i gefnogi datblygiad polisi yn y dyfodol, a'r ail yn gam datblygu polisi. Mae'r Adolygiad wedi ceisio ystyried y system cymorth cyfreithiol sifil yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys: sut mae gwasanaethau'n cael eu caffael, pa mor dda y mae'r system bresennol yn gweithio i ddefnyddwyr a darparwyr, a sut mae cymorth cyfreithiol sifil yn effeithio ar y system gyfiawnder ehangach. Mae'r Adolygiad wedi archwilio'r system cymorth cyfreithiol sifil fel y mae'n gweithredu ar hyn o bryd ac wedi casglu tystiolaeth i ddeall unrhyw broblemau a wynebir gan y system.

Mae'r AoGCS yn adeiladu ar y gwaith a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad Ôl-weithredol a'r LASPO, gyda'r bwriad o ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth a gwella'r system ymhellach.

Fel rhan o gam cyntaf yr Adolygiad, aed i'r afael â phedair ffrwd waith ar sail dadansoddiad, sef:

- Y ffrwd waith **Dadansoddiad Economaidd** i ymchwilio i weithrediad presennol y farchnad cymorth cyfreithiol sifil a beth sy'n ysgogi'r problemau ynddi. Mae'r allbwn cyhoeddedig yn cynnwys Arolwg Darparwyr¹⁸ ac Adroddiad terfynol ar Ymchwil i'r Farchnad.¹⁹ Cynhaliwyd yr ymchwil hwn gan contractwr annibynnol, PA Consulting.
- Cynhaliodd y ffrwd waith **Dadansoddiad Cymharol** ddadansoddiad cymharol o chwe system cymorth cyfreithiol sifil arall: Awstralia; Canada; y Ffindir; yr Iseldiroedd; UDA ac o fewn y DU, yr Alban. Y nod oedd nodi dulliau gweithredu addawol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyflenwi cymorth cyfreithiol sifil a mynediad at gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddwyd y canfyddiadau mewn adroddiad terfynol.²⁰ Cynhaliwyd yr ymchwil hwn gan ymgynghoriaeth fewnol y Llywodraeth, y Tîm Arloesedd Agored.²¹

¹⁸ [Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Arolwg Darparwyr - GOV.UK](#)

¹⁹ [Adolygiad o Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad Cymorth Cyfreithiol Sifil](#)

²⁰ [Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Dadansoddiad cymharol o'r systemau cymorth cyfreithiol - GOV.UK](#)

²¹ [Amdanom ni – Tîm Arloesedd Agored - GOV.UK](#)

- Roedd y ffrwd waith **Cyhoeddiadau Data** yn ceisio crynhoi gwybodaeth ddisgrifiadol allweddol am y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, gyda ffocws ar newidiadau dros amser. Er mwyn cyflawni hyn, cynhyrchwyd cyfres o ddogfennau. Mae'r allbynnau cyhoeddedig yn cynnwys: Adroddiad Trosolwg; Adroddiad Ymchwil Eiriolaeth ar brofiadau eiriolwyr sy'n gweithio ym maes cymorth cyfreithiol sifil; a chyfres o archwiliadau dwfn.
- Cynhaliodd y ffrwd waith **Ymchwil Cymdeithasol Taith Defnyddwyr** (neu Ymchwil Defnyddwyr fel y'i gelwir yn aml yn yr adroddiad hwn) ymchwil defnyddwyr gyda phobl sydd wedi derbyn cymorth cyfreithiol sifil yn y gorffennol, y rhai sy'n eu cefnogi, a darparwyr sy'n cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil. Roedd yr ymchwil yn ceisio archwilio profiadau defnyddwyr gyda'r broses cymorth cyfreithiol sifil a nodi problemau o safbwynt defnyddwyr. Mae'r allbynnau cyhoeddedig yn cynnwys dau ddarn o ymchwil ansoddol ar safbwyntiau defnyddwyr am eu profiad o gymorth cyfreithiol sifil, gydag un ohonynt yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr a chyfryngwyr dibynadwy a'r llall ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol. Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth bresennol ar brofiad defnyddwyr hefyd.

Yn ogystal, fel rhan o'r cam casglu tystiolaeth hwn, cynhaliodd yr AoGCS gais am dystiolaeth hefyd, a gyhoeddwyd ar 10 Ionawr 2024. Roedd yn gwahodd sylwadau gan bartïon â diddordeb er mwyn nodi opsiynau a fyddai'n gwella cynaliadwyedd y system cymorth cyfreithiol sifil, a sicrhau ei bod yn gallu cyflawni cyfiawnder yn yr hirdymor. Derbyniodd y cais am dystiolaeth 203 ymateb penodol. Darperir manylion pellach o'r ymatebion yn adroddiad Cryno'r Cais am Dystiolaeth a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ar gov.uk.

Drwy'r Adolygiad cyfan, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd bord gron gyda darparwyr a bargyfreithwyr i ddysgu am brofiadau'r rhai sy'n gweithio yn y sector. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau'r sesiynau hyn a'r Cais am Dystiolaeth. Mae cam nesaf y gwaith yn cynnwys parhau i ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd i lywio datblygiad polisi sy'n helpu i gyflawni'r amcan trosfwaol o wella cynaliadwyedd (a thrwy wneud hynny, gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd) y system cymorth cyfreithiol sifil.

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

Fel y soniwyd, roedd yr AoGCS yn ceisio defnyddio dull eang a chyfannol i werthuso'r system cymorth cyfreithiol sifil. Mae hyn yn golygu bod yr Adolygiad wedi ystyried tystiolaeth ar gymorth cyfreithiol sifil yn ei gyfanrwydd yng Nghymru a Lloegr, ar draws pob un o'r 11 categori o'r gyfraith, ac o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr, sefydliadau gwirfoddol a'r ACC. Mae AoGCS yn ystyried meysydd gwaith eraill y Weinyddiaeth Gyfiawnder, megis Cymorth Cyfreithiol, i gyd-fynd â nodau adrannol a hyrwyddo dull cydlynol. Gwerthusodd yr AoGCS ystod eang o ffynonellau i ddadansoddi'r system yn ei chyfanrwydd, gan ddefnyddio data presennol, a chasglu tystiolaeth newydd lle bo angen.

Nid oedd yr Adolygiad yn ystyried cynaliadwyedd y system cymorth cyfreithiol troseddol. Roedd gwaith ar gymhwysedd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil y tu allan i'r cwmpas i gael ei ystyried, fodd bynnag, rhoddwyd ystyriaeth i effaith unrhyw newidiadau cymhwysedd ar y system cymorth cyfreithiol bresennol.

Rhan 1: Hygyrchedd y gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil

Mae dinasyddion unigol yn ganolog i'r system cymorth cyfreithiol sifil. Hwyr sydd, wrth wynebu problemau cyfreithiol, yn troi at gymorth cyfreithiol sifil i'w helpu i gael mynediad at gyfiawnder a chyflawni datrysiad. Yn unol â hyn, mae'r AoGCS wedi ceisio datblygu dealltwriaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder o brofiad unigolion (neu "ddefnyddwyr" fel y'u gelwir yn rheolaidd yn yr Adolygiad) wrth iddynt gael mynediad at y system cymorth cyfreithiol sifil a rhyngweithio â hi. Drwy sicrhau dealltwriaeth well o ddefnyddwyr cymorth cyfreithiol sifil a'r problemau a wynebwr ganddynt, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn sefyllfa well i wneud ymyriadau polisi i wella'r system iddynt.

Mae'r Adolygiad wedi clywed yn uniongyrchol beth mae'r gwasanaeth yn ei olygu i rai defnyddwyr cymorth cyfreithiol sifil a'r effeithiau cadarnhaol a gafodd:

"Mae'n [cymorth cyfreithiol sifil] wasanaeth gwych oherwydd os na allwch gynrychioli eich hun neu os ydych yn gwybod eich bod yn profi anhawster ariannol a bod angen cymorth arnoch, gallant wir eich helpu..." **Defnyddiwr gwasanaeth**

Mae cael system y gall defnyddwyr ei defnyddio a'i llywio'n hawdd yn hanfodol i'w heffeithiolrwydd a'r nod ehangach o sicrhau mynediad at gyfiawnder yn y tymor hir. Felly, mae Rhan 1 yr adroddiad hwn yn dechrau drwy archwilio hygyrchedd gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil.

1.1 Proffil defnyddwyr a'r rhwystrau a wynebwr gan grwpiau agored i niwed

Ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr, mae 18–22% o'r boblogaeth oedolion yn gymwys yn ariannol i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil.²² Mae'r boblogaeth hon yn cynnwys sbectwm

²² Mae'r ganran yn cynrychioli'r rhai sy'n gymwys yn ariannol o'r boblogaeth oedolion gyfan. Cyfrifir yr ystod o'r Adolygiad Prawf Modd [Asesiad effaith: Sifil \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk) sy'n defnyddio data am y boblogaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) Arolwg Adnoddau Teulu: blwyddyn ariannol 2019 i

eang o ddefnyddwyr, gyda data yn dangos bod demograffeg y defnyddwyr wedi bod yn gymharol sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf.²³ Mae defnyddwyr cynrychiolaeth sifil yn amlach yn fenywod, gwyn, heb anabledd, ac yn fwy tebygol o fod o dan 45 oed nac yn hŷn na hynny. Mae defnyddwyr help cyfreithiol yn fwy tebygol o fod yn wrywod, heb anabledd ac unwaith eto mae'n fwy tebygol eu bod o dan 45 oed (ond gydag oedran uwch na'r cyfartaledd o gymharu â defnyddwyr cynrychiolaeth sifil).

Cydnabuwyd yn eang y bydd defnyddwyr cymorth cyfreithiol sifil yn aml yn unigolion agored i niwed²⁴. Mae'n bosibl eu bod yn agored i niwed oherwydd eu hamgylchiadau personol neu rwystrau cymdeithasol (er enghraifft cefndiroedd economaidd gymdeithasol is ac amodau cymdeithasol gwael a all effeithio ar gyfleoedd, llesiant a'r gallu i ymdopi â straenachosion allanol). Gellir profi bod yn agored i niwed hefyd fel cyflwr byrhoedlog, neu fwy hirdymor. Mae ffrydiau gwaith yr AoGCS yn ymchwilio i'r heriau a wynebir gan y boblogaeth agored i niwed wrth geisio cael mynediad at gymorth cyfreithiol.

Mae'r Adolygiad yn pwysleisio'r rhwystrau treiddiol a wynebir gan ddefnyddwyr agored i niwed, gan gynnwys anawsterau gyda llythrennedd, dealltwriaeth a mynediad digidol, sy'n gallu cael eu gwaethygu gan rwystrau iaith a'r anghenion amrywiol sy'n deillio o anableddau, niwroamrywiaeth a bywydau cymhleth. Gall unigolion agored i niwed fod yn wynebu amgylchiadau trawmatig a heriol, a phroblemau iechyd meddwl yn ogystal â'u problemau cyfreithiol, neu'n gysylltiedig â hwy. Mae'r Adolygiad yn awgrymu y gall oedi i achosion cyfreithiol gael effaith anghymesur ar boblogaethau agored i niwed.

Mae tystiolaeth a gasglwyd gan yr AoGCS yn ei gwneud yn glir bod mynd i'r afael â'r gwahaniaethau a'r rhwystrau hyn yn hanfodol i sicrhau mynediad teg at gymorth cyfreithiol a chynnal cyfiawnder i bob aelod o gymdeithas.

2020 - GOV.UK (www.gov.uk). Mae'r ystod yn cynnwys y rhai sy'n gymwys ar hyn o bryd i gael cymorth cyfreithiol sifil anghyfrannol yng Nghymru a Lloegr. Mae pen isaf yr ystod yn rhagdybio bod yr holl unedau buddion ar fuddion etifeddol (llinell sylfaen 1 yn yr Asesiad Effaith) ac mae'r uchaf yn tybio eu bod i gyd wedi trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol (llinell sylfaen 2).

²³ [Ystadegau chwarterol cymorth cyfreithiol: Ebrill - Mehefin 2024 - GOV.UK](#)

²⁴ [Comisiwn San Steffan ar Gymorth Cyfreithiol: Ymchwiliad i Gynaliadwyedd ac Adferiad y Sector Cymorth Cyfreithiol, Hydref 2021; Y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder \(2021\) Dyfodol Cymorth Cyfreithiol; Newman, D., Mant, J. a Gordon, F. \(2021\) Vulnerability, Legal Need and Technology in England and Wales. International Journal of Discrimination and the Law](#)

Rhwystrau

Mae canfyddiadau o'r Adolygiad cyfan yn pwysleisio bod defnyddwyr cymorth cyfreithiol sifil yn aml yn agored i niwed. Bydd y rhwystrau a wynebwr gan unigolion yn amrywio'n naturiol, ond nodwyd rhai rhwystrau cyffredin.

Llythrennedd a dealltwriaeth

Pwysleisiodd y ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr y graddau y mae defnyddwyr agored i niwed yn aml yn cael anhawster gyda llythrennedd a dealltwriaeth. Gall defnyddwyr gael anhawster i ddarllen a deall gwybodaeth yn gywir am gymorth cyfreithiol a dogfennau sydd ar gael ar-lein neu a rennir gyda hwy. Mae hyd testun, a lefel y manylion sydd wedi'i chynnwys ynddo'n aml, yn profi i fod yn heriol i lawer o bobl a gall gyflwyno rhwystr yn gynnar yn y broses o gael mynediad at gymorth cyfreithiol. Gall cwblhau'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â chymorth cyfreithiol fod yn heriol i ddefnyddwyr â sgiliau llythrennedd isel. Cyfeiriwyd at y rhwystr hwn yn aml yn ystod ymgysylltiad â darparwyr, ac yn yr un modd, rhannodd yr ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth y gallai fod gan ddefnyddwyr llythrennedd a dealltwriaeth wael yn aml, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar eu profiad o gymorth cyfreithiol.

Roedd cyfranogwyr yn yr Ymchwil Defnyddwyr o'r farn bod y rhwystr hwn yn cynyddu'r tebygolrwydd o gamddealltwriaeth ymhlith y defnyddwyr sy'n cael anhawster i ddeall eu sefyllfa gyfreithiol a'u hopsiynau. O ganlyniad, mae angen i ddarparwyr a chyfryngwyr dibynadwy²⁵ ddarparu cymorth ac arweiniad ychwanegol yn aml i sicrhau eu bod yn deall y broses cymorth cyfreithiol a'u bod yn ymgysylltu â hi.

Mynediad a llythrennedd digidol

Mae dystiolaeth o'r AoGCS yn nodi'n glir bod defnyddwyr agored i niwed yn cael anhawster gyda rhwystrau sy'n gysylltiedig â lefelau isel o fynediad a llythrennedd digidol. Efallai na fydd gan unigolion fynediad at ddyfeisiau digidol, cyfeiriadau e-bost a chysylltedd rhyngwyr. Hyd yn oed pan nad yw mynediad yn broblem, efallai na fydd gan unigolion y galluogrwydd digidol i gwblhau tasgau digidol sylfaenol weithiau. Mae peidio â chael

²⁵ Mae cyfryngwr dibynadwy yn aml yn weithiwr rheng flaen o'r gwasanaethau cymunedol neu gyhoeddus sy'n helpu pobl i nodi anghenion cyfreithiol a llywio materion cyfreithiol, a'u cysylltu â ffynonellau cymorth a chefnogaeth gyfreithiol.

mynediad at dechnoleg, neu lythrennedd digidol gwael, yn ei gwneud yn gynhenid heriol i rai defnyddwyr ymgysylltu â'r broses cymorth cyfreithiol. Mae cymaint o wybodaeth am gymorth cyfreithiol ar gael ar-lein ac mae cael y dogfennau/tystiolaeth ofynnol ar gyfer gwiriadau cymhwysedd (e.e. cyfriflenni banc) yn aml yn golygu bod angen mynediad digidol a sgiliau sylfaenol, sy'n creu problem i lawer.

Gall mynediad at ddyfeisiau digidol a'r rhyngwrdd a diffyg profiad digidol ei gwneud yn anodd iddynt gadw mewn cysylltiad â darparwyr hefyd. Gall mynediad cyfyngedig at dechnoleg ymestyn i lefel fwy sylfaenol, gydag adroddiadau bod rhai defnyddwyr yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at negeseuon llais a dychwelyd galwadau (gan ddarparwyr a llinell gymorth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (CLA)).

Mae hyn i gyd yn rhwystr i ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr a gallai arwain at oedi gydag achosion. Gall yr oedi hwn fod oherwydd bod defnyddiwr yn cymryd mwy o amser i gael mynediad at wybodaeth sy'n eu helpu i gael mynediad at gymorth cyfreithiol, neu oherwydd ei bod yn cymryd mwy o amser iddynt brofi cymhwysedd.

Rhwysterau ieithyddol

Cyfeiriodd cyfranogwyr yn ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr yn benodol at sut mae rhwystrau ieithyddol yn ffactor i lawer o ddefnyddwyr agored i niwed. I ddefnyddwyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf, neu efallai nad ydynt yn ei siarad o gwbl, mae hyn yn ychwanegu haen o gymhlethdod at ymgysylltu â'r broses cymorth cyfreithiol. Rhannodd rhai cyfryngwyr dibynadwy yr enghraifft o ddiodefwyr masnachu mewn pobl fel grŵp a allai fod dan anfantais anghymesur oherwydd rhwystrau ieithyddol.

Mae cymaint o daith cymorth cyfreithiol defnyddiwr a'r prosesau y mae'n rhaid iddynt fynd drwyddynt yn dibynnu ar gyfathrebu, amgyffred gwybodaeth gyfreithiol gymhleth yn aml, a chwblhau gwaith papur, yn Saesneg. Os yw dealltwriaeth defnyddiwr yn gyfyngedig oherwydd rhwystrau ieithyddol, gall hyn achosi problem o ran defnyddiwr nad yw'n deall ei sefyllfa gyfreithiol yn llawn a gall achosi oedi posibl oherwydd efallai y bydd angen i

ddarparwyr a chyfryngwyr dibynadwy ddarparu cymorth ychwanegol, megis trefnu gwasanaethau cyfieithu.²⁶

Rhwystrau ychwanegol

Mae nifer o ffactorau eraill a all weithredu fel rhwystrau cyffredin. Yn ôl data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, nid oedd 52% o ddefnyddwyr yn cael eu hystyried yn anabl, roedd 20% yn anabl ac roedd 29% yn anhysbys neu'n cael eu hatal.²⁷ Mae'n anodd llunio casgliadau cadarn ar gyfer y rhan fwyaf o gategoriâu cymorth cyfreithiol ar y nodwedd hon oherwydd y gyfran gymharol uchel o wybodaeth anhysbys. Mae'r gyfran o ddefnyddwyr sy'n cyflwyno gydag anabledd hefyd yn agos at y lefel yn y boblogaeth gyffredinol, lle mae gan 17.8% o'r boblogaeth anabledd yn ôl cyfrifiad 2021.²⁸ Adroddodd cyfryngwyr dibynadwy ei bod yn gyffredin i ddefnyddwyr brofi anghenion addysgol arbennig ac anableddau ac anableddau corfforol, gyda diagnosis a heb ddiagnosis, a allai rwystro eu gallu i wneud penderfyniadau a deall y broses ac ymgysylltu â hi. Efallai y bydd angen addasiadau hefyd ar y defnyddwyr hynny sy'n nodi eu bod yn niwrowahanol a/neu'n anabl.

Gellir ychwanegu haen arall o gymhlethdod i ddefnyddwyr a allai gyflwyno arwyddion o drawma o'r profiad sy'n digwydd yn eu bywyd ac felly, gellir ystyried eu bod yn agored i niwed. Pan drafododd y darparwyr agwedd agored i niwed eu cleientiaid, fe wnaethant bwysleisio pwysigrwydd parhad a datblygu perthnasoedd ymddiriedus gyda'r gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n eu helpu drwy amgylchiadau sy'n aml yn rhai trawmatig neu anodd.

²⁶ Gellir hawlio costau cyfieithu fel treuliau o dan gymorth cyfreithiol ar ôl agor achos

²⁷ [Dangosfwrdd Ystadegau Amrywiaeth Cleientiaid Cymorth Cyfreithiol](#)

²⁸ [Anabledd, Cymru a Lloegr – Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

“...Mae’n dibynnu ar ba mor agored i niwed yw’r cleient a’u gallu i ddeall oherwydd ein bod yn gweithio gyda chleientiaid sy’n agored iawn i niwed... Byddwn yn dweud bod gan tua 90% ohonynt faterion iechyd meddwl neu nid ydynt wedi’u haddysgu i ddeall sut mae pethau’n gweithio ac yn methu â rhyngweithio. Mae’r rhan fwyaf o gleientiaid, pan fydd ganddynt ddarparwr, yn y bôn yn trosglwyddo popeth sy’n ymwneud â’u mater cyfreithiol i’r darparwr hwnnw. Felly, ni fyddant yn mynd ar drywydd hyn oni bai bod gan eu ffrind neu rywun benderfyniad...Felly nid ydynt eisiau hynny [neu] nid ydynt yn gwybod beth sy’n digwydd.” **Cyfryngwr dibynadwy**

Weithiau, natur bywydau’r defnyddwyr sy’n gweithredu fel rhwystr i’w profiad cymorth cyfreithiol. Gallai unigolion fod yn wynebu sefyllfa ansicr o ran tai, amgylchiadau ariannol ansefydlog, chwalfa deuluol, mynediad gwael at drafnidiaeth neu nifer o ffactorau eraill a all gymhlethu eu bywydau ac ychwanegu at eu hanghenion fel defnyddiwr gwasanaeth. I unigolion â bywydau prysur ac ymrwymadau, gall fod yn her iddynt ddod o hyd i’r amser i chwilio am wybodaeth a chymorth.

Mae galluogrwydd cyfreithiol gwael yn gallu bod yn rhwystr i ddefnyddwyr, oherwydd yn aml nid yw unigolion yn sylweddoli bod eu problem yn gyfreithiol ei natur, a all gyfyngu eu hopsiynau neu hyd yn oed eu harwain i lawr y llwybr anghywir. Efallai y bydd defnyddwyr hefyd yn wynebu effaith gronnu materion cyfreithiol sy’n gwaethygu. Gall hyn wneud pethau’n llethol a gall fod yn rhwystr i gael mynediad at gyngor a chymorth. Archwilir y rhwystrau hyn ymhellach yn Adran 1.2.

Effaith bod yn agored i niwed a’r rhwystrau cysylltiedig

Gall y rhwystrau a wynebwr gan ddefnyddwyr agored i niwed effeithio arnynt fel unigolion ac ar eu hachosion cyfreithiol. Am eu bod yn agored i niwed, mae’n bosibl y bydd materion eraill yn cael effaith anghymesur arnynt. Mae’r isadran hon yn nodi’r effaith y gall bod yn agored i niwed ei chael a’r rhwystrau cysylltiedig.

Achosion oedi a’u heffaith ar boblogaethau agored i niwed

Mae oedi yn digwydd am amrywiaeth o resymau ac roedd yn aml yn gysylltiedig â rhwystredigaeth i ddefnyddwyr, gan gynnwys cyfrannu at resymau pam na all defnyddwyr gwblhau eu teithiau cymorth cyfreithiol sifil. Gall oedi fod yn gysylltiedig â’r broses cymorth

cyfreithiol ei hun, megis oedi o ganlyniad i gasglu tystiolaeth o gymhwysedd, neu gael cyllid yn ei le, ac oherwydd diffyg capasiti darparwr (sy'n golygu treulio amser yn chwilio am ddarparwr neu gynnydd achosion arafach o ganlyniad i lwythi gwaith uchel y darparwyr.)

Gallai defnyddwyr mewn sefyllfaoedd agored i niwed fod yn fwy agored i oedi oherwydd trydydd parti, am eu bod yn aml yn cysylltu â chyrrff swyddogol fel yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Awdurdodau Lleol neu weithwyr iechyd proffesiynol. Gall cysylltiadau â'r sefydliadau hyn arwain at oedi pellach yn natblygiad achos sydd, yn ei dro, yn creu rhwystredigaeth i ddefnyddwyr. Mae rhai darparwyr yn adrodd anawsterau wrth geisio sicrhau prawf cymhwysedd pan fydd eu cleientiaid wedi cael anhawster i ddeall y broses cymorth cyfreithiol, sy'n aml yn achosi oedi naill ai oherwydd bod eu cyfranogwyr wedi gorfod cysylltu â thrydydd parti i ddarparu gwaith papur ariannol a gwaith papur arall i brofi cymhwysedd, neu oherwydd eu bod wedi gofyn i'r ACC hepgor rhai o'r gofynion prawf cymhwyster. Eglurodd darparwyr, os gallent siarad â'r ACC am y sefyllfa, roedd gan yr ACC, mewn amgylchiadau penodol, ddisgresiwn i wneud penderfyniadau ar sail risg ynghylch maint y ddogfennaeth sydd ei hangen i ddarparu cyllid ac roedd hyn yn aml yn caniatáu i achosion symud ymlaen. Er bod llai o ddogfennau wedi'u derbyn, roedd hyn yn gofyn am brawf bod ymdrechion wedi'u gwneud i fodloni'r prawf cymhwysedd arferol, a oedd yn achosi oedi ychwanegol.

Roedd y pandemig COVID-19 hefyd yn ffactor wrth greu oedi ar draws y sector cymorth cyfreithiol. Newidiodd y mesurau a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â'r pandemig a chynnal system Gyfiawnder weithredol y ffordd yr oedd unigolion yn cael mynediad at lysoedd a chyfreithwyr. Newidiwyd i gynnal gwrandawriadau a darparu cyngor o bell (a drafodir ymhellach yn Adran 2.2), a gwaethygodd y pwysau yr oedd llysoedd yn ei brofi cyn y pandemig. Arweiniodd y pandemig at oedi wrth ddatblygu achosion, gydag adroddiadau ar yr effeithiau negyddol a gafodd hyn weithiau ar lesiant defnyddwyr y cymorth cyfreithiol sifil. Nododd cyfranogwyr yn yr Ymchwil Eiriolaeth bod y materion hyn yn bodoli hyd heddiw.

Amlygodd y ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr bod oedi a chynnydd araf achosion yn dueddol o effeithio mwy ar ddefnyddwyr agored i niwed, yn arbennig y rhai a oedd wedi

profi digwyddiadau trawmatig neu a oedd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl. Adroddwyd bod oedi yn aml yn hwyhau a gwaethygu amgylchiadau a oedd eisoes yn anodd, ac y gallai hyn gael effaith negyddol ar iechyd meddwl defnyddwyr agored i niwed. I'r unigolion hynny a oedd wedi profi amgylchiadau trawmatig, dywedwyd bod profi oedi a chynnydd araf eu hachos yn eu gorfodi i "fyw yn y gorffennol" nes i'w hachos gael ei ddatrys.

"Felly, pe byddech yn dweud wrthynt "iawn, rydym yn gweithio tuag at ddyddiad ym mis Mehefin ar gyfer eich gwrandawriad." Ac yna, am ba bynnag reswm mae hynny'n cael ei ohirio, rydych yn gwybod bod hynny'n aml yn achosi cynnydd aruthrol yn eu pryder. Felly, rwy'n credu am eu bod yn dueddol o fod yn, chi'n gwybod, mae'r rhan fwyaf o gleientiaid cymorth cyfreithiol yn dueddol o fod yn eithaf agored i niwed beth bynnag, mae yn gwneud pethau'n waeth iddynt."

Darparwr

Cymhlethdod achosion

Dyweddodd cyfranogwyr yn Ymchwil Eiriolaeth yr AoGCS bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar anghenion personol a chyfreithiol eu cleientiaid cymorth cyfreithiol sifil. Adroddwyd bod anghenion cleientiaid yn fwy cymhleth, yn arbennig roedd categorïau'r gyfraith yn fwy tebygol o gynnwys pobl agored i niwed, er enghraifft iechyd meddwl, tai, teulu a mewnfudo a lloches. Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd rhanddeiliaid yn adrodd cynnydd yn natur gymhleth y materion cyfreithiol a gyflwynwyd gan gleientiaid.²⁹

Cafodd y canfyddiadau hyn eu hategu gan yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth, lle nododd ymatebwyr a oedd wedi bod yn gweithredu yn y maes cyngor cyfreithiol sifil ers blynyddoedd, bod anghenion cleientiaid wedi mynd yn fwy cymhleth yn gyffredinol. Bu cynnydd graddol yn y gwariant cyfartalog fesul achos cymorth cyfreithiol sifil yn ystod y degawd diwethaf. Er y gellir priodoli'r cynnydd yn hyd achosion yn rhannol i oedi mewn gweithrediadau llys, gallai natur gymhleth achosion gyfrannu at hyn hefyd. Un dangosydd sydd gennym o gymhlethdod achosion yw'r gyfran o achosion sy'n cael eu hystyried yn achosion 'cost uchel'. Mae achos sifil cost uchel³⁰ yn unrhyw achos sifil lle mae'r costau

²⁹ [Adolygiad Ôl-weithredol Rhan 1 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012](#)

³⁰ [Achosion sifil cost uchel - GOV.UK](#)

terfynol i setlo neu wrandawriad terfynol yn debygol o fod yn uwch na £25,000. Mae'n rhesymol tybio bod achosion o'r fath yn rhai â lefel uwch o gymhlethdod. Mae nifer yr achosion hyn wedi cynyddu ers 2018–2019, o 3% i 6% yn 2023–2024.³¹

Dangosydd arall o gymhlethdod yw'r gyfran o faterion help cyfreithiol a enillodd 'ffioedd dianc', sydd hefyd wedi cynyddu o 3% yn y blynyddoedd cyn LASPO, i 11% yn 2023–2024.³² Gall ffioedd "ddianc" o'r strwythur ffioedd sefydlog i gyfraddau fesul awr os cyrhaeddir trothwy ar gyfer y gost i ddarparwyr. Os bydd achosion yn cyrraedd y trothwy dianc, gellir ystyried hyn fel arwydd eu bod yn fwy cymhleth i ddarparwyr eu trin a'u trafod. Gall hyn fod oherwydd bod cymhlethdod yr achos yn gofyn am fwy o amser darparwr i'w gwblhau.

Mae'r anghenion mwy cymhleth hyn yn ei gwneud yn anos ymdrin ag achosion (a gallai hyn greu mwy o faich i ddarparwyr, gan gynnwys straen emosiynol a drafodir ymhellach yn Adran 3.3) a chynnydd arafach, a allai arwain at ddefnyddwyr mwy rhwystredig a gosod straen ar eu perthnasoedd â darparwyr.

1.2 Diffyg ymwybyddiaeth a galluogrwydd

Er mwyn i system cymorth cyfreithiol sifil allu targedu a darparu cymorth yn effeithiol i'r rhai â'r angen mwyaf, mae angen ymwybyddiaeth eang o'r system, a dealltwriaeth sylfaenol o'r hyn a gynigir gan y system a sut mae'n gweithio. Her sydd wedi dod i'r amlwg yn gyson drwy'r gwahanol ffrydiau gwaith tystiolaeth yw diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith darpar ddefnyddwyr. Ymchwiliodd yr AoGCS i'r lefelau o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, gan edrych ar oblygiadau ehangach hyn i unigolion a'r system cymorth cyfreithiol sifil.

Lefelau isel o alluogrwydd cyfreithiol

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y lefelau o alluogrwydd cyfreithiol yn y boblogaeth gyffredinol yn dueddol o fod yn isel. Yn aml nid yw unigolion yn ymwybodol bod eu problemau yn gyfreithiol eu natur, neu fod hyd yn oed ateb cyfreithiol posibl i'w problemau (o leiaf nes y bydd eu materion wedi cyrraedd cam datblygedig – gweler Adran 1.4).

³¹ Data ACC (mewnol)

³² Data ACC (mewnol)

Roedd darparwyr cymorth cyfreithiol a gymerodd ran yn yr Ymchwil Defnyddwyr yn credu bod gwybodaeth gyfreithiol bresennol eu darpar gleientiaid neu eu cleientiaid presennol yn isel. Roedd hyn yn cynnwys bodolaeth cymorth cyfreithiol sifil, prosesau cymorth cyfreithiol sifil a'r broses gyfreithiol yn fwy cyffredinol. Mae Arolwg Problemau a Datrysiaidau Cyfreithiol (LPRS) 2023 y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos y lefelau isel hyn o alluogrwydd cyfreithiol cyffredinol.³³ Pan holwyd pobl a fyddent wedi disgrifio eu problem fel 'problem gyfreithiol' ar ddechrau eu problem, dywedodd tri chwarter ohonynt (75%) na fyddent wedi gwneud hynny.

Mae nifer o wledydd eraill, a astudiwyd fel rhan o ffrwd waith Dadansoddiad Cymharol yr AoGCS, yn gorfod ymdopi â'r un mater o alluogrwydd ac ymwybyddiaeth gyfreithiol isel ymhlith eu poblogaethau. Mae'r dull o wreiddio cyngor mewn lleoliadau lle mae unigolion yn cysylltu â chynghorwyr nad ydynt yn gwneud gwaith cyfreithiol a ffigurau eraill y gellir ymddiried ynddynt wedi'i ddefnyddio mewn systemau cymharol ac mae'n bosibl y bydd yn strategaeth effeithiol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y math hwn o gyngor yn fwy tebygol o gyrraedd y rhai a allai gael eu methu fel arall ac nad ydynt wedi ystyried ceisio cymorth cyfreithiol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eisoes wedi gwneud gwaith yn y cyswllt hwn, gan dreialu a gwerthuso partneriaethau cyfiawnder iechyd, cydleoli hybiau a gweithredu offeryn cyfeirio ar-lein ar gyfer diffyg atgyweirio tai. Mae tudalennau GOV.UK perthnasol, gan gynnwys y dudalen *Finding Legal Advice and Information*, hefyd wedi'u diweddarau. Mae'r gwersi o'r mentrau hyn yn cael eu hystyried a'u hymgorffori mewn gwaith polisi parhaus a darperir mwy o wybodaeth isod.

Ymwybyddiaeth isel a chamsyniadau ynghylch cymhwysedd

Mae tystiolaeth o'r Adolygiad yn awgrymu bod ymwybyddiaeth o gymorth cyfreithiol sifil ar ei lefel isaf ymhlith y boblogaeth a allai fod yn gymwys i'w gael. Dangosodd y ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr nad yw rhai defnyddwyr yn ymwybodol o gymorth cyfreithiol ac y byddai hawl ganddynt i'w gael ar gyfer eu mater cyfreithiol. Roedd rhai defnyddwyr wedi treulio amser a gwario arian hyd yn oed ar fathau eraill o help cyfreithiol cyn gwneud cais am gymorth cyfreithiol. Roedd camsyniadau yn achosi i ddefnyddwyr gredu nad oeddynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, a byddai hyn yn aml yn oedi datrysiaid eu materion

³³ [Arolwg Problemau a Datrysiaidau Cyfreithiol 2023 - GOV.UK](#)

cyfreithiol (mewn rhai achosion roedd hyn yn golygu bod unigolion yn parhau i fyw mewn sefyllfaoedd annerbyniol, a all fod yn niweidiol iawn i bobl sy'n fwy agored i niwed). Roedd darparwyr yn yr un modd yn credu bod ymwybyddiaeth yn broblem, gyda rhai yn pryderu nad oedd pobl â materion cyfreithiol yn gwneud cais am gymorth cyfreithiol sifil, neu'n ceisio cymorth gyda materion cyfreithiol, er eu bod yn gymwys i'w gael.

“Roeddwn yn teimlo'n ddryslyd iawn. Nid oeddwn hyd yn oed yn gwybod bod cymorth cyfreithiol yn bodoli mewn gwirionedd, roeddwn i'n meddwl eich bod bob amser yn talu. Felly, mae'n debyg mai dyna'r math o beth roeddwn i'n edrych amdano.” **Defnyddiwr gwasanaeth, cyngor tai**

Adleisiwyd y canfyddiad hwn ar draws yr Adolygiad, gydag ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth yn nodi bod pobl, mewn llawer o achosion, yn credu nad yw cymorth cyfreithiol ar gael mwyach. Mae'r mater hwn o ymwybyddiaeth hefyd yn cynnwys gwybodaeth, diffyg gwybodaeth, ynghylch sut y gall rhywun wneud cais am gymorth cyfreithiol.

Priodolwyd hyn i wybodaeth gyfyngedig am gymorth cyfreithiol a diffyg gwybodaeth yn cael ei hyrwyddo. Teimlai darparwyr fod diffyg ymwybyddiaeth o gymorth cyfreithiol a'i werth yn cyfrannu at gamsyniadau. Cysylltodd rhai ymatebwyr hyn â newidiadau a ddaeth yn sgil LASPO, roeddent yn teimlo bod canfyddiadau negyddol o'r system cymorth cyfreithiol yn fwy cyffredin ar ôl LASPO ac awgrymwyd bod angen ymdrechion i hyrwyddo gwerth a hygyrchedd cymorth cyfreithiol.

Mae LPRS 2023 y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn tynnu sylw at y mater o ymwybyddiaeth o gymorth cyfreithiol. Dim ond nifer fach o'r rhai a aeth i'r llys neu dribiwnlys a gafodd gymorth cyfreithiol, a'r rheswm a adroddwyd amlaf dros beidio â gwneud cais am gymorth cyfreithiol oedd y gred na fyddent wedi bod yn gymwys ar ei gyfer (dyfynnwyd gan 43% o'r rhai na wnaeth gais). Dywedodd tua chwarter (23%) y rhai na wnaeth gais nad oeddent yn ymwybodol o gymorth cyfreithiol, gan awgrymu y gallai diffyg ymwybyddiaeth fod yn effeithio ar lefelau galw i ryw raddau.

Y baich y gall ymwybyddiaeth a dealltwriaeth wael ei roi ar ddarparwyr

Roedd darparwyr a gyfwelwyd fel rhan o'r ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr o'r farn bod yr ymwybyddiaeth isel hon o gymorth cyfreithiol a galluogrwydd cyfreithiol gwael yn cyfrannu

at y dryswch a'r rhwystredigaeth. Dywedasant eu bod yn gorfod rheoli disgwyliadau cleientiaid, yn enwedig ynghylch cymhlethdodau cwmpas cymorth cyfreithiol sifil a gwahanol feini prawf cymhwyster, yr hyn y byddai ei angen i brofi cymhwysedd, a'r amserlenni posibl ar gyfer symud achosion yn eu blaenau. Fe wnaethant hefyd nodi sut y byddent weithiau yn rheoli disgwyliadau ynghylch pa ganlyniadau y gellid eu cyflawni'n realistig drwy lwybrau cyfreithiol yn fwy cyffredinol.

Mae Arolwg Darparwyr yr Adolygiad yn tynnu sylw at y gofynion y gall ymwybyddiaeth a dealltwriaeth wael eu rhoi ar ddarparwyr. Roedd yn ymddangos bod rhwystredigaeth ymatebwyr ynghylch yr amser sydd ei angen i reoli defnyddwyr gwasanaeth yn deillio o'r swm sylweddol o gymorth emosiynol sydd ei angen i helpu'r cleient, a gwaethygyd hyn gan y ffaith nad yw llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn deall y system cymorth cyfreithiol a'i chwmpas.

Hygyrchedd a chyfeirio

Yn ystod ymchwil Dadansoddiad Cymharol yr AoGCS, pwysleisiodd arbenigwyr (domestig a rhyngwladol) a rhanddeiliaid rôl bwysig cyfeirio effeithiol i helpu defnyddwyr ddeall eu problem gyfreithiol a derbyn cymorth priodol. I unigolyn â galluogrwydd cyfreithiol isel ac ymwybyddiaeth isel o'r system cymorth cyfreithiol, nad ydynt o bosibl yn gwybod lle i ddechrau mynd i'r afael â'u mater cyfreithiol, gallai cyfeirio hwyluso dechrau eu taith at ddatrysiad. Roedd ymatebwyr i Gais am Dystiolaeth yr AoGCS yn pwysleisio eu bod yn teimlo ei bod yn aml yn anodd i bobl ddod o hyd i gyfreithiwr, am nad oes llawer o gyfeirio, os o gwbl, a'r bylchau yn y ddarpariaeth gyfeirio sy'n bodoli. Roeddent yn teimlo bod lle i wella'r cyfeirio presennol.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymgymryd â nifer o brosiectau a oedd yn canolbwyntio ar gyfeirio ar-lein, pob un wedi'u dylunio i'w gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i'r wybodaeth gywir ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i ddatblygu eu dull Cyfeirio Ar-lein ar gyfer Diffyg Atgyweirio Tai i helpu unigolion ddatrys materion tai mewn cyflwr gwael mewn llety preifat sy'n cael ei rentu. Roedd y dull yn ceisio helpu defnyddwyr ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau a nodi'r cam nesaf priodol wrth geisio datrys materion cyn i'w problemau waethygu.

Derbyniodd yr OST 35,553 o ymwelwyr rhwng dechrau Medi 2021 a diwedd Awst 2023 a chafwyd 908 ymwelydd y mis ar gyfartaledd rhwng Tachwedd 2023 ac Ebrill 2024.³⁴ Mae'r niferoedd hyn yn dangos bod gan y cyhoedd ddyhead i gael mynediad at wasanaethau ar-lein a all helpu defnyddwyr galluog i ddatrys eu materion cyfreithiol, ond mae angen darpariaethau cyngor a chymorth all-lein ac wyneb yn wyneb o hyd ar gyfer y rhai â phroblemau cymhleth neu sydd â llai o alluogrwydd ar gyfer offer digidol.

Mae llawer o bobl yn mynd i GOV.UK am wybodaeth, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gwneud gwelliannau i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr bori drwy'r cynnwys cymorth cyfreithiol. Mae tudalen we newydd, y dudalen *Find Legal Advice and Information* (FLAI), yn darparu arweiniad i ddefnyddwyr ar y gwahanol ffynonellau cymorth sydd ar gael ar gyfer datrysiaid y tu allan i'r llys, ymchwil annibynnol, a mynediad at wasanaethau cyfreithiol am ddim a/neu fforddiadwy. O ystyried manteision amlwg cyfeirio i helpu unigolion gael mynediad i'r system a llywio eu materion cyfreithiol, mae gwaith pellach y gellir ei wneud yn y maes hwn.

Rôl Cyfryngwyr Dibynadwy

Yng nghanol y dirwedd hon o ymwybyddiaeth isel a galluogrwydd cyfreithiol gwael, mae cyfryngwyr dibynadwy yn gyfranogwyr hollbwysig, yn darparu cymorth ychwanegol i'r cymorth a gynigir gan ddarparwyr. At ddibenion yr Adolygiad hwn, defnyddiwyd diffiniad eang ar gyfer cyfryngwyr dibynadwy, i sicrhau bod y sbectrwm llawn o unigolion sy'n cynnig cymorth yn cael eu cynnwys.³⁵ Mae ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr yn cyfleu yn glir rôl bwysig cyfryngwyr dibynadwy yn cefnogi defnyddwyr, yn gwella eu dealltwriaeth o'r hyn y mae ganddynt hawdd iddo a'u hawliau cyfreithiol.

³⁴ [Offeryn Cyfeirio Ar-lein ar gyfer Diffyg Atgyweirio Tai \(OST\)](#)

³⁵ Mae cyfryngwyr dibynadwy yn aml yn weithwyr rheng flaen o wasanaethau cymunedol neu gyhoeddus sy'n helpu eraill i lywio problemau cyfreithiol, eu cysylltu â ffynonellau cymorth cyfreithiol a chefnogi'r ymyriadau cynnar sydd eu hangen i osgoi problemau rhag gwaethygu. Mae cyfryngwyr dibynadwy yn darparu gwybodaeth gyfreithiol i bobl, yn atgyfeirio at wasanaethau cyfreithiol, yn helpu cleientiaid i lenwi ffurflenni, ac yn mynd gyda phobl i gyfarfodydd gyda darparwyr gwasanaethau cyfreithiol, gan gynnwys darparu cymorth cyfieithu. Ni all gweithwyr cymunedol roi cyngor cyfreithiol, ond gallant helpu pobl i ddeall y gyfraith yn well a llywio'r system gyfreithiol, ac maent yn gwneud hynny. Mae rhai cyfryngwyr dibynadwy yn gweithio i sefydliadau cyffredinol cenedlaethol, megis Cyngor ar Bopeth, tra gall eraill wasanaethu rhan lai o gymdeithas fel pobl â phroblemau tai neu ddiodefwrwr masnachu mewn pobl.

Canfu arolwg o anghenion cyfreithiol a gynhaliwyd yn 2019 gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol a Chymdeithas y Gyfraith, wrth wynebu mater cyfreithiol, bod dwy ran o dair (66%) o bobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr yn derbyn rhyw fath o help, gyda hyn yn gogwyddo'n drwm tuag at y rhai sy'n derbyn help proffesiynol (55% oedd â mater cyfreithiol) yn hytrach na'r rhai sydd ond yn dibynnu am help gan aelod o'r teulu neu ffrind (11% oedd â mater cyfreithiol)³⁶. Dangosodd yr un arolwg ei bod yn gymharol gyffredin i feddygon a theulu/ffrindiau fod y cynghorydd cyntaf yr oedd pobl yn cysylltu â hwy. Mae Strategaeth Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol 2023-26 ac adroddiad Cymorth ar Bopeth yn adrodd bod 1 o bob 5 apwyntiad meddygon teulu yn ymwneud â materion iechyd wedi'u hachosi gan anghenion cymdeithasol heb eu diwallu e.e. unigrwydd, problemau perthynas neu bryderon ynghylch dyledion neu dai³⁷.

Mae cyfryngwyr dibynadwy yn darparu ystod o gymorth i ddefnyddwyr, o'u cyfeirio'n syml at ddarparwr i'w helpu ar hyd y broses (gan gynnwys tasgau gweinyddol a chasglu gofynion tystiolaethol). Roedd pob un o'r cyfryngwyr dibynadwy yr ymgysylltwyd â hwy fel rhan o'r ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr wedi cynnig gwybodaeth gyfreithiol ar ryw ffurf i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r union dull a ddefnyddir yn amrywio rhwng cyfryngwyr dibynadwy ac achosion, ond dywedodd cyfryngwyr dibynadwy eu bod yn cynnig cymorth gwaith achos cychwynnol i unigolion. Mewn rhai achosion, byddai'r cyfryngwyr dibynadwy wedyn yn rhoi manylion darparwyr cyfreithiol i'r darpar gleientiaid gysylltu â hwy. Ar adegau eraill, pan oedd gan gleient faterion penodol a oedd yn eu gwneud yn agored i niwed, byddent yn cysylltu â darparwyr cyfreithiol y mae ganddynt brofiad â hwy, i sefydlu cyswllt ar ran y cleient. Roedd eraill yn helpu unigolion i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu hachos neu ar gyfer profi cymhwysedd ar gyfer cymorth cyfreithiol. Mae'r cymorth y maent yn ei gynnig yn amhrisiadwy i lawer o ran gwella eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o gymorth cyfreithiol ac opsiynau cyfreithiol, ac wrth gefnogi defnyddwyr mwy agored i niwed cymorth cyfreithiol sifil i lywio'r system.

Mae tystiolaeth gynyddol bod cyfryngwyr dibynadwy yn fwy effeithiol yn eu rôl os byddant yn derbyn hyfforddiant, Canfu cwrs hyfforddiant *Law for Life* ar gyfer cyfryngwyr dibynadwy bod cyfranogwyr yn profi gwelliant sylweddol yn eu galluogrwydd cyfreithiol a'u hyder i

³⁶ [Adroddiad Anghenion cyfreithiol unigolion yng Nghymru a Lloegr - Cymdeithas y Gyfraith](#)

³⁷ Strategaeth NASP 2023-26

gynorthwyo rhywun â phroblem gyfreithiol.³⁸ I unigolion sy'n cael eu cefnogi gan y cyfryngwyr dibynadwy, gwelwyd gwelliant mewn galluogrwydd cyfreithiol, gyda 90% o'r cleientiaid a dderbyniodd eu cymorth yn teimlo'n fwy hyderus i ddelio â'u problemau oherwydd y cymorth a dderbyniwyd.

Mae cyfyngiadau i'r ddarpariaeth cyfryngwyr dibynadwy. Er eu bod yn darparu lefel o eglurder i lawer o ddefnyddwyr, rhannodd cyfryngwyr dibynadwy eu rhwystredigaethau ynghylch cymhlethdodau rheolau a rheoliadau cymorth cyfreithiol. Roeddent yn teimlo nad oedd digon o ymwybyddiaeth o sut y gall cymorth cyfreithiol helpu mewn rhai sectorau (e.e. mewnfudo a lloches a chyllid achosion eithriadol (CAE)), a'i bod yn heriol aros yn ymwybodol o newidiadau rheoleiddio, sy'n golygu na allent bob amser ddarparu'r cyngor o'r ansawdd yr hoffent ei wneud. Ategwyd y canfyddiad hwn gan ddarparwyr, a rannodd brofiadau cadarnhaol o weithio gyda sefydliadau lleol ac atgyfeiriadau gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol eraill, ond a nododd fod defnyddwyr, mewn rhai achosion, wedi cael eu hysbysu'n anghywir yn anfwriadol am gymhlethdodau ac ansicrwydd derbyn cyllid cymorth cyfreithiol o dan amgylchiadau penodol.

Dyweddodd cyfryngwyr dibynadwy eu bod eisiau grymuso defnyddwyr yn gyffredinol gyda gwybodaeth a chymorth ond osgoi creu dibyniaeth arnynt. Mae hyn yn rhannol am eu bod yn aml yn wynebu materion capasiti, sy'n golygu nad ydynt o reidrwydd yn gallu "tywys" defnyddwyr drwy daith gyfreithiol hir. Roeddynt o'r farn bod gostyngiad wedi bod yn nifer y darparwyr cymorth cyfreithiol yn y blynyddoedd diwethaf, a oedd wedi cynyddu'r baich arnynt. Nodwyd bod lleoli rhywun gyda darparwr addas yn fwy llafurus, a'u bod yn treulio mwy o amser yn cynorthwyo unigolion sy'n cynrychioli eu hunain, neu'n ceisio canfod cynrychiolaeth gyfreithiol *pro bono*, amgen iddynt.³⁹

Mae cyfryngwyr dibynadwy yn amlwg yn chwarae rhan bwysig wrth helpu llawer o unigolion i fynd i'r afael â'u materion cyfreithiol a chael y cymorth cywir. Mae'n bwysig felly

³⁸ [Adroddiad Law for Life Gwerthusiad Cysylltiadau Cymunedol \(lawforlife.org.uk\)](http://www.lawforlife.org.uk)

³⁹ Mae gwaith cyfreithiol *pro bono* yn waith sy'n cael ei gynnal i gleientiaid heb unrhyw gost. Mae nifer o systemau a gofynion ar waith wrth gynnal gwaith *pro bono*. Am wybodaeth bellach, gweler: www.lawsociety.org.uk/topics/pro-bono/introduction-to-pro-bono#practical

bod eu rôl a'u cyfraniad i'r sector yn cael eu cynnwys mewn strategaeth yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso i ddarparu eu gwasanaethau.

1.3 Lefelau uchel o alw

Mae'r adran hon yn archwilio lefelau'r galw am gymorth cyfreithiol sifil ac effaith hyn ar hygyrchedd i ddefnyddwyr. Yn y sector cymorth cyfreithiol sifil, mae'r AoGCS wedi derbyn nifer o adroddiadau am ddefnyddwyr yn cael anhawster i ddod o hyd i ddarparwyr, a darparwyr yn gwrthod darpar gleientiaid, oherwydd diffyg capasiti. Mae arwyddion y gallai defnyddwyr gael anhawster i ddod o hyd i ddarparwr, a allai arwain at wrthod achosion cymwys, gyda thai a dyled a mewnfudo a lloches yn rhai o'r categorïau mwyaf o gyfraith sy'n wynebu heriau o'r fath.

Er bod rhai categorïau cymorth cyfreithiol wedi sefydlogi neu wedi cynyddu nifer eu hachosion, mae eraill yn wynebu gostyngiad, gan adlewyrchu newid mewn patrymau galw. Yn ogystal, mae canfyddiadau'n awgrymu y gallai heriau hygyrchedd fod yn fwy amlwg mewn rhai categorïau o'r gyfraith, a lleoliadau, lle gwelwn adroddiadau o anhawster cynyddol i sicrhau darparwr.

Bu cynnydd amlwg hefyd yn nifer yr ymgyfreithwyr sy'n cynrychioli eu hunain⁴⁰, y gallai rhai rhanddeiliaid ddadlau sy'n deillio'n rhannol oherwydd anhawster rhai darpar ddefnyddwyr i ddod o hyd i ddarparwr neu nid ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol a allai, yn ei dro, roi baich ar y llysoedd.

Mesur galw a thueddiadau o ran nifer yr achosion

Nid yw diffinio a deall y galw am gymorth cyfreithiol sifil yn broses syml. Mae hyn yn gymhleth oherwydd y dulliau dadansoddol amrywiol o ran ystyr galw a sut y gellir ei fesur. Gall diffiniadau amrywio yn dibynnu ar y boblogaeth sy'n cael ei thrafod, eu cymhwysedd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, a yw eu mater o fewn y cwmpas, a ydynt yn ceisio cyngor cyfreithiol o gwbl a/neu gymorth cyfreithiol ac a yw'r gwaith yn cael ei wneud gan y sector

⁴⁰ [Litigants in person: the rise of the self-represented litigant in civil and family cases in England and Wales – Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin \(parliament.uk\)](#), [Llythyr gan yr Arglwydd Brif Ustus, ar ystadegau ar ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, dyddiedig 25 Ionawr 2019 \(parliament.uk\)](#), [Perfect storm brewing in family courts as rising numbers represent themselves | Cymdeithas y Gyfraith](#)

cymorth cyfreithiol. Defnyddir bandiau nifer yr achosion yn aml fel dangosydd lefel uchel o alw o fewn y system, er eu bod yn fetrig amherffaith.

Mae cymorth cyfreithiol sifil yn cynnwys 11 categori penodol o'r gyfraith, ac ym mhob categori, dim ond mathau penodol o faterion cyfreithiol fydd wedi'u cynnwys yn eu cwmpas. Gall y rhai sy'n profi mater o fewn y cwmpas geisio cyngor cyfreithiol neu beidio, gallant fod yn gymwys neu beidio o ran bodloni'r profion modd a theilyngdod sy'n berthnasol, a/neu gallant benderfynu peidio â dilyn mater neu gael cyngor â chymorth cyfreithiol os na fyddant yn dod o hyd i ddarparwr ar unwaith. O ran y darparwr, mae yna ddarparwyr o wahanol fathau a meintiau sy'n gweithredu yn y sector sy'n cynnig gwahanol wasanaethau dros amser a thrwy gwahanol ddulliau (o bell ac wyneb yn wyneb). Mae'r lefel hon o gymhlethdod yn ei gwneud yn anodd monitro a deall tueddiadau o ran galw a chapasiti. Mae diffyg metrigau ar gael hefyd ym maes cymorth cyfreithiol sifil o gymharu â meysydd eraill cymorth cyfreithiol, er enghraifft data arestio ar gyfer troseddau, y gellir ei ddefnyddio i amcangyfrif galw.

Gall y galw am gymorth cyfreithiol gael ei lywio gan newidiadau i bolisiâu a deddfwriaethau ac amodau economaidd a thueddiadau cymdeithasol ehangach. Oherwydd bod cymorth cyfreithiol yn gweithredu i fyny ac i lawr y systemau gwasanaethau cyfiawnder a chyhoeddus ehangach, mae'r galw am gymorth cyfreithiol a gwariant arno yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan bolisiâu o adrannau eraill y llywodraeth (er enghraifft yr Adran Addysg, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol).

Mae 'galw' sylfaenol clir am gyngor cyfreithiol sifil, gyda phroblemau cyfreithiol sifil yn gyffredin yn y boblogaeth gyffredinol.⁴¹ Dangoswyd hyn drwy waith ymchwil fel LPRS 2023, a ddatganodd bod 44% o oedolion wedi adrodd eu bod wedi profi un neu fwy o broblemau cyfreithiol sifil yn y 18 mis cyn yr arolwg.⁴² Mae hefyd yn heriol monitro a mesur graddau'r gwaith y gallai'r sector cymorth cyfreithiol ymgymryd ag ef (h.y. mae'r unigolyn

⁴¹ Er, ni fydd pob un o'r unigolion hyn neu eu problemau yn gymwys neu o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol.

⁴² [Arolwg Datrysiaidau a Phroblemau Cyfreithiol 2023 - GOV.UK](#)

yn gymwys ac mae'r mater o fewn y cwmpas), ond nid yw darparwyr yn eu derbyn, er enghraifft am nad oes ganddynt gapasiti. Cyfeirir yn aml at hyn fel galw 'heb ei ddiwallu'.

O fewn y fframwaith hwn, y ffordd fwyaf syml fel arfer o fesur galw o fewn y cwmpas a chymhwysedd yw drwy nifer yr achosion – y nifer o achosion pan mae unigolyn yn derbyn cymorth cyfreithiol sifil. Fodd bynnag, ni fydd niferoedd achosion yn cynnwys unigolion sy'n gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil ond nad ydynt, am beth bynnag reswm, yn ceisio cymorth cyfreithiol, neu nid ydynt yn gallu cael gafael arno.

Fe gyfyngodd LASPO yn sylweddol ar gwmpas cymorth cyfreithiol sifil a arweiniodd at ostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion ar ôl 2012–13. Mae nifer yr achosion yn y blynyddoedd ers hynny yn cyflwyno darlun cymysg. Mae cynrychiolaeth sifil ac achosion cyfryngu wedi sefydlogi i raddau helaeth ar lefel llawer is. Parhaodd y nifer o achosion help cyfreithiol i ostwng yn y blynyddoedd yn dilyn LASPO. Fodd bynnag, dim ond darlun rhannol a roddir gan y nifer o achosion ac nid yw'n ystyried ffactorau fel cymhlethdod achosion, hyd achosion a chapasiti darparwyr. Ac nid yw cynnydd neu ostyngiad yn y nifer o achosion o reidrwydd yn dynodi bod y galw wedi cynyddu neu ostwng.

Mae'n anodd rhagweld y galw posibl yn y dyfodol o ystyried yr ystod eang o ffactorau cystadleuol ar waith. Yn eu Hymchwil i'r Farchnad, nododd PA Consulting rai o'r ffactorau allweddol a allai effeithio ar alw yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys: newidiadau deddfwriaethol sy'n esblygu'n gyflym mewn meysydd polisi ymhellach 'i fyny'r system'; newidiadau i bolisiau cyfreithiol; argaeledd opsiynau datrys eraill (er enghraifft Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod); amodau economaidd; newidiadau demograffig a chymdeithasol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i chwilio am gyfleoedd i wella'r data a gesglir ar y galw am gymorth cyfreithiol, er mwyn gallu bod yn ymatebol i unrhyw newidiadau posibl yn y galw yn y dyfodol.

Nododd yr Ymchwil i'r Farchnad newidiadau i drothwyon cymhwysedd hefyd – a oedd yn deillio o'r Adolygiad Prawf Modd – fel ffactor y disgwylir iddo gael effaith. Nodir yn adroddiad yr Ymchwil i'r Farchnad *Gwelwn yr effaith fwyaf yn y blynyddoedd yn syth ar ôl eu gweithredu a bydd yn lleihau wrth i brisiau ac incwm gynyddu – gan wthio mwy o unigolion y tu hwnt i drothwyon ariannol cymhwysedd. Bydd ond yn bosibl cynnal y cynnydd hwn mewn galw os caiff y trothwyon hyn eu diweddarau'n rheolaidd.*

Yn ddiweddar, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol⁴³ a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus⁴⁴ wedi awgrymu dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder geisio gwella ei phrosesau rheolaidd o fonitro capasiti a galw yn y system cymorth cyfreithiol. Mae gwaith yn cael ei wneud i helpu i gyflawni'r nod hwn.

Heriau a wynebwr gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol

Mae Arolwg Darparwyr yr Adolygiad yn amlygu lefelau adroddadwy o alw uchel am wasanaethau cymorth cyfreithiol a gallu darparwyr i'w fodloni.⁴⁵ Dywedodd 80% o'r cyfranogwyr bod y galw am eu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil yn uwch na lefel safonol, a dywedodd 50% bod y galw yn uchel iawn. Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr hynny a nododd eu bod wedi profi lefel uchel neu uchel iawn o alw sawl achos cymorth cyfreithiol sifil cymwys (os o gwbl) yr oeddynt wedi'u gwrthod yn y mis diwethaf. Dywedodd rhai darparwyr eu bod wedi gwrthod achosion cymorth cyfreithiol sifil cymwys o bosibl - ymhlith darparwyr a nododd lefel gormodol o alw, ar gyfartaledd cafodd 26 o achosion a allai fod yn gymwys eu troi i ffwrdd yn y mis cyn yr arolwg, fesul darparwr.

Ceir darlun tebyg o lefelau uchel o alw ar draws ffrydiau gwaith yr AoGCS, gydag ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn cyfleu sut roedd darparwyr yn gwrthod darpar ddefnyddwyr cymorth cyfreithiol, a darparwyr sy'n cymryd rhan yn ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr yn adrodd eu bod yn troi darpar gleientiaid i ffwrdd yn aml oherwydd bod eu sefydliad wedi cyrraedd, neu'n agos at eu capasiti, gyda'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn eu cyfeirio at ddarparwyr addas eraill. Nid oedd yr Adolygiad yn gallu casglu data ar yr hyn sy'n digwydd i ddarpar ddefnyddwyr sy'n cael eu troi i ffwrdd, efallai y bydd rhai yn mynd ymlaen i ddod o hyd i ddarparwr arall, ond efallai na fydd eraill yn llwyddo. Yn ddiweddarach yn yr adran hon mae'n archwilio rhai effeithiau posibl ar ddefnyddwyr.


⁴³ [Rheolaeth y Llywodraeth o gymorth cyfreithiol \(nao.org.uk\)](http://nao.org.uk)

⁴⁴ [Cymorth Cyfreithiol: Rhybudd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus nad oes gan y llywodraeth ddealltwriaeth o gostau a buddion diwygiadau – Pwyllgorau - Senedd y DU](#)

⁴⁵ Nid yw'r data'n datgelu a oedd y defnyddwyr hyn wedi gallu cael mynediad at wasanaethau cymorth cyfreithiol gan ddarparwr arall. Er bod yr arolwg wedi nodi 'achosion cymwys', mae'n bosibl na fyddai darparwyr yn gwybod yn bendant a oedd yr holl achosion a wrthodwyd yn gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, oherwydd diffyg olrhain y ffigurau hyn yn gywir neu oherwydd nad oedd ganddynt asesiad llawn o gymhwysedd defnyddiwr. Dylid ystyried y niferoedd hyn felly fel rhai dangosol.

Adroddodd sefydliadau nid-er-elw a gymerodd ran yn yr arolwg darparwyr eu bod yn wynebu lefelau uwch o alw yn gyffredinol, gan wrthod mwy o achosion, a bod lefelau uwch o anfonlonrwydd gyda'r farchnad yn gyffredinol.

Ffigur 1: Lefelau galw a adroddwyd ar draws y darparwyr



[Very High Demand] Galw Uchel Iawn [High Demand] Galw Uchel [Standard Level] Lefel Safonol [Low Demand] Galw Isel [Proportion of providers] Cyfran y darparwyr [For-profit] Er-elw [Not-for-profit] Nid-er-elw

Ffynhonnell: Arolwg Darparwyr PA Consulting: [Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Arolwg Darparwyr – GOV.UK](#). Gellir diffinio lefel 'Safonol' yr opsiwn ymateb fel lefel o alw y gellir darparu ar ei gyfer yn gyfforddus neu'n rhesymol, ond gadawyd hyn yn agored i ddehongliad darparwr.

Mae cyflwr y farchnad cymorth cyfreithiol, gan gynnwys capasiti y sector yn cael ei archwilio mewn mwy o fanylder yn Rhan 3 yr adroddiad hwn.

Darpariaeth ranbarthol

Nid yw hygyrchedd i ddefnyddwyr o reidrwydd yn ddarlun cytbwys ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r AoGCS yn pwysleisio sut mae rhai rhanbarthau yn profi rhai o'r heriau a drafodwyd uchel yn fwy difrifol. Golyga hyn y gall fod yn anos i ddefnyddwyr sicrhau darparwr mewn ardaloedd penodol o Gymru a Lloegr. Thema gyffredin a gododd yn y Cais am Dystiolaeth oedd materion gyda'r ddarpariaeth ranbarthol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yn aml yr ardaloedd daearyddol hynny lle gallai sicrhau darpariaeth fod yn heriol iawn.

“Mae ein dadansoddiad o ddata gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn dangos mai ychydig iawn o gyngor cymorth cyfreithiol, os o gwbl, sydd gan nifer o ardaloedd yn y wlad ... Mae diffeithdiroedd cymorth cyfreithiol yn golygu bod pobl ar incwm isel sy'n wynebu materion cyfreithiol pwysig yn cael anhawster i gael y cyngor wyneb yn wyneb yn lleol...” **Corff cynrychiadol**

Nododd darparwyr eu bod yn aml yn derbyn galwadau ffôn gan ddarpar gleientiaid ymhellach i ffwrdd am na all yr unigolion hyn ddod o hyd i ddarparwyr cymorth cyfreithiol yn eu rhanbarthau lleol. Er bod yr ACC yn caniatáu i gwmnïau dderbyn achosion y tu allan i'w hardaloedd, nid yw hynny bob amser yn bosibl i gwmnïau am nad oes ganddynt ddigon o staff o bosibl ar gyfer eu llwythi achosion presennol.

Daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r casgliad yn ddiweddar bod cyfran lai o'r boblogaeth o fewn 10 cilomedr yn awr i swyddfa yn y rhan fwyaf o categorïau cyfraith sifil. Er enghraifft, gwelwyd gostyngiad o naw pwynt canran yn y gyfran o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr a oedd o fewn 10 cilomedr i swyddfa cymorth cyfreithiol ar gyfer cyngor ar dai, ar gyfer materion sy'n cynnwys troi allan, o 73% yn 2013–14 i 64% yn 2022–23. Mae'r gyfran yn 2022–23 yn gostwng i 57% wrth edrych ar swyddfeydd tai yn unig a oedd yn derbyn achosion newydd yn weithredol.

Nododd Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad yr Adolygiad ostyngiad yn nifer y darparwyr mewn rhanbarthau ar draws Cymru a Lloegr rhwng 2010–2011 a 2022–2023, gan bwysleisio'r nifer isel o ddarparwyr mewn rhanbarthau a chategorïau penodol o'r gyfraith. Adroddodd cyfranogwyr yn yr Ymchwil Eiriolaeth bod yr un materion yn bodoli gydag argaeledd eiriolwyr yn rhanbarthol. Mae'r gostyngiad yn niferoedd y darparwyr yn debygol o fod yn sbardun allweddol i faterion mynediad sy'n benodol i'r rhanbarth. Fodd bynnag, mae angen dadansoddiad pellach i gadarnhau'r canfyddiadau yn y maes hwn.

Esboniodd ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth a rhanddeiliaid o Gymru y gallai fod yn heriol sicrhau darparwr mewn sawl rhan o'r wlad. Nodwyd bod defnyddwyr weithiau yn cael eu cyfeirio at ddarparwyr yn Lloegr er mwyn ceisio cael cyngor cyfreithiol. Pwysleisiwyd yr anfanteision a all ddeillio o hyn, oherwydd mae gwybodaeth leol yn aml yn fuddiol iawn (gan nodi enghraifft o sut yr oedd polisi tai yn faes datganoledig yng Nghymru, sy'n golygu bod darparwyr cymorth cyfreithiol tai yn elwa ar wybodaeth arbenigol). Mae'n drawiadol

bod darparwyr yng Nghymru wedi adrodd galw uchel am wasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, gyda'r mwyafrif yn adrodd galw 'uchel iawn'. Mae hyn ar lefel debyg i ddarparwyr yn Lloegr, ond roedd darparwyr yng Nghymru, a nododd lefelau gormodol o alw, yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gwrthod nifer uchel o achosion a allai fod yn gymwys yn y mis cyn yr arolwg darparwyr (cyfartaledd o dros 40 o achosion).

Dywedodd darparwyr a chyfranogwyr yn yr Ymchwil Defnyddwyr bod y ffaith y gallai rhai cyfranogwyr yn yr ardaloedd hyn gael anhawster i deithio i swyddfa eu darparwr ar gyfer cyfarfodydd yn gwaethygu'r mater. Efallai nad oes gan ddefnyddwyr eu cludiant eu hunain ac yn ei dro gallent gael anhawster i gael mynediad (oherwydd bod cysylltiadau trafndiaeth yn wael mewn ardaloedd penodol), neu i fforddio trafndiaeth gyhoeddus, sy'n golygu y gall fod yn heriol iddynt ymweld â'u darparwr. Unwaith eto, mae gwahaniaethau mewn profiadau yng Nghymru i'w hamlygu, oherwydd ei natur wledig, y gall fod cysylltiadau trafndiaeth cyfyngedig a chrynhoad o ddarparwyr mewn aneddiadau mwy. Esboniodd darparwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru pa mor heriol y gall fod i unigolion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gael mynediad at ddarparwr – hyd yn oed os ydynt o fewn pellter rhesymol i'w gweld oddi wrth ddarparwr (fel yr hed y frân), gall fod yn daith lafurus i gyrraedd darparwr oherwydd daearyddiaeth a chysylltiadau trafndiaeth y wlad.

Dywedodd darparwyr eu bod wedi gorfod talu costau trafndiaeth i gleientiaid agored i niwed er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn.⁴⁶ Mae darparu cymorth cyfreithiol o bell yn galluogi i wasanaethau gael eu darparu ymhellach i ffwrdd a gall helpu gyda rhwystrau trafndiaeth, ond gyda gwasanaeth wyneb yn wyneb yn hanfodol mewn llawer o achosion (gweler Adran 2.2), mae'n hollbwysig sicrhau bod darpariaeth leol ar gael.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adolygu'r data mae'n ei gasglu ar y galw am, a mynediad at, gymorth cyfreithiol, ac ystyried pa gyfleoedd allai fod ar gael i wella'r broses o gasglu data a delweddu. Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw broses casglu data o'r fath yn lleihau'r beichiau a roddir ar ddarparwyr.

⁴⁶ Dylid nodi bod darpariaeth o dan gymorth cyfreithiol i dalu'r darparwr i deithio at y cleient mewn amgylchiadau penodol – gweler [Canllawiau Asesu Costau 2018 Fersiwn 10 Rhag 2023](#) paragraff 2.47


Tueddiadau yng nghategoriâu cymorth cyfreithiol y gyfraith

Mae hygyrchedd cymorth cyfreithiol sifil yn amrywio ar draws categorïau o'r gyfraith. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai fod yn anos i unigolion sicrhau darpariaeth cymorth cyfreithiol mewn categorïau penodol o'r gyfraith. Roedd ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn cyfeirio'n aml at dai a dyledion a mewnfudo a lloches fel meysydd o bryder, gyda'r ymatebwyr yn nodi nad yw darparwyr yn aml yn arbenigo yn y meysydd hyn o'r gyfraith. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at storïau am alwadau anobeithiol gan unigolion a oedd yn cael anhawster i sicrhau darpariaeth yn y categori mewnfudo a lloches. Er dylid nodi bod y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod darpariaeth annigonol o gyngor cymorth cyfreithiol ar draws categorïau amrywiol o'r gyfraith yn gyffredinol.

“Yn ystod y cyfnod Medi 2022 – Medi 2023, nid oedd gan 41 o 54 o geiswyr lloches yn ein clinigau mewnfudo a gwasanaethau ehangach unrhyw gynrychiolaeth gyfreithiol drwy Cymorth Cyfreithiol cyn eu cyfweliad lloches parhaol. O'r rhai y gwrthodwyd eu cais cychwynnol am loches, roedd o dan hanner ohonynt wedi dod o hyd i gynrychiolaeth o ryw fath.” **Ymarferydd i elusen gyngor, De Orllewin**

Gan droi eto at yr arolwg darparwyr, er ei bod yn ansicr a fyddai'r holl achosion y mae darparwyr yn adrodd eu bod wedi'u gwrthod wedi bod yn gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, ac y gallai capasiti yn y farchnad fod yn gyfnewidiol ac yn newid yn wythnosol, mae'r dystiolaeth yn arwydd o fylchau yn y farchnad. Mae dadansoddiad is-adrannol o'r arolwg yn awgrymu y gallai materion mynediad defnyddwyr fod yn fwy difrifol ymhlith darparwyr tai a dyled a mewnfudo a lloches (gweler Ffigur 2 isod). Ar gyfer contractau cymorth cyfreithiol sifil penodol, roedd galw uchel iawn yn llawer mwy tebygol o gael ei adrodd am dai a dyled (65%) a gwasanaethau mewnfudo a lloches (83%) yn erbyn y cyfartaledd ar draws categorïau cymorth cyfreithiol sifil yn yr arolwg. Roedd meintiau'r sampl yn cyfyngu'r dadansoddiad hwn i bedwar categori o'r gyfraith, ond mae hyn yn parhau i ddangos gwahaniaeth clir rhwng y categorïau hyn a chyfraith teulu a chyhoeddus.

Ffigur 2: Y galw a gofnodwyd gan ddarparwyr am gymorth cyfreithiol sifil wedi'i ddadansoddi yn ôl maes o'r gyfraith



[Very High Demand] Galw uchel iawn [High Demand] Galw Uchel [Standard Level] Lefel Safonol [Low Demand] Galw Isel [Proportion of providers] Cyfran o ddarparwyr [Family] Teulu [Housing & Debt] Tai a Dyled [Immigration & Asylum] Mewnfudo a Lloches [Public Law] Cyfraith Gyhoeddus

Ffynhonnell: Arolwg Darparwyr (2024), C24: Ar gyfer pob maes o gymorth cyfreithiol y mae eich sefydliad yn gweithredu ynddo, faint o alw mae eich sefydliad yn ei brofi yn awr gyda'r gwasanaeth hwnnw? Gofynnwyd i ddarparwyr ddewis pwynt ar raddfa 7 pwynt, lle'r oedd 1 yn 'llethol', 4 yn 'safonol' a 7 yn 'isel iawn'. Sylfaen: Deiliaid contract teulu (n=141), deiliaid contract tai a dyled (n=65), deiliaid contract mewnfudo (n=36), deiliaid contract cyfraith gyhoeddus (n=41)

Effaith ar ddefnyddwyr

Cyfeiriodd rhai defnyddwyr at anhawster i ddod o hyd i ddarparwr cymorth cyfreithiol â'r capasiti i dderbyn eu hachos, gyda rhai'n disgrifio cysylltu â nifer fawr o ddarparwyr yn aflwyddiannus. Roedd brwydro i ddod o hyd i ddarparwr cymorth cyfreithiol wedi cael effeithiau negyddol ar unigolion. Roedd darparwyr o'r farn bod anhawster i ddod o hyd i gynrychiolaeth gyfreithiol yn achosi rhwystredigaeth i ddarpar gleientiaid. Yn yr un modd, dywedodd cyfryngwyr dibynadwy mai dod o hyd i ddarparwr cymorth cyfreithiol i ddefnyddiwr oedd un o brif heriau'r broses cymorth cyfreithiol.

Credai cyfranogwyr yn y ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr y gall effaith peidio â dod o hyd i gynrychiolaeth cymorth cyfreithiol oherwydd diffyg argaeledd darparwr a chapasiti gael effeithiau andwyol ar berson a'i daith gyfreithiol; gan ychwanegu ymhellach at gyfnod sydd eisoes yn 'achosi straen' yn eu bywyd. Gall yr oedi sy'n gysylltiedig â'r rhwystr hwn hefyd

ymestyn achos unigolyn a'r amser a dreuliwyd yn byw mewn amgylchiadau heriol neu a allai fod yn niweidiol (a drafodwyd eisoes yn Adran 1.1 ar fod yn agored i niwed).

Roedd llawer o ddarparwyr wedi cael profiad o gyn-ddarpar gleientiaid, yr oeddent wedi'u gwrthod yn flaenorol, yn cysylltu'n ôl ar ôl methu â dod o hyd i ddarparwr oherwydd bod darparwyr eraill wedi cyrraedd capasiti llawn ac ni allent dderbyn unrhyw gleientiaid newydd. Er nad oedd cyfranogwyr bob amser yn ymwybodol o beth oedd darpar gleientiaid wedi'i wneud yn y cyfamser, roedd llawer yn ofni bod hyn yn arwydd nad oedd gan unrhyw ddarparwyr eraill cymorth cyfreithiol sifil yr oedd y cleient wedi cysylltu â hwy, y capasiti i dderbyn y cleient. Pan mae unigolion sy'n profi materion cyfreithiol yn ceisio cymorth a'u bod yn cael eu trosglwyddo o un gwasanaeth i'r llall neu rhwng darparwyr, weithiau cyfeirir at hyn fel 'troglch atgyfeirio'. Gall y sefyllfa hon achosi rhwystredigaeth a dryswch i unigolion a gallai wneud iddynt roi'r gorau i chwilio am help.

Clywodd yr Adolygiad adroddiadau hefyd am sefyllfaoedd o wrthdaro buddiannau. Pan fydd y ddau barti mewn achos yn ceisio cymorth cyfreithiol, ond dim ond un darparwr sydd ar gael yn yr ardal, yna mae'n rhaid i un o'r partion fynd ymhellach i ffwrdd i chwilio am gynrychiolaeth cymorth cyfreithiol, talu am gynrychiolaeth gyfreithiol breifat, neu symud ymlaen fel ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Mae lefelau uchel o alw yn debygol o arwain at gynnydd yn y mathau hyn o ddigwyddiadau.

Dywedodd sefydliadau a oedd yn aml yn delio â cheisiadau brys eu bod yn blaenoriaethu ceisiadau a oedd yn dod i mewn a cheisio 'ffitio' cleientiaid i mewn lle y gallent. Gallai hyn arafu cynnydd eu hachosion eraill. Yn fwy cyffredinol, mae lefelau uchel o alw a llwythi gwaith mwy (gan gynnwys y ffaith bod achosion yn fwy cymhleth ac yn parhau'n hwy), yn golygu bod unigolion yn fwy tebygol o brofi oedi a chynnydd araf achosion. Gall anhawster i ddod o hyd i ddarparwr achosi i fater cyfreithiol unigolyn ddwysáu ymhellach oherwydd gallai beidio derbyn sylw am gyfnod hwy. Yn y pen draw, efallai y byddant hyd yn oed yn penderfynu rhoi'r gorau i'w hawliad cyfreithiol yn gyfan gwbl.

“Nid yw'r galw am wasanaethau yn bodloni'r cyflenwad ac o ganlyniad y rhwystr mwyaf i gleientiaid yw na allant gael mynediad at unrhyw wasanaethau neu fod y gwasanaethau y gallent gael mynediad atynt yn llawn a chânt eu hatgyfeirio dro ar ôl tro. Mae'r blinder atgyfeirio hwn yn arwain at bobl yn gadael y system ac yn methu â datrys eu problemau gan arwain at achosion mwy cymhleth yn cyrraedd pwynt argyfwng, pobl yn cael eu gadael i gynrychioli eu hunain yn y llys neu'n cael eu gadael mewn sefyllfaoedd peryglus, er enghraifft, mewn achosion lle nad yw cleientiaid yn gallu cyrchu darparwr ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig.”

Corff cynrychioli

Mae adroddiadau lluosog o ddefnyddwyr yn cael anhawster i sicrhau darparwyr a darparwyr yn troi darpar gleientiaid i ffrwd oherwydd capasiti yn dynodi y gallai angen cyfreithiol heb ei ddiwallu fod yn faes o bryder. Nid oes tystiolaeth bendant ar y pwynt hwn ar hyn o bryd o'r AoGCS, er bod awgrymiadau y gallai fod yn faes o bryder. Byddai ymchwil bellach yn gwella lefelau dealltwriaeth o'r galw a beth allai fod yn digwydd os nad yw darpariaeth cymorth cyfreithiol yn cael ei sicrhau. Roedd hyn yn fater yr oedd gwledydd eraill yn ei wynebu yn y ffrwd waith Dadansoddiad Cymharol, gyda systemau yn ceisio deall natur yr angen cyfreithiol a graddau unrhyw angen cyfreithiol heb ei ddiwallu⁴⁷. Roedd gwella'r broses o gasglu a defnyddio data ym maes cymorth cyfreithiol yn thema yn yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth, gyda rhai ymatebwyr yn pwysleisio y gallai dealltwriaeth ddyfnach fod yn fuddiol. Mae casglu data yn hollbwysig er mwyn mesur angen cyfreithiol a bod arolygon yn ddull poblogaidd a ddefnyddir gan gymharwyr. Yng Nghymru a Lloegr, mae Arolwg Problemau a Datrysiadau Cyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn) ac ymchwil annibynnol fel arolwg anghenion cyfreithiol y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol yn crynhoi rhywfaint o ymchwil yn y maes hwn, er bod eu canfyddiadau yn gyfyngedig ar gymorth cyfreithiol.

⁴⁷ Mae Bwrdd Cymorth Cyfreithiol yr Iseldiroedd yn casglu data ar eu system cymorth cyfreithiol drwy ddolenni Adborth 360. Yn Awstralia, mae'r Bartneriaeth Cymorth Cyfreithiol Cenedlaethol (NLAP), cytundeb cydweithredol, yn ffurfioli'r rôl o gasglu data a monitro systemau i helpu i benderfynu ar strategaethau, dyrannu cyllid a meysydd blaenoriaeth. Yn Awstralia, maent hefyd wedi cynnal arolwg cynhwysfawr o anghenion cyfreithiol: [Arolwg cyfreithiol Awstralia gyfan – Cymorth Cyfreithiol Cenedlaethol](#). Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn UDA wedi cynnal astudiaethau tebyg ar angen cyfreithiol heb ei ddiwallu: [The Justice Gap Report \(lsc.gov\)](#) a [The Effect of State & Local Laws on Evictions | LSC - Legal Services Corporation: America's Partner for Equal Justice](#).

Yr effaith ar ddefnyddwyr: Ymglyfreithwyr drostynt eu hunain

Mae pwnc ymglyfreithwyr drostynt eu hunain wedi codi'n aml yn ystod yr Adolygiad. Defnyddiodd PA Consulting, ystadegau Cyfiawnder Sifil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn eu Hadroddiad Ymchwil i'r Farchnad i ddarparu procsi ar gyfer y system gyfreithiol sifil ehangach a rhoi syniad o'r nifer o ymglyfreithwyr drostynt eu hunain. Mae'r data yn rhoi dadansoddiad yn ôl y math o gynrychiolaeth ar gyfer achosion sifil (ac eithrio teulu) yn y cyfnod o 2013 i 2022. Mae'n dangos, dros gyfnod o 10 mlynedd, bod y gyfran o'r achosion hynny lle cafodd y ddwy ochr (h.y. yr hawlydd a'r diffynnydd) eu cynrychioli gan weithiwr cyfreithiol proffesiynol yn gymharol sefydlog ar tua 55–61%, roedd y gyfran lle dim ond un ochr a gynrychiolwyd tua 22%–29% ac roedd y gyfran o achosion lle na chafodd y naill ochr na'r llall eu cynrychioli tua 14–20%.⁴⁸

Mae tystiolaeth yn cyffwrdd ar ba ddulliau a ddefnyddir gan unigolion i ddatrys eu materion cyfreithiol pan nad ydynt yn llwyddo i sicrhau cymorth cyfreithiol. Pan na ellir sicrhau darparwr cymorth cyfreithiol, mae rhai defnyddwyr yn bwrw ymlaen fel Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain neu efallai eu bod yn derbyn gwasanaethau cyfreithiol pro bono. Mewn sefyllfaoedd eraill, gelwir ar wasanaethau cyfreithiol heb eu rheoleiddio ar gyfer cymorth ychwanegol, er enghraifft McKenzie Friends neu gynghorwyr lleyg. Gall unigolion sy'n troi at gyngor a chymorth heb ei reoleiddio fod yn achos i bryderu am nad ydynt yn cael cyngor cyfreithiol ffurfiol ac nid oes sicrwydd o ansawdd y cyngor. Roedd llawer sy'n gweithredu yn y sector yn credu y gallai hyn arwain at ganlyniadau gwaeth i unigolion. Dywedodd un cyfryngwr dibynadwy y gallai hyn greu mwy o bryder o ran mewnfudo a lloches, oherwydd mae'n rhaid eich bod wedi'ch achredu i lefel benodol i roi cyngor ar y maes hwnnw.⁴⁹ Yn ystod yr Ymchwil Defnyddwyr, dywedodd cyfryngwyr dibynadwy y gall hunan-gynrychiolaeth arwain at fwy o straen ac y gallai gael effaith negyddol ar ddefnyddwyr.

Rhannwyd adroddiadau ar draws yr Adolygiad gan y rhai sy'n gweithio yn y sector o gynydd yn nifer yr Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain ac effeithiau negyddol hynny.⁵⁰

⁴⁸ [Ystadegau chwarterol cyfiawnder sifil: Ionawr - Mawrth 2023 - GOV.UK](#)

⁴⁹ Mae paragraffau 8.13-8.20 [Contract Sifil Safonol 2024: Rheolau Penodol y Categori Mewnfudo a Lloches](#) yn nodi'r safonau gwasanaeth gofynnol i ymarferwyr sy'n ddeiliaid contract mewnfudo a lloches.

⁵⁰ Er enghraifft, o fis Ebrill - Mehefin 2023, roedd y gyfran o warediadau teulu preifat lle nad oedd gan y naill ochr na'r llall gynrychiolaeth gyfreithiol yn 40%, gan gynyddu 26 pwynt canran ers Ionawr - Mawrth 2013. [Ystadegau Chwarterol y Llys Teulu: Ebrill i Mehefin 2023 - GOV.UK](#)

Disgrifiodd llawer o ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth, yn ogystal â chyfranogwyr yn yr Ymchwil Eiriolaeth, ac ymgysylltiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder â rhanddeiliaid gynydd yn nifer yr Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain. Un o ganlyniadau posibl nifer uwch o Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain fyddai mwy o aneffeithlonrwydd yng ngweithrediad y llysoedd sifil, gan arwain at gostau uwch o bosibl.⁵¹ Ystyriwyd bod Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain yn fwy tebygol o fynd ag achos i'r llys nad oedd ganddynt fawr o obaith ei ennill, neu a fyddai'n niweidiol i'r partïon dan sylw, eu bod yn fwy tebygol o fod yn ddi-drefn a heb baratoi, a bod angen mwy o gefnogaeth arnynt gan farnwyr ac eiriolwyr yn ystod achosion. Mae hyn i gyd yn cysylltu â'r lefelau isel o alluogrwydd cyfreithiol yn y boblogaeth a drafodwyd yn gynharach yn Adran 1.2. Ystyriwyd bod hyn yn cyfrannu at ôl-groniad o achosion ac oedi a brofir mewn rhai meysydd o'r gyfraith.

Gall cyflawnwyr cam-drin domestig sy'n ymglyfreitha drostynt eu hunain gael effaith niweidiol ar ddiodefwyr cam-drin domestig. Dywedodd cyfranogwyr y gallai gallu cyflawnwyr i siarad yn uniongyrchol â'r llys arwain at wneud datganiadau amhriodol i'r llys. Fel y trafodwyd uchod, roeddynt yn fwy tebygol o fynd i'r llys, oherwydd bod yr achos yn llai tebygol o gael eu setlo y tu allan i'r llys. Disgrifiodd un cyfreithiwr bod hyn yn fath arall o 'gam-drin' y gallai cyflawnwr ei achosi i oroeswr drwy eu 'llusgo' drwy'r llysoedd. Mae'n nodedig bod Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn gwahardd cyflawnwyr honedig cam-drin heb eu cynrychioli rhag croesholi eu diodefwyr mewn achosion teulu a sifil penodol, ac i'r gwrthwyneb, oherwydd gallai hyn helpu i ddiogelu diodefwyr rhag cael eu trawmateiddio eto gan eu cyflawnwr honedig. Sefydlwyd y cynllun Cynrychiolydd Cyfreithiol Cymwys (CCC) ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r cynllun CCC yn caniatáu i lysoedd, yn ôl disgrisiwn barnwr, benodi CCC wedi'i ariannu'n ganolog i groesholi er budd y parti gwaharddedig. Mae CCC yn gyfreithwyr neu'n fargyfreithwyr cymwys sy'n dewis cofrestru ar gyfer y cynllun. Mae eu rôl yn yr achos wedi'i chyfyngu i baratoi ar gyfer croesholi yn unig, a chroesholi tyst agored i niwed.

Mae anfanteision lluosog niferoedd mawr o Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain yn tanlinellu pwysigrwydd system cymorth cyfreithiol effeithiol ac ymyrraeth gynnar (trafodir ymhellach yn Adran 1.4). Roedd teimlad cyffredinol ymysg y cyfranogwyr, pe bai mwy o unigolion yn

⁵¹ [Gweithredu diwygiadau i gymorth cyfreithiol sifil – Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol](#)

gallu cael mynediad at gyngor cymorth cyfreithiol sifil ar gamau cynharaf eu hachos, yna byddai llai o ymgyfreithwyr drostynt eu hunain a llai o achosion yn mynd i'r llys yn gyffredinol.

Mae pobl yn gweithredu fel Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain am sawl rheswm, nid dim ond oherwydd argaeledd darparwr cymorth cyfreithiol. Nid yw rhai materion cyfreithiol wedi'u cynnwys yng nghwmpas cymorth cyfreithiol sifil. Yn ogystal, weithiau, er bod mater o fewn y cwmpas, gallai fod yn gymwys ar gyfer cyngor cyfreithiol, ond nid cynrychiolaeth yn y llys.

Er gwaethaf y canfyddiadau hyn, mae bwlch yn parhau yn y dystiolaeth am Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain. Mae angen mwy o wybodaeth ar achosion Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain a'u heffaith ar y system. Byddai tystiolaeth bellach hefyd yn helpu i feintoli unrhyw gysylltiad rhwng materion mynediad at gymorth cyfreithiol sifil a'r cynnydd yn nifer yr Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain. Yn eu hadroddiadau yn 2024, roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd yn bryderus ynghylch argaeledd data o ran darparwyr yn gwrthod unigolion oherwydd capasiti, ac effaith Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain ar weithrediad gwasanaethau'r llys. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gwneud gwaith ar y ddau fater.

1.4 Materion cyfreithiol sy'n gwaethygu a chlystyru ac ymyrraeth gynnar

Mae'r adran hon yn archwilio ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol yn y system gyfiawnder, gan gyfeirio'n benodol at ei chapasiti i fynd i'r afael â materion ataliol yn gynnar, atal materion rhag gwaethygu a helpu i sicrhau mynediad ehangach at gyfiawnder. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â rhwystrau at ymyrraeth gynnar a chymorth, a sut mae'r rhwystrau hyn yn cyfuno â ffactorau eraill a drafodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn sy'n cyfrannu at faterion cyfreithiol yn gwaethygu a chlystyru materion cyfreithiol.

Materion cyfreithiol sy'n gwaethygu a chlystyru a phryd mae pobl yn ceisio cymorth
Gall pawb brofi problemau cyfreithiol, fodd bynnag, gall gallu unigolyn i fynd ati'n llwyddiannus i ddatrys y problemau hynny amrywio'n fawr. Mae gan bobl sydd angen gwasanaethau cyfreithiol wahanol anghenion, amgylchiadau a galluogrwydd; bydd y rhain

i gyd yn dylanwadu ar y ffordd y maent yn cael cymorth a pha fath o gymorth sydd fwyaf priodol ar gyfer eu sefyllfa unigol.

Gall problemau lles cymdeithasol waethygu a chlystyru â'i gilydd os na fydd mater cychwynnol yn derbyn sylw priodol, sy'n arwain at broblem fwy cymhleth. Er enghraifft, gall materion sy'n ymwneud â budd-daliadau a dyled gysylltu'n aml â materion cyflogaeth, tai a theulu.⁵² Mae'n haws datrys problem gyfreithiol unigol nac un sydd wedi clystyru â materion lles cymdeithasol eraill, felly mae sicrhau y gall pobl gael mynediad cyflym at y cymorth a'r cyngor cywir i nodi llwybr yn hollbwysig i leihau'r tebygolrwydd y bydd problemau'n gwaethygu. Yn ôl Arolwg Problemau a Datrysiadau Cyfreithiol 2023, roedd 56% o bobl â phroblem gyfreithiol wedi profi dau neu fwy o gategorïau yn y cyfnod 18 mis cyn yr arolwg.⁵³ Gall y materion cymhleth hyn sydd wedi clystyru barhau a phroblemau cymdeithasol ehangach a gallai fod yn anos eu torri. Gall cyngor a chymorth cyfreithiol cynnar o safon helpu pobl i ddatrys eu problemau'n fwy effeithiol a gweithredu fel mesur ataliol rhag i broblemau ddatblygu'n faterion mwy cymhleth ac aml-ffactor.

Yn aml, erbyn i unigolyn geisio cyngor cyfreithiol neu ymyrraeth gyfreithiol, neu gymorth cyfreithiol yn fwy penodol, bydd eu mater eisoes wedi cyrraedd cam datblygedig. Wrth i faterion cyfreithiol gynyddu, nid yn unig y maent yn tueddu i ddod yn fwy cymhleth a beichus (i'r unigolyn, y gweithwyr cyfreithiol proffesiynol dan sylw a'r gymdeithas ehangach), ond mae opsiynau ar gyfer datrysiad cyfreithiol yn dod yn fwyfwy cyfyngedig. Er enghraifft, dywedodd rhai defnyddwyr yr ymgysylltwyd â hwy yn ystod AoGCS mai dim ond ar adeg pan oedd eu mater cyfreithiol eisoes wedi symud ymlaen i achos llys y daethant yn ymwybodol o gymorth cyfreithiol. Trafododd darparwyr, er bod angen mewnbwn cyfreithiol ar unwaith ar rai meysydd cyfreithiol yn naturiol, roedd cleientiaid yn tueddu i aros cyn ymgysylltu â gweithwyr cyfreithiol proffesiynol.

⁵² Moorhead, R., Robinson, M., a Matrix Research and Consultancy [A trouble shared – legal problems clusters in solicitors' and advice agencies](#) Cyfres Ymchwil DCA 8/06 Tachwedd 2006; Pleasence, P. et al., [Multiple Justiciable Problems: Common Clusters and Their Social and Demographic Indicators](#) Gorffennaf 2004 Journal of Empirical Legal Studies 1(2):301 – 329; Pleasence, P. et al., Adroddiad Ton 1 o Arolwg Panel Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol Cymru a Lloegr [Archif Data SN 7643 – Arolwg Panel Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol Cymru a Lloegr: Tonnau 1-2, 2010-2012; Tueddiadau Cyngor Tach 2023 | Tableau Cyhoeddus](#)

⁵³ [Arolwg Problemau a Datrysiadau Cyfreithiol 2023 - GOV.UK](#)

Nid oes un rheswm cyffredinol pam fod materion unigolion yn gwaethygu a chlystyru a pham eu bod yn oedi cyn ceisio cyngor cyfreithiol. Fodd bynnag, yn aml mae hyn oherwydd y lefelau isel o ymwybyddiaeth a galluogrwydd a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Pan nad oes gan unigolion y wybodaeth gyfreithiol i wneud diagnosis bod eu mater yn un cyfreithiol, neu'r ymwybyddiaeth i ddeall yr ystod o opsiynau sydd ar gael iddynt, er enghraifft cyngor cyfreithiol neu ddulliau datrys amgen, nid yw'n syndod bod materion yn gwaethygu. Mae llawer o dystiolaeth bod rhai unigolion, megis y rhai sydd â phroblemau iechyd hir-sefydlog, rhieni unigol, oedolion di-waith, a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau, yn fwy tebygol o brofi problemau cyfreithiol ac yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn profi problemau cyfreithiol clystyrog.⁵⁴ Gallai unigolion â nodweddion penodol sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu faterion cymhleth gael anhawster mawr i gymryd camau cyfreithiol, gan gynyddu'r risg y bydd eu problemau'n gwaethygu ac y bydd angen mwy o gymorth arnynt.

Mae'r Adolygiad hefyd wedi cyfleu sut y gallai defnyddwyr gyflwyno gyda materion cyfreithiol lluosog, sydd weithiau yn rhyng-gysylltiedig, sydd ond yn gwneud y llwybr at ddatrysiad yn fwy cymhleth. Amlygodd y Dadansoddiad Cymharol sut mae defnyddwyr sy'n ceisio gwasanaethau cyfreithiol yn aml yn wynebu problemau amlochrog: nid ydynt o reidrwydd yn fater cyfreithiol unigol wedi'i ddiffinio'n glir ond yn hytrach yn croestorri â meysydd eraill. Mae hyn yn gysylltiedig â chynnydd mewn materion, gan fod problemau cyfreithiol yn fwy tebygol o raeadru ac achosi problemau eraill pan na fyddant yn derbyn sylw. Pan fydd gan unigolyn faterion cyfreithiol lluosog, mae'n fwy tebygol na fydd pob un ohonynt yn mapio'n daclus i gwmpas cymorth cyfreithiol, sy'n creu cyfres o heriau. Amlygodd darparwyr yr ymgysylltwyd â hwy yn ystod yr Ymchwil i Ddefnyddwyr sefyllfaoedd mor gymhleth lle nad yw mater cyfreithiol cleient o bosibl yn cyd-fynd yn daclus â chwmpas cymorth cyfreithiol sifil. Eglurwyd y gallai fod yn rhaid i gleientiaid dalu am ran o'u gwaith cyfreithiol mewn sefyllfaoedd o'r fath. Roedd hyn yn cynyddu'r risg y gellid gwneud gorchymyn costau yn eu herbyn ar ddiwedd yr ymgyfreitha, y byddent yn cael eu hamddiffyn rhagddynt pe baent yn derbyn cymorth cyfreithiol. Roedd darparwyr o'r

⁵⁴ [Canfyddiadau'r Arolwg Problemau a Datrysiadau Cyfreithiol, 2014-15](#)

farn bod talu'r costau hyn, a thalu cyfraniadau cymorth cyfreithiol, yn achosi straen i gleientiaid. Cyflwynwyd canfyddiadau tebyg yn adborth y Cais am Dystiolaeth:

“Os ydym yn cynrychioli cleient o dan help cyfreithiol, achos cyfraith gyhoeddus teulu, gallwn eu cynghori ynghylch y broses amlinelliad cyfraith gyhoeddus [PLO] a chyfranogiad yr awdurdod lleol [ALI] ond ni allant eu cynghori ar faterion cyfreithiol preifat, er enghraifft cyfrifoldeb rhiant am nad oes ganddynt y porth gofynnol ac mae hyn yn golygu'n aml nad yw pob un o faterion y cleient yn cael ei ddatrys.” **Darparwr, cyfraith teulu**

Trafododd y cyfranogwyr nifer o opsiynau y gallent hwy neu eu sefydliadau eu cymryd pan allai rhan o fater cyfreithiol fod o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol sifil, a rhan arall nad yw o fewn y cwmpas. Roedd y rhain yn cynnwys gwahanu gwaith achos i “ffeiliau” ar wahân er mwyn gallu ariannu materion cyfreithiol gwahanol yn annibynnol, naill ai drwy'r cleient yn talu'n breifat (drwy gyfraddau'r farchnad neu gyfraddau is), neu gyllid amgen (er enghraifft grantiau neu dystysgrifau cymorth cyfreithiol ar wahân). Yn yr un modd, trafododd darparwyr y gallent dderbyn y gwaith a oedd wedi'i gynnwys yn eu contract a'u maes arbenigol, a chyfeirio'r gwaith ychwanegol i sefydliadau eraill.

Fodd bynnag, nid oedd dulliau o'r fath lle'r oedd materion cyfreithiol yn cael eu gwahanu, er eu bod yn ymarferol bosibl, bob amser yn cael eu hystyried er lles gorau cleientiaid, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed. Amlygodd cyfranogwyr fod gwahanu materion cyfreithiol yn achosi dryswch i gleientiaid, a oedd yn aml yn gysylltiedig ag ymwybyddiaeth isel o gwmpas a phroses cymorth cyfreithiol sifil ac yn ychwanegu straen ychwanegol i berthnasoedd gwaith rhwng y gweithiwr cyfreithiol proffesiynol a'r cleient. Byddai rhai darparwyr yn cynnal gwaith *pro bono* ar gyfer materion llai a oedd yn digwydd yn y broses o weithio ar y prif fater cymorth cyfreithiol sifil er mwyn symlrwydd a pharhad. Fodd bynnag, nid oedd pob sefydliad o'r farn hon, gydag eraill yn trafod y byddent yn cyfyngu gwaith yn fwy llym i'r hyn a ariennir gan gymorth cyfreithiol yn unig. Amlinellodd cyfranogwyr o rai darparwyr, megis darparwyr nid-er-elw, sut yr oedd “integreiddio” nifer o wasanaethau cyfreithiol a di-gyfreithiol mewn un sefydliad wedi gwella profiad eu defnyddwyr. Dadleuodd y cyfranogwyr fod y gwasanaethau integredig hyn yn darparu profiad gwell i ddefnyddwyr gan fod cleientiaid, a oedd â phroblemau lluosog ac a oedd yn

aml yn teithio'n bell i geisio cymorth, yn gallu cael cymorth ar sawl mater mewn un ymweliad. Amlygodd y Dadansoddiad Cymharol y defnydd o bartneriaethau cyfiawnder iechyd yn Awstralia, lle maent wedi canfod llwyddiant gyda'r dull hwn, rhywbeth y mae corff ehangach o ymchwil yn awgrymu a allai helpu i wella amgylchiadau economaidd-gymdeithasol unigolion.⁵⁵

Ymyrraeth gynnar

Mae canfyddiadau o'r AoGCS wedi pwysleisio pwysigrwydd a buddiannau ymyrraeth gynnar a chyfiawnder ataliol. Roedd y Dadansoddiad Cymharol yn ei ystyried yn egwyddor allweddol ar gyfer darparu mynediad effeithiol at gyfiawnder i bawb, gan nodi y gall darparu cymorth cynnar effeithiol i ddefnyddwyr atal materion rhag datblygu i fod yn fwy niweidiol a gallai helpu i gynyddu effeithlonrwydd drwy gyfeirio achosion i ffwrdd o'r llysoedd. Dangosodd yr ymchwil bod systemau cymharol yn cydnabod hyn ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Amlygodd ystod o opsiynau a oedd yn ceisio cyflawni hyn, er enghraifft partneriaethau cyfreithiol a rhai nad ydynt yn gyfreithiol (e.e. Partneriaethau Cyfiawnder Iechyd), mentrau allgymorth cymunedol (e.e. cymorth a chynghor cyfreithiol a chyfryngu cynnar), a'r defnydd o ddatrysiadau technolegol (e.e. gwefannau hunan-gymorth, datrys anghydfodau ar-lein).

Roedd yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn cydnabod pwysigrwydd a buddiannau posibl ymyrraeth gynnar. Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y gallai cymorth cyfreithiol gyfrannu mewn ymyrraeth gynnar a gwaith atal. Roeddynt yn gweld manteision canlyniadau gwell i unigolion a manteision ymhellach i lawr y system i'r system gyfiawnder, y llywodraeth a chymdeithas yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys arbedion cost posibl i'r llywodraeth.⁵⁶ Roedd llawer o'r farn bod angen ymyrraeth gynnar o ystyried bod cleientiaid yn aml ond yn dod yn ymwybodol o gymorth pan oedd eu mater wedi cyrraedd cam datblygedig. Fodd bynnag, ystyriwyd nad oedd y math hwn o waith yn digwydd mor aml ag y gallai. Cyfeiriwyd at yr enghraifft bod cyfryngu yn dod yn llai cyffredin a bod mwy o achosion yn mynd i'r llys. Teimlai ymatebwyr nad oedd llawer o gymhelliant ar hyn o bryd

⁵⁵ [Tobin-Tyler, E. et al, Health Justice Partnerships: An International Comparison of Approaches to Employing Law to Promote Prevention and Health Equity, Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2023](#)

⁵⁶ [Defending the Public Purse, Pragmatix a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, 2021](#)

yn y system cymorth cyfreithiol i geisio sicrhau datrysiad cynnar. Dywedodd rhai darparwyr eu bod wedi rhoi'r gorau i waith cymorth cyfreithiol gan ei fod yn amhroffidiol (trafodir hyn ymhellach yn Adran 3.2). Teimlai un ymatebwr fod sector cymorth cyfreithiol wedi'i ddisbyddu yn gweithio yn erbyn datrys anghydfod yn gynnar:

“Mae barn pobl yn caledu, ac erbyn iddynt dderbyn cyngor nid ydynt yn agored iawn i gyflafareddu neu gyfryngu. Pe gallai cyfryngu ddigwydd cyn ymglyfreitha, gallai hynny fod yn ddefnyddiol.” **Darparwr, tai, Cymru**

Yn yr un modd, pwysleisiodd cyfranogwyr yn yr Ymchwil Defnyddwyr werth posibl ymgysylltiad cynharach ar wella profiad eu cleientiaid. Roedd hyn yn cynnwys gallu siarad â chleientiaid yn gynharach yn y broses ynghylch eu materion cyfreithiol posibl a'r llwybrau sydd ar gael iddynt (e.e. cyfryngu), yn hytrach na siarad gyda hwy ar ôl i'w mater gyrraedd cam datblygedig a bod llai o opsiynau cyfreithiol ar gael iddynt. Teimlai cyfranogwyr y byddai hyn yn dargyfeirio rhai achosion oddi wrth ymglyfreitha drwy wneud defnyddwyr yn fwy gwybodus am y broses a'r opsiynau sydd ar gael i ddatrys eu problem nad ydynt yn cynnwys mynd i'r llys.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eisoes wedi casglu rhywfaint o wybodaeth am fanteision ymyrraeth gynnar. Yn 2019, o dan y Llywodraeth flaenorol, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol (LSAP), a oedd yn cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer datrys problemau cyfreithiol yn gynharach drwy sicrhau y gall pobl gael mynediad at gymorth ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir iddynt. Roedd yn cydnabod fod ymyrraeth gynnar yn hollbwysig i helpu pobl ddatrys materion cyn iddynt ddod yn broblemau cyfreithiol a allai arwain at achosion llys. Roedd hefyd yn nodi y gallai datrys problemau yn gynnar osgoi costau ariannol ac anariannol diangen i'r unigolyn a'r rhai o'u cwmpas (drwy anweithgarwch neu ddilyn camau gweithredu aneffeithiol), cymdeithas (costau cymdeithasol ehangach problemau cyfreithiol heb eu datrys – e.e. canlyniadau negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol) a'r llywodraeth (trwy alw am wasanaethau y gellir ei osgoi).

Roedd LSAP yn ymrwymo i gasglu tystiolaeth am beth sy'n gweithio i helpu pobl ddatrys eu problemau'n effeithiol ac effeithlon drwy brofi dulliau gweithredu gwahanol i ddarparu cymorth cyfreithiol cynnar drwy ystod o gynlluniau peilot, grantiau ac ymchwil. Mae

cynlluniau peilot y LSAP wedi'u cyflwyno i raddau helaeth a'n galluogi i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth. Er enghraifft, canfu'r Grant Cymorth Cyfreithiol i Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LSLIP) bod bron 60% o gleientiaid wedi gallu datrys eu problemau heb orfod mynd i lys neu dribiwnlys.⁵⁷ Awgryma adborth gan unigolion bod derbyn cymorth wedi creu ystod eang o fuddiannau iddynt, gan gynnwys mwy o incwm, mwy o annibyniaeth a llesiant gwell drwy lai o straen. Mae'n bwysig nodi bod rhai bylchau'n bodoli yn y gofod hwn, er enghraifft ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau ymgysylltiad â chyngor,⁵⁸ ac ar gost effeithiolrwydd rhai ymyriadau.⁵⁹

Roedd nifer o bartneriaethau'r LSLIP yn darparu cyngor drwy ddull allgymorth mewn lleoliadau cymunedol fel llyfrgelloedd a banciau bwyd, gyda'r nod o ddefnyddio cyllid y LSLIP i ddatblygu gwasanaethau a oedd yn cyrraedd pobl â phroblemau cyfreithiol mewn lleoliadau cyfarwydd yr oeddynt eisoes ymweld â hwy. Drwy ehangu'r gwasanaethau cyfarwydd presennol i gynnwys cymorth cyfreithiol, roedd y gwasanaethau cyngor yn canfod y gallent gyrraedd ystod ehangach o bobl o ganlyniad i hynny. Er enghraifft, roedd atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn "arwyddocaol ar gyfer y rhai lleiaf galluog neu debygol o geisio cymorth mewn ffyrdd eraill (e.e., pobl â materion iechyd meddwl neu gorfforol difrifol, pobl â llythrennedd digidol gwael, a phobl sydd wedi'u hynysu'n ddaearyddol)".⁶⁰

Gallai pobl gael mynediad at ystod o gymorth hefyd drwy hybiau cyngor wedi'u cyd-leoli, lle cynigir gwahanol wasanaethau yn yr un lle. Roedd hyn yn cynnwys partneriaethau iechyd-cyfiawnder lle mae meddygon teulu, gweithwyr iechyd proffesiynol a sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol yn cydweithio i ddarparu cymorth cyfannol ac ymyrraeth gynnar i ddatrys problem unigolyn, a allai gynnwys elfen gyfreithiol ac iechyd. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ariannu'r Hwb Lles Flourish ers Tachwedd 2022, sy'n hwb lles yn Wallasey, yng ngogledd-ddwyrain Wirral, sydd wedi'i arwain gan Cyngor ar Bopeth Wirral. Mae Flourish yn darparu mathau gwahanol o gymorth i bobl sy'n profi materion cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd, a allai gynnwys elfen gyfreithiol

⁵⁷ [Grant Cymorth Cyfreithiol i Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain \(LSLIP\)](#)

⁵⁸ [Cynllun Peilot Cyngor Cyfreithiol Cynnar y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar dai, dyled a lles - GOV.UK](#)

⁵⁹ [Frontiers | Economeg iechyd partneriaethau cyfiawnder iechyd: Adolygiad cyflym o'r enillion economaidd i gymdeithas o hyrwyddo mynediad at gyngor cyfreithiol](#)

⁶⁰ [Gwerthusiad o Hybiau Cyngor Integredig mewn Lleoliadau Gofal Iechyd Sylfaenol – Astudiaeth Ddichonoldeb ; Gwerthusiad o Hybiau Cyngor Integredig mewn Lleoliadau Gofal Iechyd Sylfaenol](#)

weithiau sy'n berthnasol i hawliau lles. Ceisia ddarparu cam pontio di-dor rhwng gwasanaethau, gan alluogi pobl i adrodd eu hanes unwaith cyn derbyn cymorth priodol. Mae canfyddiadau'n dangos eu bod yn darparu cymorth yn effeithiol i bobl mewn ffordd gyfannol cyn i'w materion waethygu.

Ffordd arall o atal problemau rhag gwaethygu yw drwy wella mentrau addysg gyfreithiol gyhoeddus (PLE), sy'n gwella galluogrwydd cyfreithiol y boblogaeth gyffredinol a gallu unigolion i gydnabod eu problem a gweithredu'n briodol. Bydd y rheini â'r galluogrwydd i wasanaethu eu hunain heb fod angen cymorth arbenigol a/neu'r llys yn gallu dod o hyd i atebion yn fwy effeithlon a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn mynd yn sownd yn y system wrth aros am benderfyniad, er budd yr unigolyn a'r llysoedd. At hynny, gallai annog y rhai sy'n gallu gwasanaethu eu hunain leihau'r galw ar gymorth personol i'r rhai sydd â galluogrwydd cyfreithiol uwch, gan ryddhau gwasanaethau rheng flaen i'r rhai sydd angen cymorth personol fwyaf. Fel rhan o Grant Cymorth Cyfreithiol i Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain y Weinyddiaeth Gyfiawnder, darparodd llawer o sefydliadau adnoddau Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus ar gyfer y boblogaeth gyffredinol a/neu geisio cynyddu galluogrwydd cyfreithiol eu cleientiaid unigol. Mesurodd y grantïon hyn alluogrwydd cyfreithiol cleientiaid yn dilyn y cyngor, yr arweiniad a'r cymorth a roddwyd. Yn dilyn y cymorth: roedd 91% o unigolion yn deall eu problem ac yn ymwybodol y gallai fod ateb cyfreithiol iddi; roedd gan 91% o unigolion ddealltwriaeth well o ganlyniadau cyfreithiol posibl eu problem; ac roedd 84% o unigolion a oedd yn derbyn cyngor cyn mynd i'r llys neu gynrychiolaeth yn eu gwrandawriad yn deall beth i'w ddisgwyl wrth fynd i'r llys.

Mae 'cyngor cyfunol', a elwir weithiau'n 'gyngor hybrid', yn cyfeirio at fodelau cyflenwi cyngor sy'n darparu cymorth a chyngor cyfreithiol drwy gyfuniad o gyswllt wyneb yn wyneb a chyfathrebu o bell. Canfu ymchwil bod modelau cyflenwi cyfunol yn cyflwyno buddiannau lluosog i'r sector cyngor a chleientiaid cyngor, gan gynnwys mwy o ymgysylltiad a chyrrhaeddiad, gwell effeithlonrwydd a mwy o hyblygrwydd a dewis i ddewis fformat a oedd yn gweddu i'r unigolyn.⁶¹ Ar yr un pryd, roedd modelau cyflenwi cyfunol yn creu nifer o heriau a phryderon hefyd gan gynnwys: allgau cleientiaid sy'n cael trafferth gyda llythrennedd digidol a mynediad at dechnoleg, cyfyngu ar y cyfleoedd i feithrin

⁶¹ [Cyngor Cyfunol a Mynediad at Gyfiawnder - GOV.UK](#)

perthnasoedd ymddiriedus gyda defnyddwyr, a llwyth gwaith a gwaith gweinyddol cynyddol i wasanaethau sydd eisoes dan bwysau (trafodir y materion hyn yn fanylach yn Adran 2.2 yr adroddiad hwn).

Defnyddir y dystiolaeth a gasglwyd ar ymyrraeth gynnar i hysbysu'r gwaith i ail-adeiladu ein system gyfiawnder a sicrhau bod gennym system cymorth a chefnogaeth gyfreithiol gynaliadwy, effeithlon ac effeithiol sy'n galluogi pobl i ddatrys eu problemau mor fuan â phosibl, yn y ffordd gywir iddynt. Mae canfyddiadau'r AoGCS ar y mater yn cefnogi'r dull hwn ac yn cefnogi rhinweddau gwaith pellach yn y gofod.

1.5 Y darlun cyffredinol o hygyrchedd cymorth cyfreithiol sifil

Canfyddiadau allweddol:

- Mae bod yn agored i niwed yn gyffredin ar draws y sylfaen defnyddwyr cymorth cyfreithiol sifil. Gall hyn gyflwyno rhwystrau mynediad a chymhlethu eu profiad o'r system.
- Gall lefelau isel o alluogrwydd ac ymwybyddiaeth gyfreithiol o gymorth cyfreithiol lesteirio ac atal unigolion rhag cael gafael ar gymorth cyfreithiol. Mae'n bosibl nad yw unigolion yn deall bod eu problem yn un gyfreithiol. Gall dealltwriaeth wael o gymhwysedd, cwmpas, a beth sy'n bosibl ei gyflawni drwy gymorth cyfreithiol osod beichiau ychwanegol ar ddarparwyr a all dreulio amser yn esbonio hyn.
- Gall cyfeirio a chyfryngwyr dibynadwy helpu i arwain unigolion at gymorth priodol ac i ddeall eu dewisiadau cyfreithiol.
- Nodwyd lefelau uchel o alw, gydag adroddiadau o ddarpar ddefnyddwyr yn cael anhawster i sicrhau darparwr cymorth cyfreithiol a darparwyr yn troi darpar gleientiaid i ffwrdd.
- Mae arwyddion y gallai problemau o ran y sector yn bodloni'r galw gael eu profi'n fwy difrifol mewn rhai rhanbarthau yng Nghymru a Lloegr a rhai categorïau o'r gyfraith (mewnfudo a lloches a thai yn ddwy enghraifft allweddol).

- Er bod adroddiadau o unigolion yn methu cael mynediad at gymorth cyfreithiol, tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael ar beth sy'n digwydd yn yr achosion hyn a byddai ymchwil bellach yn fuddiol. Gallai hyn fod yn arwain at angen cyfreithiol nas diwallwyd a gall gynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolion yn troi at gyngor heb ei reoleiddio neu'n mynd ymlaen fel ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.
- Mae unigolion yn aml yn cyflwyno problemau cyfreithiol a lles cymdeithasol clystyrog lluosog. Yn aml, byddant hefyd ond yn gofyn am gyngor pan fydd eu problem eisoes ar gam datblygedig – a all olygu bod eu hopsiynau cyfreithiol yn gyfyngedig
- Gall ymyrraeth gynnar helpu i fynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt waethygu a chlystyru, sy'n golygu y gallai atebion fod yn symlach ac yn rhatach.

Rhan 2: Effeithiolrwydd systemau cymorth cyfreithiol sifil

Er mwyn i gymorth cyfreithiol sifil weithredu'n briodol fel gwasanaeth i ddefnyddwyr, mae'n bwysig bod y system yn effeithiol ac yn galluogi defnyddwyr a darparwyr i ymgysylltu â hi, a'i llywio mewn ffordd effeithlon a syml.

Felly, bydd Rhan 2 yn canolbwyntio ar ganfyddiadau allweddol ynghylch effeithiolrwydd systemau cymorth cyfreithiol sifil o safbwyntiau defnyddwyr a darparwyr. Bydd yn edrych ar y baich o ofynion ariannol a thystiolaethol a rôl technoleg, gan ganolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd tybiedig, i gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol yn effeithlon. Bydd yn pwysleisio natur gymhleth prosesau gweinyddol a'r heriau a wynebwr gan ddefnyddwyr a darparwyr cymorth cyfreithiol, gan nodi'r angen am systemau symlach, gwell integreiddio technolegol, a dulliau sy'n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr.

2.1 Natur gymhleth a beichus systemau

Cyfeiriwyd yn aml ar draws yr AoGCS at y lefel o gymhlethdod sy'n gynhenid i lawer o'r system a'r rheoliadau cymorth cyfreithiol sifil fel rhwystr i effeithiolrwydd y system. Mae natur feichus systemau yn effeithio ar ddefnyddwyr a darparwyr ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod cwmpas i welliannau a fyddai'n fuddiol i'r ddau grŵp. Mae'r adran hon yn nodi gwahanol agweddau ar y system cymorth cyfreithiol y nodwyd problemau yn eu cylch, gan esbonio sut mae'r materion hyn yn effeithio ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth mae darparwyr gwasanaeth yn ei gyflenwi ac y mae defnyddwyr yn ei dderbyn.

Gofynion tystiolaethol ac ariannol

Cyfeiriwyd at y gofynion tystiolaethol ac ariannol presennol yn fwyaf aml fel rhwystr allweddol i'r rhai a oedd yn ceisio cymorth. Mae gofynion tystiolaethol caeth yn creu beichiau gweinyddol, yn creu oedi a gallai gyfyngu ar fynediad at gymorth cyfreithiol, yn benodol i unigolion agored i niwed. Pwysleisiodd yr Ymchwil Defnyddwyr bod y gofynion tystiolaethol ac ariannol yn her i lawer o ddefnyddwyr. Dywedodd y rhan fwyaf o'r

defnyddwyr y siaradwyd â hwy fel rhan o'r ymchwil bod angen tua phythefnos arnynt i gasglu'r ddogfennaeth ariannol ofynnol.

Fodd bynnag, dywedodd darparwyr a chyfryngwyr dibynadwy bod defnyddwyr yn profi anawsterau. Yn eu plith roedd: cael gafael ar slipiau cyflog, gwybod sut i gael mynediad at gyfriflenni banc, diffyg mynediad at y dechnoleg i argraffu dogfennau neu eu hanfon drwy e-bost neu'r llythrennedd digidol i wybod sut i wneud hynny. Cyfeiriwyd hefyd at y broblem o fynediad cyfyngedig at wasanaethau bancio wyneb yn wyneb. Trafododd rhai cyfranogwyr y gallai banciau neu bartïon eraill godi tâl ar eu cleientiaid i gael mynediad at yr holl waith papur angenrheidiol yn ffisegol os nad oedd ganddynt fynediad at e-bost i ddarparu'r gwaith papur yn ddigidol.

“Yn aml, mae gan gleientiaid ddiffyg dealltwriaeth o'r profion y mae angen iddynt eu bodloni er mwyn dangos eu bod yn gymwys. Gallwn geisio esbonio hyn cymaint â phosibl ond nid yw bob amser yn gweithio. Yn aml nid yw cleientiaid yn gwybod pam fod angen iddynt ddangos eu cyfriflenni banc ar gyfer dyddiadau penodol, na pham bod yn rhaid iddynt ddarparu llawer o wybodaeth i gynnal asesiad modd llawn. [Nid ydynt] yn deall cyflwyno tystiolaeth porth a pham yr oedd ganddynt gymorth cyfreithiol o'r blaen, ond ni allant ei gael yn awr.” **Darparwr, Lloegr**

Roedd cyfryngwyr dibynadwy wedi cael profiad o ddefnyddwyr heb unrhyw ôl-troed ariannol yn y DU a'u bod yn teimlo y gallai profi cymhwysedd fod yn fwy heriol i'r unigolion hyn.

“Weithiau maent mewn sefyllfa ryfedd iawn...nid oes ganddynt bob amser lawer o bethau i brofi pethau...yn arbennig os ydynt wedi profi cam-drin ariannol neu mae ganddynt bartner sy'n ymddwyn yn rheolaethol iawn. Felly efallai nad oes ganddynt waith papur yn eu henw. Efallai nad oes ganddynt gyfrif banc yn y wlad hon a phethau felly. Felly mae'n eithaf anodd iddynt ddod o hyd i'r holl dystiolaeth sydd ei hangen arnynt fel prawf.” **Cyfryngwr dibynadwy**

Roedd ymatebion y Cais am Dystiolaeth yn adleisio ei bod weithiau yn anodd i unigolion ddarparu dogfennaeth fel cyfriflenni banc. Roedd rhai o'r farn, er gwaetha'r ymdrechion i

symleiddio meini prawf cymhwysedd ariannol, er enghraifft asesiadau modd, mae'r broses yn parhau i fod yn feichus ac anghymesur, sy'n rhwystro unigolion rhag ceisio cymorth cyfreithiol. Roedd rhai o gyfranogwyr yr Ymchwil Defnyddwyr yn credu bod pobl hunangyflogedig yn cael mwy o anhawster na'r rhai â budd-daliadau pasbort, neu'r rhai mewn cyflogaeth, i brofi cymhwysedd ariannol os nad oedd ganddynt gofnodion digonol.

Mae'r gofynion ariannol hyn yn faich i ddarparwyr hefyd, oherwydd bod yn rhaid iddynt dreulio llawer o amser yn cefnogi eu cleientiaid i gasglu tystiolaeth. Eglurwyd, er mwyn pennu cymhwyster cleient ar gyfer cymorth cyfreithiol a chasglu'r dystiolaeth angenrheidiol, fod cwmnïau'n aml yn gorfod ariannu'r broses hon eu hunain fel cost busnes. Hyd yn oed wedyn gall fod yn heriol, ac weithiau bydd defnyddwyr yn amharod i ddarparu prawf cymhwysedd. Trafododd y cyfranogwyr amharodwydd cyffredinol i rannu'r lefel o fanylder sydd ei hangen gyda gweithwyr cyfreithiol proffesiynol neu gyda'r ACC. Dywedwyd y gallai'r amharodwydd hwn roi straen ar berthnasoedd gwaith. Roedd cyfranogwyr yn aml yn cysylltu'r agwedd hon at rannu dogfennau â'r ymwybyddiaeth isel o'r broses cymorth cyfreithiol sifil a drafodwyd yn gynharach a diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau/awdurdod.

Gall gofynion tystiolaethol fwyfwy heriol mewn rhai categorïau o'r gyfraith. Er enghraifft, dangosodd y ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr bod y gofyniad i ddarparu tystiolaeth o gam-drin domestig yn faes sensitif iawn i geisio casglu prawf ohono, gydag unigolion yn cael anhawster i ddarparu tystiolaeth ohono am eu bod mewn amgylchiadau heriol (er enghraifft mewn lloches heb fynediad at arian neu e-bost). Disgrifiodd y cyfranogwyr y gall greu anawsterau i'w perthnasoedd gwaith pan mae'n rhaid i ddarparwyr ofyn am dystiolaeth yn y camau cynharaf. Roeddynt o'r farn y gallai greu dymameg heriol pan fyddai'n rhaid iddynt ofyn i gleient yn ystod eu cysylltiad cyntaf â hwy am brawf o gam-drin domestig, am nad oedd gair cleient yn ddigonol at ddibenion symud achos ymlaen. Nododd Ymchwil Cynaliadwyedd Cymdeithas y Gyfraith⁶² y gall asesu cymhwysedd defnyddiwr fod yn arbennig o feichus mewn achosion cyfraith teulu preifat - gan amlygu yn yr un modd achosion cam-drin domestig, lle nad yw defnyddwyr yn aml yn gallu darparu'r lefel o wybodaeth sydd ei hangen. Mae'n ymddangos bod hyn yn cael effaith ar

⁶² [Cymorth cyfreithiol sifil: ymchwil cynaliadwyedd | Cymdeithas y Gyfraith](#)

benderfyniadau darparwyr, oherwydd mae rhai darparwyr yn disgrifio bod yn well ganddynt osgoi'r broses hon a blaenoriaethu meysydd o'r gyfraith nad ydynt yn galw am wiriadau cymhwysedd, h.y. cyfraith teulu cyhoeddus a gwaith trwyddedig. Pwysleisiodd ymatebwyr y Cais am Dystiolaeth y gallai'r gofynion tystiolaeth porth ddibynnu ar weithwyr proffesiynol eraill nad ydynt bob amser ar gael o bosibl, a all lesteirio mynediad at gymorth cyfreithiol,⁶³ er mai cymhlethdod y gofynion tystiolaeth a ddaeth i'r amlwg fwyaf fel rhwystr.

Crybwyllwyd enghraifft o ddiodefwr/*victim* cam-drin domestig na allent lywio'r system oherwydd anabledau dysgu – sy'n tanlinellu'r heriau a achosir gan ofynion tystiolaeth cymhleth, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n agored i niwed. O'u cymryd yng nghyd-destun ymwybyddiaeth a galluogrwydd cyfreithiol gwael, mae cymhlethdod y gofynion tystiolaeth yn cyfrannu at ddiffyg dealltwriaeth ymhlith defnyddwyr a darparwyr, sy'n golygu bod angen canllawiau a chymorth mwy hygyrch.

I wneud cais am gymorth cyfreithiol, mae'n ofynnol i ddefnyddwyr gwasanaeth ddatgan lle maent yn byw. Mae deddfwriaeth cymorth cyfreithiol yn gofyn am dystiolaeth o unrhyw lwfans maent wedi'i dderbyn, gall yr ACC ofyn hefyd am fanylion incwm y person yr oeddynt yn byw gydag ef/hi, a gall hyn gael effaith ar eu cymhwysedd i gael cymorth cyfreithiol. Dywedodd rhai cyfryngwyr dibynadwy bod defnyddwyr gwasanaeth sy'n ceisio lloches weithiau yn aros gyda ffrindiau neu gyfoedion tra bydd eu cais yn cael ei adolygu. Gall hyn achosi problemau pan fydd y cais yn ystyried incwm yr aelwyd, mae cyllid pobl eraill yn y cartref yn gwbl ar wahân i'r ymgeisydd.

Rhaid i rai pobl sy'n derbyn cymorth cyfreithiol sifil gyfrannu at rywfaint o'u costau cyfreithiol, gyda swm eu cyfraniad yn cael ei bennu yn ôl eu hincwm gwario misol neu eu hasedau cyfalaf. Pwysleisiodd y ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr y gallai talu cyfraniadau rhannol am gymorth cyfreithiol roi defnyddwyr mewn sefyllfa anodd a'u hannog i beidio â mynd ar drywydd datrysiad cyfreithiol. Esboniodd darparwyr, er bod y mwyafrif o gostau cyfreithiol defnyddwyr yn debygol o gael eu talu, gall cost cyfraniadau fod yn straen ariannol, gyda rhai'n cyfeirio at gostau byw cynyddol.

⁶³ O fis Chwefror 2023, mae gweithwyr meddygol proffesiynol wedi gallu darparu tystiolaeth ategol ar gyfer cais am gymorth cyfreithiol yn dilyn ymgynghoriad dros y ffôn neu drwy fideo-gynhadledd, yn hytrach na dim ond ar ôl ymgynghoriad wyneb yn wyneb.

Dywedodd cyfryngwyr dibynadwy bod ad-dalu cyllid cymorth cyfreithiol, yn cael effaith arwyddocaol ar statws ariannol defnyddwyr mewn rhai sefyllfaoedd. Ymhlith yr enghreifftiau roedd y 'tâl statudol' o dderbyn cyfandaliad mawr yn y dyfodol, pan fydd asedau'n cael eu gwerthu, ac mae asesiadau incwm presennol yn golygu bod yn rhaid i ddefnyddwyr dalu cyfraniad pan na allant ei fforddio'n ariannol.

Nododd rhai ymatebwyr yr her o geisio cael cymorth cyfreithiol oherwydd cyfalaf caeth. Efallai bod gan unigolion ased na allant gael mynediad ato, sy'n gallu effeithio ar eu cymhwysedd i gael cymorth cyfreithiol. Ymhlith y rhesymau pam na all rhywun gael mynediad at y cyfalaf hwn mae bod yn gaeth mewn perthynas ansefydlog, eu bod wedi'u hymrwymo mewn tŷ neu mewn gwlad arall. Dywedodd cyfryngwr dibynadwy, er bod canllawiau ar gyfalaf caeth wedi'u diweddarau, nid oeddynt yn cael eu deall yn eang gan staff cyfeirio o fewn eu helusen, neu ddarparwyr cymorth cyfreithiol. Maent yn credu y gall cyllid caeth ffurfio rhwystr i ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth agored i niwed gael mynediad at gymorth cyfreithiol. Dylid nodi, yn dilyn heriau yn y llys, y bydd yr ACC yn arfer disgrisiwn i anwybyddu cyllid caeth pan fydd angen, i osgoi mynd yn groes i hawliau dynol ymgeisydd. Mae'n bosibl bod diffyg ymwybyddiaeth o hyn, neu gall darparwyr fod yn amharod i fentro mabwysiadu'r dull hwn eu hunain wrth asesu cymhwysedd ariannol i gael help cyfreithiol.

Gweinyddiaeth

Un o'r materion a godwyd yn aml ar draws yr AoGCS yw natur lafurus y gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â chymorth cyfreithiol. Pwysleisiodd yr Arolwg Darparwyr mai gwaith gweinyddol oedd un o'r pwyntiau poen allweddol i'r rhai sy'n gweithredu yn y system. Mae nifer o wahanol fathau o feichiau gweinyddol, gan gynnwys: llywio'r system ffoedd; y broses filio; delio â defnyddwyr gwasanaeth; gofynion cymhwysedd/tystiolaethol; a llywio systemau/cyflwyno ceisiadau'r ACC. Mae'r tasgau hyn i gyd yn cymryd llawer o amser darparwyr ac mewn llawer o achosion nid yw'n bosibl bilio amdanynt ac ystyrir eu bod yn aneffeithlon ac yn cymryd swm anghymesur o'u hamser.

Pan ofynnwyd iddynt yn y Cais am Dystiolaeth pa newidiadau allai wella'r system, teimlai cyfran fawr o'r ymatebwyr fod angen lleihau beichiau gweinyddol. Datgelodd ymgysylltu ar draws yr Adolygiad bod darparwyr yn teimlo bod lefel y weinyddiaeth yn anghymesur ac yn

ddiangen o fiwrocraidaidd. Nid yn unig y ceir canfyddiad eang bod swm y fiwrocraetiaeth a'r gwaith gweinyddol wedi cynyddu, ond bod y math hwn o waith hefyd wedi dod yn fwy cymhleth oherwydd newidiadau yn y sector cymorth cyfreithiol – yn enwedig llywio'r system ffioedd sefydlog (trafodir hyn ymhellach yn Adran 3.2). Cafwyd awgrym gan rai cyfranogwyr eu bod yn credu mai'r newidiadau a wnaed gan LASPO oedd yn gyfrifol am y duedd hon.

“Biwrocraetiaeth - Mae biwrocraetiaeth ormodol yn broblem fawr i ddarparwyr cymorth cyfreithiol ac mae'n aml yn rhwystr i wneud gwaith cymorth cyfreithiol. Mae'n creu costau gweinyddol sy'n ddi-dâl ar y cyfan ac yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth y dasg graidd o gynorthwyo cleientiaid.” **Corff cynrychiadol**

Dywedodd darparwyr eu bod yn wynebu proses weinyddol feichus, gan gynnwys archwiliadau ac oedi wrth filio, sy'n tynnu oddi ar eu gallu i ganolbwyntio ar waith achos a gall greu straen ariannol. Er enghraifft, dywedodd un darparwr y gall archwiliadau blynyddol gymryd hyd at wythnos o waith, sy'n effeithio ar gyflenwi gwasanaeth. Roedd eiriolwyr yn cefnogi'r canfyddiad hwn, gan ddadlau bod y cynnydd mewn biwrocraetiaeth a gwaith gweinyddol yn achosi problemau oherwydd ei fod yn ddi-dâl, er bod gofyniad i gyflawni gwaith cymorth cyfreithiol sifil. Ystyriwyd ei fod yn ychwanegu at lwythi gwaith a oedd eisoes dan bwysau. Roedd y cyfranogwyr yn arbennig o bryderus ei fod yn cymryd amser oddi ar waith arall, gan gynnwys gweithio gyda chleientiaid a pharatoi ar gyfer eiriolaeth.

Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r Adolygiad yn awgrymu y gellid gwneud y gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â chymorth cyfreithiol yn fwy effeithlon a allai arbed amser i ddarparwyr a helpu i wella ansawdd a chyflymder y gwasanaeth mae defnyddwyr yn ei dderbyn.

Gweinyddiaeth: Contractau

Mae Contract Sifil Safonol 2024 yn llywodraethu'r ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol ym mhob categori sifil o'r gyfraith.⁶⁴ Mae'n cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i ddarparwyr eu cyflawni cyn y gellir dyfarnu contract cyfreithiol sifil iddynt o dan un neu fwy categori ac

⁶⁴ [Contract sifil safonol 2024 - GOV.UK](#)

mae'n rhaid iddynt gadw atynt yn ystod oes y contract. Nid oedd prif ffrydiau gwaith tystiolaethol yr Adolygiad yn canolbwyntio'n fanwl ar gontractau, ond mae'r ymgysylltiad gyda'r sector a'r Cais am Dystiolaeth yn pwysleisio materion y mae darparwyr yn eu profi gyda chontractau a materion y gellid eu gwella yn eu barn hwy. Dylid nodi, pan gasglwyd y dystiolaeth hon, y byddai'r adborth wedi bod yn berthnasol i Gontract Sifil Safonol 2018.⁶⁵

Nodwyd amllder y broses o dendro'r contract, a gynhelir bob tair i bum mlynedd, fel mater i'r rhai yn y sector.⁶⁶ Roeddynt yn dadlau nad yw amllder y broses dendro yn caniatáu hyblygrwydd digonol i ddarparwyr ymateb i newid yn y galw yn y farchnad. Ymhellach, maent yn awgrymu y gallai anhyblygrwydd y broses dendro atal darparwyr newydd rhag ymuno â'r farchnad. Ym mis Rhagfyr 2024, ail-agorodd yr ACC dendr Contract Sifil Safonol 2024 ac ymestyn y contract i Awst 2028, ei dymor hwyaf. Mae'r broses gaffael yn cyflwyno'r dull gweithredu "bob amser ymlaen" a ddefnyddiwyd yn y tendr ar gyfer contract trosedd safonol 2025. Mae'r newidiadau hyn yn galluogi newydd-ddyfodiaid i'r farchnad i wneud cais am gontract ar unrhyw adeg yn ystod oes y contract, gan ddileu terfynau amser caled sy'n gysylltiedig â'r broses ac sy'n rhoi sicrwydd i bob deiliad contract am dymor y contract. Bydd yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd ynghylch tendro cyfyngol.

Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod natur gymhleth y Contract Sifil Safonol yn cyfrannu ymhellach at y lefel uchel o waith gweinyddol sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith cymorth cyfreithiol. Ystyriwyd bod llawer iawn o reoleiddio yn gysylltiedig â'r contract, gyda'r contract ei hun yn ddogfen hir, yna darpariaethau categori-benodol a chanllawiau ychwanegol (yn ymwneud â phrosesau megis y prawf modd) sy'n arwain at gasgliad gweinyddol sylweddol. Er gwaethaf hyn, teimlwyd y gallai rhai agweddau ar y contract fod yn aneglur o hyd ac y gellid eu dehongli'n oddrychol. Gallai'r cymhlethdod hwn hefyd weithredu i atal darparwyr newydd rhag ymuno â'r farchnad.

Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y gallai'r ffordd mae'r contractau yn strwythuro'r broses filio greu problemau. Mae darparwyr yn derbyn taliadau ar gyfrif am waith a wneir

⁶⁵ [Contract sifil safonol 2018 - GOV.UK](#)

⁶⁶ [Cymorth cyfreithiol sifil: adolygiad o'i gynaliadwyedd a'r heriau i'w hyfywedd | Cymdeithas y Gyfraith](#)

ganddynt ar waith trwyddedig.⁶⁷ Er bod darpariaeth ar gyfer bilio fesul cam ar gyfer taliadau ym maes iechyd meddwl a mewnfudo a lloches, nid yw'r Contract Sifil Safonol yn darparu'r dull hwn o filio ar gyfer gwaith rheoledig yn gyffredinol, a all fod yn rhan fawr o'r gwaith cymorth cyfreithiol a wnânt i rai darparwyr.⁶⁸ Gall hyn olygu nad yw rhai darparwyr yn derbyn taliad am y gwaith hwn am gyfnodau o amser sylweddol ar ôl i'r gwaith ddechrau. Gall darparwyr fod yn gweithio ar symiau sylweddol o waith rheoledig na allant filio amdano, a allai roi straen ariannol arnynt. Mae rhai darparwyr wedi awgrymu y gellid talu taliadau ar gyfrif am waith rheoledig bob tri mis, yn unol â'r ffordd mae'r system yn gweithio ar gyfer gwaith trwyddedig i helpu i liniaru rhywfaint o'r baich ar ddarparwyr.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr ofynion hefyd fel presenoldeb gorfodol yn y swyddfa mewn categorïau lle mae'r mwyafrif o gleientiaid dan gadwad (er enghraifft cleientiaid yn y categori mewnfudo a lloches a allai fod dan gadwad mewn canolfannau mewnfudo, neu gleientiaid iechyd meddwl a allai fod dan gadwad mewn ysbyty), sydd, yn eu barn hwy, yn creu costau sylweddol heb iawndal cymesur, er mai lleiafrif o ddarparwyr fyddai hyn. Gall swyddfa barhaol greu cost gorbenion sylweddol i ddarparwyr. Yn yr un modd, mae'r uchafswm 50% ar gyngor o bell o fewn contractau yn peri pryder yn yr adborth a dderbyniwyd. Mae Contract Sifil Safonol 2024 yn caniatáu lwfans o 50% ar gyfer gweithio o bell (sy'n golygu na ddylai'r nifer o Faterion Gwaith Rheoledig pan na fydd y cleient yn mynychu swyddfa'r darparwr mewn person i wneud y cais fod yn uwch na 50%, ac eithrio achosion lle mae darparu gwaith o bell yn ofynnol fel addasiad rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Er y gall darparwyr ofyn am gynnydd i'r trothwy hwn, pwysleisiodd llawer ohonynt y byddent yn croesawu mwy o hyblygrwydd ynghylch y gofyniad hwn i gynnig darpariaeth o bell a chyfunol. Roeddynt yn credu y byddai hyn yn caniatáu iddynt ddarparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf addas i'w cleientiaid. Ar hyn o bryd mae'r contract yn caniatáu cyfran o 75% ar gyfer gwaith o bell mewn perthynas â'r contract mewnfudo.

⁶⁷ Mae'r ACC yn darparu taliad ar gyfrif i ddarparwyr ar gyfer rhywfaint o waith trwyddedig. Roedd hyn yn cynnwys yr ACC yn rhoi taliad ymlaen llaw i ddarparwyr tuag at gostau cyfreithiol cyn i'r achos gael ei gwblhau.

⁶⁸ Mae taliadau ar gyfrif yn galluogi darparwyr i hawlio costau cyfreithiol tra bydd yr achos yn cael ei gynnal, yn amodol ar y ffaith bod yr hawliad yn cyflawni'r rheolau a nodir gan yr ACC. Gellir hawlio taliadau ar gyfrif ar gyfer gwaith trwyddedig.

Bu galwadau gan randdeiliaid, gan gynnwys mewn nifer o ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth, i gontractau gael eu symleiddio i leihau'r beichiau gweinyddol a drafodir yn yr adroddiad hwn ac i roi mwy o eglurder i ddarparwyr.⁶⁹

Gweinyddiaeth: Bilio ac archwilio

Ar ôl dyfarnu contractau cymorth cyfreithiol sifil i gwmnïau, gallant gyflwyno hawliadau i'r ACC am daliad am eu gwasanaethau. Mae taliadau wedi'u cyfyngu'n gaeth i weithgareddau sy'n cael eu diffinio yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013 ar ôl i ddefnyddiwr dderbyn cymeradwyaeth gan yr ACC i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil. Cyflwynir hawliadau fel arfer drwy'r System Rheoli Costau Cleientiaid neu ar y porth ar-lein Gwaith ar Gontract a Gweinyddu (CWA).

Mae tystiolaeth yn dangos ar draws yr Adolygiad bod y broses filio yn feichus i ddarparwyr. Gall y gofynion hawlio fod yn fanwl iawn, sy'n adlewyrchu'n rhannol natur gymhleth y gofynion tystiolaethol a rheoliadol a nodwyd uchod, a hefyd am ei bod yn bwysig gwybod pa fathau o achosion yr ymgwymerir â hwy. Felly, gall gofynion hawlio gymryd cryn dipyn o amser i ddarparwyr eu llenwi a'u cyflwyno bob cyfnod.⁷⁰ Yn yr Arolwg Darparwyr, roedd 94% o'r ymatebwyr wedi profi problemau yn deillio o'r amser a oedd yn gysylltiedig â gwaith gweinyddol i gael eu talu – gyda 45% o'r ymatebwyr yn profi'r problemau hyn yn wythnosol. Er enghraifft, nododd darparwyr y bydd hawliadau'n cael eu gwrthod gan yr ACC, os nad yw cwmsler sy'n gweithio ar yr achos wedi cyflwyno hawliad ategol i'r ACC.⁷¹

Dywedodd cyfranogwyr yn yr Ymchwil Eiriolaeth a'r Cais am Dystiolaeth bod problemau hefyd o ran oedi taliadau a'r hyd o amser y gallai ei gymryd i dderbyn y taliad 'cywir' ar ôl cyflwyno bil achos. Er bod yr ACC wedi cyflawni ei Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn gyson ar dalu biliau, dywedodd cyfranogwyr y gallai gymryd amser i'r ACC wneud taliadau ar ôl i achos ddod i ben. Ystyriwyd bod y broses filio yn tynnu amser oddi wrth

⁶⁹ [Grŵp Gweithredu Cyfreithiol | Beth sydd ei angen ar ddarparwyr o gontractau cymorth cyfreithiol yn y dyfodol?](#)

⁷⁰ Ar gyfer ffioedd sefydlog, mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer hawliad yn gymharol gyfyngedig. Fodd bynnag, mae angen i ddarparwyr gofnodi gwybodaeth fanwl i gyfrifo faint y byddent yn cael eu talu o dan gyfraddau fesul awr rhag ofn i'r achos "ddianc" rhag y ffi sefydlog.

⁷¹ Am y tri mis hyd at Orffennaf 2024, prosesodd yr ACC 39,266 o filiau terfynol, gan wrthod 763 oherwydd nad oedd cwmsler wedi cyflwyno hawliad ategol (1.9%). Ffynhonnell: Data gweithredol yr ACC (efallai y bydd lwfans rhag ofn bach oherwydd bod hwn yn ddata gweithredol heb ei wirio, ond mae'n rhoi syniad o'r gyfradd wrthod)

ddelio ag achosion byw wrth i ddarparwyr ymdrechu i gwblhau gwaith gweinyddol er mwyn sicrhau taliad. Gall oedi wrth gyflwyno hawliadau a'r wybodaeth ofynnol achosi oedi wrth setlo gan yr ACC, gan fod ganddynt amseroedd terfyn caeth.

Oherwydd bod bargyfreithwyr yn dibynnu ar ddarparwyr yn eu cyfarwyddo, mae materion a brofir gan ddarparwyr felly yn bwydo drwodd iddynt. Yn ystod Cyfarfodydd Bord Gron bargyfreithwyr yr Adolygiad, nodwyd mewn rhai amgylchiadau, y gall bargyfreithwyr fod yn aros am daliad am waith cymorth cyfreithiol sifil am gyfnodau hir o amser – a ddisgrifiwyd fel bod â “hen ddyled”. Gallai lefel y gofynion gweinyddol olygu bod cyfreithwyr yn oedi cyn cyflwyno'r hawliadau hyn, gan achosi'r hen ddyled hon. Nodwyd bod hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â gwaith preifat lle gallwch gael eich talu mewn ychydig ddyddiau ar ôl i'r gwaith gael ei wneud a'i fod yn gweithredu fel ffactor allweddol i fargyfreithwyr sy'n dewis rhwng gwneud gwaith cymorth cyfreithiol sifil a gwaith preifat. Mae'r Ymchwil Eiriolaeth yn cefnogi hyn, lle nodwyd y gall oedi wrth dalu hefyd ddeillio o gyfreithwyr, trwy beidio â throsglwyddo'r ffi yn ddigon cyflym ar ôl i'r ACC wneud taliad. Roedd hyn yn arbennig o broblemus i fargyfreithwyr a oedd yn cymryd rhan ac a oedd yn hunangyflogedig, a oedd yn aml yn adrodd eu bod wedi cael profiad o aros am fisoedd lawer a hyd yn oed blynyddoedd i gael taliad. Mae gan ddarparwyr rwymedigaeth dan eu contract i wneud taliadau o fewn 30 diwrnod i anfoneb ddilys.⁷²

Mae gan weithgareddau gweinyddol cysylltiedig, er enghraifft cydymffurfio ag adolygiadau cyfoedion, archwiliadau, ymweliadau rheolwyr contractau, diweddariadau contractau ac apeliadau rôl bwysig yn rheoleiddio'r farchnad, ond mae pob un ohonynt yn creu gorbenion ychwanegol i ddarparwyr. Mae cyfran fach o ffurflenni'r ACC yn rhai papur yn hytrach na ffurflenni sy'n cael eu rheoli drwy byrth ar-lein (e.e. ffurflenni CW1, Ffurflenni Derbyn Contract Cwnsler ac yn y blaen). Yn yr Arolwg Darparwyr, dywedodd 80% o'r ymatebwyr eu bod wedi profi anawsterau gyda'r broses archwilio o leiaf unwaith, a dywedodd 39% o'r ymatebwyr bod anawsterau gyda'r broses archwilio gan yr ACC yn bwynt poen “a oedd yn debygol o atal eu darpariaeth gwasanaeth barhaus”.

Mae'n hollbwysig nodi bod y system hon yn chwarae rhan reoleiddiol bwysig hefyd wrth helpu i sicrhau gwerth am arian a'i bod felly'n bwysig gwneud cyfaddawdau effeithiol

⁷² Gweler is-gymal 3.3(b)(i) Telerau Safonol i'r Contract: [Telerau Safonol 2013](#)

rhwng y ffactorau hyn wrth ystyried ymyriadau i wella'r broses hon. Mae gan yr ACC Ddangosyddion Perfformiad Allweddol hefyd ar gyfer taliadau i ddarparwyr am dalu 95% o filiau cyflawn, cywir, cymwys o fewn 20 diwrnod gwaith. Rhagorodd yr ACC ar y targed hwn yn y 3 blynedd ariannol ddiwethaf, gan gyflawni cyfradd o 99%. Mae tensiwn yn bodoli rhwng safbwyntiau a fynegir gan ddarparwyr ar oedi wrth dalu a DPA yr ACC a gwybodaeth rheoli perfformiad sy'n dangos bod tua 85% o filiau'n cael eu talu'n llawn neu'n rhannol pan gânt eu cyflwyno gyntaf. Ar ôl i anfoneb gael ei derbyn gan yr ACC, caiff ei thalu o fewn yr amserlen a nodwyd.

Yn eu Hymchwil i'r Farchnad, roedd PA Consulting o'r farn y gallai'r materion hyn erydu unrhyw elw sydd ar gael o waith cymorth cyfreithiol sifil ac effeithio ar effeithlonrwydd cyffredinol y farchnad. Bydd effeithiau bilio ac anghymhellion ehangach yn y system yn cael eu harchwilio ymhellach yn Rhan 3 yr adroddiad hwn.

Gweinyddiaeth: Systemau TG

Mae tystiolaeth yn dangos bod systemau TG cymorth cyfreithiol, yn arbennig y System Rheoli Costau Cleientiaid (CCMS)⁷³ yn bwynt poen i ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil. Roedd y teimladau ynghylch y System yn gwbl negyddol, gyda darparwyr o'r farn ei bod yn feichus, yn "buggy" ac ailadroddus ei natur. Roedd cryfder y teimladau ynglŷn â'r mater hwn yn amlwg o'r ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth a'r ymgysylltu ar draws yr Adolygiad. Roedd darparwyr yn teimlo bod CCMS yn gweithio'n wael ar gyfer achosion cymorth cyfreithiol sifil ac roedd yn ymddangos nad oedd rhai yn ymwybodol bod hyfforddiant yn cael ei gynnig ar ddefnyddio'r system.⁷⁴ Mae taliadau am waith cymorth cyfreithiol yn cael eu hôl-lwytho a phan gyflwynir biliau am waith cymorth cyfreithiol, teimlai darparwyr eu bod yn aml yn cael eu lleihau a'u gwrthod heb unrhyw ymgynghori ymlaen llaw. Roedd cwblhau manylion achos yn creu rhwystredigaeth i ddarparwyr, gan egluro bod cyflawnrwydd manylion achos yn hanfodol ar gyfer llywio'r broses CCMS yn effeithiol, a'u

⁷³ Y system ar-lein, sy'n cael ei gweithredu gan yr ACC, ar gyfer darparwyr cymorth cyfreithiol sifil a theulu, sy'n galluogi cyfreithwyr, eiriolwyr, clerod a chyfreithwyr costau i reoli achosion, llwythi gwaith a biliau. Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: www.gov.uk/guidance/bringing-civil-legal-aid-processing-online

⁷⁴ Mae'r ACC yn cynnig arweiniad a chymorth i ddarparwyr drwy wefan hyfforddi o'r enw Legal Aid Learning sy'n helpu darparwyr drwy'r broses o wneud cais a bilio ar draws y systemau digidol a ddefnyddir ganddynt. Mae'r wefan yn cynnig modiwlau cwrs ar gyfer pob cam o'r broses ymgeisio / bilio, modiwlau ar-lein dan arweiniad hyfforddwr a gweminarau wedi'u recordio ymlaen llaw. Efallai nad yw darparwyr yn ymwybodol o hyn, neu'n teimlo y byddai hyfforddiant pellach o fudd.

bod yn canfod bod gwybodaeth anghyflawn yn peri rhwystrau sylweddol, gan wneud cynnydd yn “amhosib”. Roeddent yn credu bod diffyg effeithlonrwydd yn y broses ymgeisio, a oedd yn golygu bod angen gwneud ceisiadau dro ar ôl tro i newid cwmpas achosion. Roedd enghraifft yn canolbwyntio ar y buddsoddiad amser sylweddol sydd ei angen ar gyfer ailymgeisio oherwydd datblygiad achos.

“Rydym wedi canfod bod y System Rheoli Cleientiaid a Chostau yn llawer mwy cymhleth i’w defnyddio. Llauer mwy o waith papur ac yn llawer mwy biwrocraidd ac yn anoddach i’w defnyddio. Felly, mae hynny’n golygu bod cwmnïau a chwnsleriaid yn llai tebygol o dderbyn yr achosion hyn oherwydd ni fyddwch yn cael eich talu neu mae cymaint o fiwrocraatiaeth na chewch eich talu amdani.”

Cyfreithiwr, cyfraith mewnfudo a lloches, Lloegr

Adroddwyd bod yr offer Gwneud Cais am Gymorth Cyfreithiol Sifil yn aml yn methu, sy’n arwain at rwystredigaeth ac amheuon ynghylch ei ddibynadwyedd. Mae diffyg cymeradwyaeth oni fydd yr holl ofynion wedi’u diwallu yn creu risgiau, yn arbennig mewn achosion cymhleth, sy’n arwain at danddefnydd o’r offer. Mae’n werth nodi bod yn rhaid i ddarparwyr arddangos bod cleient yn cyflawni’r gofynion ym mhob amgylchiad, p’un a ydynt yn defnyddio’r offer Gwneud Cais am Gymorth Cyfreithiol Sifil, ai peidio. Er bod darparwyr yn teimlo y gallai diffyg hyder yng ngweithrediad yr offeryn arwain at fewnbynnu ychydig iawn o wybodaeth, gan rwystro’r broses ymgeisio o bosibl.

Trafododd y darparwyr a gymerodd ran yn yr Ymchwil Defnyddwyr bod “digideiddio’r” system gymorth cyfreithiol sifil wedi bod yn fuddiol i rai o’u cleientiaid ac roeddynt yn annog camau pellach a allai wella profiad y cleientiaid (trafodir y defnydd o dechnoleg ymhellach yn Adran 2.2). Roedd enghreifftiau penodol o welliannau presennol yn cynnwys llacio’r rheolau sy’n mynnu llofnodion “inc gwlyb” ar waith papur a gyflwynwyd yn ystod y pandemig COVID-19⁷⁵ (rhywbeth a adleisiwyd gan nifer o ymatebwyr y Cais am Dystiolaeth) a chynnwys y gwiriad budd-dal pasbort (fel y credyd cynhwysol) yn y CCMS. Trafododd y cyfranogwyr bod ddau welliant wedi ei gwneud yn haws i gleientiaid profi

⁷⁵ Mae llofnodion ‘inc gwlyb’ yn galw am lofnodi dogfennau yn ffisegol, yn hytrach na thrwy ddulliau llofnodi eraill, fel e-lofnodion’. Am wybodaeth bellach, gweler y canllawiau a ddarparwyd ar wefan gov.uk o dan ‘Coronavirus (COVID-19): working with clients’: www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-working-with-clients#using-digital-signatures

cymhwysedd a delio â'r broses weinyddol yn ogystal â lleihau'r oedi wrth ddatblygu achosion.

Roedd darparwyr o'r farn bod digon o gwmpas i wella'r CCMS, ac roedd y rhai yr ymgysylltwyd â hwy fel rhan o'r Ymchwil Defnyddwyr yn credu y byddai canllawiau cliriach ar y deunyddiau fformat i'w llwytho yn ddefnyddiol, yn ogystal â chynnwys mwy o ddata a ddelir gan adrannau'r llywodraeth, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau a Cyllid a Thollau EF a allai, yn eu barn hwy, helpu i leihau oedi a'r swm o dystiolaeth yr oedd angen i ddefnyddwyr ei chasglu i arddangos cymhwysedd. Rhannodd y cyfranogwyr hefyd y gallai porth i'r rhai sy'n gallu rhannu prawf cymhwysedd yn uniongyrchol gyda'r ACC, heb gynnwys eu cynrychiolwyr cyfreithiol, wneud y broses yn fwy effeithlon oherwydd gallai'r ACC gysylltu â chleientiaid yn uniongyrchol pe byddai angen gwybodaeth bellach arnynt. Mewn manau eraill, arweiniodd ymgysylltiad yr Adolygiad â darparwyr at welliannau pellach a awgrymwyd megis ychwanegu templedi ar gyfer achosion a gododd yn aml i leihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr. Mae CCMS yn blatfform digidol, ond unigolion sy'n ymgymryd â'r broses o wneud penderfyniadau ac weithiau mae darparwyr o'r farn y gall y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau wneud penderfyniadau anghywir.

Gwneud penderfyniadau

Mae'r teimlad a fynegwyd uchod yn dilyn ymlaen i ganfyddiadau am ddulliau gwneud penderfyniadau, dull gweithredu a pherthynas yr ACC gyda darparwyr. Yn Arolwg Darparwyr yr Adolygiad, y ffordd y mae'r ACC yn gwneud ei phenderfyniadau a greodd y trydydd lefel uchel o anfodlonrwydd (59%), ar ôl y system ffioedd (82%) a dim ond ychydig y tu ôl i'r gallu i greu gweithlu o safon (61%). Cyfeiriwyd yn benodol at seilwaith a phenderfyniadau'r ACC yn yr arolwg fel un o'r pwyntiau poen allweddol mwyaf rheolaidd (wythnosol) i ddarparwyr. Mae hyn yn dangos ymdeimlad o anfodlonrwydd ag arfer cyfredol a'r rheoliadau cymorth cyfreithiol y mae'n rhaid i'r ACC eu dilyn.

Er bod achosion lle'r oedd darparwyr yn ddiolchgar i'r ACC am arfer disgrisiwn neu roi arweiniad, yn gyffredinol, roedd teimlad y gellid gwneud gwelliannau pellach i'r ffordd y gwneir penderfyniadau er mwyn darparu mwy o gysondeb, eglurder a thryloywder. Mae anghysondebau mewn canlyniadau achos wedi'u nodi gan ddarparwyr, sy'n adrodd bod achosion tebyg yn derbyn triniaeth anghyson. Nodwyd anghysondebau o'r fath hefyd

mewn perthynas â bilio, gyda rhai yn adrodd ei bod yn ymddangos bod biliau cwnsler yn cael eu talu gyda lefelau is o graffu tra bod biliau cyfreithwyr yn destun gwiriadau mwy trylwyr.⁷⁶ Yn yr un modd, teimlwyd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud weithiau ac ychydig iawn o sail resymegol a ddarparwyd, neu y byddai gwrthodiadau (er enghraifft ar gyfer bilio) yn dod heb unrhyw ymgynghori ymlaen llaw. Aeth rhai darparwyr ymhellach yn eu beirniadaeth, gan deimlo bod y berthynas waith rhwng darparwyr a'r ACC yn wael. Roeddent yn teimlo y gallai'r berthynas fod yn wrthwynebol, ac yn gweld "diwylliant o wrthod", gyda'r ACC yn cael ei beio'n gyflym yn hytrach na blaenoriaethu addysg a chymorth, yn enwedig ar gyfer cwmnïau newydd neu fach sy'n gallu cael trafferth gyda gweinyddiaeth a rheolaeth. Mewn sawl achos, awgrymodd darparwyr y gallai hyfforddiant ychwanegol ar gyfer gweithwyr achos yr ACC ysgogi gwelliannau yn y maes hwn.

Yn gysylltiedig â hyn mae mater llai cyffredin a godwyd gan gyfreithwyr cyfarwyddo cyfranogol yn ystod yr Ymchwil Eiriolaeth ynghylch y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yr oedd yn ofynnol iddynt eu cyflawni. Mae DPA ar gyfer cwmnïau cymorth cyfreithiol wedi'u rhestru ym 'Manyleb Contract Sifil Safonol' yr ACC. Er y derbyniwyd yn gyffredinol bod rheoleiddio a safonau gofynnol yn bwysig, y farn gyffredinol oedd bod y DPA yn feichus ac y gallai gwallau gael eu cosbi'n llym.

Cyllid Achosion Eithriadol

Tystiolaeth gyfyngedig a gafwyd o'r AoGCS ynghylch Cyllid Achosion Eithriadol (CAE). Nid oedd llawer o dystiolaeth o hyn ar draws pedair ffrwd waith casglu dystiolaeth graidd yr AoGCS, ond codwyd hyn gan ddarparwyr yn ystod y broses ymgysylltu ac yn yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth. O ran Cyllid Achosion Eithriadol, roedd darparwyr o'r farn bod angen mwy o eglurder i ddefnyddwyr ar ba gymorth cyfreithiol sydd ar gael ar ôl derbyn achos. Awgrymodd yr ymatebion bod ceisiadau CAE yn llafurus ac yn feichus yn ariannol i ddarparwyr. O'r herwydd, prin y ceisir amdanynt, dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddynt wedi cael cais llwyddiannus ers blynyddoedd lawer. Lle ceisiwyd CAE yn llwyddiannus, esboniodd un darparwr, oherwydd clwstwr o faterion lloches, teuluol a thrais domestig y

⁷⁶ Mae gwahaniaethau rhwng cynlluniau ffioedd a allai gael effaith yma, er enghraifft, mae hawliadau'r Cynllun Eiriolaeth Teulu yn cael eu hardystio gan y llysoedd/farnwriaeth yn gyffredinol cyn cael eu cyflwyno i'r ACC.

cleient, nid oedd y cyfreithiwr a ariannwyd yn gallu cynorthwyo'n ystyrllon gan nad oedd yn deall pob maes.

“Ychydig iawn o bobl sy'n bodloni'r meini prawf ac i'r rhai sy'n eu bodloni, nid oes llwybr gwneud penderfyniadau brys a gall yr ACC gymryd amser i wneud penderfyniadau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddeiliaid contract cymorth cyfreithiol, nad oes ganddynt y gallu i ymgymryd ag achosion yr holl bobl gymwys sy'n dod atynt ag achosion teilwng, yn amharod i dderbyn ceisiadau am gyllid achosion eithriadol gan nad oes sicrwydd y cânt eu talu am eu gwaith.” **Canolfan y gyfraith**

Ystyriwyd y gellid symleiddio'r rheoliadau a'r canllawiau CAE. Dywedodd darparwyr bod y broses o wneud cais am CAE yn gymhleth, gan atal darparwyr ac unigolion rhag ceisio cymorth. Nid oes llawer o obaith i ddefnyddwyr agored i niwed ddeall CAE os yw darparwyr yn cael anhawster weithiau, gyda cheisiadau uniongyrchol am CAE yn arbennig o heriol i unigolion heb gynrychiolaeth gyfreithiol. Yn ystod yr Ymchwil Defnyddwyr, rhoddwyd enghraifft gan gyfryngwr dibynadwy yn y sector elusennol mewnfudo o sut y gall fod yn anodd i gyfryngwyr dibynadwy ddeall pryd y gallai unigolyn fod yn gymwys i gael CAE. Roedd darparwyr o'r farn bod angen symleiddio'r broses o wneud ceisiadau uniongyrchol i sicrhau hygyrchedd a chymorth amserol. Dywedodd darparwyr bod ganddynt rôl allweddol yn herio ceisiadau CAE sy'n cael eu gwrthod, ar ran unigolion nad ydynt wedi gallu gwneud hynny'n annibynnol o bosibl.

Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n derbyn achosion CAE oherwydd y risgiau cysylltiedig tybiedig, er enghraifft oedi gydag amseroedd prosesu a chanlyniadau annisgwyl. Dywedwyd y gall gymryd hyd at 10 diwrnod i gymeradwyo a chyflwyno cais CAE, heb gadarnhad o brosesu.

Cyfeiriodd darparwyr at yr oedi wrth ryddhau cyllid hyd yn oed ar ôl cymeradwyo CAE, sy'n hwyhau'r broses ac yn gadael unigolion mewn sefyllfa o ansicrwydd. Dadleuodd darparwyr bod oedi mewn achosion brys yn pwysleisio absenoldeb gweithdrefn frys effeithiol ar gyfer CAE. Roedd llawer o'r farn bod yr heriau sy'n gysylltiedig â'r broses yn arafu'r ddarpariaeth o gynrychiolaeth gyfreithiol. Mynegodd rhai bryderon penodol am ddiffyg darpariaeth cymorth cyfreithiol mewnfudo, gan ddatgan bod hyn yn golygu bod ceisiadau

CAE a wneir yn uniongyrchol gan gleientiaid yn 'wastraff amser ac ymdrech' oherwydd mae'n ddigon posibl na fydd ymgeiswyr yn llwyddo i sicrhau darparwr cymorth cyfreithiol hyd yn oed os bydd eu cais wedi'i gymeradwyo.

"Mae'r broses [CAE] yn rhy gymhleth i unigolion fynd i'r afael â hi heb gymorth gweithiwr cyfreithiol proffesiynol, er hynny, mae risg o wneud cais am CAE, oherwydd dim ond os bydd y cais yn llwyddiannus y caniateir cyllid. Ni all cyfreithwyr gymeradwyo cyllid eithriadol eu hunain, a rhaid anfon pob cais am CAE i'r ACC. Amser targed yr ACC ar gyfer ymateb i gais cychwynnol yw 25 diwrnod gwaith, a'r amser targed ar gyfer ymateb i gais brys yw deg diwrnod gwaith. Mae ymarferwyr wedi dweud wrthym drwy'r Ymchwiliad San Steffan bod y broses o wneud cais am CAE yn llafurus, yn feichus ac yn arwain at oedi." **Corff cynrychiadol**

Dyweddodd nifer o ymatebwyr hefyd bod cyfradd gymeradwyo gymharol uchel ar gyfer CAE mewn rhai mathau o achosion CAE (gan gynnwys achosion mewnfudo). Roedd rhai ymatebwyr yn credu y gallai fod yn fuddiol ystyried dychwelyd achosion lle mae ceisiadau CAE yn cael eu cymeradwyo i gwmpas cymorth cyfreithiol fel mater o drefn, neu roi gweithdrefn ymgeisio symlach ar waith ar gyfer achosion o'r fath. Credai darparwyr fod angen proses fwy syml a deinamig, gyda rhai'n dweud y byddai gweithredu cyllid ar unwaith ar ôl derbyn cymeradwyaeth CAE yn lleihau'r oedi ac yn darparu cymorth amserol. Byddai angen mwy o ymchwil wedi'i dargedu i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar yr agwedd hon o'r system cymorth cyfreithiol sifil.

leithoedd

Mae'r adroddiad hwn eisoes wedi trafod y gallai defnyddwyr cymorth cyfreithiol sifil wynebu rhwystrau ieithyddol, ond mae'n amlwg hefyd nad yw'r system wedi'i hoptimeiddio ar gyfer unigolion sy'n profi'r rhwystr hwn. Efallai y bydd angen cyfieithydd ar ddefnyddwyr o'r fath i gael mynediad effeithiol i'r system cymorth cyfreithiol ac ymgysylltu â hi. Canfu ffrwd waith Ymchwil Defnyddwyr adroddiadau am anawsterau wrth ddod o hyd i gyfieithydd sy'n meddu ar gymwysterau addas ac sy'n barod i weithio am gyfraddau cymorth cyfreithiol (yr ystyriwyd nad oeddynt yn gystadleuol). Roedd hwn yn ffactor arall a allai achosi oedi i'r broses gyfreithiol.

Cyfeiriwyd at gostau ac ansicrwydd cyllid wrth drafod mynediad at wasanaethau cyfreithiol i'r rhai â lefel isel o hyfedredd Saesneg neu'r rhai sydd angen dehonglydd iaith arwyddion. Byddai'n rhaid i sefydliadau dalu costau dehongli cychwynnol yn aml nes y byddai'r cymorth cyfreithiol yn weithredol, lle caniateir dehongli fel alldaliad, a thrafodwyd anawsterau wrth ddod o hyd i'r gwasanaethau hyn a thalu amdanynt pe bai ansicrwydd ynghylch a fyddai cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei ganiatáu.

“Mae angen i ni fod yn agored, mae angen i ni fod yn hygyrch, waeth beth fo iaith neu anabledd pobl. Y gwir amdani yw na allwn ysgwyddo baich ffioedd cyfieithydd.” **Darparwr**

Mae darparwyr yn aml wedi gorfod delio â'r mater hwn ar ran defnyddwyr, a roddodd faich ychwanegol arnynt. Gallai darparwyr â chysylltiadau i elusennau lleol ddefnyddio'r sefydliadau hyn i ddarparu gwasanaethau cyfieithu. Trafododd darparwyr mawr eu bod yn gorfod dibynnu ar sgiliau ieithyddol staff eraill yn eu sefydliadau i'w helpu. Pwysleisiodd cyfranogwyr y pwysigrwydd o gael cyfieithydd cyson a dibynadwy, sydd â phrofiad o weithio'n aml gyda chleientiaid agored i niwed, yn arbennig y rhai yn y meysydd ymarfer teulu a mewnfudo.

Cododd darparwyr yng Nghymru fater hygyrchedd yr iaith Gymraeg. Mae diffyg cefnogaeth i'r Gymraeg yn y llysoedd, er ei bod yn iaith y llysoedd, a all fod yn rhwystr ychwanegol i fynediad. Dywedodd darparwyr yng Nghymru fod gostyngiad yn nifer yr ymarferwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, oherwydd y gostyngiad yn nifer yr ymarferwyr yn gyffredinol.

2.2 Y defnydd o dechnoleg

Mae'r adran hon yn archwilio'r defnydd o dechnoleg yn y system cymorth cyfreithiol sifil ac yn crynhoi rhai o'r safbwyntiau a'r ystyriaethau pwysig i'w hystyried wrth bwysu a mesur sut i wneud y defnydd gorau o'r system cymorth cyfreithiol sifil yn y dyfodol (mae'r Adran 2.1 flaenorol eisoes wedi trafod defnydd yr ACC o dechnoleg). Yn y sector cymorth cyfreithiol, mae'r defnydd o dechnoleg wedi esblygu. Yn draddodiadol mae cymorth cyfreithiol wedi bod yn wasanaeth wyneb yn wyneb yn bennaf. Mewn rhai categorïau o'r gyfraith, mae darparwyr arbenigol yn cynnig cyngor dros y ffôn drwy linell gymorth Cyngor

Cyfreithiol Sifil. Fodd bynnag, ar draws y maes cymorth cyfreithiol sifil, mewn ymateb i ddyfodiad y pandemig COVID-19, ysgogwyd darparwyr i gynyddu'r defnydd o dulliau digidol o weithio a'u symleiddio. Datblygodd y sector cyngor cyfreithiol dulliau cyfunol, gyda chymysgedd o gyflenwi yn bersonol ac o bell yn cael ei ddefnyddio.

Siaradodd llawer o ddarparwyr yn frwdfrydig am ddefnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau yn fwy hyblyg, a'u galluogi i gyrraedd cleientiaid y tu hwnt i'w hardaloedd daearyddol agosaf. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i wanhau gan ofyniad amlwg i gynnal ansawdd a natur leol gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaeth wyneb yn wyneb i'r unigolion a'r sefyllfaoedd lle mae hynny'n fwyaf priodol. Mynegwyd pryderon ynghylch materion mynediad digidol yn gwaethygu i grwpiau penodol o ddefnyddwyr. Mae'r dirwedd hon sy'n esblygu yn tanlinellu'r angen dybryd am ymagwedd gytbwys sy'n harneisio potensial technoleg wrth ddiogelu rhag ei pheryglon a sicrhau mynediad teg i gyfiawnder i bawb.

Safbwyntiau cymysg ar gyflenwi gwasanaeth digidol

Roedd y canfyddiadau ynglŷn â thechnoleg gymysg ar draws yr Adolygiad a gellir eu crynhoi gan ddwy o'r "egwyddorion arfer gorau" a ddatblygwyd gan y Tîm Arloesedd Agored fel rhan o'r ffrwd waith Dadansoddiad Cymharol.⁷⁷ Roedd un egwyddor yn canolbwyntio ar bwysigrwydd defnyddio offer technolegol a digidol. Cafwyd cydnabyddiaeth eang bod technoleg a digideiddio yn dulliau i alluogi gwasanaethau cyfreithiol gwell i ddefnyddwyr a darparwyr. Mae technoleg yn helpu i optimeiddio prosesau cyfreithiol, cyfuno ystod eang o wybodaeth a gwasanaethau, a darparu hygyrchedd o bell i rai defnyddwyr. Yn y tymor hwy, bydd datblygiadau fel datblygiad Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, deallusrwydd peiriannau a data clyfar yn cael effeithiau mwy trawsnewidiol ar y sector cyfan, er enghraifft wrth ddefnyddio datrysiadau amgen ar gyfer anghydfodau a helpu i alluogi dulliau atal a gwneud datrysiadau cynnar. Dylid cydnabod nad yw'r Adolygiad wedi casglu llawer o dystiolaeth ar rai o'r defnyddiau mwy tymor hwy ac uchelgeisiol o dechnegol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymchwilio i'r ffordd orau o roi technoleg ar waith mewn system gyfiawnder fodern ac effeithiol.

⁷⁷ Llywiwyd yr egwyddorion hyn gan ddarpariaeth cymorth cyfreithiol sifil effeithiol yng Nghymru a Lloegr a'r chwe system gymharu. Cawsant eu sefydlu trwy ymchwil ac ymgysylltiad y Tîm Arloesedd Agored â 45 o arbenigwyr domestig a rhyngwladol a thrwy brofi mewn gweithdai arbenigwyr, rhanddeiliaid ac ymarferwyr.

Roedd yr ail egwyddor, sy'n ymwneud â'r defnydd o dechnoleg, ac sy'n cynrychioli ochr arall y geiniog, yn datgan ei bod yn hollbwysig "Deall y risgiau o allgáu digidol a phwysigrwydd cymorth wyneb yn wyneb mewn rhai cyd-destunau". Nid yw technoleg yn ateb i bob problem ym maes cymorth cyfreithiol. Mae yna ffactorau i'w hystyried wrth ei gweithredu, yn fwyaf nodedig y risgiau o allgáu digidol a thechnolegol. Yn ogystal, yn aml gellir mynd i'r afael yn well ag achosion mwy cymhleth wyneb yn wyneb, yn arbennig ar gyfer achosion â materion sensitif iawn neu er mwyn datblygu ymddiriedaeth rhwng darparwyr a chleientiaid.

Adleisiwyd y safbwyntiau hyn ar draws canfyddiadau'r Adolygiad. Roedd darparwyr a gyfranogodd yn yr Ymchwil Defnyddwyr yn croesawu'r defnydd o dechnoleg i ddarparu eu gwasanaethau'n fwy hyblyg a nodwyd y gallu i gyrraedd cleientiaid y tu hwnt i'w hardaloedd arfer agosaf. Ar yr un pryd, pwysleisiodd llawer ohonynt bod angen i gleientiaid gael y dewis o wasanaethau cyfreithiol lleol ac o safon, fel arall gallai waethygu materion hygyrchedd digidol i rai grwpiau cleient. Roedd barn gyffredinol ymysg y darparwyr y dylai'r dull cyflenwi gael ei lywio i raddau helaeth gan ddymuniadau'r cleientiaid. Trafododd rhai cyfranogwyr bod defnyddio mwy o ddulliau cyfathrebu o bell yn galluogi i rai cleientiaid chwilio am y darparwyr cymorth cyfreithiol gorau iddynt, rhai ag arbenigeddau penodol neu enw da. Dywedodd y cyfranogwyr bod rhai cleientiaid yn blaenoriaethu arbenigedd mewn categori penodol o'r gyfraith dros gyfleuster dull cyfathrebu lleol, wyneb yn wyneb, a dewis rhyngweithio o bell yn lle hynny. Roedd cyfranogwyr a oedd yn ymarfer mewn categorïau â llai o ddarparwyr yn aml yn gweld cleientiaid o'r tu allan i'w hardal leol. Ar yr un pryd, roedd y cyfranogwyr yn tueddu i ffafrio o leiaf rhywfaint o rhyngweithio wyneb yn wyneb â chleientiaid, gyda'r cyfarfod cychwynnol fel arfer yn cael ei gynnal yn bersonol lle bo modd.

"Rwy'n teimlo bod hyn yn gwneud iddynt deimlo'n fwy o ran o'r broses a gall, gallwch deimlo wedi'ch datgysylltu os gwneir popeth dros y ffôn neu ar gyfrifiadur."

Darparwr

"Mae angen llawer o waith datblygu perthynas yn [y categori hwn o'r gyfraith], a byddai'n well gen i fynd i weld y [cleient] y byddaf yn eu cynrychioli wyneb yn wyneb a cheisio datblygu rhyw gydberthynas gyda hwy. [...] Rwy'n credu fod hynny'n bwysig iawn yn ein gwaith." **Darparwr**

Roedd y ffyrdd yr oedd darparwyr yn rhyngweithio gyda defnyddwyr yn amrywio, gyda gwasanaethau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb ac o bell. Roedd yn amlwg sut yr ysgogodd y cyfyngiadau COVID-19 addasiadau cyflym i'r dulliau o gyflenwi gwasanaeth, gyda llawer o ddarparwyr yn arddangos gwytnwch yn y modd yr oeddent yn symud i ffyrdd o weithio o bell yn gyntaf i gadw'r sector yn weithredol. Nid oedd rhai o'r defnyddwyr yr ymgysylltodd yr Adolygiad â hwy erioed wedi cyfarfod â'u darparwr yn bersonol yn ystod yr achos oherwydd cyfyngiadau yn ystod y pandemig. Credai rhai defnyddwyr fod hyn yn gweithio'n dda a bod yn well ganddynt y ffordd hon o gyfathrebu, tra bod eraill yn disgrifio cyswllt wyneb yn wyneb fel eu dewis dull cyswllt oherwydd ffactorau eraill, gan gynnwys Saesneg fel ail iaith.

Mynegodd llawer o ymatebwyr y Cais am Dystiolaeth ddyhead am fwy o opsiynau i gael gwrandawiadau o bell a mwy o hyblygrwydd mewn contractau i alluogi i gyngor gael ei ddarparu o bell (a drafodwyd eisoes yn Adran 2.1). Roedd rhai o'r farn bod mwy o gleientiaid yn dewis mynd i'r afael â'u hanghenion o bell ac roeddynt yn credu bod cyfle'n bodoli i gynyddu hygyrchedd cymorth cyfreithiol pe byddai newidiadau'n cael eu cyflwyno'n briodol.

Hygyrchedd, allgáu digidol a galluogrwydd

Yn aml iawn, bydd yn rhaid cynnal unrhyw gyswllt fideo o bell dros ffôn y cleient, yn hytrach na chyfrifiadur personol neu liniadur. Clywodd yr Adolygiad bod darparwyr a chyfryngwyr dibynadwy yn defnyddio ffonau symudol yn aml i gyfathrebu gydag unigolion ac i gyflenwi gwasanaethau. Mae cleientiaid cymorth cyfreithiol yn gwneud mwy o ddefnydd o'u ffonau symudol, gan ddefnyddio negeseuon testun a WhatsApp i gyfathrebu. Dysgodd yr Ymchwiler Defnyddwyr hefyd fod cyfryngwyr dibynadwy yn darparu technoleg i gleientiaid mewn rhai amgylchiadau er mwyn cadw mewn cysylltiad. Mae'n nodedig bod y rhai sy'n darparu gwasanaethau yn dod o hyd i atebion ar gyfer gallu digidol gwael a'u bod yn defnyddio technoleg i fynd i'r afael â llythrennedd a dealltwriaeth wael. Dywedodd sawl cyfryngwr dibynadwy eu bod yn defnyddio nodiadau llais WhatsApp fwyfwy oherwydd bod eu cleientiaid yn deall yr hyn y maent yn ei ddweud, ond nid eu hysgrifennu. Dywedodd un cyfryngwr dibynadwy fod ei sefydliad yn defnyddio meddalwedd darllen Sonos i leihau'r rhwystr darllen hwn. Mae'r meddalwedd yn anfon dolen i gleientiaid sy'n darllen yr e-bost neu'r diweddariad ar lafar fel y gall y person ei ddeall. Er y gall ffonau symudol ei gwneud

yn haws cyfathrebu â chleientiaid, i ddarparwyr gall olygu cam gweinyddol ychwanegol i gael y negeseuon hynny ar ffeiliau.

Yn aml, clywodd yr Adolygiad bod hygyrchedd technoleg yn creu heriau ar gyfer darparu cyngor o bell. Mae'r allgáu digidol hwn, sy'n cael ei waethygu gan ffactorau fel diffyg Wi-Fi neu gynlluniau data, yn llesteirio cymorth o bell, yn arbennig i grwpiau agored i niwed, fel y rhai sy'n ceisio cyngor cyfreithiol am dai. Yn y DU yn 2021, amcangyfrifir nad oedd gan 1.7 miliwn o gartrefi unrhyw gysylltiad band eang na rhyngwyd symudol.⁷⁸ Nid allgau digidol yw'r unig ffactor, hyd yn oed pan allai fod gan unigolion fynediad at dechnoleg, gall y lefelau galluogrwydd fod yn isel. Ni all 2.4 miliwn o oedolion gwblhau tasg sylfaenol unigol i fynd ar-lein, er enghraifft agor porwr y rhyngwyd.⁷⁹ Er bod cynnydd yn cael ei wneud yn gyson ar alluogrwydd digidol, amcangyfrifir bod gan chwarter poblogaeth y DU alluogrwydd digidol isel iawn.⁸⁰ Mae'r gyfran hon yn debygol o fod yn uwch ymhlith y boblogaeth sy'n gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol.⁸¹ Gallai cynyddu'r defnydd o lwyfannau digidol yn y gofod cymorth cyfreithiol fod o anfantais i lawer o bobl, yn fwyaf tebygol y rhai mwyaf agored i niwed, sy'n golygu bod mynediad i leoliad ffisegol yn hanfodol i rai pobl ac y dylai allgáu digidol a galluogrwydd digidol fod yn ystyriaeth allweddol ar gyfer datblygu polisi.

Mynegwyd pryder penodol bod defnyddwyr o leiafrifoedd ethnig ac sy'n wynebu rhwystrau ieithyddol yn llawer llai tebygol o geisio cael mynediad at wasanaethau o bell. Yn yr un modd, mae mwy o rwystrau'n bodoli i'r rhai o fewn y gofod mewnfudo a lloches a'r rhai sy'n profi digartrefedd. Rhoddwyd yr enghraifft o unigolion mewn canolfannau cadw yn canfod bod mynediad at rwydwaith a ffôn ar gyfer darpariaeth o bell yn broblemus.

Safon y gwasanaeth ac ystyriaethau eraill

Mae canfyddiadau o'r Adolygiad yn awgrymu, mewn rhai amgylchiadau, y gall gwasanaeth wyneb yn wyneb alluogi safon gwasanaeth sy'n haws i'w gyflawni o bell. Mae'r adroddiad hwn eisoes wedi trafod lefelau isel o alluogrwydd cyfreithiol a rhwystrau posibl i ddeall, er

⁷⁸ [Ofcom, Adroddiad Connected Nations UK, 2022](#)

⁷⁹ [Ofcom, Adroddiad Defnydd Oedolion o'r Cyfryngau a'u Hagwedd at y Cyfryngau, 2022](#). Gweler hefyd, adroddiad [Allgáu digidol yn y DU: Pwyllgor Cyfathrebu a Digidol – Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi](#) (2023)

⁸⁰ [Adroddiad mynegai digidol defnyddwyr Lloyds, 2023](#)

⁸¹ [Comisiwn San Steffan ar Gymorth Cyfreithiol](#): Ymchwiliad i Gynaliadwyedd ac Adferiad y Sector Cymorth Cyfreithiol, Hydref 2021.

enghraifft llythrennedd a dealltwriaeth wael, y gellir mynd i'r afael â'r ddau yn haws wyneb yn wyneb. Nododd ymatebwyr y Cais am Dystiolaeth y gall rhai cleientiaid sy'n colli eu clyw a chleientiaid ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau gael anhawster i reoli galwadau ffôn neu fideo, er enghraifft y rhai sy'n colli ei clyw a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau. Yn ogystal, gall fod yn anodd mesur dealltwriaeth drwy fideo/dros y ffôn mewn amgylchiadau o'r fath. Wyneb yn wyneb, roedd rhai darparwyr o'r farn eu bod yn gallu esbonio terminoleg gyfreithiol yn well, sicrhau bod gan gleientiaid ddealltwriaeth briodol o sefyllfaoedd a theilwra eu dull cyfathrebu. Roedd rhai o gyfranogwyr yr Ymchwil Eiriolaeth o'r farn bod defnyddio gwrandawiadau o bell yn cyfyngu'r swm o eiriolaeth yr oedd cleientiaid yn ei dderbyn a'i safon, ac roedd gan gleientiaid â llythrennedd digidol isel, fynediad cyfyngedig at ddyfeisiau a mynediad gwael i'r rhyngwyd.

Roedd darparwyr ac arbenigwyr yn aml yn pwysleisio, ar gyfer yr achosion hynny sy'n fwy cymhleth, neu sydd â lefel uwch o sensitifrwydd, nad darparu gwasanaeth o bell yw'r opsiwn mwyaf addas. Mae gwasanaeth personol yn caniatáu i ddarparwyr lywio cymhlethdod achosion o'r fath ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â chleientiaid sy'n profi rhwystrau oherwydd eu bod yn agored i niwed. Trafodwyd achosion cam-drin domestig, a'r teimlad cyffredinol oedd nad yw cyngor o bell yn addas i rai dioddefwyr cam-drin domestig oherwydd pryderon diogelwch. Ystyrir bod rhyngweithio wyneb yn wyneb yn fwy diogel ar gyfer sgrinio a chymorth priodol, gan ystyried y posibilrwydd o fonitro defnydd y ffôn a'r rhyngwyd gan gamdrinwyr. Mae angen amgylcheddau diogel ar ddioddefwyr cam-drin domestig i dderbyn cymorth, ymhell o unrhyw fonitro neu olrhain posibl gan gamdrinwyr.

Awgrymodd yr Ymchwil Eiriolaeth bod risgiau diogelu data yn gysylltiedig â darparu gwasanaeth o bell, yn arbennig i unigolion y gallai fod angen iddynt ddefnyddio caffis rhyngwyd i gael mynediad at ddogfennau cyfreithiol a'u hargraffu. O ran gwrandawiadau o bell, nododd darparwyr y gallai cleientiaid deimlo rhyddhad i ddechrau na fyddai angen iddynt deithio i/y mddangos mewn gwrandawiad ffurfiol, ond y gallent deimlo'n bryderus iawn wedi hynny am nad oedd y dechnoleg ofynnol yn gyfarwydd iddynt. Dywedodd darparwyr a gyfranogodd yn yr Ymchwil Defnyddwyr, a oedd yn gwasanaethu cleientiaid agored i niwed, bod yn well ganddynt ddarparu'r dewis i gleientiaid fynychu gwrandawiadau o bell o swyddfa'r darparwyr. Ystyriwyd hyn gan y cyfranogwyr fel ffordd i

fynd i'r afael â diffyg mynediad posibl at dechnoleg neu breifatrwydd ar gyfer cyfranogi o bell yn y gwrandawiadau, a darparu cymorth yn ystod y gwrandawriad a'i drafod yn syth wedyn gyda'u cynrychiolydd cyfreithiol.

2.3 Y darlun cyffredinol o effeithiolrwydd systemau cymorth cyfreithiol sifil

Canfyddiadau allweddol:

- Cyfeiriwyd yn aml at ofynion tystiolaethol ac ariannol fel rhwystr i effeithiolrwydd y system. Roedd defnyddwyr yn cael anhawster i ddeall a chael gafael ar y prawf angenrheidiol. Gall hyn arwain at oedi a rhoi baich ar ddarparwyr a chyfryngwyr dibynadwy sy'n cynorthwyo defnyddwyr.
- I ddarparwyr, cyfeiriwyd yn benodol at weinyddiaeth cymorth cyfreithiol fel pwynt poen allweddol.

- Ystyriwyd bod contractau cymorth cyfreithiol yn rhy gymhleth ac yn gosod cyfyngiadau ar ddarparwyr, er enghraifft ffenestri tendro cyfyngol a gofynion gweithio yn y swyddfa ac o bell.
- Ystyriwyd bod bilio ac archwilio yn brosesau llafurus a hir.
- Mae systemau TG cymorth cyfreithiol yn bwynt poen arall i ddarparwyr. Roedd darparwyr o'r farn bod systemau yn gwneud y gwaith yn fwy anodd.
- Yn yr Arolwg Darparwyr, roedd y ffordd mae'r ACC yn gwneud penderfyniadau yn ennyn anfodlonrwydd. Mae'r teimladau a fynegwyd gan ddarparwyr yn awgrymu y gellid gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu cyfleu ac i'r berthynas rhwng darparwyr a'r ACC.
- Ystyriwyd bod y broses CAE yn rhy gymhleth, ei bod yn anodd ei llywio ac yn araf. Adroddodd rhai lefel uchel o ansicrwydd ynghylch cyllid, ac roedd eraill o'r farn bod mathau penodol o achosion yn aml yn cael eu cymeradwyo a gofynnwyd iddynt gael eu cynnwys yng nghwmpas cymorth cyfreithiol, neu symleiddio ceisiadau CAE.
- Gall fod yn heriol sicrhau cyfieithwyr sy'n barod i ymgymryd â gwaith am gyfraddau cymorth cyfreithiol.
- Roedd llawer o ddarparwyr a defnyddwyr yn croesawu gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi'n ddigidol neu'r hyblygrwydd y gall hyn ei alluogi.
- Mae angen ystyried allgáu digidol a lefelau gwael o alluogrwydd digidol gan y gallent fod yn rhwystrau at fynediad. Mewn rhai achosion, megis meithrin ymddiriedaeth, achosion cymhleth a chyda rhai unigolion agored i niwed, gall gwasanaeth personol fod yn fwy priodol.

Rhan 3: Gweithrediad y farchnad cymorth cyfreithiol sifil

Mae Rhan 3 yn archwilio profiadau darparwyr sy'n darparu gwasanaethau cymorth sifil cyfreithiol. Mae'n archwilio rhai o'r heriau allweddol a wynebir gan darparwyr, gan gynnwys hyfywedd ariannol cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, a datblygu a chynnal gweithlu o gyfreithwyr a bargyfreithwyr o safon uchel.

Daw'r bennod i ben drwy edrych ar sut mae'r heriau allweddol hyn yn effeithio ar benderfyniadau darparwyr, y cyflenwad cyffredinol yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil, a'i gallu dilynol i fodloni galw defnyddwyr (sy'n cysylltu ag Adran 1.3).

3.1 Cyd-destunoli darparwyr cymorth cyfreithiol sifil

Darparwyr yw'r rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau cyfreithiol i bobl sy'n derbyn cymorth cyfreithiol sifil. I gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, mae'n rhaid bod gan ddarparwyr gcontract gyda'r ACC.

Mae sefydliadau darparwyr yn cyflogi ystod o aelodau o staff. Gallai hyn gynnwys cyfreithwyr, sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu cyngor cyfreithiol i ddefnyddwyr, cyfryngwyr (lle bydd darparwr yn gwneud gwaith cyfryngu), staff gweinyddol ac uwch bartneriaid. Nid yw gweithluoedd darparwyr fel arfer yn cynnwys bargyfreithwyr, y mae eu hangen fel arfer pan fydd angen cynrychiolaeth yn y llys. Yn gyffredinol mae bargyfreithwyr yn eistedd yn y siambrau a gall darparwyr drefnu i weithio gyda bargyfreithwyr ar sail achosion unigol. Gall cyfreithwyr, cyfreithwyr eiriolwyr a swyddogion cyfreithiol siartredig gyflawni'r rôl o gynrychioli cleientiaid hefyd mewn llys neu dribiwnlys.

Gall darparwyr sicrhau contract i gyflenwi cymorth cyfreithiol drwy rowndiau caffael ffurfiol, a gynhelir yn hanesyddol gan yr ACC bob 3-5 o flynyddoedd. Daeth Contract Sifil Safonol 2024 i rym ar 1 Medi 2024, gydag uchafswm tymor o bedair blynedd. Ar 4 Rhagfyr ail-agorodd yr ACC ei phroses gaffael ar gyfer y contract hwn, gan wahodd tendrau ychwanegol gan sefydliadau nad ydynt wedi tendro o'r blaen neu wedi gwneud hynny'n

aflwyddiannus, neu gwmnïau presennol a oedd am ehangu i gategorïau newydd o'r gyfraith. Ar yr un pryd, cyhoeddodd ei fod yn symud i ddull caffael "bob amser ymlaen" er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol allu gwneud cais am contract cymorth cyfreithiol sifil ar unrhyw adeg.

Ym maes cymorth cyfreithiol, mae tri gwasanaeth 'craidd' y mae darparwyr yn eu cynnig:⁸²

- Cynrychiolaeth gyfreithiol – cynrychiolaeth gan gyfreithwyr a bargyfreithwyr ar gyfer achosion a allai fynd i'r llys (a elwir weithiau yn Gynrychiolaeth sifil).
- Help cyfreithiol – cyngor a chymorth ynglŷn â phroblem gyfreithiol, ac eithrio cynrychiolaeth yn y llys.
- Cyfryngu teuluol – bydd hyn ond ar gael yng nghategori teulu y gyfraith ac mae cyfryngwr yn trafod problemau gyda chwepwl sy'n ysgaru neu'n gwahanu mewn ymgais i ddod i gytundeb heb ddefnyddio'r llysoedd.⁸³

Mae darparwyr hefyd yn cynnig gwasanaethau eraill ym maes cymorth cyfreithiol sifil, er enghraifft: help i deulu (is), help i deulu (uwch), cynrychiolaeth ymchwiliol, help yn y llys, a gwasanaethau cyfreithiol eraill mewn achosion eithriadol.

Gellir darparu'r gwasanaethau cyfreithiol hyn (ac eithrio cyfryngu i deuluoedd) ar draws 11 categori o'r gyfraith. Mae'n rhaid i ddarparwr fod yn ddeiliad contract ym mhob categori o'r gyfraith y maent yn dymuno ymarfer ynddynt (gallant fod yn ddeiliad mwy nac un contract). Nid oes contract cymorth cyfreithiol sifil 'cyffredinol' sy'n cwmpasu'r holl gategorïau. Mae'r categorïau o'r gyfraith fel a ganlyn, fel y'u diffiniwyd gan LASPO:

- Teulu
- Tai a Dyledion
- Mewnfudo a Lloches
- Iechyd Meddwl
- Addysg
- Gwahaniaethu

⁸² Nodir y mathau o wasanaethau cyfreithiol sifil sydd ar gael yn y [Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol \(Meini Prawf Teilyngdod\)](#)

⁸³ Er bod yr ACC ond yn gweithredu contract ar gyfer cyfryngu yng nghategori teuluoedd y gyfraith, mae cyfryngu ar gael fel alldaliad mewn categorïau eraill o'r gyfraith.

- Esgeuluster Clinigol
- Hawliadau yn erbyn Awdurdodau Cyhoeddus
- Gofal Cymunedol
- Budd-daliadau Lles
- Cyfraith Gyhoeddus

Ym mis Mehefin 2024, roedd 1,306 o ddarparwyr a oedd yn ddeiliaid contractau cymorth cyfreithiol sifil.⁸⁴ Prif categorïau'r gyfraith oedd teulu, tai a dyled, a mewnfudo a lloches, gyda 65%, 16%, a 13% o gyfanswm y sylfaen darparwyr yn ddeiliaid contractau yn y categorïau hyn o'r gyfraith, yn y drefn honno.⁸⁵

Nid yw bod yn ddeiliad contract cymorth cyfreithiol sifil yn mynnu bod yn rhaid i ddarparwr weithio ar gymorth cyfreithiol sifil yn unig, ac nid yw ychwaith yn golygu ei bod yn ofynnol i ddarparwyr wneud swm penodol o waith cymorth cyfreithiol, ac y gall darparwyr sydd â chontract ddewis peidio gwneud unrhyw waith cymorth cyfreithiol os dymunant. Gall darparwyr ddarparu gwasanaethau cyfreithiol preifat ochr yn ochr â gweithio ar gymorth cyfreithiol sifil, ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod llawer o ddarparwyr yn gweithredu fel hyn.

Mae gan ddarparwyr yn y farchnad cymorth cyfreithiol wahanol rinweddau, er enghraifft eu maint ac a ydynt er-elw neu nid-er-elw.⁸⁶

Mae'r system cymorth cyfreithiol sifil yn cynnwys darparwyr er-elw yn bennaf. Yn 2022–23, roedd 94% o'r darparwyr er-elw ac roedd 6% nid-er-elw.⁸⁷

⁸⁴ [Ystadegau chwarterol cymorth cyfreithiol: Ebrill i Mehefin 2024 - GOV.UK](#), tabl 9.6.

⁸⁵ Ibid., tabl 9.7. Darparwyd y ffigurau hyn fel rhai dangosol. Er i Gontract Sifil Safonol 2024 ddod i rym ar 1 Medi 2024, yn dilyn yr ymchwil hwn yn Rhagfyr 2024 symudodd yr ACC i broses "bob amser ymlaen", sy'n golygu y bydd gan ddarpar ymgeiswyr gyfleoedd lluosog i wneud cais am gontract yn ystod oes contract.

⁸⁶ Mewn sefydliadau er-elw, gellir dosbarthu'r elw a wneir i berchnogion, cyfranddalwyr neu bartneriaid yn y sefydliad, a bydd unrhyw elw a wneir yn cael ei ail-fuddsoddi i redeg y busnes.

⁸⁷ [Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil](#) ffigur 38.

3.2 Heriau allweddol: Ffioedd a hyfywedd ariannol

Mae'r adran hon yn archwilio lefelau ffioedd a strwythurau ffioedd, a'u heffaith gyfunol ar hyfywedd ariannol cyflenwi cymorth cyfreithiol sifil. Nid yw'r rhan fwyaf o lefelau ffioedd wedi codi ers 1996. At hynny, cafodd llawer o gyfraddau ffioedd eu lleihau hyd at 10% yn 2011, gyda rhai targedau a newidiadau pellach i gwmpas a pholisi a oedd yn lleihau'r swm o waith cymorth cyfreithiol y gellid ei filio, yn cael eu gwneud yn y blynyddoedd dilynol.

Cyn yr Adolygiad, byddai darparwyr yn aml yn adrodd ar ffioedd a hyfywedd ariannol fel eu prif flaenoriaeth. Yn ôl Arolwg Darparwyr yr Adolygiad, dywedodd 81% o ymatebwyr bod y lefelau ffioedd yn debygol o'u hatal rhag parhau i ddarparu gwasanaeth, gyda ffigur cyfatebol o 66% a 64% ar anhyblygrwydd strwythurau ffioedd a threulio gormod o amser na allent filio amdano (h.y. yr ymdriniaeth o ffioedd).⁸⁸ Ailadroddwyd ffioedd a hyfywedd ariannol drwy ymgysylltiad yr AoGCS fel maes allweddol o anfonlonrwydd a phryder ymysg darparwyr sy'n gweithio ymhob categori o'r gyfraith. Roedd ffioedd a hyfywedd ariannol hefyd ymysg y prif themâu yn yr ymatebion i Gais am Dystiolaeth yr Adolygiad.

“Nid oes unrhyw gymhellion ariannol ar hyn o bryd i wneud gwaith cymorth cyfreithiol. Nid yw'r cyfraddau cyflog wedi cynyddu ers dros ddegawd a chawsant eu torri o 10% yn ôl yn 2011. Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i chwyddiant a'r costau cychwynnol o redeg busnes, nid yw unrhyw beth arall wedi rhewi mewn amser. Dangosodd ein cyfrifon ar gyfer 2008/09 cyn LASPO bod ein hincwm [cymorth] cyfreithiol tua 57% o drosiant o £1.9 miliwn, ac mae'r cyfrifon mwyaf diweddaraf yn dangos bod hyn wedi gostwng i 26% ar drosiant o £1.5 miliwn.” **Canolfan y Gyfraith, Lloegr**

Lefelau a strwythurau ffioedd

Mae darparwyr yn cael refeniw o wahanol ffynonellau. Ar gyfer eu gwaith cymorth cyfreithiol, eu prif ffynhonnell refeniw yw taliadau ffioedd gan yr ACC. Gallant gael refeniw hefyd o adenillion costau rhyng-bartiön (sydd ar gael mewn rhai mathau o weithrediadau cyfreithiol, ond nid pob un), grantiau'r llywodraeth, rhoddion, ac mae rhai darparwyr yn cyfuno gwaith cymorth cyfreithiol a gwaith cyfreithiol preifat. Mae cyfraniad y ffynonellau

⁸⁸ [Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Arolwg Darparwyr - GOV.UK](#) ffigur 5.2.

refeniw hyn yn amrywio yn ôl nodweddion darparwr (model busnes, dewisiadau, maes arbenigedd, maint y cwmni, lleoliad ac yn y blaen). Er enghraifft, mae darparwyr nid-er-elw yn debygol o dderbyn cyfran uwch o'u refeniw o grantiau a rhoddion, ac mae darparwyr sy'n gweithredu yng Nghymru yn aml yn derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Er bod llawer o wahanol ffioedd yn berthnasol i wahanol arbenigwyr ac amgylchiadau, mae tri phrif fath o ffioedd:

1. **Ffioedd safonol gwaith rheoledig** – Mae gwaith rheoledig fel arfer yn ymwneud â gwaith help cyfreithiol. Yn gyffredinol, y sefyllfa ddiodyn ar gyfer Gwaith Rheoledig yw derbyn taliad drwy ffi sefydlog. Nid yw ffioedd sefydlog yn berthnasol i waith rheoledig yng nghategoriâu iechyd meddwl a mewnfudo a lloches y gyfraith.⁸⁹ Yn hytrach, telir ffioedd graddedig, gan gydnabod y gwaith paratoi helaeth sydd ei angen yn y categorïau hyn.
2. **Cyfradd fesul awr ar gyfer gwaith rheoledig** - Pan fydd costau achos yn fwy na thair gwaith gwerth y ffi sefydlog, a elwir yn 'drothwy dianc', mae'r ffi sefydlog yn newid i fod yn gyfradd fesul awr.
3. **Gwaith trwyddedig** – Fel arfer mae gwaith trwyddedig yn ymwneud â gwaith cynrychiolaeth sifil. Ar gyfer categorïau sifil nad ydynt yn gategoriâu teulu, telir gwaith trwyddedig ar gyfraddau fesul awr yn ddiodyn, gyda'r gyfradd benodol sy'n daladwy yn ddibynnol ar natur y gwaith y gwneir hawliad amdano a pha mor uchel yw lefel y llys. Ar gyfer gwaith teulu trwyddedig, mae system o ffioedd graddedig ar waith. Gwneir darpariaethau arbennig ar gyfer achosion cost uchel (e.e. pan fydd costau'n uwch na £25,000).

Nodir y lefelau ffioedd presennol yn y tabl isod, gan gynnwys y terfynau uchaf ac isaf, lle y bo'n briodol. Mae'r tabl hwn yn dangos bod cyfraddau fesul awr ar draws gwaith rheoledig a gwaith trwyddedig yn debyg ar draws y rhan fwyaf o gategoriâu'r gyfraith. Ar gyfer ffioedd safonol (sefydlog) gwaith rheoledig, mae mwy o amrywiad rhwng categorïau. Mae

⁸⁹ Mewn rhai achosion telir cyfradd fesul awr am waith mewnfudo a lloches.

cyfraddau ffioedd fesul awr hefyd yn uwch ar gyfer gwaith trwyddedig o gymharu â gwaith rheoledig, gan adlewyrchu cymhlethdod uwch gwaith trwyddedig (cynrychiolaeth sifil).

Tabl 1: Ystodau ffioedd yn ôl categorïau'r gyfraith

Categoriâu o'r gyfraith ⁹⁰	Ffioedd Safonol Gwaith Rheoledig	Gwaith Rheoledig (cyfradd fesul awr)	Gwaith Trwyddedig (cyfradd fesul awr)
Hawliadau yn Erbyn Awdurdodau Cyhoeddus	£239	£48–£52	£59–£71
Esgeuluster clinigol	£195	£43–£46	£59–£71
Gofal cymunedol	£266	£48–£52	£59–£71
Dyled	£180	£43–£46	£59–£71
Addysg	£272	£48–£52	£59–£71
Tai	£157	£45–£56	£59–£71
Amrywiol	£79	£45–£48	£59–£71
Cyfraith gyhoeddus	£259	£48–£52	£59–£71
Budd-daliadau lles	£150	£43–£46	£59–£71
Cyfraith teulu cyhoeddus	£132–£365	£45–£56	£54–£70
Cyfraith teulu preifat	£86–£565	£45–£56	£54–£70
Mewnfudo a lloches	£234–£567+	£47–£74	£59–£71
Iechyd meddwl ⁹¹	£69–£321	£54–£57	£59–£71

Ffynhonnell: Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Cydnabyddiaeth) 2013. Nodyn (1): Mae Ffioedd Safonol yn cyfeirio at Ran 1 Ffioedd Safonol a Graddedig Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Cydnabyddiaeth) 2013. Ar gyfer y naw categori cyntaf yn y tabl, mae'r 'ystodau' yn adlewyrchu (a) pen isaf y ffi sefydlog unigol (b) pen uchaf, y "trothwy ffioedd dianc". Nodyn (2): Mae Gwaith Rheoledig yn cyfeirio ar Ran 2 ac mae Gwaith Trwyddedig yn cyfeirio at Ran 3. Mae set ychwanegol o ffioedd hefyd yn berthnasol i gyfryngu cyfraith teulu (Rhan 4) ac mae nifer o ffioedd 'fesul eitem' yn bodoli, er enghraifft "Llythyrau Allanol a Galwadau Ffôn Arferol" (£2–7 yr 'eitem').

Nid yw'r rhan fwyaf o ffioedd cymorth cyfreithiol sifil wedi cynyddu ers 1996, gyda llawer o gyfraddau ffioedd yn cael eu gostwng hyd at 10% drwy'r Rhaglen Diwygio Cymorth

⁹⁰ Mae lloches a mewnfudo ac iechyd meddwl yn gynlluniau ffioedd graddedig, sy'n golygu y gellir talu mwy nag un ffi fesul achos i ddarparwyr. Ar gyfer cyfraith teulu cyhoeddus a phreifat, mae amrywiaeth o ffioedd safonol y gellir eu hawlio yn dibynnu ar y math o waith a wneir.

⁹¹ Mae iechyd meddwl yn gynllun ffioedd graddedig, sy'n golygu y gellir talu mwy nag un ffi fesul achos i ddarparwyr. Mewn achos arferol byddai darparwr yn cael Ffi Lefel 1 MHT + Ffi Lefel 2 MHT + Ffi Lefel 3 MHT.

Cyfreithiol yn 2011. O ganlyniad, mae llawer o ddarparwyr yn adrodd bod lefelau ffioedd sefydlog yn achosi i'w gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil wneud colled.

Gellir ymchwilio ymhellach i effaith lefelau ffioedd ar hyfywedd ariannol darparwr. Comisiynodd Cymdeithas y Gyfraith Frontier Economics i wneud gwaith ymchwil ar gynaliadwyedd.⁹² Roedd hyn yn cynnwys arolwg o nifer fach o gwmnïau yng nghategoriâu tai a theulu y gyfraith. Rhoddwyd cyfle i swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder roi eu mewnbwn a dyluniad yr arolwg, a rhoddwyd mynediad iddynt at ddata sy'n dangos dosbarthiad costau, refeniw a phroffidoldeb darparwyr heb ddatgelu'r cwmnïau dan sylw. Canfu'r ymchwil hwn bod yr holl ddarparwyr tai a arolygwyd yn gwneud colled ar eu gwaith cymorth cyfreithiol. Dangosodd hefyd bod hanner y darparwyr gwaith teulu a arolygwyd yn gwneud elw, ac roedd eu hanner yn gwneud colled ar eu gwaith cymorth cyfreithiol. Roedd hyn yn cuddio'r ffaith bod gwaith teulu cyhoeddus yn creu elw yn gyffredinol a bod gwaith teulu preifat yn achosi colled yn gyffredinol. Gallai canfyddiadau ddangos nad yw lefelau'r ffioedd cyfredol yn ddigonol i dalu costau i ddarparwyr ar gyfer y sampl hwn o ddarparwyr tai a theulu preifat. Trafodir proffidoldeb darparwyr mewn mwy o fanylder yn ddiweddarach yn yr adran hon o'r adroddiad.

Mae'r gwahaniaeth rhwng lefelau ffioedd a chostau darparwyr yn cael eu hysgogi gan absenoldeb cynnydd i'r ffioedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n annhebygol iawn bod costau darparwyr wedi cynyddu'n sylweddol. Yn yr ymatebion yn y Cais am Dystiolaeth cyfeiriwyd yn aml iawn at lefelau ffioedd fel her allweddol sy'n wynebu'r system. Galwodd llawer o ymatebwyr am gynnydd yn ffioedd cymorth cyfreithiol sifil, gan ddadlau nad yw'r cyfraddau presennol yn ddigonol i dalu'r costau o ddarparu gwasanaethau cyfreithiol o safon ac nad ydynt yn adlewyrchu gwir werth y gwaith. Roedd yr awgrym mwyaf cyffredin ar gyfer cynyddu ffioedd yn unol â chwyddiant.

⁹² [Cymorth cyfreithiol sifil: ymchwil cynaliadwyedd | Cymdeithas y Gyfraith](#)

“Mae angen cydnabyddiaeth uwch i gyfreithwyr a bargyfreithwyr, mewn ymgais i atal y gostyngiad yn y nifer o ddarparwyr cymorth cyfreithiol sydd ar gael. Nid yw ffioedd wedi cynyddu ers 1996, sydd 27 o flynyddoedd yn ôl. Mae anhawster i recriwtio a chadw cyfreithwyr a bargyfreithwyr mewn meysydd gwaith sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus oherwydd cydnabyddiaeth wael ac felly mae hynny'n achosi pryderon yn y tymor canolig i'r hirdymor ynghylch cynaliadwyedd practisau sy'n derbyn cymorth cyfreithiol.” **Siambrau bargyfreithwyr, Lloegr**

Er, dylid nodi, bod nifer o ffactorau'n gyfrifol am hyfywedd ariannol 'gwirioneddol' darparwyr, gan gynnwys lefelau ffioedd, natur gymhleth y system ffioedd, y defnydd o ffioedd sefydlog a'r swm o waith y gellir ac na ellir ei filio o dan gynllun cydnabyddiaeth cymorth cyfreithiol sifil. Trafodir y ffactorau eraill hyn yng ngweddill yr adran hon, cyn cynnig casgliad ar hyfywedd ariannol cyffredinol darparwyr.

Adennill costau rhyng-bartïon

Fel y soniwyd yn gynharach, gall adennill costau rhyng-bartïon wneud gwahaniaeth i'r costau sy'n cael eu hadennill yn y pen draw ar gyfer mathau penodol o waith cyfreithiol a wneir gan ddarparwyr o dan gontract cymorth cyfreithiol pan fydd eu cleient yn llwyddiannus yn y pen draw yn yr achos cyfreithiol.

Mae adennill costau yn digwydd pan fydd llys yn gwneud 'Gorchymyn Costau' o blaid y "parti buddugol". Mae'r cwmni/darparwr cyfreithiol yn nodi mewn 'Bil Costau' y costau y maent wedi'u hysgwyddo wrth gyflwyno neu amddiffyn yr hawliad i gasgliad llwyddiannus ac y maent yn ceisio eu hadennill gan y "parti sy'n colli". Bydd y llys yn gwneud gorchymyn ynghylch lefel y costau a ddyfernir o'r Bil neu'n cyfeirio'r mater at farnwr costau. Ffactor allweddol wrth adennill costau rhyng-bartïon yw bod y cyfraddau y gellir eu hawlio yn aml yn cyd-fynd yn agosach â chyfraddau cyfreithiol preifat. Nid yw Gorchymynion Costau ar gael ym mhob maes o'r gyfraith sifil a gwmpesir gan gymorth cyfreithiol. Mewn achosion teulu, anaml y rhoddir gorchymynion costau yn bennaf oherwydd sensitifrwydd anghydfodau teuluol a'r goblygiadau negyddol y gallai adennill costau eu cael ar y parti sy'n colli, yn enwedig mewn cyfraith teulu preifat. Ym maes iechyd meddwl, addysg, budd-daliadau lles a mewnfudo lle mae achosion yn cael eu cynnal yn y Tribiwnlys nid yw'r rheolau gweithdrefnol yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorchymynion costau o'r fath. Fodd

bynag, pan fo achos yn cael ei gynnal mewn llysoedd eraill (gan gynnwys y Llys Sirol ar gyfer achosion tai) ac yn enwedig yr Uchel Lys, y Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys, mewn achosion apêl ac adolygiad barnwrol ymlaen, gellir gorchymyn costau rhyng-bartïon.

O 2010–11 to 2022–23, ar gyfartaledd, cafodd costau eu hadennill gan wrthwynebwyr mewn 17–23% o achosion cymorth cyfreithiol nad oeddynt yn rhai teulu.⁹³ Mae'r ffigur hwn, a'r ffaith mai anaml iawn y mae costau'n cael eu hadennill yn y categori mwyaf o'r gyfraith, sef teulu, yn dangos nad yw adennill costau ar gyfraddau uwch yn ffynhonnell refeniw gyffredin i ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil yn gyffredinol. Fodd bynnag, mewn achosion cymorth cyfreithiol sifil lle mae adennill costau yn gymwys, gall y refeniw a gynhyrchir fod yn sylweddol.⁹⁴ Yn ystod y cyfnod hwn, dyfarnwyd £40,700 ar gyfartaledd mewn costau fesul achos cymorth cyfreithiol lle y gorchmynnwyd adennill costau. Yn 2022–23, derbyniodd darparwyr cymorth cyfreithiol gyfanswm o £127.4 miliwn mewn costau wedi'u hadennill.⁹⁵

Er y gall adennill costau fod yn ffynhonnell refeniw ar gyfraddau uwch i ddarparwyr mewn mathau penodol o achosion, bydd hyn ond yn berthnasol pan fydd eu cleient yn llwyddiannus. Pan fydd cleient y darparwr cymorth cyfreithiol y "parti sy'n colli" yna bydd y darparwr yn derbyn y gyfradd arferol o gymorth cyfreithiol.

Mae adennill costau yn bwysig i'w nodi oherwydd gall effeithio ar benderfyniadau darparwr. Dywedodd darparwyr yn Arolwg Darparwyr yr Adolygiad, ac mewn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth, eu bod yn cael eu gorfodi i 'ddewis' achosion a allai fod yn fwy proffidiol iddynt. Gallai hyn gynnwys mwy o barodrwydd i dderbyn achosion sy'n fwy tebygol o gael canlyniadau llwyddiannus ac achosion lle bydd Gorchmynion Costau yn cael eu gwneud. Dywedodd darparwyr tai a gyfwelwyd yn ymchwil cynaliadwyedd Cymdeithas y Gyfraith bod yn well ganddynt dderbyn achosion ardystiedig sy'n fwy tebygol o lwyddo oherwydd bod Gorchmynion Costau yn cael eu dyfarnu yn arferol ar gyfraddau sy'n agosach at gyfraddau cyfreithiol preifat, o gymharu â chyfraddau cymorth cyfreithiol.

⁹³ [Ystadegau cymorth cyfreithiol: Ionawr - Mawrth 2023 - GOV.UK](#)

⁹⁴ Mae'r bil cymorth cyfreithiol mewn achosion lle dyfernir adennill costau naill ai'n sero neu'n gyfyngedig i gostau na ellir eu hadennill gan y gwrthwynebydd. Lle mae taliadau ar gyfrif wedi'u gwneud yn erbyn yr ACC caiff y rhain eu had-dalu.

⁹⁵ [Ystadegau cymorth cyfreithiol: Ionawr - Mawrth 2023 - GOV.UK](#) tablau 6.3, 6.5 a 6.7

Trafodir effaith hyfywedd ariannol ar benderfyniadau darparwyr mewn mwy o fanylder yng nghasgliad y bennod hon.

Yn seiliedig ar ystadegau cyhoeddus ar gymorth cyfreithiol, gallwn gyfrifo'r gyfran o achosion cymorth cyfreithiol sifil ar draws gwahanol gategoriâu o'r gyfraith a arweiniodd at adennill costau. Mae'r data yn dangos y cymeradwywyd cyfran uchel o Orchmynion Costau am esgeuluster clinigol (96% yn 2022/23), hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus (86% yn 2022/23), a chyfraith gyhoeddus (73% yn 2022/23). Ar y llaw arall, mae cyfran yr achosion sy'n destun Gorchmynion Cost mewn gofal cymunedol wedi gostwng ers cyflwyno LASPO, gan ostwng o 22% yn 2010/11 i 8% yn 2022/23. Yn y cyfamser, mae categorïau fel addysg, gwahaniaethu a budd-daliadau lles yn arddangos anwadalrwydd sylweddol o ran y gyfran o achosion gyda Gorchmynion Costau, a hynny mae'n debyg oherwydd y nifer fach o achosion yn y meysydd hyn.

Dylid nodi bod newidiadau polisi wedi'u gweithredu'n ddiweddar i brosesau adennill costau, a gallai hyn effeithio ar refeniw darparwyr o adennill costau yn 2023–24 a thu hwnt. Ym mis Hydref 2023, ymestynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gostau adenilladwy sefydlog⁹⁶ ar draws achosion sifil yn y llwybr cyflym (h.y. y rhai hyd at £25,000 mewn iawndal yn gyffredinol) ac i achosion yn y llwybr canolradd newydd (hyd at £100,000 mewn iawndal), gydag eithriadau penodol. Prif nod costau adenilladwy sefydlog yw nodi swm sefydlog o gostau cyfreithiol y gall y parti buddugol ei adennill. Y sail resymegol sy'n sail i hyn yw achosion sy'n debygol o arwain at adennill costau a lle nad oes costau adenilladwy sefydlog ar waith, efallai y bydd partïon yn cael eu hannog i wario mwy i ennill; felly, mae costau adenilladwy sefydlog yn ddull o reoli costau ymglyfreitha sifil.⁹⁷

Er mai cyfyngedig fydd effaith gyffredinol y newidiadau hyn ar achosion cymorth cyfreithiol sifil, mewn rhai achosion, lle byddai hawliad adennill costau darparwr cymorth cyfreithiol sifil yn flaenorol wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn a osodwyd gan gostau adenilladwy sefydlog, gallai gweithredu costau adenilladwy sefydlog leihau'r refeniw a geir drwy adennill costau i ddarparwyr. Codwyd pryderon penodol mewn perthynas ag achosion tai, a phenderfynodd

⁹⁶ Mae gwybodaeth bellach am gostau adenilladwy sefydlog yn y cyhoeddiad canlynol: [Extending Fixed Recoverable Costs: a note on the new rule](#)

⁹⁷ Mae estyniad costau adenilladwy sefydlog wedi cael ei ohirio ym maes tai am ddwy flynedd o fis Hydref 2023 (yn amodol ar waith pellach), oherwydd datblygiadau amrywiol yn y sector tai.

y Llywodraeth flaenorol ymestyn eithriad i gostau adenilladwy sefydlog ar gyfer achosion tai tan fis Hydref 2025 oherwydd pwysau ehangach ar y sector tai yn y blynyddoedd diwethaf.

Strwythurau ffioedd: Cymhlethdod y system ffioedd

Mae darparwyr yn aml yn adrodd bod y system ffioedd yn rhy gymhleth i'w llywio mewn rhai categorïau o'r gyfraith ac nad yw'n hawdd ei defnyddio (mae 'defnyddiwr' yn yr achos hwn yn cyfeirio at y darparwyr yn rhyngweithio â systemau ffioedd). Caiff hyn ei adleisio gan brofiadau bargyfreithwyr, fel yr amlygwyd yn Adroddiad Ymchwil Eiriolaeth yr Adolygiad.

Un o brif ysgogwyr y cymhlethdod hwn yw nifer y gwahanol ffioedd a chyfraddau fesul awr y gall darparwyr bilio amdanynt, sef cyfanswm o 288 ar draws pob categori o'r gyfraith. Oherwydd hyn, mae darparwyr yn nodi bod angen iddynt dreulio amser anghymesur yn llywio'r system ffioedd a chyflwyno gwybodaeth filio: rhaid nodi'r ffi gywir, a all newid yn ôl pryd agorwyd achos, y math o achos, a lefel y llys dan sylw; bod gweithgaredd yn cael ei gofnodi ar lefel gronynnog, megis nifer y galwadau ffôn a wneir i bob cleient; a rhaid i wybodaeth gael ei choladu a mewnbynnu'r wybodaeth ronynnog yn gywir. Mae'r cymhlethdod hwn yn debygol o greu costau gweinyddol uwch i ddarparwyr. Dangosir hyn gan ymateb gair am air i'r Arolwg Darparwyr:

“Mae gormod o wahanol gyfraddau a/neu fathau o daliadau – rydym yn deall bod hyn yn arbennig o berthnasol i achosion mewnfudo a lloches, ond mae hyn yn wir yn gyffredinol. Er enghraifft, ym maes mewnfudo a lloches telir rhai achosion ar gyfradd fesul awr, tra bod eraill yn cael eu talu fel ffioedd sefydlog, ac mae hynny'n dibynnu'n rhannol pryd yr agorwyd achos. Yn gyffredinol, mae'r cyfraddau fesul awr yn wahanol yn dibynnu ar y math o achos ac ym mha lys y gwrandewir ar yr achos/a yw'r achos yn cael ei redeg ar achosion llys cost uchel. Os bydd enillydd ffi yn pennu cyfradd fesul awr anghywir (sydd, oherwydd cymhlethdod y system, yn digwydd, yn wir mae'r ACC ei hun yn aml yn nodi cyfraddau fesul awr anghywir), yna efallai na fydd darparwr yn cael ei dalu am symiau mawr waith a wnaed.” **Sefydliad er-elw**

Galwodd ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth am system ffioedd wedi'i symleiddio er mwyn lleihau baich gweinyddol prosesau bilio.

Strwythurau ffioedd: Y defnydd o ffioedd sefydlog

Fel y soniwyd eisoes, ffioedd sefydlog (yn hytrach na chyfraddau fesul awr) yw'r sefyllfa arferol ar gyfer gwaith rheoledig (er bod eithriadau yn berthnasol), ac mae gwaith rheoledig yn ymwneud yn bennaf â gwaith help cyfreithiol. Yn 2019–20, talwyd 82% o faterion help cyfreithiol drwy ffi sefydlog, talwyd 9% drwy gyfradd fesul awr ar ôl i gostau'r achos gyrraedd eu trothwy dianc, a thalwyd 9% o faterion eraill drwy gyfradd fesul awr (pan oedd y mater wedi dechrau gyda chyfradd fesul awr yn wreiddiol).⁹⁸

Yr egwyddor sy'n sail i ffioedd sefydlog yw y dylent dalu costau darparwyr sy'n ymgymryd â chymysgedd o achosion nodweddiadol neu gyfartalog. Mae'n seiliedig ar y dybiaeth, mewn rhai achosion, y bydd achos gwaith rheoledig yn arwain at gostau uwch na'r ffi sefydlog ac mewn achosion eraill, bydd achos yn arwain at gostau is na'r ffi sefydlog; dros amser, bydd y rhain yn cydbwysu a bydd y ffi sefydlog yn talu costau darparwr.⁹⁹

Fodd bynnag, cynhaliwyd y gwaith modelu ar gyfer y cymysgedd achosion cyfartalog hwn ddiwethaf yn 2006. Yn dilyn cyflwyno LASPO a thueddiadau ehangach yn y system cyfiawnder sifil ers hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y cymysgedd achosion cyfartalog ar gyfer darparwyr cymorth cyfreithiol sifil wedi dod yn fwy cymhleth ac y gallai fod yn arwain at gostau uwch, o gymharu â 2006. Gellir dangos hyn trwy dri metrig (mae'r metrigau hyn yn canolbwyntio ar gymorth cyfreithiol, lle bo modd, gan fod hyn yn ymwneud â'r drafodaeth fwyaf perthnasol ar ffioedd sefydlog):

- **Hyd achosion**¹⁰⁰ – Mae Ffigur 3 isod yn dangos bod hyd cyfartalog materion help cyfreithiol wedi cynyddu'n sylweddol ers 2010–11. Yn 2010–11, yr hyd cyfartalog oedd 214 diwrnod. Cynyddodd yn syth ar ôl cyflwyno LASPO i 281 diwrnod yn


⁹⁸ [Ymchwil i'r Farchnad yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil](#) tabl 4.

⁹⁹ Yr Adran Materion Cyfansoddiadol (2006), Papur Ymgynghori 'Cymorth cyfreithiol: dyfodol cynaliadwy CP 13/06 Gorffennaf 2006 [8163 Amrywiaeth Rhan 1.5ed](#). Mewn unrhyw drefn ffioedd safonol neu raddedig bydd manteision ac anfanteision o ran achosion unigol.

¹⁰⁰ Dylid nodi bod defnyddio hyd achos fel procsi ar gyfer cymhlethdod achosion creu cyfyngiadau. Gall achos bara am gyfnod hwy, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod mwy o waith wedi'i wneud. Gall nifer o ffactorau eraill effeithio ar hyd achos gan gynnwys ôl-groniadau llys.

2014–15. Gostyngodd hyd at 2017–18 ac mae wedi cynyddu ers hynny, gan gyrraedd 304 diwrnod yn 2023–23, sy'n dynodi cynnydd o 42.1% yn ystod y cyfnod hwn.

Ffigur 3: Hyd cyfartalog materion a gwblhawyd ar gyfer help cyfreithiol, 2010–11 i 2022–23



[Average mater duration (days)] Hyd materion ar gyfartaledd (dyddiau) [Financial year] Blwyddyn ariannol


Ffynhonnell: Dadansoddiad PA o ddata ACC a rannwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Noder: Mae'r colofnau llwyd yn dangos rowndiau caffael mawr yr ACC. Noder: Oherwydd y symiau isel o achosion, nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys categorïau Amrywiol, Anafiadau Personol, Cyflogaeth a Defnyddwyr o'r gyfraith.

- **Y gyfran o achosion ffi sefydlog sy'n cyflawni'r trothwyon dianc** – Yn 2010–11, y gyfran o achosion gwaith rheoledig (a neilltuwyd yn wreiddiol fel achosion ffi sefydlog) sy'n mynd y tu hwnt i'r trothwy dianc i gyfraddau fesul awr oedd 3%. Ers hynny, mae'r gyfran hon wedi cynyddu'n raddol, gan gyrraedd 8% erbyn 2014–15 ac 11% erbyn 2022–23.¹⁰¹
- **Refeniw cyfartalog darparwyr fesul achos** – Fel y dangosir gan Ffigur 4, mae refeniw cyfartalog darparwyr (h.y. y costau y mae darparwyr wedi bilio'r ACC ar eu cyfer) fesul mater help cyfreithiol a gwblhawyd wedi cynyddu'n raddol dros

¹⁰¹ Data yr ACC (mewnol)

amser. Yn 2010–11, y refeniw oedd £314 ar gyfartaledd. Cynyddodd hyn i £550 erbyn 2014–15 a £718 erbyn 2022–23, gan ddynodi cynnydd o 128.7% yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ffigur 4: Refeniw cyfartalog darparwyr fesul mater a gwblhawyd ar gyfer help cyfreithiol, 2010–11 i 2022–23



[Average provider revenue per matter completed] Refeniw cyfartalog darparwyr fesul mater a gwblhawyd [Financial year] Blwyddyn ariannol

Ffynhonnell: GOV.UK. (2023). Ystadegau cymorth cyfreithiol: Ionawr - Mawrth 2023 Tablau 5.2 a 5.3. Nodyn: Mae'r colofnau llwyd yn dangos rowndiau caffael mawr yr ACC.

Mae'r metrigau hyn, sy'n dynodi bod materion cymorth cyfreithiol yn cymryd mwy o amser i'w datrys a'u bod yn mynd yn ddrytach, yn awgrymu bod cymhlethdod achosion cymorth cyfreithiol wedi cynyddu dros amser. Goblygiad hyn yw nad yw'r modelu ar y cymysgedd achosion cyfartalog sy'n sail i ffioedd sefydlog ar hyn o bryd yn debygol o adlewyrchu'r cymysgedd achosion y mae darparwyr yn ei brofi heddiw ac yn ei dro, mae'n tanamcangyfrif costau darparwyr. Felly, efallai bod y graddau y mae ffioedd sefydlog yn talu costau darparwyr wedi gwaethygu dros amser.

Cefnogir hyn gan safbwyntiau'r darparwyr. Yng Nghais am Dystiolaeth yr Adolygiad, adroddodd darparwyr bod achosion help cyfreithiol yn disgyn fwyfwy i'r bwlch rhwng y ffi sefydlog a'r trothwy dianc i gyfraddau fesul awr. Byddai darparwyr sy'n profi hyn yn gwneud colled oherwydd byddai eu costau yn uwch na'r ffi sefydlog a roddwyd iddynt.

“Nid yw'r system bresennol o ffioedd sefydlog yn gweithredu fel cymhelliant i ddarparwyr. Y brif broblem yw bod y ffioedd sefydlog yn rhy isel. Mae'r broblem hon yn cael ei gwaethygu gan y strwythur ffioedd sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wneud gwaith gwerth tair gwaith y ffi sefydlog cyn cyrraedd y 'trothwy dianc' sy'n galluogi i'r achos fynd rhagddo ar sail cyfradd fesul awr. Mae hyn yn golygu bod gwaith a wneir sy'n fwy na'r terfyn ffi sefydlog ond nad yw'n cyrraedd y trothwy dianc yn mynd yn ddi-dâl.” **Corff cynrychiadol**

Mae'n bosibl bod nifer o ffactorau yn cyfranogi at y cynnydd yng nghymhlethdod achosion dros amser. Gallai rhan o hyn fod yn ddyluniad; bwriad LASPO oedd targedu cymorth cyfreithiol at y rhai â'r angen mwyaf. Er y gallai hyn fod wedi lleihau carfan gyfan y rhai sy'n derbyn cymorth cyfreithiol, yn ôl Adolygiad Ôl-Weithredol LASPO, mae wedi creu carfan â mater(ion) cyfreithiol â natur gymhleth uwch na'r cyfartaledd. Yn ail, gallai defnyddwyr cymorth cyfreithiol fod yn cyflwyno fwyfwy gyda 'chlystyrau o broblemau', h.y. nifer o faterion cyfreithiol gwahanol, a'u bod yn aros cyfnod hwy cyn ceisio cyngor cyfreithiol, a all achosi i'w mater waethygu a chynyddu mewn cymhlethdod. Gwelir tystiolaeth o'r tueddiadau hyn yn Arolwg Problemau a Datrysiadau Cyfreithiol 2014–15.¹⁰² Canfu bod 63% o'r cydlynwyr Clinigau Gwaith Cyfreithiol a ymatebodd wedi adrodd cynnydd yng nghymhlethdod y materion cyfreithiol yr ymdriniwyd â hwy, adroddodd 52% bod defnyddwyr yn cyflwyno ar gam diweddarach yn eu problem, ac roedd 61% wedi gweld cynnydd yn y nifer o ddefnyddwyr a oedd yn cyflwyno â chlystyrau o broblemau. Adleisir y canfyddiadau hyn gan Arolwg Problemau a Datrysiadau Cyfreithiol 2023,¹⁰³ lle adroddodd 56% o'r unigolion a gyfwelwyd eu bod wedi profi mater cyfreithiol mewn dau neu fwy o'r categorïau yn y 18 mis cyn y cyfweliad, a disgrifiodd 24% o gyfweleion eu mater fel un difrifol iawn.

Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw'r cynnydd hwn yng nghymhlethdod cyfartalog achosion yn gwbl unigryw i'r system cymorth cyfreithiol. Mae cynnydd i hyd cyfartalog achosion yn cael ei brofi yn y system cyfiawnder sifil ehangach hefyd.¹⁰⁴ Gallai hyn awgrymu y gallai

¹⁰² [Canfyddiadau o Arolwg Problemau a Datrysiadau Cyfreithiol, 2014-15](#)

¹⁰³ [Arolwg Problemau a Datrysiadau Cyfreithiol 2023 - GOV.UK](#)

¹⁰⁴ Yr hyd cyfartalog rhwng hawliad a gwrandawriad ac achos llys: Ystadegau Cyfiawnder Sifil y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2011 i 2022)

ffactorau cyfiawnder-gyfan, cymdeithasol, neu ffactorau ehangach eraill hefyd fod yn cyfrannu at gymhlethdod cynyddol achosion cyfreithiol.

Yn olaf, dylid nodi bod ymarferwyr yn datgan rhai buddiannau o ddefnyddio ffioedd sefydlog. Er enghraifft, fel rhan o waith ymgysylltu a gynhaliwyd gyda bargyfreithwyr ar gyfer Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad yr Adolygiad, dywedodd bargyfreithwyr y gall ffioedd sefydlog greu llai o faich gweinyddol o gymharu â chyfraddau fesul awr, a bod ffioedd sefydlog yn cynnig mwy o sicrwydd ar incwm i'w ennill. Felly, ni ddylid derbyn o reidrwydd bod angen i'r wybodaeth am ddatblygu polisi symud o'r defnydd o gyfraddau sefydlog, ond yn hytrach bod angen ail-alinio'r gwaith modelu sy'n ategu ffioedd sefydlog i'r cymysgedd cyfartalog o achosion sy'n bodoli heddiw.

Strwythurau ffioedd: Cwmpas y ffioedd

Ochr yn ochr â natur gymhleth y system ffioedd a'r gwaith modelu sy'n sail i'r ffioedd sefydlog, mae cwmpas y ffioedd (y swm o waith y mae darparwyr yn ei wneud ar achosion cymorth cyfreithiol sifil na ellir bilio amdano) yn deillio fel mater â blaenoriaeth uchel. Yn ôl Arolwg Darparwyr yr Adolygiad, dywedodd 64% o'r darparwyr a ymatebodd bod treulio cyfnodau gormodol o amser na allant filio amdano yn debygol o'u hatal rhag parhau i gynnig darpariaeth yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil. Yng nghyfarfodydd bord gron y Cais am Dystiolaeth, dywedodd darparwyr eu bod yn gwneud symiau mawr o'u gwaith am ddim i bob pwrpas, oherwydd yr un mater.

Ategir safbwyntiau'r darparwyr hyn gan ymchwil a gynhaliwyd gan y Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol (LAPG). Canfu canfyddiadau o Gyfrifiad Cymorth Cyfreithiol 2021¹⁰⁵, ar gyfartaledd, am bob 106 munud o amser a fuddsoddir gan ymarferwyr ar achos ffi sefydlog, ad-delir 60 munud yn ariannol. Ar gyfer cyfraddau fesul awr, ad-delir 60 munud yn ariannol am bob 90 munud o waith.

Yn ôl y sôn, mae sawl ffurf ar waith na ellir ei filio. Mae'r Cyfrifiad Cymorth Cyfreithiol, sydd wedi'i ategu gan ymgysylltiad a gynhaliwyd fel rhan o'r ffrwd waith Dadansoddiad Economaidd a'r Ymchwil Eiriolaeth, yn awgrymu bod eu hamser na ellir ei filio yn ymwneud yn bennaf ag elfennau o baratoi achosion, ymchwil gyfreithiol, a gwaith

¹⁰⁵ [We are Legal Aid. Canfyddiadau o Gyfrifiad Cymorth Cyfreithiol 2021](#)

gweinyddol.¹⁰⁶ Yn ogystal â hyn, gellir treulio amser na ellir ei filio yn darparu cymorth i gleientiaid sy'n agored i niwed weithiau, er enghraifft cefnogaeth emosiynol, esbonio prosesau'r system cymorth cyfreithiol sifil, a chynorthwyo defnyddwyr i gasglu dogfennaeth angenrheidiol ar gyfer profion modd.

Mae'r ACC yn cael ei thalu am waith cymorth cyfreithiol yn unol â LASPO, y rheoliadau cymorth cyfreithiol, a'r contractau cymorth cyfreithiol. Yn gyffredinol, mae hyn yn galluogi i bob darn o waith cyfreithiol a wneir gael ei gynnwys ar hawliad, sydd yna'n cael ei asesu ar y sail safonol o dan Reol 44.4(2) Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998. Er y gellir hawlio am unrhyw waith cyfreithiol mewn egwyddor, mae'r ymchwil uchod yn pwysleisio nad yw darparwyr yn credu bod hyn yn cwmpasu costau rhai gweithgareddau yn ddigonol neu weithgareddau na ellir talu amdanynt, fel gwaith gweinyddol. Mae Canllawiau Asesu Costau'r ACC yn darparu arweiniad pellach ar ba gostau sy'n rhesymol, er enghraifft pryd y gellir cyfiawnhau hawlio costau ar gyfer ymchwil gyfreithiol.

Yn ogystal, mae darparwyr yn aml yn dadlau pan fydd ffi sefydlog yn daladwy, bod y swm o amser a dreulwyd yn datrys y mater wrth gyfrifo cyfraddau fesul awr yn uwch na'r ffi sefydlog, gan ddadlau nad ydynt yn derbyn taliad am yr amser hwn mewn gwirionedd. Er bod y cynlluniau ffioedd wedi'u dylunio i weithredu ar yr egwyddor, er y gallai darparwyr wneud llai o arian nag y byddent o dan gyfraddau fesul awr ar rai achosion (mwy cymhleth), y byddent yn gwneud mwy am achosion mwy syml nag y byddent o dan gyfraddau fesul awr, mae'r dadansoddiad yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn dangos bod achosion wedi mynd yn fwyfwy cymhleth ond bod y ffioedd wedi aros yr un fath neu wedi'u lleihau.

Mae effaith cwmpas ffioedd annigonol ar ddarparwyr yn debyg i'r gwaith modelu sydd wedi dyddio sy'n ategu'r ffioedd sefydlog, mae'n lleihau'r graddau y mae'r ffioedd presennol yn cwmpasu'r costau darparwyr.

Mewn ymateb i'r heriau hyn gyda lefelau ffioedd a strwythurau ffioedd, galwodd darparwyr am nifer o newidiadau i'r system ffioedd yng Nghais am Dystiolaeth yr Adolygiad, gan gynnwys cynyddu lefelau ffioedd, symleiddio prosesau ffioedd, cynyddu'r nifer o opsiynau

¹⁰⁶ Mae paragraff 6.59 [Manyleb Cyffredinol Contract Sifil Safonol 2024](#) yn nodi'r eithriadau perthnasol.

y gellir eu hychwanegu, a chreu system ffioedd fwy deinamig sy'n talu yn ôl cymhlethdod yr achos.

Hyfywedd ariannol darparwyr

I gloi'r drafodaeth hon ar ffioedd, bydd yr isadran hon yn archwilio effaith y canfyddiadau yn yr isadran flaenorol ar broffidioldeb darparwyr a hyfywedd ariannol cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil. Drwy wneud hynny, dylid cydnabod y bydd proffidioldeb darparwyr yn amrywio ar draws y system cymorth cyfreithiol sifil ac y bydd yn cael ei ddylanwadu gan amgylchiadau a rhinweddau'r darparwr, er enghraifft y categorïau o'r gyfraith y maent yn darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol ynddynt (p'un a yw'n gynrychiolaeth sifil, help cyfreithiol, cyfryngu ac yn y blaen). Lle y bo'n bosibl, bydd yr isadran hon i gloi yn ceisio nodi'r gwahaniaethau hyn.

Proffidioldeb cyffredinol

Mae tystiolaeth ar broffidioldeb darparwyr ar gael trwy Arolwg Darparwyr yr Adolygiad ac ymchwil cynaliadwyedd Cymdeithas y Cyfreithwyr (a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn). Un cyfyngiad ar set ddata Cymdeithas y Cyfreithwyr yw ei fod ond yn cynnig canfyddiadau categori-benodol ar gyfer dau gategori o'r gyfraith, teulu a tai a dyled.

Fodd bynnag, mae'r cyfyngiad hwn yn cael ei liniaru'n rhannol gan faint y categorïau hyn o'r gyfraith: Mae 81% o ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil yn ddeiliaid contractau teulu a/neu dai a dyled.¹⁰⁷

System cymorth cyfreithiol sifil: Yn ôl yr Arolwg Darparwyr, dywedodd 33% o'r darparwyr sy'n gwneud elw yn gyffredinol bod eu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil yn gwneud colled, dywedodd 22% eu bod yn adennill eu costau, a dywedodd 45% eu bod yn gwneud elw.

Tai a dyled (mae 17% o ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil yn ddeiliaid contractau yn y categori tai a dyled). Canfu ymchwil Cymdeithas y Gyfraith bod pob un o'r darparwyr tai (nid tai a dyled) yn eu sampl o 30 yn gwneud colled o'u gwaith cymorth cyfreithiol sifil.

¹⁰⁷ [Data contractau darparwyr cymorth cyfreithiol sifil Ebrill i Mehefin 2024](#)

Roedd y darparwr canolrif yn gwneud colled o £33,000 fesul aelod o staff llawn amser a oedd yn ennill ffioedd (cyfwerth ag amser llawn) ar eu gwaith cymorth cyfreithiol tai.

Teulu (mae 71% o ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil yn ddeiliaid contractau yn y categori teulu): Yn ôl yr Arolwg Darparwyr, mae'r gyfradd proffidioldeb yn uwch yn y categori teulu o gymharu â'r gyfradd gyfartalog ar draws pob categori o'r gyfraith. Dywedodd 25% o ddarparwyr bod eu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil yn gwneud colled, dywedodd 21% eu bod yn adennill eu costau, a dywedodd 54% eu bod yn gwneud elw. Canfu ymchwil Cymdeithas y Gyfraith bod wyth darparwr yn eu sampl o 17 darparwr gwasanaeth teulu (47%) yn gwneud colled ar eu gwaith cymorth cyfreithiol. Roedd darpariaeth cymorth cyfreithiol teulu y darparwr canolrif yn adennill costau, tra bod darparwyr yn y chwarter isaf yn gwneud colled o £13,000 am gyfwerth ag amser llawn, ac roedd darparwyr yn y chwarter uchaf yn gwneud elw o £11,000 am gyfwerth ag amser llawn ar yr un gwaith.

Ym maes teulu, mae'n ymddangos bod gwahaniaeth mawr ym mhroffidioldeb darparwyr rhwng cyfraith teulu preifat a chyfraith teulu cyhoeddus (mae'r rhannau hyn o'r categori hwn yn gymharol gyfartal mewn maint; yn 2022–23, cwblhaodd 1,013 o swyddfeydd darparwyr waith cynrychiolaeth sifil a help cyfreithiol ym maes cyfraith teulu preifat, a'r ffigur cyfatebol ar gyfer cyfraith teulu cyhoeddus oedd 1,029).¹⁰⁸ Roedd gwaith cyfraith teulu preifat y darparwr canolrif yn gwneud colled o £12,700 am gyfwerth ag amser llawn ac roedd gwaith cyfraith teulu cyhoeddus y darparwr canolrif yn gwneud elw o £7,200 am gyfwerth ag amser llawn.

Crynohoir y data hwn yn y tabl isod.

¹⁰⁸ [Ystadegau cymorth cyfreithiol: lonawr - Mawrth 2023 - GOV.UK](https://www.gov.uk/government/statistics/y-stadegau-cymorth-cyfreithiol-lonawr-mawrth-2023)

Tabl 2: Proffidioldeb gwahanol categorïau o'r gyfraith i ddarparwyr

Categori Cymorth Cyfreithiol	Darparwyr sy'n adrodd eu bod yn gwneud elw (%)	Darparwyr sy'n adrodd eu bod yn adennill eu costau	Darparwyr sy'n adrodd eu bod yn gwneud colled	Elw/colled canolrif ar waith cymorth cyfreithiol fesul cyfwerth ag amser llawn**
Pob Categori	45%	22%	33%	Ddim yn berthnasol
Tai	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	£-33,000
Teulu	54%	21%	25%	£0
Cyfraith teulu preifat	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	£-12,700
Cyfraith teulu cyhoeddus	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	£7,200

Ffynhonnell: Arolwg Darparwyr. ** Data o ymchwil Cymdeithas y Cyfreithwyr ar gynaliadwyedd ar gymorth cyfreithiol sifil. Nid oedd gan yr Arolwg Darparwyr sampl digon mawr o ddarparwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu i alluogi dadansoddiad ystyrlon yn ôl categorïau'r gyfraith. Roedd hefyd yn grwpio'r holl ddarparwyr teulu gyda'i gilydd ar gyfer y cwestiwn hwn, heb wahaniaethu rhwng cyfraith teulu preifat a chyhoeddus.

Dylid nodi cyfyngiadau pellach i'r data hwn. O ran data Cymdeithas y Gyfraith, mae ei samplau o ddarparwyr tai a theulu yn fach, ac mae'r cyntaf yn cynnwys cyfran uchel o ddarparwyr nid-er-elw, ond mae'r mwyafrif o ddarparwyr yn y farchnad cymorth cyfreithiol tai yn ddarparwyr er-elw. Felly, mae'n bosibl nad yw'r data yn gwbl gynrychioliadol o'r farchnad ehangach a dylid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau yn seiliedig ar y data hwn. O ran data'r Arolwg Darparwyr, er ei fod yn elwa o gael maint sampl mwy, mae'r data proffidioldeb a adroddir yn seiliedig ar amcangyfrifon a wnaed gan yr ymatebwyr. Felly, mae'n bosibl nad yw'n darparu adlewyrchiad manwl o broffidioldeb darparwyr.

Mae'r data hwn yn dangos bod hyfywedd ariannol yn her amlwg i ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, gyda sawl thema allweddol yn codi, er ei bod yn ymddangos bod maint yr her hon yn amrywio rhwng categorïau cyfreithiol. Er mwyn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth hon ymhellach a datblygiad polisi dilynol, dylid casglu data ychwanegol ar broffidioldeb ac mewn perthynas â chategorïau sifil eraill o'r gyfraith.

Proffidioldeb gwahanol wasanaethau cyfreithiol

Fel rhan o'r sylwebaeth hon ar hyfywedd ariannol, un gwahaniaeth pwysig i'w nodi yw bod hyfywedd ariannol yn amrywio rhwng gwasanaethau cyfreithiol. Mewn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth ac Arolwg Darparwyr yr Adolygiad, dywedodd darparwyr bod gwaith help cyfreithiol yn llai proffidiol na gwaith cynrychiolaeth sifil ac nad yw'n gymhelliant iddynt.

“Mae'r angen am ein gwasanaethau yn llawer uwch na'r nifer o weithwyr sydd gennym. Mae angen mwy o weithwyr achos arnom, ond mae cyfraddau help cyfreithiol yn gwneud hyn yn anodd. Yr unig opsiwn yw dewis a dethol achosion.”

Darparwr nid-er-elw

Gall hyn fod oherwydd bod gwaith cymorth cyfreithiol yn defnyddio ffioedd sefydlog yn bennaf nad ydynt efallai, fel y nodwyd yn gynharach, yn cynnig yr un cydbwysedd incwm ag yr arferai o ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys cynnydd mewn cymhlethdod achosion. Ar gyfer achosion cymorth cyfreithiol sy'n defnyddio cyfraddau ffi fesul awr, mae'r cyfraddau hyn yn is na chyfraddau fesul awr cynrychiolaeth sifil. Nid yw'r system cymorth cyfreithiol sifil yn anelu at sicrhau cydraddoldeb ffioedd rhwng gwaith cymorth cyfreithiol a chynrychiolaeth sifil, ond mewn system sy'n ymddangos braidd yn fregus o ran hyfywedd ariannol, mae'r gwahaniaethau presennol yn debygol o ysgogi'r anghymhellion a adroddwyd gan ddarparwyr.

Fel y nodwyd yn gynharach, canfu ymchwil Cymdeithas y Gyfraith ar gynaliadwyedd bod yr holl ddarparwyr tai yn eu sampl yn gwneud colled. Mae llawer o'r gwaith a wneir gan ddarparwyr tai yn waith rheoledig yn nodweddiadol, ac yn waith help cyfreithiol fel arfer, sy'n golygu bod y canfyddiadau yn alinio ag adborth arall mae'r Adolygiad wedi'i dderbyn yn nhermau proffidioldeb gwaith help cyfreithiol. Mae hyn yn awgrymu bod yr hyfywedd ariannol o wneud gwaith help cyfreithiol yn her i lawer o ddarparwyr.

I grynhoi, mae'r isadran hon yn dangos nad yw dibynnu'n llwyr ar gymorth cyfreithiol sifil fel y brif ffynhonnell refeniw, ac yn benodol, mathau penodol o wasanaeth cymorth cyfreithiol, yn debygol o fod yn ariannol hyfyw i ddarparwyr. Mae darparwyr yn ymateb i hyn trwy ennill refeniw o lwybrau cymorth cyfreithiol nad ydynt yn rhai sifil, megis grantiau, rhoddion, a chynnal cymorth cyfreithiol sifil a gwaith cyfreithiol preifat.

Ar gyfer cynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol sifil, dylai taliadau alluogi darparwyr i ddenu a chadw gweithwyr cymorth cyfreithiol proffesiynol ac yn ddelfrydol, eu galluogi i arloesi a rhoi cynnig ar fodolau cyflenwi gwahanol. Mae'n werth nodi nad yw llawer o ddarparwyr yn cynnal eu darpariaeth drwy refeniw cymorth cyfreithiol sifil yn unig, am eu bod yn defnyddio dulliau eraill i gynnal eu darpariaeth. Fodd bynnag, gallai'r ddibyniaeth ar ffrydiau refeniw eraill greu heriau i rannau penodol o'r farchnad. Er enghraifft, efallai y bydd darparwyr nid-er-elw yn llai abl i gynnal cymorth cyfreithiol sifil a gwaith cyfreithiol preifat yr un pryd, ac o ganlyniad gallant fod yn fwy dibynnol ar grantiau a rhoddion na darparwyr er-elw. Gallai hyn lesteirio buddsoddiad, cynllunio, a recriwtio staff dros amser oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â derbyn a gwerth grantiau a rhoddion o gymharu â ffynonellau refeniw eraill. Byddai hyn yn cyfaddawdu cynaliadwyedd y sector nid-er-elw. Bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach yn Adran 3.4. Trafodir effeithiau'r heriau hyfywedd ariannol hyn ar benderfyniadau darparwyr a chyflenwad a chapasiti cyffredinol y farchnad i fodloni galw defnyddwyr hefyd yn Adran 3.4.

3.3 Heriau allweddol: Recriwtio a chadw

Mae'r adran hon yn archwilio profiadau darparwyr o recriwtio a chadw ymarferwyr (cyfreithwyr), a'u gallu cyffredinol i ddatblygu gweithlu o safon. Mae hefyd yn archwilio profiadau bargyfreithwyr gyda'r system cymorth cyfreithiol sifil, sy'n cael eu trin ychydig ar wahân am nad yw darparwyr yn penodi bargyfreithwyr yn gyffredinol, ond yn hytrach byddant ond yn eu penodi pan fydd angen cynrychiolaeth mewn llys. Wrth ddod â chyfreithwyr a bargyfreithwyr at ei gilydd, daw'r adran hon i ben drwy archwilio amrywiaeth y gweithlu.


Mae'r gallu i ddatblygu a chynnal gweithlu o safon yn hollbwysig i effeithiolrwydd a chynaliadwyedd y system cymorth cyfreithiol sifil. Adlewyrchir hyn yn Adroddiad Dadansoddiad Cymharol yr Adolygiad sydd, drwy ymgysylltiad ag arbenigwyr, ymarferwyr ac academyddion, wedi nodi bod cynnal gweithlu amrywiol o safon uchel yn elfen allweddol o system cymorth cyfreithiol sifil effeithiol.

Fodd bynnag, wrth geisio datblygu gweithluoedd o safon, cyfeiriodd darparwyr at heriau wrth recriwtio cyfreithwyr a'u cadw dros amser, ac adlewyrchwyd hynny yn llawer o'r ymatebion i Gais am Dystiolaeth yr Adolygiad.

“Mae cyflogau yn isel, a llwythi gwaith yn uchel. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd recriwtio staff, yn arbennig ar lefel uwch. Mae hyfforddeion yn debygol o adael yn fuan ar ôl cymhwyso i yrfaeodd nad ydynt ym maes cymorth cyfreithiol gyda chyflogau a chydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith. Unwaith y bydd sgiliau a gallu yn cael eu colli, maent yn anodd eu hadennill.” **Corff cynrychiadol**

Mae'n ymddangos bod yr heriau hyn gyda recriwtio a chadw yn effeithio ar benderfyniadau darparwyr i aros yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil a chynaliadwyedd eu darpariaeth. Yn Arolwg Darparwyr yr Adolygiad, dywedodd 60% o'r ymatebwyr bod yr heriau i ddenu cyfreithwyr iau yn debygol o'u hatal rhag parhau i ddarparu gwasanaeth yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil. Yn ogystal, o'r ymatebwyr a oedd wedi rhoi'r gorau i fod yn ddeiliaid contract cymorth cyfreithiol sifil yn ystod eu daliadaeth (e.e. rhoi'r gorau i'w darpariaeth mewn un categori o'r gyfraith ond parhau i ddarparu mewn categorïau eraill), dywedodd 28% bod eu penderfyniad wedi'i ysgogi gan anawsterau i recriwtio'r staff angenrheidiol, a dywedodd 24% ei fod yn cael ei ysgogi gan aelod(au) allweddol o staff yn gadael y sefydliad heb gael rhywun yn eu lle. Dangosir hyn gan Ffigur 5 isod.

Ffigur 5: Rhesymau pam fod darparwyr ymarfer preifat wedi rhoi'r gorau i fod yn ddeiliaid contract cymorth cyfreithiol preifat



[Not financially..] Ddim yn hyfyw'n ariannol mwyach [Difficulty recruiting...] Anhawster i recriwtio'r staff angenrheidiol [A key member..] Aelod o staff allweddol wedi gadael y sefydliad a neb wedi dod yn eu lle

[Difficulty with the...] Anhawster gyda thelerau'r contract [Not enough...] Dim digon o alw gan ddefnyddwyr [Cases that remain...] Achosion sy'n parhau o fewn y cwrpas yn dueddol o fod yn fwy cymhleth [LAA...] Contract yr ACC wedi'i derfynu/ni ellid ei sicrhau [Staff didn't...] Nid oedd staff eisiau gweithio ar yr achosion hyn

Ffynhonnell: Arolwg Darparwyr, C13: Soniasoch yn gynharach fod eich sefydliad wedi dal y contractau cymorth cyfreithiol sifil canlynol yn y gorffennol ond nad oes ganddynt bellach – Pam hyn? Sylfaen: Pob cwmni ymarfer preifat a oedd wedi bod yn ddeiliad contract cymorth cyfreithiol sifil ond nad ydynt mwyach (n=120)

Ategir y canfyddiadau hyn gan ddata yr ACC ar yr esboniadau a roddwyd gan y 761 o swyddfeydd darparwyr a adawodd eu contractau cymorth cyfreithiol sifil yn ystod y cyfnod Medi 2017 i Awst 2023.¹⁰⁹ Tynnodd 143 o swyddfeydd (19%) yn ôl o'u contractau yn bennaf oherwydd colli enillwyr ffioedd/goruchwylwyr allweddol.

Ochr yn ochr â'r heriau hyn o ran recriwtio a chadw cyfreithwyr, mae argaeledd bargyfreithwyr hefyd yn her i'r system. Yn Ymchwil Eiriolaeth yr Adolygiad, dywedodd cyfreithwyr cyfarwyddo eu bod, wrth geisio cyfarwyddo cwnsler, yn aml yn wynebu prinder bargyfreithwyr a allai gymryd yr achos. O ganlyniad i hyn, mae cyfreithwyr weithiau'n troi at eirioli yn y llys eu hunain, hyd yn oed pan nad yw hynny er budd y cleient neu'r achos.¹¹⁰ Yn ôl cyfranogwyr, roedd y prinderau bargyfreithwyr hyn yn fwy aciwt yng Nghymru, De-orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr.

Bydd yr isadran ganlynol yn archwilio'r graddau y mae adroddiadau ansoddol o'r heriau hyn i'r gweithlu wedi'u cefnogi gan dystiolaeth meintiol.

Tueddiadau recriwtio a chadw

Yn gyffredinol, mae nifer y cyfreithwyr yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil wedi gostwng dros amser. O 2014–15 i 2021–22, gostyngodd y nifer o gyfreithwyr o 20,680 i 18,140, gostyngiad o 12%.¹¹¹ Fodd bynnag, dylid nodi cafeatau pwysig mewn perthynas â'r data hwn, a gymerwyd o Adroddiad Trosolwg Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad, sydd hefyd yn berthnasol i weddill y data cyfreithiwr a ddefnyddir yn yr adran hon. Yn gyntaf, dim ond sylfaen aelodau Cymdeithas y Cyfreithwyr a adlewyrchir yn y data cyfreithwyr, sy'n eithrio darparwyr sydd â strwythurau busnes amgen, megis darparwyr nid-er-elw ac elusennau.

¹⁰⁹ [Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol](#) ffigur 19.

¹¹⁰ Dim ond os oes ganddynt hawliau cynulleidfa uwch yn y llys hwnnw y caniateir i gyfreithwyr wneud hyn.

¹¹¹ [Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Trosolwg Darparwyr](#) - Tabl 2.1.1.

Yn ail, mae'r data hwn yn adlewyrchu'r holl gyfreithiwr mewn darparwyr cymorth cyfreithiol sifil gweithredol.¹¹² Nid yw'n nodi a yw'r cyfreithwyr hyn yn gweithio ar achosion cymorth cyfreithiol eu hunain (fel mewn sefydliadau sy'n ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol a gwaith cyfreithiol preifat) gan nad oedd yn bosibl canfod hyn o'r data.

Recriwtio cyfreithwyr-ymarferwyr

Mae adroddiadau gan ddarparwyr o'r heriau wrth recriwtio cyfreithwyr yn cael eu cefnogi gan ddata ar y nifer o gyfreithwyr sy'n ymuno â'r proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil. Mae'r nifer o gyfreithwyr sy'n ymuno â'r proffesiwn sifil wedi gostwng pob blwyddyn ers 2015–16, ac eithrio 2018–19, gan ostwng o 3,370 o ymunwyr yn 2015–16 i 2,460 yn 2021–22 (27%). Dangosir hyn gan dabl 3. Mae'n werth nodi bod y tuedd hwn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer o gwmnïau darparwyr sy'n ymuno â'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil yn yr un cyfnod.¹¹³

Tabl 3: Cyfanswm y cyfreithwyr sy'n ymuno a dychwelyd sy'n gweithio i gwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol fesul blwyddyn

	2015–16	2016–17	2017–18	2018–19	2019–20	2020–21	2021–22
Cyfanswm yr ymunwyr	3,370	2,800	2,750	3,310	3,230	2,670	2,460
a oedd yn dychwelwyr	-	240	380	770	780	480	620

Ffynhonnell: Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Trosolwg Darparwyr – Tabl 2.2.1: Cyfanswm y cyfreithwyr sy'n ymuno ac yn dychwelyd sy'n gweithio i gwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol fesul blwyddyn

Mae'r profiad o heriau cynyddol wrth ddenu ymarferwyr newydd i'r proffesiwn wedi'i gefnogi gan dystiolaeth a ddarparwyd gan y Rhwydwaith Canolfannau Cyfreithiol mewn ymateb i Gomisiwn San Steffan ar Gymorth Cyfreithiol (2021):¹¹⁴

¹¹² Mae darparwyr cymorth cyfreithiol sifil 'gweithredol' yn cael eu diffinio fel y rhai sydd wedi cyflwyno o leiaf un bil terfynol i'r ACC mewn unrhyw flwyddyn a'u bod yn ddeiliaid contract cymorth cyfreithiol sifil ar ddiwedd y flwyddyn yn y categori perthnasol o'r gyfraith.

¹¹³ [Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Trosolwg o Ddarparwyr-Tabl 1.4.2](#)

¹¹⁴ [Comisiwn San Steffan ar Gymorth Cyfreithiol](#): Ymchwiliad i Gynaliadwyedd ac Adferiad y Sector Cymorth Cyfreithiol, Hydref 2021.

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

“Arferai fod gan Ganolfannau'r Gyfraith 80 neu 90 o ymgeiswyr ar gyfer pob rôl a hysbysebwyd. Nawr bydd canolfannau'r gyfraith, hyd yn oed y rhai yn Llundain, yn ffodus i gael pump neu 10 ymgeisydd. Mae Canolfannau'r Gyfraith yn parhau i gyflogi hyfforddeion, ond mae'r nifer yn gostwng ac mae problem fawr o ran eu cadw.”

Cadw cyfreithwyr-ymarferwyr

Gellir dangos tueddiadau ar y graddau y mae cyfreithwyr yn aros yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil dros amser trwy ddata ar gyfran y cyfreithwyr fesul blynyddoedd ers eu derbyn i'r proffesiwn cyfreithiol.

Mae'r data hwn yn dangos, rhwng 2014–15 a 2021–22, bod cyfran y cyfreithwyr sydd â llai na dwy flynedd o brofiad cyfreithiol wedi aros yn gyson, mae'r gyfran â rhwng tair a 12 mlynedd o brofiad wedi gostwng, ac mae'r gyfran â 13+ mlynedd o brofiad wedi cynyddu. Mae'r duedd hon yn gyson ar draws darparwyr teulu gweithredol, darparwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu, a'r rhai sy'n cyfuno gwaith teulu a gwaith nad yw'n waith teulu. Dangosir hyn gan dabl 4.

Tabl 4: Cyfreithwyr sy'n gweithio mewn cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol yn ôl blynyddoedd ers ymuno â'r proffesiwn a'r maes ymarfer, 2014–15 a 2021–22

	2014–15			2021–22		
	Teulu	Cymysg	Sifil Arall	Teulu	Cymysg	Sifil Arall
0–2	7%	9%	10%	7%	9%	10%
3–7	18%	22%	23%	15%	18%	21%
8–12	16%	19%	18%	13%	14%	17%
13–17	13%	13%	15%	16%	15%	15%
18–22	11%	10%	11%	12%	12%	14%
23–27	9%	8%	8%	11%	10%	9%
28 a Mwy	25%	17%	13%	25%	19%	13%
Anhysbys	1%	1%	2%	2%	2%	2%
Cyfanswm	7,610	7,350	5,710	7,280	4,600	6,260

Ffynhonnell: Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Trosolwg o Ddarparwyr – Tabl 2.1.5: Cyfreithwyr sy'n gweithio mewn cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol yn ôl y blynyddoedd ers cael eu derbyn i'r proffesiwn a'r maes ymarfer, 2014–15 a 2021–22

Mae'r data hwn yn awgrymu y gallai dechrau ar gyfnod canol o'ch gyrfa fod yn drobwynt arbennig i'r rheini yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil, ond bod gan y sector sylfaen fwy sefydlog o gyfreithwyr mwy profiadol. Yn ogystal, mae cyferbyniad sefydlogrwydd yng nghyfran y cyfreithwyr â llai na dwy flynedd o brofiad o gymharu â'r gostyngiad yn y gyfran o gyfreithwyr sydd â thair i 12 mlynedd o brofiad yn awgrymu bod cadw cyfreithwyr sy'n dechrau ar gyfnod canol eu gyrfaedd yn fwy o her i ddarparwyr na denu cyfreithwyr newydd.

Ategir hyn yn gryf gan y safbwyntiau yng Nghais am Dystiolaeth yr Adolygiad, gan fynegi bod unigolion yn dod yn llai parod i aros yn y proffesiwn dros amser. Mae'r dyfyniad canlynol o'r Arolwg Darparwyr yn dangos hyn ymhellach:

“Nid yw penodi cyfreithwyr ifanc sy'n llawn brwdfrydedd ac ymroddiad yn broblem. Mae eu cadw yn fater arall. Pan fyddant yn gadael, nid yw eu harbenigedd a'u gwybodaeth yn cael eu hadennill, am na allwn ei fforddio.” **Darparwr nid-er-elw**

Cyfranogiad bargyfreithwyr yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil

Mae'r dull o archwilio tueddiadau o ran bargyfreithwyr yn wahanol i'r dull ar gyfer cyfreithwyr. Nid yw'n bosibl denu gweithwyr sy'n ymuno a'r rhai sy'n gadael y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil. Mae hyn oherwydd nad yw bargyfreithwyr yn cael eu cyflogi'n gyffredinol gan ddarparwyr sydd â chontractau cymorth cyfreithiol sifil. Maent yn eistedd yn siambrau bargyfreithwyr a gallant benderfynu ar sail achos unigol pa achosion i'w cymryd. Yn gyffredinol, nid yw bargyfreithwyr sy'n gweithio ar gymorth cyfreithiol sifil yn gwneud hynny'n unig, yn hytrach maent yn ymgymryd â chymorth cyfreithiol a gwaith cyfreithiol preifat. Felly, mae'r dadansoddiad hwn o dueddiadau bargyfreithwyr yn canolbwyntio ar fetrigau eraill, megis nifer y bargyfreithwyr sy'n ymgymryd ag achosion cymorth cyfreithiol sifil bob blwyddyn, nifer eu hachosion mewn gwahanol gategoriâu o gyfraith, a'r incwm a gânt o achosion cymorth cyfreithiol sifil.

Yn gyffredinol, mae nifer y bargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil wedi cynyddu ers 2015–16, ac eithrio 2020–21 (blwyddyn gyntaf y pandemig), gan gynyddu o 3,930 yn 2015–16 i 4,560 yn 2022–23 (16%). O fewn hyn, cynyddodd nifer y bargyfreithwyr a gwblhaodd waith teulu o 2,540 i 3,320, cynnydd o 31%; gostyngodd y rhai a gwblhaodd waith mewn categorïau cyfreithiol eraill ychydig o 1,050 i 980, gostyngiad o

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

7%; a gostyngodd y rhai a gwblhaodd gyfuniad o waith mewn categorïau teulu a chategorïau eraill hefyd o 340 i 260, sef gostyngiad o 24%. Dangosir hyn yn nhabl 5. Gall hyn awgrymu bod cymhellion yn fwy i fargyfreithwyr weithio ar gymorth cyfreithiol sifil teuluol ac yn is ar gyfer categorïau eraill o gyfraith.

Tabl 5: Nifer y bargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil, yn ôl maes ymarfer a blwyddyn

	2015– 16	2016– 17	2017– 18	2018– 19	2019– 20	2020– 21	2021– 22	2022– 23
Teulu	2,540	2,570	2,700	2,810	2,960	2,790	3,140	3,320
Cymysg	340	300	320	320	300	220	230	260
Sifil Arall	1,050	970	910	950	970	810	930	980
Cyfanswm	3,930	3,840	3,920	4,080	4,230	3,820	4,290	4,560

Ffynhonnell: Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Trosolwg o Ddarparwyr – Tabl 3.1.1: Nifer y bargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil, yn ôl maes ymarfer a blwyddyn

Ategir hyn gan ddata ar y nifer cyfartalog o achosion a'r incwm a gafwyd o waith cymorth cyfreithiol sifil mewn gwahanol gategorïau o'r gyfraith. Mae'r cyntaf yn dangos bod bargyfreithwyr teulu wedi'u gorgynrychioli yn y grwpiau symiau uwch o achosion. Yn 2022-23, er bod bargyfreithwyr achosion teulu yn unig yn cynrychioli 73% o gyfanswm y boblogaeth o fargyfreithwyr a oedd yn gwneud gwaith cymorth cyfreithiol sifil, roedd cyfanswm y boblogaeth bargyfreithwyr a gwblhaodd 31-45 o achosion cymorth cyfreithiol sifil yn cynnwys 87% o fargyfreithwyr teulu, a'r ffigur cyfatebol oedd 93% ar gyfer bargyfreithwyr a gwblhaodd 46+ o achosion.

Gellir dweud y gwrthwyneb am fargyfreithwyr sy'n gweithio ar gategorïau cyfreithiol nad ydynt yn ymwneud â gwaith teulu. Cânt eu gorgynrychioli yn y grwpiau o niferoedd bach. Er bod bargyfreithwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu yn cyfrif am 21% o gyfanswm y boblogaeth bargyfreithwyr a oedd yn gwneud gwaith cymorth cyfreithiol sifil yn 2022-23, roedd y boblogaeth bargyfreithwyr a gwblhaodd 1–2 achos yn cynnwys 45% o fargyfreithwyr nad oeddent yn gwneud gwaith teulu, a'r ffigur cyfatebol oedd 27% ar gyfer bargyfreithwyr a gwblhaodd 3-15 o achosion. Mae hyn yn dangos bod bargyfreithwyr teulu yn fwy tebygol o ysgwyddo nifer uwch o achosion cymorth cyfreithiol ac mae

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

bargyfreithwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu yn fwy tebygol o ysgwyddo nifer llai o achosion. Dangosir hyn yn nhabl 6.

Tabl 6: Dosbarthiad bargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil yn ôl maes ymarfer a'r bandiau nifer r achosion, yn 2022–23

	Nifer y bargyfreithwyr	Teulu	Cymysg	Sifil Arall	Cyfanswm
1 i 2 achos	1,170	54%	1%	45%	100%
3 i 15 achos	1,310	66%	7%	27%	100%
16 i 30 achos	720	84%	8%	9%	100%
31 i 45 achos	630	87%	8%	4%	100%
46 achos a throsodd	740	93%	6%	2%	100%
All	4,560	73%	6%	21%	100%

Adroddiad Trosolwg o Gyhoeddiadau Data: Tabl 3.1.8 Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Trosolwg Darparwyr – Tabl 3.1.8: Dosbarthiad y bargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil yn ôl maes ymarfer a'r bandiau nifer yr achosion, yn 2022–23

Gellir gweld tueddiadau tebyg yn yr incwm y mae bargyfreithwyr yn ei gael o weithio ar achosion cymorth cyfreithiol sifil. Mae bargyfreithwyr teulu yn cael eu gorgynrychioli mewn grwpiau incwm uwch. Roedd bargyfreithwyr teulu yn cyfrif am 89% o'r boblogaeth bargyfreithwyr a oedd yn ennill £60,001–£90,000 o gymorth cyfreithiol sifil, 92% o'r grŵp £90,001–£150,000, a 90% o'r grŵp £150,001+. Ar y llaw arall, mae bargyfreithwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu wedi'u gorgynrychioli yn y grwpiau incwm isaf, sef 37% o'r boblogaeth bargyfreithwyr a oedd yn ennill £5,000 a llai o achosion cymorth cyfreithiol sifil. Dangosir hyn yn nhabl 7.

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

Tabl 7: Dosbarthiad bargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil yn ôl maes ymarfer a bandiau incwm ffioedd cymorth cyfreithiol sifil gros, yn 2022–23

	Nifer y bargyfreithwyr	Teulu	Cymysg	Sifil Arall	Cyfanswm
£5,000 a llai	1,500	59%	4%	37%	100%
£5,001 i £30,000	1,270	68%	8%	25%	100%
£30,001 i £60,000	730	84%	7%	9%	100%
£60,001 i £90,000	410	89%	6%	5%	100%
£90,001 i £150,000	400	92%	5%	3%	100%
£150,001 a throsodd	250	90%	~	~	100%
Pob un	4,560	73%	6%	21%	100%

Cyfes Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Trosolwg o Ddarparwyr - Tabl 3.1.6 8: Dosbarthiad y bargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil yn ôl maes ymarfer a bandiau incwm ffioedd cymorth cyfreithiol sifil gros, yn 2022–23

Mae'r canfyddiadau hyn, bod y nifer o fargyfreithwyr sy'n cwblhau gwaith nad yw'n waith teulu wedi gostwng ac wedi'u gorgynrychioli yn y grwpiau incwm a nifer yr achosion isaf, yn cefnogi'r honiad yn yr Ymchwil Eiriolaeth bod diffyg argaeledd bargyfreithwyr yn y system cymorth cyfreithiol sifil (a nodwyd yn gynharach). At hynny, maent yn rhoi arwydd cryf y gallai'r cymhellion i fargyfreithwyr wneud gwaith cymorth cyfreithiol sifil nad yw'n waith teulu fod yn her i'r system. Fodd bynnag, dylid nodi y gall amrywiaeth o ffactorau gyfrannu at y tueddiadau hyn. Er enghraifft, gellir esbonio'r gwahaniaeth mewn incwm a enillir gan fargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith teulu a'r rhai nad ydynt yn gwneud gwaith teulu gan y ffioedd a'r enillion uwch sydd ar gael ar gyfer gwaith teulu, fel y crybwyllwyd yn Adran 3.2.

Gellir gwneud asesiad hefyd o'r graddau y mae cymhellion (ac anghymhellion) bargyfreithwyr i weithio ar gymorth cyfreithiol sifil yn parhau dros amser, gan ddefnyddio data ar y nifer o flynyddoedd rhwng 2015-16 a 2022-23 y cwblhaodd bargyfreithwyr waith cymorth cyfreithiol sifil. Ar gyfer bargyfreithwyr teulu, cwblhaodd 58% waith cymorth cyfreithiol sifil mewn pum mlynedd neu fwy o fewn y cyfnod hwn. Ar gyfer bargyfreithwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu, dim ond 25% oedd y ffigur cyfatebol hwn. Cwblhaodd 41% o fargyfreithwyr nad oeddent yn gwneud gwaith teulu waith cymorth cyfreithiol sifil mewn blwyddyn yn unig o fewn y cyfnod hwn. Mae hyn yn awgrymu bod bargyfreithwyr

teulu yn parhau i brofi cymhellion dros amser i weithio ar achosion cymorth cyfreithiol sifil, tra bod hyn yn llai amlwg i fargyfreithwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu. Gyda llawer o fargyfreithwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu yn gwneud gwaith cymorth cyfreithiol sifil mewn un flwyddyn yn unig, gall ddangos y gallai ymwneud cychwynnol â gwaith cymorth cyfreithiol sifil eu hatal rhag cyfranogi yn y dyfodol, naill ai oherwydd nad yw'r cymhellion mor fawr â'r disgwyl neu fod yr anghymhellion a/neu'r rhwystrau i ddarpariaeth yn fwy na'r disgwyl.

Yng ngoleuni'r tueddiadau hyn a amlygwyd ar gyfer cyfreithwyr a bargyfreithwyr, bydd gweddill yr adran hon yn ceisio archwilio'r cwestiynau canlynol:

- i. Beth sy'n ysgogi'r anawsterau cynyddol wrth geisio denu ymarferwyr newydd i ymuno â'r proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil a gweithio ar achosion cymorth cyfreithiol sifil?
- ii. Beth sy'n ysgogi'r heriau yn y sector o ran cadw ymarferwyr dros amser, a pham y gallai hyn fod yn fwy o her na denu ymarferwyr newydd?

Wrth archwilio'r cwestiynau hyn, bydd profiadau cyfreithwyr a bargyfreithwyr yn cael eu hamlygu, lle bo modd. Nodir cysylltiadau hefyd rhwng yr adran flaenorol ar hyfywedd ariannol darparwyr a sut mae hyn yn cyfrannu at heriau o ran recriwtio a chadw.

Beth sy'n ysgogi'r anawsterau cynyddol wrth geisio denu ymarferwyr newydd i ymuno â'r proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil a gweithio ar achosion cymorth cyfreithiol sifil?

Bydd yr isadran hon yn dechrau drwy archwilio'r cymhellion y mae ymarferwyr yn parhau i'w hadrodd dros ymuno â'r proffesiwn.

Mae'n ymddangos bod llawer o'r cymhelliant yn deillio o ymwybyddiaeth foesol ac awydd i wella mynediad at gyfiawnder.

Canfu Cyfrifiad Cymorth Cyfreithiol LAPG, a arolygodd fyfyrwyr ac ymarferwyr presennol a blaenorol, bod 76% wedi adrodd eu bod wedi ymuno â'r proffesiwn (neu eu bod eisiau gwneud hynny, i ddarpar ymarferwyr) i helpu'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol, ac roedd 71% eisiau sicrhau mynediad mwy cyfartal at

gyfiawnder. Yn aml, mae'r ymwybyddiaeth foesol hon yn cysylltu â chefnidir a phrofiadau personol unigolyn; o'r myfyrwyr â diddordeb mewn gweithio ym maes cymorth cyfreithiol, dywedodd 88% bod eu cefndir neu eu profiadau bywyd wedi dylanwadu ar eu dewis gyrfa. Weithiau, mae llai o gynllunio ar gyfer ymuno â'r maes cymorth cyfreithiol sifil, gyda rhai ymarferwyr yn profi cynnydd naturiol o fodiwlau penodol yn y brifysgol sy'n arwain at feysydd penodol o'r gyfraith sy'n cael eu hariannu'n bennaf gan gymorth cyfreithiol.

Ochr yn ochr â'r rhain, yn Ymchwil Eiriolaeth yr Adolygiad, mae bargyfreithwyr yn nodi cymhellion ychwanegol. Gall gweithio ar gymorth cyfreithiol sifil ganiatáu mwy o greadigrwydd; oherwydd y cyd-destun heriol y mae ymarferwyr cymorth cyfreithiol sifil yn gweithio ynddo, mae angen i fargyfreithwyr feddwl y tu allan i'r bocs er mwyn cyflwyno dadleuon. Mae yna hefyd atyniad o ddechrau gyrfa ym maes cymorth cyfreithiol, gan ei fod yn eu galluogi i ddatblygu sgiliau allweddol, fel gweithio gyda chleientiaid sy'n agored i niwed.

Gwahaniaethau cyflog

Wrth symud i'r heriau cynyddol o ddenu ymarferwyr i ymuno â'r proffesiwn a gweithio ar achosion cymorth cyfreithiol sifil, efallai mai'r ffactor sy'n effeithio fwyaf ar benderfyniadau ymarferwyr yw'r gwahaniaethau cyflog rhwng cymorth cyfreithiol sifil a gwaith cyfreithiol preifat.

Nid oes data ar gael sy'n cymharu trawstoriad o gyfraddau cyflog rhwng rolau cymorth cyfreithiol a phreifat cyfatebol. Fodd bynnag, gellir cymharu cyflogau lefel mynediad. Gall cyfreithiwr cymorth cyfreithiol dan hyfforddiant ddechrau ar gyflog o tua £28,000–£35,000 y flwyddyn, yn dibynnu ar eu lleoliad yng Nghymru a Lloegr.¹¹⁵ Nid oes rheidrwydd ar ddarparwyr i ddilyn hyn, ac felly yn ymarferol gall cyfraddau cyflog ddisgyn uwchlaw ac islaw hyn. Ar y llaw arall, gall cyflogau cyfreithwyr dan hyfforddiant yn y sector cyfreithiol preifat amrywio o £40,000–£60,000 y flwyddyn yn Llundain, gyda chyfreithwyr sydd newydd gymhwyso weithiau yn ennill dros £100,000.¹¹⁶ Mae'r ffigurau cyfatebol ychydig yn is y tu allan i Lundain.

¹¹⁵ Young Legal Aid Lawyers. (2022). Tudalen swyddi LC <https://younglegalaidlawyers.org/jobs>

¹¹⁶ [Trainee and newly qualified solicitor salaries for UK law firms - The Lawyer | Legal insight, benchmarking data and jobs](#)

Dylid nodi nad yw systemau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus yn ceisio sicrhau cydraddoldeb cyflog ar y cyfan rhwng waith cyhoeddus a gwaith preifat. Fodd bynnag, nododd cyfranogwyr yng nghyfarfodydd bord gron Cais am Dystiolaeth yr Adolygiad bod yr heriau a gyflwynir gan wahaniaethau cyflog yn cael eu dwysáu ymhellach wrth i gyrrff cyhoeddus eraill gynnig cyflogau uwch na'r cyflogau sydd ar gael ym maes cymorth cyfreithiol sifil, er enghraifft Awdurdodau Lleol.

Ochr yn ochr â chyflogau is, fel rhan o'r pecyn ehangach y mae ymarferwyr yn ei dderbyn, mae cyfreithwyr-ymarferwyr yn adrodd nad yw darparwyr cymorth cyfreithiol yn gallu cynnig absenoldeb mamolaeth a thadolaeth a pholisïau pensiwn digonol.

Mae'n debygol bod cyflogau is a'r diffyg a adroddwyd yn y 'buddiannau' ehangach sydd ar gael yn cael eu hysgogi gan heriau'r darparwyr o ran yr hyfywedd ariannol i ddarparu cymorth cyfreithiol sifil. Gyda llawer o ddarparwyr yn gwneud colled neu ond yn adennill eu costau, mae'n llesteirio eu gallu i dalu cyflogau mwy cystadleuol ac ehangu eu pecyn buddiannau. Yn hyn o beth, mae cysylltiad annatod rhwng ffioedd cymorth cyfreithiol sifil, hyfywedd ariannol darparwyr, a'u gallu i adeiladu gweithlu o safon.

Mae angen nodi'r gwahaniaeth rhwng cyfreithwyr a bargyfreithwyr. Nid yw bargyfreithwyr yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil ar y cyfan. Pennir eu hincwm hwy gan y gwaith a wneir ganddynt ar achosion y gellir ei filio, y nifer o achosion maent yn eu derbyn a'r graddau y mae eu llwyth achosion yn cynnwys achosion cymorth cyfreithiol ac achosion preifat. Felly, nid ydynt yn ennill cyflog sefydlog yn gyffredinol. Yn yr un modd, er bod bargyfreithwyr yn profi gwahaniaeth cyflog rhwng eu gwaith cymorth cyfreithiol a'u gwaith preifat, mae'r hyn sy'n sbarduno hyn ychydig yn wahanol.

Er hynny, mae incwm bargyfreithwyr (o gymorth cyfreithiol sifil), hefyd yn gysylltiedig â ffioedd cymorth cyfreithiol sifil, oherwydd mai ffioedd sy'n pennu'r costau y gallant filio amdano fel rhan o'u gwaith ar achos. Gyda'r cyfraddau ffioedd yn ddigyfnewid ers 1996, mae referniw bargyfreithwyr ar gyfer swm cyfwerth o waith wedi parhau'r un peth dros amser. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn Adran 3.2 ynghylch costau darparwyr, mae'n debygol bod y costau a brofir yn nodweddiadol gan fargyfreithwyr wedi cynyddu dros amser, er enghraifft y gost ariannol o gynnal aelodaeth siambr bargyfreithwyr. Yn ei dro, gallai incwm enwol bargyfreithwyr fod wedi lleihau dros amser, ac mae'n debygol bod eu

hincwm gwirioneddol wedi lleihau ymhellach, oherwydd chwyddiant o 87.7% o 1996 i 2023.

Mae bargyfreithwyr hefyd yn adrodd bod cyfran is o'u gwaith cymorth cyfreithiol sifil y gellir bilio amdano mewn perthynas â'u gwaith cyfreithiol preifat, a gallai hyn hefyd fod yn ffactor arall sy'n cyfrannu at wahaniaethau cyflog. Maent yn adrodd, er y gellir bilio am waith paratoi achosion ac ymchwil gyfreithiol ar gyfer achosion preifat, yn gyffredinol ni ellir bilio ar gyfer achosion cymorth cyfreithiol.

Yn ogystal, yn Ymchwil Eiriolaeth yr Adolygiad ac ymgysylltiad arall gyda bargyfreithwyr, mater a godwyd yn eang oedd profi oedi cyn derbyn taliadau. Nid oes gan fargyfreithwyr reolaeth uniongyrchol dros eu taliadau cymorth cyfreithiol am na allant filio'r ACC eu hunain. Rhaid i gyfreithiwr/gyfreithwyr sy'n gweithio gyda hwy, sy'n cael eu cyflogi gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil, filio'r ACC ar eu rhan. Mae'n ymddangos bod y broses o filio drwy gyfreithwyr i'r ACC yn achosi oedi cyn derbyn eu taliadau, a all fod yn sylweddol weithiau. Trafodir achosion yr oedi hyn ymhellach yn Adran 2.2. Mae'r dyfyniad isod yn cyfleu profiadau bargyfreithwyr o oedi taliadau yn y dyfyniad isod, o Adroddiad yr Ymchwil Eiriolaeth.

“Mae'n cymryd oes i dderbyn taliad am yr achosion mwy, sy'n warthus. Roedd gen i achos cymorth cyfreithiol lle bu'n rhaid i mi aros tua 5 mlynedd i gael fy nhaliad o £35,000. Ni all unrhyw un fforddio gwneud gwaith oni bai eu bod yn cael eu talu'n rheolaidd.” **Bargyfreithiwr, cyfraith teulu, Lloegr**

Argaeledd a chost hyfforddiant ac addysg gyfreithiol

Y llwybr traddodiadol i gymhwyso fel cyfreithiwr yw drwy gymhwyster hyfforddiant. Gallai hyn fod yn Gwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) neu'r Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr (SQE), er bod yr LPC yn cael ei ddiddymu'n raddol o blaid yr SQE. Mae yna lwybrau eraill i gymhwyso fel cyfreithiwr, er enghraifft cwblhau prentisiaeth gradd cyfreithiwr a llwybrau hyfforddiant eraill mewn swydd. Mae costau'r cymwysterau hyfforddiant traddodiadol yn sylweddol, gyda'r costau o baratoi ar gyfer ac ymgymryd â'r LPC yn amrywio o rhwng £9,000–£17,000, a'r ffigur cyfatebol o £3,000–£16,000 ar gyfer y SQE.¹¹⁷ Yn y sector

¹¹⁷ Denvir, C. et al (2023) [Legal Aid and the Future of Access to Justice](#)

cyfreithiol preifat, mae cwmnïau yn aml yn darparu contractau hyfforddiant i unigolion sy'n ceisio cymhwyster cyfreithiwr a noddi eu costau cymwysterau hyfforddiant o fewn hyn. Ar y llaw arall, mae llai o lwybrau hyfforddiant strwythuredig ar gael mewn cymorth cyfreithiol sifil. Nid yw rhai darparwyr yn cynnig contractau hyfforddiant, ac o'r rhai sy'n ei gynnig, efallai nad ydynt yn noddi costau cymwysterau hyfforddiant unigolyn. Felly, efallai y bydd angen i'r rhai sy'n ceisio ymuno â'r proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil hunan-ariannu eu cymhwyster. O ystyried y costau dan sylw, gall hyn fod yn rhwystr sylweddol i fynediad. Ymhellach, mae'r rhwystr hwn yn cael ei waethygu gan y tâl isel sydd ar gael yn y proffesiwn, oherwydd y gallai gymryd mwy o amser i ymarferwyr ad-dalu unrhyw ddyledion a gronnwyd drwy hunan-gyllido fel cyfreithiwr. Mewn arolwg, dywedodd 64.7% o fyfyrwyr y gyfraith yn y sampl eu bod wedi profi, neu eu bod yn profi rhwystrau ariannol tuag at gymhwyso fel cyfreithiwr cymorth cyfreithiol, gyda phryderon ynghylch hyfywedd gyrfa ym maes cymorth cyfreithiol yn amlwg ymhlith y rhai a oedd eisoes â phryderon ariannol.¹¹⁸

I gydnabod y rhwystr hwn i newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn ac yn dilyn ymgynghoriad gyda darparwyr tai yn 2021,¹¹⁹ mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn gweithredu'r Grant Hyfforddiant Cymorth Cyfreithiol (LATG) ar sail beilot i ddarparu cyllid ar gyfer costau cyflogau a hyfforddiant i 32 o gyfreithwyr dan hyfforddiant. Cyflwynwyd y cynllun peilot yn 2023. Wrth i'r gwerthusiad o'r LATG barhau yn ei gamau cynnar iawn, cynigiwyd rhai arwyddion cadarnhaol ynglŷn â materion y Grant mewn arolwg a gynhaliwyd gyda darparwyr yn Chwefror 2024. Er enghraifft, dywedodd 68% o'r darparwyr a arolygwyd (19 o 27 o'r darparwyr) na fyddent wedi recriwtio hyfforddeion ychwanegol heb y Grant. Yn ogystal, dywedodd pob darparwr bod y Grant yn gwella capasiti eu sefydliad i gyflenwi gwaith cymorth cyfreithiol i unrhyw raddau (gan amrywio o 'i raddau helaeth' i 'raddau cyfyngedig'). Mae'r dangosyddion cynnar hyn yn awgrymu bod y LATG yn gwneud gwahaniaeth diriaethol i weithgarwch recriwtio hyfforddeion i ddarparwyr ac mae'n gwneud rhywfaint o wahaniaeth i hyfywedd masnachol. Fodd bynnag, un feirniadaeth o'r cynllun yw nad yw'n cwmpasu'r costau angenrheidiol yn llawn, gan roi pwysau ar ddarparwyr i wneud iawn am y rhain yn fewnol er mwyn sicrhau hyfforddeiaeth lwyddiannus. Er bod arolygon hyfforddeion yn mynd rhagddynt a byddant yn cynnig mewnwelediad i weld a

¹¹⁸ *ibid.*

¹¹⁹ [Ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai](#)

Yw'r cynllun yn gwneud y system cymorth cyfreithiol sifil yn fwy deniadol a hygyrch yn y tymor hir, yn seiliedig ar y dystiolaeth gynnar hon, gallai'r cynllun warantu ehangu i gategoriâu eraill o'r gyfraith, o ystyried ei bod yn ymddangos bod y rhwystr o ran costau cymwysterau heb eu hariannu yn broblem ar draws y system gyfan.

Yn ogystal â'r costau hyfforddiant, rhwystr arall rhag cael mynediad i'r proffesiwn yw argaeledd llwybrau hyfforddiant. Fel y trafodwyd yn fyr eisoes, i ddarpar ymarferwyr sy'n ystyried ymuno â'r proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil, mae mwy o angen i ffurfio a llywio eich llwybr eich hun yn annibynnol, gan gynnwys interniaethau di-dâl, gwaith gwirfoddol, a swyddi paragyfreithiol. Mae mwy o strwythur ar gael i'r rhai sy'n ystyried mynediad i'r sector cyfreithiol preifat, megis diwrnodau agored cwmnïau, digwyddiadau rhwydweithio, cynlluniau gwyliau â thâl (interniaeth), a contractau hyfforddi sy'n talu costau cymwysterau. Gallai'r strwythurau hyn sydd ar gael wneud y sector cyfreithiol preifat yn fwy hygyrch i ddarpar ymarferwyr na'r system cymorth cyfreithiol sifil. Mae heriau darparwyr o ran hyfywedd ariannol hefyd yn debygol o fod yn rhwystr cryf i'w gallu i gynnig llwybrau hyfforddi mwy strwythuredig, gan fod llwybrau fel contractau hyfforddi a chynlluniau gwyliau yn gostus iawn.

Yn olaf, gallai diwylliant addysg gyfreithiol wneud i fyfyrwyr ail-feddwl ystyried gweithio ym maes cymorth cyfreithiol. Yn ôl Young Legal Aid Lawyers, ac a amlygwyd yn eu Hadroddiad Symudedd Cymdeithasol, mae'r system addysg gyfreithiol wedi'i hanelu'n bennaf at gyfraith fasnachol. Cefnogir hyn gan ymchwil gyda myfyrwyr y gyfraith,¹²⁰ a ganfu fod 18.3% o'r myfyrwyr a ymatebodd i'r arolwg wedi dweud bod negeseuon gan staff a sefydliadau yn awgrymu "nad oedd dyfodol i gymorth cyfreithiol" a bod myfyrwyr wedi'u hannog i beidio â dilyn gyrfa yn y maes.

Gallai'r rhwystrau hyn wrth geisio cael mynediad i'r proffesiwn fod yn llai perthnasol i fargyfreithwyr. Mae hyn oherwydd bod y llwybrau hyfforddiant i'r proffesiwn bargyfreithwyr wedi parhau'n ddigyfnwid i raddau helaeth waeth sut mae rhywun yn bwriadu gweithio ar draws y maes cymorth cyfreithiol a gwaith preifat. I gymhwyso fel bargyfreithiwr, rhaid i unigolyn ddilyn Cwrs Ymarfer y Bar (BPC), sy'n cael ei hunan-ariannu yn gyffredinol, yna tymor prawf wedi'i gefnogi gan siambr bargyfreithwyr. Ond, fel cyfreithwyr, bydd natur

¹²⁰ Denvir, C et al (2023) [Legal Aid and the Future of Access to Justice](#)

hunan-ariannu'r cymhwyster yn gwasanaethu fel rhwystr i ymgymryd â swm mawr o waith cymorth cyfreithiol sifil, oherwydd bydd y cyflog is sydd ar gael yn ei gwneud yn fwy heriol i ad-dalu unrhyw ddyledion a gronnyd wrth ennill cymhwyster.

Capasiti darparwyr i hyfforddi a goruchwyllo

Ym maes cymorth cyfreithiol sifil, rhaid i gyfreithwyr-ymarferwyr iau gael eu cefnogi gan oruchwylwr. Er mwyn goruchwyllo, rhaid bod gan oruchwylwyr nifer penodol o flynyddoedd o brofiad yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil a/neu gategori o'r gyfraith fel rhagofyniad, ac achrediad priodol. Mae'r gofynion penodol yn amrywio rhwng categorïau o'r gyfraith.

Mae ymarferwyr yn adrodd mai nifer fach o oruchwylwyr sydd ar gael yn y sector i hyfforddi ymarferwyr iau. Gall hyn gael ei ysgogi gan heriau darparwyr i gadw staff dros amser; os yw ymarferwyr profiadol yn gadael y sector, yna mae'n bosibl bod llai o ymarferwyr ar gael sy'n gallu cyflawni'r gofynion goruchwyllo, mater a bwysleisiwyd ar gyfer darparwyr tai a gymerodd ran yn ymchwil Cymdeithas y Gyfraith ar gynaliadwyedd. Hyd yn oed pan fydd darparwr yn cyflogi unigolion sy'n cyflawni'r gofynion hyn, efallai nad oes ganddynt y capasiti i hyfforddi ymarferwyr iau. Mae hyn unwaith eto yn ymwneud â hyfywedd ariannol i ddarparwyr sy'n cyflenwi cymorth cyfreithiol sifil. Gall ymarferwyr ymateb i broffidioldeb gwael drwy weithio oriau hwy, sy'n brofiad a adroddir yn aml, ac efallai eu bod yn canolbwyntio'n bennaf ar 'oroesi', sy'n golygu bod llai o amser ar gael i fuddsoddi mewn hyfforddi ymarferwyr iau.

Beth sy'n ysgogi heriau'r sector o ran cadw ymarferwyr dros amser, a pham y gallai hyn fod yn fwy o her na denu ymarferwyr newydd?

Dangosodd tystiolaeth y gallai cadw cyfreithwyr fod yn fwy o her i ddarparwyr na denu ymarferwyr newydd i'r system, ac y gallai'r cymhellion i fargyfreithwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu barhau i weithio ar gymorth cyfreithiol sifil dros amser fod yn her i'r system. Mae yna lawer o ffactorau a allai gyfrannu at hyn.

Amodau gwaith heriol

Thema a ailadroddwyd yn Ymchwil Eiriolaeth y Cais am Dystiolaeth ac ymchwil Cymdeithas y Gyfraith ar gynaliadwyedd yw y gall yr amodau gwaith fod yn heriol iawn i gyfreithwyr a bargyfreithwyr ym maes cymorth cyfreithiol sifil, a all arwain weithiau at

lefelau parhaus o straen a gorweithio. Mae oriau gweithio hir yn rhan graidd o hyn. Mae'n debygol bod sawl ffactor yn gyfrifol am hyn, gan gynnwys heriau gyda hyfywedd ariannol, recriwtio a beichiau gweinyddol uchel; gallai ymarferwyr fod yn ymateb drwy weithio oriau hwy er mwyn creu'r lefelau uchaf o refeniw a phroffidioldeb; gallai anawsterau recriwtio arwain at ddiffyg staff i sefydliadau-darparwyr, sy'n golygu bod cyfreithwyr yn ysgwyddo llwythi gwaith mwy; a gallai beichiau gweinyddol gynyddu'r swm o waith sy'n ychwanegol at lwyth gwaith ymarferwyr. Mae natur y gwaith yn dwysáu effaith oriau gwaith hir ar ymarferwyr. Gall achosion cymorth cyfreithiol sifil gynnwys defnyddwyr agored i niwed yn profi sefyllfaoedd trawmatig, a gall hyn gael effaith emosiynol uchel ar ymarferwyr. Gallai'r profiad hwn fod yn fwy cyffredin mewn categorïau penodol o'r gyfraith, ac un enghraifft fyddai mewnfudo a lloches. Yn ôl astudiaeth achos Young Legal Aid Lawyers a'r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus ar gymorth cyfreithiol mewnfudo a lloches, dywedodd 70% o ymatebwyr yr arolwg eu bod wedi profi trawma dirprwyol neu orweithio yn sgil eu hymarfer.¹²¹

“Mae gweithio ym maes cymorth cyfreithiol yn rôl sy'n peri straen lle mae lles pobl eraill yn dod yn gyfrifoldeb dyddiol. Mae cleientiaid yn ddigartref, yn hunanladdol, yn blant yn adrodd am gam-drin neu'n deuluoedd sy'n byw mewn cartrefi sydd wedi'u gorchuddio â llwydni, sy'n eu gwneud yn sâl... Gall clywed am drawma ein cleientiaid hefyd achosi trawma dirprwyol i ni, fodd bynnag ni allwn filio am empathi neu ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar drawma. Nid yw goruchwyliaeth glinigol neu gefnogaeth i les meddwl cyfreithwyr yn ariannol bosibl ychwaith. Wrth jyglo cleientiaid ag anghenion niferus, disgwylir i ni hefyd ymdrin â lefelau gweinyddol anhylaw ac afresymol. Mae disgwyl i ni ddrafftio dogfennau mewn cyfnodau cwbl afrealistig o amser, felly ni allwn hyd yn oed filio am yr amser y mae gwaith yn ei gymryd mewn gwirionedd.” **Clinig cyngor cyfreithiol, Lloegr**

Gwahaniaethau cyflog a chynnydd

Adroddir mai ychydig iawn o gyfleoedd sydd i wneud cynnydd yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil. Gallai hyn ymwneud â'r cyflog a natur rolau'r ymarferwyr. O ran cyflog, mae safbwyntiau ymarferwyr yn awgrymu, pan fydd rhywun yn wneud cynnydd i rolau

¹²¹ [Overstretched & unsustainable: astudiaeth achos o'r sector cymorth cyfreithiol mewnfudo a lloches, Young Legal Aid Lawyers a'r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus \(2023\)](#)

cyfreithiwr uwch yn y proffesiwn, cyfyngedig yw'r codiadau cyflog cyfatebol. Felly, dros amser, gallai'r gwahaniaeth rhwng rolau cymorth cyfreithiol sifil a phreifat cyfatebol gynyddu wrth i unigolyn wneud cynnydd yn eu gyrfa. Adlewyrchir y teimlad hwn yn y dyfyniad canlynol o Ymchwil Eiriolaeth yr Adolygiad:

“Mae'r tandaliad yn bodoli drwy'r amser. Dyma pryd mae paragyfreithwyr yn cael eu talu mwy mewn cwmnïau 'cylch hud'. Maent yn cael mwy o dâl nag ydw i fel pennaeth adran. Nid ydynt yn gymwys o gwbl. Fi sy'n rhedeg yr adran...ond dwi'n meddwl i fi fy hun yn aml, pam ydw i'n dal i wneud hyn?” **Cyfreithiwr, cyfraith iechyd meddwl, Lloegr**

Yn yr un modd, gallai bargyfreithwyr brofi cwmpas cyfyngedig i brofi cynnydd ariannol yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil. Yn y sector cyfreithiol preifat, gwneir cynnydd ariannol wrth ddatblygu enw da a gallu bilio cyfraddau uwch, a thrwy ennill profiad a gallu ymgymryd ag achosion mwy cymhleth. Ym maes cymorth cyfreithiol sifil, nid yw'n bosibl i fargyfreithwyr gynyddu eu cyfraddau bilio oherwydd bod y cyfraddau hyn yn cael eu gosod gan yr ACC ac maent yn sefydlog. Er y gallant brofi cynnydd ariannol drwy weithio ar achosion sy'n cynnwys llysoedd uwch, y gallai cyfraddau bilio uwch fod ar gael ar eu cyfer, mae'r cynnydd posibl i enillion drwy hyn yn debygol o fod yn llawer is fel cyfran na'r hyn sy'n bosibl yn y sector cyfreithiol preifat.

Yn ogystal, gallai effaith gwahaniaethau cyflog ar benderfyniadau ymarferwyr gynyddu pan fydd unigolion yn agosáu at gerrig milltir allweddol yn eu bywyd, er enghraifft eisiau dechrau teulu neu brynu eiddo. Dywedodd ymarferwyr a gymerodd ran yn yr Ymchwil Eiriolaeth eu bod wedi gweld llawer o'u cydweithwyr yn gadael y proffesiwn neu'n lleihau eu cyfranogiad ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyd-fynd â thueddiadau meintiol ar ddeiliadaeth ymarferwyr yn y proffesiwn, gyda deiliadaeth o 3-12 mlynedd yn fan gadael allweddol i gyfreithwyr yn y proffesiwn.

O ran cynnydd rolau ymarferwyr, mae'n bosibl bod llai o gyfle hefyd i gyfreithwyr symud ymlaen i rolau rheoli a/neu oruchwylio yn gyfan gwbl. Gallai hyn fod oherwydd y nifer fach o ddarparwyr sy'n rhan o'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil. Mae data o'r Adroddiad Trosolwg o Gyhoeddiadau Data yn dangos bod y farchnad cymorth cyfreithiol sifil yn cynnwys nifer fawr o ddarparwyr bach. Yn 2021–22, roedd 51% o ddarparwyr gwaith teulu

gweithredol bach yn fach (sy'n cynnwys 2–4 partner);¹²² roedd 47% o'r darparwyr nad oeddynt yn gwneud gwaith teulu gweithredol yn fach iawn (0–1 partner) ac roedd 39% yn isel; ac roedd 46% o ddarparwyr gweithredol sy'n gweithio ar draws y categorïau teulu a nad ydynt yn achosion teulu yn fach. Gall maint bach nodweddiadol darparwyr cymorth cyfreithiol olygu bod yn rhaid i'r rhan fwyaf neu'r holl ymarferwyr ynddynt ymwneud yn uniongyrchol â gwaith achos, gan atal symudiad llwyr i rolau rheoli a/neu oruchwylio. Mae hyn yn cyd-fynd â phrofiadau adroddedig ymarferwyr a fynychodd gyfarfodydd bord gron Cais am Dystiolaeth yr Adolygiad, gyda llawer o'r mynychwyr ar lefel partner, ond sy'n dal i ymwneud yn uniongyrchol â gwaith achos.

Drwy archwilio'r heriau i ddenu ymarferwyr i ymuno â'r proffesiwn a chadw'r ymarferwyr hynny dros amser, mae'n amlwg mai lefelau ffioedd heb eu newid a hyfywedd ariannol darparwyr yw prif ysgogwyr anawsterau darparwyr i ddatblygu a chynnal gweithlu o safon. Maent yn sail i lawer, os nad pob un, o'r rhwystrau a drafodwyd. Pe byddai ffioedd yn uwch a'r ddarpariaeth yn fwy hyfyw yn ariannol, gellid lleihau'r gwahaniaethau cyflog i gyfreithwyr a bargyfreithwyr, gallent brofi mwy o gynnydd yn ystod eu gyfaoedd, gallai darparwyr fuddsoddi mwy i sefydlu llwybrau hyfforddiant mwy strwythuredig a goruchwylio ymarferwyr iau, a gellid lleihau'r angen i ymarferwyr weithio oriau gwaith hir.

Gallai'r heriau hyn i recriwtio a chadw cyfreithwyr a bargyfreithwyr greu risgiau i effeithiolrwydd a chynaliadwyedd y system cymorth cyfreithiol sifil, os yw capasiti'r system i gefnogi defnyddwyr yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg bargyfreithwyr sydd ar gael i weithio ar waith cymorth cyfreithiol sifil nad yw yn y categori teulu, neu os yw'r heriau i gadw staff yn golygu nad yw ymarferwyr yn gadael y proffesiwn (drwy ymddeol neu drosiant arferol) yn cael eu cyfnewid am ymarferwyr sy'n ymuno ac yn aros yn y proffesiwn. Trafodir y risgiau hyn ymhellach yng nghasgliad yr adroddiad, gan ganolbwyntio ar ddyfodol y system.

Amrywiaeth y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil

Fel rhan o'r ymdrech i ddatblygu gweithlu o gyfreithwyr a bargyfreithwyr o safon yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil, mae'n bwysig datblygu gweithlu sy'n cynrychioli'r boblogaeth mae'n ei gwasanaethu yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn bwysig ar gyfer unrhyw waith i'r cyhoedd, ond mae'n arbennig o bwysig yng nghyd-destun cymorth

¹²² Mae'r ffigur ar gyfer darparwyr 'bach iawn' wedi'i atal.

cyfreithiol lle gallai materion cyfreithiol defnyddwyr fod yn berthnasol i'w nodweddion neu gael eu heffeithio gan eu nodweddion, megis herio penderfyniadau'r Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal, anghydfodau ynghylch hawliadau am wahaniaethu, a hawliadau lloches. Gall gweithlu cynrychioliadol fod yn un sy'n deall profiadau defnyddwyr yn well ac yn ei dro efallai y gall gynnig cymorth, cyngor a chynrychiolaeth fwy personol.

Bydd yr isadran hon yn edrych ar gyfansoddiad y gweithlu yn nhermau rhywedd, oedran, ethnigrwydd a dosbarthiad daearyddol gyda data o Adroddiad Trosolwg o Gyhoeddiadau Data yr Adolygiad. Mae data ar gael ar draws cyfres o amser, o 2014–15 i 2021–22 i gyfreithwyr a 2015–16 i 2022–23 i fargyfreithwyr. Nodir cymariaethau o ddechrau i ddiwedd y gyfres amser hon lle mae newidiadau yn amlwg. Ni chynhwysir data ar nodweddion pwysig eraill, megis anabledd a chefnidir economaidd-gymdeithasol. Nid yw'r data hwn ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cyfreithwyr yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil. Er ei fod ar gael i fargyfreithwyr, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd bod cyfran uchel o'r boblogaeth bargyfreithwyr y mae'r data'n 'anhysbys' ar gyfer y nodweddion hyn.

Yna bydd yr isadran yn cloi drwy archwilio ffactorau a allai lesteirio amrywiaeth y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil.

Cyfreithwyr

Mae cafeatau tebyg yn berthnasol i'r data hwn am gyfreithwyr, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran hon; mae'r data yn cynnwys cyfreithwyr sy'n gweithio i ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil gweithredol yn gyffredinol, ac nid yw'n golygu y bydd y cyfreithwyr hyn yn gweithio ar achosion cymorth cyfreithiol eu hunain o reidrwydd, oherwydd mae rhai sefydliadau-darparwyr yn ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol sifil a gwaith cyfreithiol preifat.

Yn 2021–22, roedd mwy o gyfreithwyr benywaidd na gwrywaidd yn nhair adran y system cymorth cyfreithiol sifil: darparwyr sy'n gwneud gwaith teulu (53%), darparwyr sy'n ymwneud â chategoriâu o'r gyfraith heblaw teulu (54%), a darparwyr sy'n gwneud cyfuniad

o waith teulu a gwaith nad yw'n waith teulu (55%).¹²³ Hefyd, roedd cyfran o gyfreithwyr nad oedd eu rhywedd yn hysbys.

O ran oedran, o 2014–15 i 2021–22, profodd tair adran y system cymorth cyfreithiol sifil ostyngiad yn y gyfran o gyfreithwyr o dan 35 oed. Gallai hyn fod yn arwydd o'r heriau a brofir gan ddarparwyr i gadw ymarferwyr, gyda deiliadaeth o 3–12 o flynyddoedd yn bwynt gadael allweddol. I ddarparwyr gwaith teulu, bu cynnydd yn y gyfran o gyfreithwyr 35–44 oed a 65+ oed, ac i ddarparwyr sy'n gwneud cyfuniad o waith teulu a gwaith nad yw'n waith teulu, gwelwyd cynnydd yn y gyfran o gyfreithwyr 55–64 oed a 65+ oed.¹²⁴ Gallai hyn fod yn arwydd o weithlu sy'n heneiddio yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil, rhywbeth yr awgrymodd darparwyr hefyd oedd yn digwydd mewn ymateb i Gais am Dystiolaeth yr Adolygiad.

O ran ethnigrwydd, adroddodd mwyafrif o'r cyfreithwyr bod eu hethnigrwydd yn Wyn yn 2021-22, gan gynrychioli 71% o'r gweithlu cyfreithwyr o ran darparwyr gwasanaeth, 65% o'r darparwyr nad oeddynt yn gwneud gwaith teulu, a 62% o ddarparwyr sy'n gwneud cyfuniad o waith teulu a gwaith arall. Yr ail grŵp ethnig mwyaf oedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, gan gynrychioli 8%, 7% ac 11% o'r tair adran yn y system cymorth cyfreithiol, yn y drefn honno. Fodd bynnag, roedd cyfran cymharol uchel o gyfreithwyr nad oedd eu grŵp ethnig yn hysbys.¹²⁵

O ran dosbarthiad daearyddol yn 2021–22, roedd y dosbarthiad ar draws Cymru a Lloegr yn wahanol ar draws y dair adran o'r system cymorth cyfreithiol sifil. Roedd cyfreithwyr gyda darparwyr gwaith teulu wedi'u dosbarthu'n gymharol gyfartal ledled Cymru a Lloegr. Roedd crynadau uwch o gyfreithwyr gyda darparwyr nad oeddynt yn gwneud gwaith teulu yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr (26%), Llundain (22%), a De-ddwyrain Lloegr (17%), ac roedd crynadau is yn Nwyrain Lloegr (2%), Dwyrain Canolbarth Lloegr (1%), Gogledd-ddwyrain Lloegr (1%), a Swydd Efrog a'r Humber (1%). Roedd crynadau uwch o gyfreithwyr sy'n gwneud cyfuniad o waith teulu a gwaith arall yn Llundain (37%) a

¹²³ [Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Trosolwg o Ddarparwyr](#)
Tabl 2.1.2.

¹²⁴ Ibid., Tabl 2.1.3.

¹²⁵ Ibid., Tabl 2.1.4

chrynoadau is yn Nwyrain Lloegr (4%) a Chymru (3%).¹²⁶ Mae'n nodedig bod crynhoad is o gyfreithiwr gan ddarparwyr a oedd yn gwneud gwaith nad yw'n waith teulu a gwaith cyfunol yn Nwyrain Lloegr. Gall hyn awgrymu bod gan y rhanbarth grynodiad is o wasanaethau a darparwyr cymorth cyfreithiol sifil ar gael.

Bargyfreithwyr

Yn 2022–23, roedd y garfan o fargyfreithwyr oedd yn ymgymryd ag achosion cymorth cyfreithiol sifil teulu yn unig yn cynnwys cyfran uwch o fargyfreithwyr benywaidd (59%) na bargyfreithwyr gwrywaidd (39%), gyda 2% mewn grŵp anhysbys. Roedd y gwrthwyneb yn wir yn achos bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith nad yw'n waith teulu, gyda chyfran uwch o fargyfreithwyr gwrywaidd (53%) na bargyfreithwyr benywaidd (43%), gyda 4% mewn grŵp anhysbys.¹²⁷

O ran oedran, o 2015–16 i 2022–23, gwelwyd tueddiadau tebyg ar gyfer bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith teulu a gwaith nad yw'n waith teulu: mae'r gyfran o fargyfreithwyr o dan 44 oed wedi parhau'n gymharol gyson, bu gostyngiad yn y gyfran o fargyfreithwyr 45 i 54 oed, a chynnydd yn y rhai 55+ oed.¹²⁸ Mae hyn yn dangos, i raddau, bod y gweithlu bargyfreithwyr yn heneiddio hefyd.

O ran ethnigrwydd, dywedodd 79% o fargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith teulu bod eu hethnigrwydd yn Wyn yn 2022–23, gyda ffigur cyfatebol o 77% ar gyfer bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith nad yw'n waith teulu. Ar gyfer y ddwy garfan, yr ail grŵp ethnig amlycaf oedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, sy'n cynrychioli 7% ac 8% o'r garfan ehangach ar gyfer gwaith teulu a gwaith nad yw'n waith teulu, yn y drefn honno.¹²⁹

O ran dosbarthiad daearyddol yn 2022–23, roedd crynhoad uwch o fargyfreithwyr teulu yn Llundain (36%), Gogledd Lloegr (25%), a Chanolbarth Lloegr (15%), a chrynhoad is yng Nghymru (3%). Roedd crynhoad uwch o fargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith nad yw'n waith teulu yn Llundain (65%) a Gogledd Lloegr (17%), ac roedd crynhoad is tebyg yng

¹²⁶ Ibid., Tabl 2.1.7.

¹²⁷ Ibid., Tabl 6.2.1.

¹²⁸ Ibid., Tabl 6.3.1.

¹²⁹ Ibid., Tabl 6.4.1.

Nghymru (2%).¹³⁰ Mae'n nodedig bod gan fargyfreithwyr yn y ddwy gylchran grynodiad is yng Nghymru, a nodwyd yr un peth ar gyfer cyfreithwyr gyda darparwyr sy'n gwneud gwaith cyfun. Gallai hyn ddangos bod gan y rhanbarth grynhoad is o wasanaethau cymorth cyfreithiol sifil ar gael, yn benodol y rhai a fyddai'n cynnig cynrychiolaeth yn y llys. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau Ymchwil Eiriolaeth yr Adolygiad, a adroddodd brinder o ran bargyfreithwyr sydd ar gael yng Nghymru (yn ogystal â rhanbarthau eraill).

Pa ffactorau sy'n llesteirio amrywiaeth y proffesiwn cymorth cyfreithiol sifil?

Yn ôl Cais am Dystiolaeth yr Adolygiad, mae darparwyr yn adrodd bod nifer o rwystrau yn llesteirio cynrychiolaeth y rhai â nodweddion gwarchoddedig yn y gweithlu cymorth cyfreithiol sifil, sy'n effeithio ar eu gallu i'w denu i'r proffesiwn a'u cadw dros amser. Yn ôl y sôn, mae'r rhwystrau hyn yn effeithio'n arbennig ar unigolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, unigolion niwrowahanol, menywod â phlant ac sy'n feichiog, a phobl ag anableddau.

Yn yr adran ar recriwtio a chadw, nodwyd mai un rhwystr i ymuno â'r proffesiwn yw bod llai o lwybrau hyfforddiant strwythuredig ar gael i mewn i'r proffesiwn ac yn aml nid yw contractau cymorth cyfreithiol sifil yn cwmpasu costau'r cymhwyster cyfreithwyr. O ystyried costau uchel y cymhwyster cyfreithwyr, ac y gallai'r cyflog cymharol isel yn y proffesiwn ei gwneud yn fwy heriol i ad-dalu unrhyw ddyledion wrth sicrhau'r cymhwyster, gallai'r rhwystr ariannol hwn atal y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn arbennig rhag ymuno â'r proffesiwn.

Nodwyd hefyd yn Adran 3.2, ochr yn ochr â chyflog cymharol isel, un her i ddarparwyr ac ymarferwyr yw nad yw agweddau penodol o waith cymorth cyfreithiol sifil yn daladwy, er enghraifft gwaith paratoi achosion, ymchwil cyfreithiol a gwaith gweinyddol. Roedd rhai o'r ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth o'r farn y gallai hyn gyflwyno heriau i unigolion â niwroamrywiaeth, er enghraifft dyslecsia, oherwydd gallai gymryd mwy o amser i gwblhau gwaith a ragnodwyd, a hynny heb dderbyn tâl amdano.

Yn olaf, i fenywod â phlant, y rhai sy'n feichiog a phobl ag anableddau, gallai'r diffyg cefnogaeth ac addasiadau sydd ar gael eu darbwylo i beidio ymuno â'r system cymorth

¹³⁰ Ibid., Tabl 6.1.6.

cyfreithiol sifil. Dywedir bod trefniadau gweithio rhan-amser yn anghyffredin ac nad ydynt yn cael llawer o gymorth, a bod y pecyn absenoldeb mamolaeth a gynigir gan ddarparwyr yn aml yn annigonol. Ar gyfer pobl ag anableddau corfforol, adroddodd cyfranogwyr yn yr Ymchwil Eiriolaeth y gall darparwyr fod yn amharod i wneud addasiadau ffisegol i ofod swyddfa a/neu hygyrchedd swyddfa, oherwydd goblygiadau cost gwneud hynny.

3.4 Effeithiau: Cyflenwi a chynaliadwyedd

Canfyddiadau allweddol:

- Mae llawer o ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil yn gwneud colled, er bod proffidioldeb yn amrywio rhwng gwahanol gategoriâu o'r gyfraith.
- Mae'r heriau i ddarparwyr o ran hyfywedd ariannol cyflenwi cymorth cyfreithiol sifil yn cael eu hysgogi gan lawer o ffactorau:
 - Lefelau ffioedd nad ydynt wedi cynyddu ers 1996.
 - Nid yw'r gwaith modelu ar y cymysgedd achosion cyfartalog sy'n sail i'r lefelau ffioedd sefydlog wedi'i ddiweddarau.
 - Gwaith pwysig a llafurus ar achosion cymorth cyfreithiol sifil nad yw'n aml yn daladwy er y gallai fod yn rhan o'r gwaith o baratoi achosion.
- Mae heriau hyfywedd ariannol yn cael eu dwysáu gan lefelau uchel adroddedig o gostau gweinyddol a brofir gan ddarparwyr. Mae costau gweinyddol uwch yn cael eu hysgogi gan:
 - Strwythur ffioedd cymhleth.
 - Cynnal gwiriadau cymhwysedd ar gyfer gwaith help cyfreithiol a chynorthwyo defnyddwyr i lywio'r broses gwerthuso cymhwysedd.
 - Prosesau bilio sy'n galw am lefelau uchel o fanylder ac sy'n llafurus o ran amser.
 - Archwiliadau'r ACC o waith achos darparwyr (er bod archwiliadau yn angenrheidiol er mwyn rheoleiddio'r system).
 - Systemau TG yr ACC nad ydynt yn hawdd eu defnyddio, sy'n aneffeithlon ac nad ydynt yn darparu ar gyfer newidiadau ac i amgylchiadau defnyddwyr neu achosion.

- Mae darparwyr yn profi heriau wrth recriwtio a chadw cyfreithwyr. Mewn termau cymharol, mae cadw cyfreithwyr i weithio ar gymorth cyfreithiol sifil dros amser yn fwy o her i ddarparwyr.
- Mae'n ymddangos bod cymhellion i fargyfreithwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu a chynnal eu cyfranogiad yn y proffesiwn dros amser yn her i'r system.

I gloi'r bennod hon ar brofiadau darparwyr gyda'r system cymorth cyfreithiol sifil, bydd yr adran hon yn archwilio effeithiau eu heriau gyda hyfywedd ariannol, recriwtio a chadw, a diffyg cymhellion pellach yn y system ehangach (er enghraifft costau gweinyddol, a drafodwyd yn Rhan 2). O ran eu heffeithiau, bydd yn archwilio'r pynciau canlynol:

- i. Penderfyniadau darparwyr ar adael y farchnad, y swm o ddarpariaeth cymorth cyfreithiol sifil a gynigir ganddynt, a maint darparwyr cymorth cyfreithiol sifil.
- ii. Penderfyniadau darparwyr ar y math o ddarpariaeth cymorth cyfreithiol sifil a gynigir ganddynt.

Gan ddefnyddio'r lensys hyn, bydd yn gorffen gyda sylwebaeth ar iechyd cyffredinol y farchnad a'r cyswllt rhwng y tueddiadau uchod ac argaeledd y system i ddefnyddwyr.

Penderfyniadau darparwyr ar adael y farchnad, y swm o ddarpariaeth cymorth cyfreithiol sifil a gynigir ganddynt, a maint darparwyr cymorth cyfreithiol sifil

Mae'r adroddiad hwn a thystiolaeth ehangach yr Adolygiad yn pwysleisio bod darparwyr yn wynebu rhwystrau ac anghymhellion cryf i gynnig darpariaeth. Byddai disgwyl i gyflenwad y farchnad ymateb i'r amodau hyn drwy leihau, gyda darparwyr yn gadael y farchnad, y darparwyr sy'n weddill yn lleihau eu darpariaeth gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil ac yn mynd yn llai dros amser. Bydd yr isadran hon yn asesu'r graddau y mae'r disgwyliadau hyn yn dwyn ffrwyth yn ymarferol.

Gadael y farchnad

Dim ond trwy rowndiau caffael ffurfiol a gynhelir gan yr ACC y gall darparwyr ymuno â'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil. Cynhaliwyd y ddau gylch caffael mawr diwethaf yn 2023–

24 a 2018–19 (weithiau cynhelir cylchoedd caffael llai mewn rhai categorïau o'r gyfraith drwy eithriad, lle mae bylchau yn y farchnad wedi'u nodi). Ar ddiwedd 2024 bydd yr ACC yn cyflwyno proses gaffael "bob amser ymlaen" ar gyfer contractau 2024 sy'n golygu y gall cwmnïau gynnig unrhyw bryd yn ystod oes y contract. Gall darparwyr ddewis gadael y farchnad unrhyw bryd ar ôl iddynt roi'r hysbysiad gofynnol.

O 2014–15 i 2021–22,¹³¹ mae'r nifer o ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil gweithredol yn y farchnad (nid yw hyn yn cynnwys darparwyr sydd wedi bod yn ddeiliaid contractau ond na ddarparodd wasanaethau yn y cyfnod amser) wedi lleihau o 1,570 i 1,230, gostyngiad o 22%.¹³² Dim ond o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn 2019–20 y cynyddodd nifer y darparwyr gweithredol, yn dilyn y cylch caffael yn 2018–19. Dangosir hyn yn nhabl 8 isod. Mae'n bwysig nodi bod cyfyngiadau i ddefnyddio rhifau darparwyr gweithredol fel metrig. Nid yw niferoedd darparwyr gweithredol yn dynodi: maint y cwmni; nifer y staff sy'n gweithio ar gymorth cyfreithiol ar amser penodol; faint o waith cymorth cyfreithiol a wneir gan gwmni; nac ychwaith a yw'r cwmni wedi uno ag un arall yn ddiweddar.

¹³¹ Defnyddiwyd yr amserlen hon oherwydd hwn yw'r cyfnod a gwmpaswyd gan ymarfer cyfateb data gyda Chymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar (fel rhan o'r ffrwd waith Cyhoeddiadau Data).

¹³² Diffinnir darparwyr cymorth cyfreithiol sifil 'gweithredol' fel y rhai sydd wedi cyflwyno o leiaf un bil terfynol i'r ACC mewn unrhyw flwyddyn ac a oedd yn ddeiliaid contract cymorth cyfreithiol sifil ar ddiwedd y flwyddyn yn y categori perthnasol o'r gyfraith.

Tabl 8: Y nifer o gwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol yn ôl maes ymarfer a blwyddyn

	2014– 15	2015– 16	2016– 17	2017– 18	2018– 19	2019– 20	2020– 21	2021– 22
Teulu								
Nifer y cwmnïau	810	810	770	740	710	720	730	690
Newid blwyddyn ar ôl blwyddyn		0%	-5%	-5%	-4%	2%	2%	-6%
Cymysg								
Nifer y cwmnïau	370	320	280	270	230	240	210	200
Newid blwyddyn ar ôl blwyddyn		-15%	-10%	-7%	-13%	3%	-12%	-3%
Sifil Arall								
Nifer y cwmnïau	380	360	330	330	370	380	340	340
Newid blwyddyn ar ôl blwyddyn		-6%	-7%	-3%	15%	1%	-9%	-1%
Pob Cwmni								
Nifer y cwmnïau	1,570	1,490	1,390	1,330	1,310	1,340	1,280	1,230
Newid blwyddyn ar ôl blwyddyn		-5%	-7%	-5%	-1%	2%	-4%	-4%

Ffynhonnell: Trosolwg Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Sifil – Tabl 1.1.3: Nifer y cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil yn ôl maes ymarfer a blwyddyn


Mae data ar wahân yn dangos, yn ystod rownd gaffael 2018–19, bod 120 a 70 o ddarparwyr wedi ymuno â'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil gweithredol yn 2018–19 a 2019–20, yn y drefn honno.¹³³ Mae hyn yn dangos bod cymhellion yn parhau i fodoli i ymuno â'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil. Fodd bynnag, mae'r ychwanegiad o ddarparwyr i mewn i'r farchnad drwy'r rowndiau caffael yn cael eu diddymu o fewn un i ddwy flynedd wrth i ddarparwyr barhau i adael y farchnad.

Mae'n bosibl cyd-destunoli'r newid yn nifer y darparwyr gweithredol yn ôl y tueddiadau galw am gynrychiolaeth sifil a help cyfreithiol, y mae metrigau allweddol ar eu cyfer yn gyfanswm nifer y tystysgrifau a roddwyd (cynrychiolaeth sifil) a chyfanswm y materion a

¹³³ [Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Trosolwg o Ddarparwyr – tabl 1.4.2.](#)

ddechreuwyd (help cyfreithiol). O 2014–15 i 2022–23, cynyddodd y nifer o dystysgrifau cynrychiolaeth sifil a gymeradwywyd o 92,953 i 106,701¹³⁴ (15%) a dechreuodd materion help cyfreithiol leihau o 171,586 i 130,799 (24%).¹³⁵ Mae hyn yn dangos, er bod y galw am gynrychiolaeth sifil a gwasanaethau cymorth cyfreithiol wedi cynyddu a lleihau, yn y drefn honno, mae cyfrannwr sylfaenol i gyflenwad y farchnad, sef nifer y darparwyr gweithredol, wedi lleihau. Dangosir y tueddiadau hyn yn y galw yn ffigurau 6 a 7 isod.

Ffigur 6: Cynrychiolaeth sifil: cyfanswm y tystysgrifau a gymeradwywyd, 2014–15 i 2022–23




[Total volume of...] Cyfanswm nifer y tystysgrifau a gymeradwywyd [Financial year] Blwyddyn ariannol

Ffynhonnell: GOV.UK. (2023). Ystadegau cymorth cyfreithiol: ffeiliau data lonawr - Mawrth 2023 Tabl 6.2.

¹³⁴ [Ystadegau cymorth cyfreithiol lonawr - Mawrth 2023 - GOV.UK](#) tabl 6.2.

¹³⁵ *Ibid.*, tabl 5.1.

Ffigur 7: Help cyfreithiol: cyfanswm y materion a ddechreuwyd, 2014–15 i 2022–23



[Total volume of..] Cyfanswm y materion a ddechreuwyd [Financial year] Blwyddyn ariannol

Ffynhonnell: GOV.UK. (2023). Ystadegau cymorth cyfreithiol: Ionawr - Mawrth 2023 Tabl 5.1

Mae tystiolaeth yn dangos, o'r anghymhellion a'r rhwystrau a drafodwyd yn y farchnad, mae'n ymddangos mai heriau sy'n gysylltiedig â'r hyfywedd ariannol i gyflenwi cymorth cyfreithiol sifil yw'r prif ffactor sy'n ysgogi darparwyr i adael y farchnad. Yn ôl data'r ACC ar yr esboniadau a gynigiwyd gan 761 o ddarparwyr a adawodd eu contractau cymorth cyfreithiol sifil rhwng Medi 2017 ac Awst 2023, dywedodd 43% mai'r prif reswm oedd hyfywedd ariannol, y rheswm nesaf mwyaf cyffredin oedd colli enillwyr ffioedd a/neu oruchwylwyr allweddol, a nodwyd gan 19% o ymatebwyr.¹³⁶ Roedd ymatebion i'r Arolwg Darparwyr hefyd yn nodi mai hyfywedd ariannol oedd y brif ystyriaeth i gyfran fawr o'r rhai sy'n gadael y farchnad. Dywedodd 32% o'r darparwyr practis preifat a gymerodd ran fod eu sefydliad wedi rhoi'r gorau i fod yn ddeiliaid o leiaf un math o gontract cymorth cyfreithiol yn ystod eu daliadaeth – gwnaeth 65% o'r rhain hynny oherwydd nad oedd bellach yn hyfyw'n ariannol iddynt. Roedd y rhesymau eilaidd a nodwyd dros beidio â pharhau â chontract cyfreithiol sifil penodol bellach yn ymwneud â'r gweithlu – yn benodol anhawster i recriwtio'r staff angenrheidiol (28%) neu beidio â phenodi rhywun yn lle aelod

¹³⁶ [Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil](#) ffigur 19.

o staff allweddol (24%) – materion y mae'r adroddiad hwn eisoes wedi nodi y gellid eu cysylltu'n rhannol o leiaf â hyfywedd ariannol.

Fel rhan o'r drafodaeth hon ar adael y farchnad, gellir darparu manylion pellach drwy drafod y nifer o ddarparwyr sy'n gadael y farchnad mewn categorïau penodol o'r gyfraith neu/a darparwyr nid-er-elw o gymharu â darparwyr er-elw.

O fis Ebrill 2013 i fis Awst 2023, profodd y categorïau canlynol o'r gyfraith ostyngiad yn nifer y darparwyr ar gcontract o fwy na 10%:

- Teulu – Gostyngodd y nifer o ddarparwyr 37%, a gostyngodd swyddfeydd 38%.¹³⁷ Cynyddodd y nifer o dystysgrifau cynrychiolaeth sifil a gymeradwywyd 4%¹³⁸ a gostyngodd y materion help cyfreithiol a ddechreuwyd o 44%.¹³⁹
- Tai a Dyled – Gostyngodd y nifer o ddarparwyr 45%, a gostyngodd swyddfeydd 53%. Gostyngodd y nifer o dystysgrifau cynrychiolaeth sifil a gymeradwywyd 52% a gostyngodd y materion help cyfreithiol a ddechreuwyd o 45%.
- Mewnfudo a Lloches – Gostyngodd y nifer o ddarparwyr 38%, a gostyngodd swyddfeydd 48%. **197 i 167 15.2%**. Gostyngodd y nifer o dystysgrifau cynrychiolaeth sifil a gymeradwywyd 66% a chynyddodd y materion help cyfreithiol a ddechreuwyd o 32%.
- Iechyd Meddwl – Gostyngodd niferoedd a swyddfeydd 29%. Cynyddodd y nifer o dystysgrifau cynrychiolaeth sifil a gymeradwywyd 281% a gostyngodd y materion help cyfreithiol a ddechreuwyd o 25%.
- Gofal Cymunedol – Gostyngodd y nifer o ddarparwyr 18%, a gostyngodd swyddfeydd 26%. Cynyddodd y nifer o dystysgrifau cynrychiolaeth sifil a gymeradwywyd 22% a gostyngodd y materion help a ddechreuwyd 48%.
- Esgeuluster Clinigol – Gostyngodd y nifer o ddarparwyr 50%, a gostyngodd swyddfeydd 49%. Gostyngodd y nifer o dystysgrifau cynrychiolaeth sifil a gymeradwywyd 88% a gostyngodd y materion help cyfreithiol a ddechreuwyd 75%.

¹³⁷ Ibid., ffigur 35.


¹³⁸ Ibid., tabl 1.

¹³⁹ Ibid., tabl 2.

Mae tri phrif gategori'r gyfraith, teulu, tai a dyled, a mewnfudo a lloches wedi profi gostyngiad nodedig yn nifer y darparwyr dan gcontract. Mae hyn yn creu pryderon penodol ynglŷn ag amodau'r farchnad yn y categorïau hyn o'r gyfraith. Yn eu Hymchwil i'r Farchnad, nododd PA Consulting tai a dyled a mewnfudo a lloches fel y meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf yn y farchnad. Nodwyd bod materion capasiti wedi'u hadrodd yn y categorïau hyn o'r gyfraith er bod y nifer o achosion a'r llwythi gwaith cyfartalog yn gostwng, sy'n dangos presenoldeb cyfyngiadau capasiti "cudd" (er enghraifft cymhlethdod a hyd cynyddol achosion). Mae hefyd yn nodedig, mewn achosion teulu, mewnfudo a lloches, iechyd meddwl a gofal cymunedol, er bod rhannau o'r farchnad yn profi galw uwch, naill ai ar gyfer cynrychiolaeth sifil neu help cyfreithiol, mae darparwyr yn parhau i ddewis gadael y farchnad ar sail net. Mae hyn yn creu pryderon pellach am amodau'r farchnad yn y categorïau hyn.

O ran darparwyr nid-er-elw, nodwyd yn Adran 3.3 y gallai darparwyr nid-er-elw wynebu mwy o heriau o ran hyfywedd ariannol darparu cymorth cyfreithiol sifil. Efallai y byddant yn llai abl i liniaru'r heriau hyn drwy gyfuno gwaith cymorth cyfreithiol sifil â gwaith cyfreithiol preifat, ac yn ei dro gallant fod yn fwy dibynnol ar ffrydiau refeniw cymorth cyfreithiol eraill nad ydynt yn sifil, megis grantiau a rhoddion. Mae Ffigur 8 isod yn dangos y ddibyniaeth uchel hon ar ffrydiau refeniw cymorth cyfreithiol nad ydynt yn rhai sifil.

Ffigur 8: Dadansoddiad ffynonellau refeniw cyfartalog cwmnïau nid-er-elw



[Civil legal aid] Cymorth cyfreithiol sifil [Trust / donations] Ymddiriedolaeth / rhoddion [Other sources] Ffynonellau eraill

Ffynhonnell: Arolwg Darparwyr, C8: Tua pha gyfran o refeniw cyffredinol eich sefydliad sy'n dod o'r meysydd canlynol (cymorth cyfreithiol sifil/ ymddiriedolaethau neu roddion/ ffynonellau eraill)?
Sylfaen: Sefydliadau nid-er-elw (n=39)


Goblygiad posibl hyn yw, oherwydd bod grantiau a rhoddion yn fwy ansicr na ffrydiau refeniw eraill, y gallai dibyniaeth uwch darparwyr nid-er-elw rwystro eu gallu i gynllunio, buddsoddi a recriwtio staff yn yr hirdymor. Fodd bynnag, ni chefnogir hyn gan dystiolaeth ar gyfansoddiad y farchnad. Ers 2014–15, er bod niferoedd cyffredinol darparwyr yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil wedi bod yn gostwng, mae cyfran y darparwyr dan gontract sy'n ddarparwyr nid-er-elw wedi aros yr un fath dros amser, ar 6%.¹⁴⁰ Felly, ni ellir gwneud casgliad pendant y gallai'r sector nid-er-elw fod yn fwy agored i heriau hyfywedd ariannol y farchnad cymorth cyfreithiol sifil.

¹⁴⁰ Ibid., ffigur 38.

Llwyth achosion darparwyr

Ar gyfer cynrychiolaeth sifil, mae darparwyr wedi cynyddu'r nifer cyfartalog o achosion maent yn eu darparu. Fel y dangosir yn ffigur 9, isod, cwblhaodd darparwyr 38 achos ar gyfartaledd (fesul swyddfa darparwr) yn 2014–15. Gostyngodd hyn yn 2015–16, ond cynyddodd y ffigur hwn dros y blynyddoedd dilynol, i 49 yn 2022–23.


Ffigur 9: Nifer cyfartalog yr achosion a gwblhawyd fesul swyddfa darparwr ar gyfer cynrychiolaeth sifil, 2010–11 i 2022–23



[Average number of...] Nifer cyfartalog yr achosion fesul swyddfa darparwr [Financial year] Blwyddyn ariannol

Ffynhonnell ar gyfer y nifer o achosion cynrychiolaeth sifil: [Ystadegau cymorth cyfreithiol: Ionawr - Mawrth 2023](#) – Tabl 6.3.

Ar gyfer help cyfreithiol, mae llwyth achosion darparwyr wedi amrywio ers 2014–15 ac nid oes patrwm amlwg. Cwblhaodd darparwyr 74 o faterion ar gyfartaledd (fesul swyddfa darparwr) yn 2014–15, ac roedd y ffigur hwn yn 83 yn 2022–23. Dangosir hyn gan ffigur 10.

Ffigur 10: Nifer cyfartalog y materion a gwblhawyd fesul swyddfa darparwyr ar gyfer help cyfreithiol, 2010–11 to 2022–23

[Average number of...] Y nifer cyfartalog o faterion fesul swyddfa darparwyr [Financial year] Blwyddyn ariannol

Ffynhonnell nifer o achosion help cyfreithiol: [Ystadegau cymorth cyfreithiol: Ionawr - Mawrth 2023 - GOV.UK](#) Tabl 5.2.

Mae hyn yn dangos, er gwaethaf yr anghymhellion a'r rhwystrau sy'n bresennol yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil, mae darparwyr wedi bod yn cynyddu eu darpariaeth gwasanaethau cynrychiolaeth sifil, ar sail swyddfa darparwr.

Maint darparwyr a chydgrynhoi darparwyr

Dadansoddodd Adroddiad Trosolwg o Gyhoeddiadau Data yr Adolygiad faint darparwyr cymorth cyfreithiol sifil yn ôl y nifer o bartneriaid mewn sefydliadau. Mae'r data hwn yn dangos tueddiadau cymysg mewn gwahanol grwpiau o categorïau'r gyfraith.

Ar gyfer darparwyr achosion teulu gweithredol, newid bychan sydd wedi bod yn y gyfran o'r farchnad sy'n cynnwys darparwyr bach a chanolig eu maint o 2014–15 i 2021–22. I ddarparwyr gweithredol sy'n gwneud gwaith nad yw'n waith teulu, bu cynnydd yn y gyfran o ddarparwyr bach iawn o 33% i 47%, a gostyngiad cyfatebol yn y gyfran o ddarparwyr bach a chanolig eu maint yn y farchnad. Dangosir y tueddiadau hyn yn y tablau isod.

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

Tabl 9: Cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol yn ôl y nifer o bartneriaid a maes ymarfer, 2014–15

	Teulu		Cymysg		Sifil Arall	
	Nifer y cwmnïau	Incwm o gymorth cyfreithiol sifil (£miliwn)	Nifer y cwmnïau	Incwm o gymorth cyfreithiol sifil (£miliwn)	Nifer y cwmnïau	Incwm o gymorth cyfreithiol sifil (£miliwn)
Bach iawn (0–1 partner)	~	16%	19%	11%	33%	17%
Bach (2–4 partner)	52%	48%	44%	27%	46%	29%
Canolig (5–25 partner)	26%	35%	34%	52%	17%	27%
Mawr (26 partner a mwy)	~	1%	4%	10%	5%	27%
Cyfanswm	750	£221.5	340	£225.0	250	£68.6

Ffynhonnell: Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol: Trosolwg o Ddarparwyr – Tabl 1.3.9: Cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol yn ôl nifer y partneriaid a'r maes ymarfer, 2014–15

Tabl 10: Cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol yn ôl y nifer o bartneriaid a maes ymarfer, 2021–22

	Teulu		Cymysg		Sifil Arall	
	Nifer y cwmnïau	Incwm o gymorth cyfreithiol sifil (£miliwn)	Nifer y cwmnïau	Incwm o gymorth cyfreithiol sifil (£miliwn)	Nifer y cwmnïau	Incwm o gymorth cyfreithiol sifil (£miliwn)
Bach iawn (0–1 partner)	~	19%	~	16%	47%	19%
Bach (2–4 partner)	51%	47%	46%	32%	39%	30%
Canolig (5–25 partner)	24%	32%	31%	39%	7%	20%
Mawr (26 partner a mwy)	~	2%	~	14%	7%	31%
Cyfanswm	680	£282.3	200	£201.7	240	£99.3

Ffynhonnell: Cyfres Cyhoeddiadau Data yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol: Trosolwg o Ddarparwyr – Tabl 1.3.10: Cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil gweithredol cyfatebol yn ôl nifer yartneriaid a'r maes ymarfer, 2021–22

Yn gysylltiedig â maint darparwr, mae tystiolaeth yn dangos bod rhywfaint o gydgrynhoi yn digwydd yn y farchnad. O'r 761 o swyddfeydd darparwyr a adawodd eu contractau cymorth cyfreithiol sifil o fis Medi 2017 i fis Awst 2023, gwnaeth 131 (17.2%) hynny oherwydd eu bod wedi cydgrynhoi â darparwyr cymorth cyfreithiol eraill.¹⁴¹

Yn gyffredinol, mae hyn yn dangos na ellir llunio un casgliad ar y newid ym maint cyfartalog darparwyr yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil oherwydd gwelir tueddiadau gwahanol ar draws categorïau'r gyfraith. Fodd bynnag, mae'r cydgrynhoi yn y farchnad yn nodedig. Mae'n bosibl bod darparwyr cyfunol yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy ddarbedion maint, a gallai hyn fod yn un cyfrannwr o ran sut mae darparwyr wedi gallu cynyddu eu llwyth achosion cynrychiolaeth sifil dros amser.

¹⁴¹ Dadansoddiad PA Consulting o ddata yr ACC, [Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil](#)

Asesiad o gyflenwad y farchnad

Yr hyn y gellir ei ddysgu o'r adran hon yw bod effeithiau cymysg yn digwydd yng nghyflenwad cyffredinol y farchnad. Mae nifer y darparwyr yn gostwng ar gyfradd gymharol uchel (gostyngiad o 22% yn nifer y darparwyr gweithredol rhwng 2014–15 a 2021–2022), ac mae'r nifer o gyfreithwyr a bargyfreithwyr nad ydynt yn gwneud gwaith teulu yn y proffesiwn yn gostwng hefyd (a nodwyd yn Adran 3.3). Nifer y darparwyr a maint y gweithlu sy'n dueddol o fod yn brif benderfynyddion cyflenwad marchnad ac felly mae'n debygol bod y farchnad cymorth cyfreithiol sifil yn lleihau, ar sail net. Fodd bynnag, mae rhai grymoedd sy'n gwrthweithio o ran cyflenwad y farchnad, gyda darparwyr yn cyflawni llwythi gwaith uwch o gynrychiolaeth sifil ac yn cydgrynhoi mewn rhai achosion. Mae'n bosibl bod y grymoedd hyn sy'n gwrthweithio yn lliniaru'n rhannol yr effaith y mae'r gostyngiad yn niferoedd darparwyr a chyfreithwyr yn ei chael ar gyflenwad y farchnad.

Yn sgil y rhwystrau a'r anghymhellion sy'n wynebu darparwyr a drafodwyd yn yr adroddiad hwn, gallai fod yn groes i ddisgwyliadau bod rhai grymoedd cadarnhaol i'w gweld o ran cyflenwad y farchnad. Mae sawl rheswm credadwy am hyn, a gall rhai neu bob un ohonynt gyfrannu.

Yn gyntaf, wrth nodi'r tueddiadau hyn yn y cyflenwad, mae'n bwysig eu cymharu â thueddiadau galw yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil. Y metrigau ar gyfer y galw yw'r nifer o dystysgrifau cynrychiolaeth sifil a gymeradwywyd a'r materion help cyfreithiol a ddechreuwyd, er nad yw'r metrigau hyn yn berffaith am nad ydynt yn nodi galw cymwys nad yw'n cael ei gyflawni gan y system cymorth cyfreithiol sifil (a all fod am sawl rheswm). O ran cynrychiolaeth sifil, mae cyfanswm y tystysgrifau a gymeradwywyd wedi cynyddu o 92,953 yn 2014–15 i 106,701 yn 2022–23.¹⁴² O ran help cyfreithiol, mae cyfanswm y materion a ddechreuwyd wedi gostwng o 171,586 i 130,799 yn yr un cyfnod.¹⁴³ O ystyried bod rhai rhannau o'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil wedi gweld cynnydd yn y galw, byddai'n annisgwyl i'w gyflenwad ymateb drwy leihau'n llwyr, hyd yn oed yng ngoleuni'r anghymhellion a'r rhwystrau a drafodwyd.

¹⁴² Ibid., ffigur 6.

¹⁴³ Ibid., 8.

Yn ail, mae'n debygol bod y farchnad cymorth cyfreithiol sifil yn gweithredu'n wahanol o gymharu â marchnadoedd arferol oherwydd bod cymhellion sy'n gysylltiedig ag ymwybyddiaeth foesol a dyletswydd yn debygol o fod yn gryfach, a allai gymell darparwyr i aros yn y farchnad. Yn ôl Arolwg Darparwyr yr Adolygiad, adroddodd 79% o ymatebwyr eu bod yn parhau i gynnig gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil am eu bod yn credu mai dyma yw'r peth cywir i'w wneud. Mae cymhellion eraill hefyd, gyda 69% yn adrodd bod cyfranogiad yn y proffesiwn yn arferol i'w sefydliad, ac adroddodd 37% ei bod yn ffynhonnell incwm ddibynadwy.¹⁴⁴ Mae'r ail yn nodedig oherwydd ei fod yn cyferbynnu â'r dystiolaeth bod cyflenwi cymorth cyfreithiol sifil yn heriol o safbwynt hyfywedd ariannol. Un gwahaniaeth posibl yw, er bod barn bod y refeniw yn rhy isel, mae'n bosibl y bydd rhai darparwyr yn edrych yn gadarnhaol ar gysondeb a/neu ragweladwyedd refeniw.

Yn drydydd, fel y nodwyd yn Adran 3.2, er bod hyfywedd ariannol yn her â blaenoriaeth uchel i ddarparwyr, yn aml nid ffioedd cymorth cyfreithiol yw eu hunig ffynhonnell refeniw. Gallai darparwyr fod yn ymateb i heriau hyfywedd ariannol drwy sicrhau refeniw fwyfwy drwy adfer costau, grantiau, rhoddion a thrwy gydbwysu gwaith cymorth cyfreithiol sifil gyda gwaith cyfreithiol preifat. Gallai effaith rhai o'r penderfyniadau y gallai darparwyr eu gwneud greu canlyniadau negyddol o ran hygyrchedd i ddefnyddwyr.

Penderfyniadau darparwyr ar y math o ddarpariaeth cymorth cyfreithiol sifil a gynigir ganddynt

Oherwydd yr heriau gyda hyfywedd ariannol cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil ac anghymhellion y system ehangach, mae darparwyr yn adrodd bod angen iddynt 'ddewis a dethol' achosion cymorth cyfreithiol penodol er mwyn rhoi hwb i'w hyfywedd ariannol.

“Pan fo cyfraddau fesul awr a ffioedd sefydlog yn is na chost darparu gwasanaethau, mae darparwyr yn gweithredu ar golled ac nid oes gan ymarferwyr unrhyw ddewis ond dewis y mathau o achosion y gallant fforddio eu cymryd.”

Corff cynrychiadol

¹⁴⁴ [Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Arolwg Darparwyr - GOV.UK](#) ffigur 4.5.

Bydd yr isadran hon yn archwilio dau bosibilrwydd, p'un a yw darparwyr yn fwyfwy amharod i ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol, sy'n llai proffidiol na gwaith arall yn ôl y sôn, a'u bod yn dewis achosion sy'n fwy tebygol o olygu Gorchmynion Costau.

Help cyfreithiol

Yn Adran 3.2, nodwyd bod hyfywedd ariannol cyflenwi gwaith help cyfreithiol yn debygol o fod yn her i lawer o ddarparwyr. Mae hyn oherwydd bod help cyfreithiol yn defnyddio ffioedd sefydlog yn bennaf ac nid yw hyn yn debygol o adlewyrchu'r cynnydd yng nghymhlethdod achosion a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf, a hyd yn oed yn yr achosion sy'n defnyddio cyfraddau fesul awr, mae'r rhain yn is o gymharu â chyfraddau cynrychiolaeth sifil fesul awr ac ni ellir hawlio gwelliannau yn gyffredinol. Yn ogystal â'r heriau hyn gyda lefelau a strwythurau ffioedd, mae'n debygol bod gwaith cymorth cyfreithiol yn gosod costau gweinyddol uwch ar ddarparwyr (mae cymorth cyfreithiol yn cynnwys archwiliadau ac adolygiadau o ffeiliau, a all arwain at gostau gweinyddol ychwanegol). Rhaid i ddarparwyr gynnal eu gwiriadau eu hunain i bennu cymhwysedd defnyddwyr ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer gwaith help cyfreithiol, er mai'r ACC sy'n gyfrifol am hyn ar gyfer gwaith cynrychiolaeth sifil. Fodd bynnag, gall y costau gweinyddol ychwanegol hyn fod yn fach, oherwydd ar gyfer cymorth cyfreithiol a gwaith cynrychiolaeth sifil, mae darparwyr yn cadw cyfrifoldeb o gefnogi defnyddwyr i gasglu'r holl ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer gwiriadau cymhwysedd, hyd yn oed os nad ydynt yn gwneud eu penderfyniad cymhwysedd eu hunain.

O ganlyniad i'r heriau hyn ynghylch hyfywedd ariannol, adroddodd darparwyr yng Nghais am Dystiolaeth ac Arolwg Darparwyr yr Adolygiad nad oedd cymhellant i wneud gwaith help cyfreithiol a'u bod yn amharod i'w wneud. I asesu a yw hyn yn effeithio ar benderfyniadau darparwyr yn ymarferol, gellir ystyried dau fetrig. Y cyntaf yw'r nifer o swyddfeydd darparwyr sy'n dechrau gwaith cymorth cyfreithiol. Yn 2014–15, dechreuodd 2,232 o swyddfeydd darparwyr ar waith help cyfreithiol, ac erbyn 2021–22, roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 1,620, gostyngiad o 27%.¹⁴⁵ O gymharu hyn â chynrychiolaeth sifil, dechreuodd 2,292 o swyddfeydd darparwyr ar waith cynrychiolaeth sifil yn 2014–15, a gostyngodd y ffigur hwn i 1,789 yn 2021–22, gostyngiad o 21.9%.¹⁴⁶ Yr ail fetrig yw llwythi

¹⁴⁵ [Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil](#) ffigur 22

¹⁴⁶ *Ibid.*, ffigur 21

gwaith darparwyr. Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr isadran hon, mae llwythi achosion cymorth cyfreithiol wedi amrywio ac nid oes tuedd glir, ond mae llwythi achosion cynrychiolaeth sifil wedi cynyddu'n gyson ers 2014–15.

O ystyried bod y gostyngiad yn nifer y swyddfeydd darparwyr sy'n dechrau gwaith cymorth cyfreithiol wedi bod yn fwy na'r gostyngiad cyfatebol ar gyfer gwaith cynrychiolaeth sifil, a bod darparwyr yn dewis cynyddu eu llwyth achosion mewn cynrychiolaeth sifil ond nid mewn cymorth cyfreithiol, mae'n cefnogi'r honiad bod darparwyr yn llai parod i wneud gwaith cymorth cyfreithiol o gymharu â chynrychiolaeth sifil.

Er mwyn ystyried gwrthgyferbyniad i hyn, gellid disgwyl, os yw darparwyr yn llai parod i wneud gwaith cymorth cyfreithiol, y byddai hyn yn amlwg yn lleihau llwyth achosion cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, dylid nodi cysylltiad rhwng llwyth achosion cymorth cyfreithiol a chynrychiolaeth sifil. Mae darparwyr yn aml yn cadw eu harfer o wneud gwaith cymorth cyfreithiol er mwyn cefnogi eu gwaith cynrychiolaeth sifil yn y dyfodol ar achos penodol, oherwydd gall bilio o dan gymorth cyfreithiol dalu costau ymchwilio i'r achos a gwneud cais am dystysgrif cynrychiolaeth sifil. Felly, er ei bod yn bosibl bod darparwyr yn llai parod i wneud gwaith cymorth cyfreithiol, gall y cysylltiad rhwng cymorth cyfreithiol a gwaith cynrychiolaeth ddeillio o ostyngiad mwy mewn llwyth achosion cymorth cyfreithiol (er bod rhywfaint o waith y gellir ei wneud fel help cyfreithiol yn unig, lle na fydd hyn yn berthnasol).

Trafodir pwysigrwydd y canfyddiad hwn i hygyrchedd defnyddwyr, yn arbennig argaeledd gwasanaethau cyfreithiol ymyrraeth gynnar, yng nghasgliad yr adran hon.

Gorchmynion Costau

Fel y trafodwyd yn Adran 3.2, gall Gorchmynion Costau (adennill costau rhyng-bartiön) fod yn ffynhonnell referniw ychwanegol i ddarparwyr ac un sy'n aml yn cael ei thalu ar gyfraddau sy'n agosach at gyfraddau preifat. O 2010-11 i 2022-23, adenillodd darparwyr cymorth cyfreithiol gostau gan wrthwynebwyd mewn 17-23% o achosion nad oeddynt yn achosion teulu a'r gost gyfartalog a adenillwyd oedd £40,700. O ystyried yr heriau hyfywedd ariannol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, mae'n bosibl y bydd darparwyr yn dewis ymgymryd ag achosion sy'n fwy tebygol o arwain at Orchmynion Costau er mwyn gwella eu proffidioldeb a'u hyfywedd ariannol. Yn Ymchwil

Cymdeithas y Gyfraith ar Gynaliadwyedd, dywedodd darparwyr tai a gyfwelwyd (ac yn arbennig cwmnïau preifat) ei bod yn well ganddynt ymgymryd ag achosion ardystiedig a oedd yn fwy tebygol o lwyddo oherwydd bod Gorchmynion Costau'n cael eu dyfarnu fel arfer ar gyfraddau masnachol, sy'n sylweddol uwch na'r cyfraddau cymorth cyfreithiol presennol.

Fodd bynnag, mae'n anodd asesu'r graddau y gallai hyn fod yn digwydd. Ychydig o fetrigau sydd ar gael ar adennill costau, a'r refeniw a geir ohono yw'r prif un. O ddadansoddiad cynharach yr adroddiad hwn ar adennill costau, un canfyddiad allweddol oedd bod tri chategori o'r gyfraith wedi profi cyfran uwch yn gyson (dros 70%) o'u costau cynrychiolaeth sifil yn cael eu hariannu drwy adennill costau: esgeuluster clinigol, hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoedd a chyfraith gyhoeddus. Mae hyn yn darparu un dull posibl o asesu penderfyniadau darparwyr o ran adennill costau; os yw darparwyr yn ymgymryd ag achosion yn ddetholus sy'n fwy tebygol o weld Gorchmynion Cost, gallai hyn ddod i'r amlwg wrth i nifer cynyddol y darparwyr wasanaethu'r categorïau hyn o gyfraith a chynyddu llwythi achosion.

O 2014-15 i 2021-22, ym maes esgeuluster clinigol, mae llwythi achosion (fesul swyddfa darparwyr) wedi gostwng o 10 i 5. Mewn hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus, mae llwythi achosion wedi amrywio ac roeddynt yn 14 yn 2021-22. Ym maes cyfraith gyhoeddus, mae llwythi achosion wedi cynyddu o 5 i 12. O ystyried bod tueddiadau cymysg ar draws y categorïau hyn o'r gyfraith, ni ellir llunio casgliadau pendant bod darparwyr yn mynd ati i ymgymryd ag achosion yn weithredol sy'n fwy tebygol o weld Gorchmynion Costau.

Fodd bynnag, mae gan y dull hwn o asesu penderfyniadau darparwyr ynglŷn ag adennill costau gyfyngiadau clir. Mae'r categorïau o'r gyfraith a drafodwyd ymhlith y lleiaf yn y farchnad cymorth cyfreithiol sifil, ac felly hyd oed pe byddai darparwyr yn ymgymryd yn weithredol ag achosion sy'n fwy tebygol o weld Gorchmynion Costau, efallai y byddai'n well ganddynt 'ddewis a dethol' achosion yn eu categorïau hwy o'r gyfraith yn hytrach nag ymgymryd â'r categorïau a nodwyd. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud mwy o ymchwil yn y maes hwn er mwyn gallu llunio casgliadau mwy pendant ar benderfyniadau darparwyr.

Iechyd y farchnad a'r cysylltiad rhwng cyflenwad a hygyrchedd i ddefnyddwyr

Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r adran hon yn peri pryderon o ran iechyd a gweithrediad presennol y system cymorth cyfreithiol sifil. Mae nifer y darparwyr gweithredol yn y farchnad wedi gostwng 22% rhwng 2014-15 a 2021-22, a gall ymadawiadau net parhaus o'r farchnad awgrymu bod llawer o ddarparwyr yn asesu nad yw amodau'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil (gan gynnwys cymhellion, anghymhellion, a rhwystrau i ddarpariaeth) yn ffafriol i ddarpariaeth gynaliadwy.

Mae'r canfyddiadau ar gyflenwad y farchnad hefyd yn cysylltu i heriau hygyrchedd i ddefnyddwyr. Nododd Adran 1.3 adroddiadau bod darparwyr yn gorfod gwrthod darpar ddefnyddwyr cymwys, gyda darparwyr yn adrodd yn yr Arolwg Darparwyr (y rhai a adroddodd lefelau gormodol o alw) eu bod yn gwrthod 26 o ddarpar ddefnyddwyr cymwys ar gyfartaledd, fesul darparwr, yn y mis cyn yr arolwg. Mae'n debygol bod hyn yn cael ei ysgogi gan ostyngiad yng nghyflenwad y farchnad. Mae darparwyr yn gadael y farchnad, cyfreithwyr yn gadael y proffesiwn, a llai o fargyfreithwyr yn derbyn llai o waith cymorth cyfreithiol sifil teulu i gyd yn cael effaith negyddol ar gapasiti a gallu'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil i gyflawni galw defnyddwyr.

Gallai capasiti'r farchnad i ddiwallu'r galw fod yn cyfrannu at broblemau mynediad defnyddwyr mewn categorïau penodol. Mae ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth a'r Ymchwil Eiriolaeth yn amlygu gwaith achosion teulu (er y nododd rhywfaint o'r adborth nad yw achosion teulu o fewn y cwmpas ers cyflwyno LASPO, ond hefyd y gall gwrthdaro buddiannau fod yn fwy cyffredin oherwydd gallai fod yn ofynnol i gwmnïau cyfreithwyr lluosog gynrychioli'r gwahanol bartïon), tai a dyled, a mewnfudo a lloches fel categorïau lle mae defnyddwyr yn wynebu heriau arbennig o ran sicrhau gwasanaethau cyfreithiol gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil, ac mae hyn yn cyd-fynd â'r data bod y categorïau hyn wedi profi gostyngiadau yn nifer y darparwyr o dros 20% o fis Ebrill 2013 i fis Awst 2023.

Mae hyn yn wir hefyd ar gyfer heriau mynediad rhanbarthau penodol. Nododd Adran 1.3 y gall materion mynediad fod yn fwy aciwt mewn rhai rhanbarthau yng Nghymru a Lloegr. Gallai rhywfaint o dystiolaeth ddangos prinder darparwyr yn y rhanbarthau hyn, ac mewn rhai categorïau o'r gyfraith yn benodol. Fodd bynnag, mae bwlch yn bodoli yma yn y dystiolaeth, fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

yn adolygu'r data mae'n ei gasglu ar y galw am gymorth cyfreithiol, a mynediad ato, ac ystyried pa gyfleoedd allai fod i wella dulliau casglu a delweddu data.

Yn olaf, gyda thystiolaeth sy'n cyfeirio at fwy a mwy o anghymellion yn effeithio ar barodrwydd darparwyr i ymgymryd â gwaith help cyfreithiol, gallai hyn fod yn lleihau argaeledd gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil sydd wedi'u hanelu at ymyrraeth gynnar. Mae ymyrraeth gynnar yn rhan hollbwysig o weithrediad effeithiol system cymorth cyfreithiol am ei bod yn atal materion cyfreithiol rhag dwysáu a'r costau y mae defnyddwyr a'r system gyffredinol yn eu hwynebu, a gallai hyn fod yn faes allweddol i ymyrraeth polisi.

Y camau nesaf

Bydd y dystiolaeth a gesglir drwy'r Adolygiad hwn yn parhau i fod yn rhan annatod o ddatblygu polisi ac yn llywio strategaeth y llywodraeth ar gyfer dyfodol y system cymorth cyfreithiol sifil. Drwy nodi heriau allweddol a datblygu sylfaen dystiolaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymhellach, mae'r Adolygiad yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer unrhyw ddiwygio yn y dyfodol sy'n ceisio gwella cynaliadwyedd y system.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar gynnydd mewn ffioedd cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer gwaith tai a mewnfudo. Mae'r ymgynghoriad yn rhan o gynlluniau ehangach y llywodraeth i wneud y sector cymorth cyfreithiol yn fwy cynaliadwy a mynd i'r afael â'r ôl-groniad yn y llysoedd sifil. Mae'n nodi'r cam cyntaf yn ymateb y llywodraeth i'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil.

Cyfeiriadau

Adroddiad Pwyllgor Cyfathrebu a Digidol Tŷ'r Arglwyddi (2023) Digital exclusion in the UK
<https://lordslibrary.parliament.uk/digital-exclusion-in-the-uk-communications-and-digital-committee-report/>

Comisiwn San Steffan ar Gymorth Cyfreithiol (Hydref 2021) Ymchwiliad i Gynaliadwyedd ac Adferiad y Sector Cymorth Cyfreithiol

Cymdeithas y Gyfraith (Ebrill 2024) Perfect storm brewing in family courts as rising numbers represent themselves

www.lawsociety.org.uk/contact-or-visit-us/press-office/press-releases/perfect-storm-brewing-in-family-courts-as-rising-numbers-represent-themselves

Cymdeithas y Gyfraith (Ionawr 2020) Adroddiad ar Anghenion cyfreithiol unigolion yng Nghymru a Lloegr

www.lawsociety.org.uk/topics/research/legal-needs-of-individuals-in-england-and-wales-report

Cymdeithas y Gyfraith (May 2024) Cymorth cyfreithiol sifil: ymchwil ar gynaliadwyedd

www.lawsociety.org.uk/topics/research/civil-legal-aid-sustainability

Cymdeithas y Gyfraith (Medi 2021) Cymorth cyfreithiol sifil: adolygiad o'i gynaliadwyedd

www.lawsociety.org.uk/topics/research/civil-sustainability-review

Denvir, C. et al (2022) We are Legal Aid, Canfyddiadau o Gyfrifiad Cymorth Cyfreithiol 2021

Denvir, C. et al (2023) 'Legal Aid and the Future of Access to Justice' Bloomsbury, Llundain

Granger, R. et al, (2022) 'Health economics of health justice partnerships: A rapid review of the economic returns to society of promoting access to legal advice' Front. Iechyd Cyhoeddus, *Sec. Health Economics* Cyfrol 10

Grŵp Gweithredu Cyfreithiol (Mehefin 2021) What do providers need from future legal aid contracts? www.lag.org.uk/article/211017/-what-do-providers-need-from-future-legal-aid-contracts-

Gwybodaeth Ymchwil Tŷ'r Cyffredin (Ionawr 2016) Litigants in person: the rise of the self-represented litigant in civil and family cases in England and Wales
<https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/sn07113/>

Hynes, J. (2023) Overstretched & unsustainable: a case study of the immigration and asylum legal aid sector, Young Legal Aid Lawyers a'r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus
<https://publiclawproject.org.uk/content/uploads/2023/05/YLALPLP-Report-April-2023.pdf>

Law for Life (n.d.) Adroddiad Gwerthuso Cysylltiadau Cymunedol
www.lawforlife.org.uk/wp-content/uploads/Law-for-Life-Community-Links-Evaluation-report.pdf

Leckie, C. et al (2021) 'Defending the public purse: The economic value of the free legal advice sector' Pragmatix Advisory a'r Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes

Lloyds Bank (2023) Adroddiad Mynegai Digidol Defnyddwyr
www.lloydsbank.com/assets/media/pdfs/banking_with_us/whats-happening/231122-lloyds-consumer-digital-index-2023-report.pdf

Moorhead, R., Robinson, M., a Matrix Research and Consultancy (2006) A trouble shared – legal problems clusters in solicitors' and advice agencies Cyfres Ymchwil DCA 8/06

Newman, D., Mant, J. a Gordon, F. (2021) Vulnerability, Legal Need and Technology in England and Wales. *International Journal of Discrimination and the Law* 2021, Cyfrol 21(3) 230–253

Ofcom (2022) Adroddiad Connected Nations UK
www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/research-and-data/multi-sector/infrastructure-research/connected-nations-2022/connected-nations-uk-report.pdf?v=321647

Ofcom (2022) Adroddiad Defnydd Oedolion o'r Cyfryngau a'u Hagweddau at y Cyfryngau www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/research-and-data/media-literacy-research/adults/adults-media-use-and-attitudes-2022/adults-media-use-and-attitudes-report-2022.pdf?v=327649

PA Consulting (Ionawr 2024) Arolwg o ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil yng Nghymru a Lloegr

<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65aa4068ed27ca000d27b28a/civil-legal-aid-providers-survey.pdf>

Pleasence, P. et al. (2004) Multiple Justiciable Problems: Common Clusters and Their Social and Demographic Indicators *Journal of Empirical Legal Studies* 1(2):301 – 329

Pleasence, P. et al., Report of Wave 1 of the English and Welsh Civil and Social Justice Panel Survey Data Archive SN 7643 – English and Welsh Civil and Social Justice Panel Survey: Waves 1–2, 2010–2012

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Mai 2024) Gwerth am Arian o Gymorth Cyfreithiol Trydydd Adroddiad ar Ddeg ar Hugain Sesiwn 2023–24 HC 481

Pwyllgor Dethol Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin (Gorffennaf 2021) The Future of Legal Aid. Trydydd Adroddiad Sesiwn 2021–22 HC 70

Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Chwefror 2024) Adroddiad: Rheolaeth y Llywodraeth o gymorth cyfreithiol, Sesiwn 2023-24 HC 514

Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Tachwedd 2014) Adroddiad: Gweithredu diwygiadau i gymorth cyfreithiol sifil, Sesiwn 2014-15 HC 784

Tîm Arloesedd Agored (n.d.) 'Amdanom Ni'

www.gov.uk/government/organisations/open-innovation-team/about

Tobin-Tyler, E. et al (2003) 'Health Justice Partnerships: An International Comparison of Approaches to Employing Law to Promote Prevention and Health Equity' Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) Anabledd, Cymru a Lloegr

www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#disability-england-and-wales-data

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017) Canfyddiadau o'r Arolwg Problemau a Datrysiadau Cyfreithiol, 2014–15

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2022) Grant Cymorth Cyfreithiol i Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LSLIP) Adolygiad Canol Tymor Grant Rhagfyr 2021

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2023) Adnodd Cyfeirio Ar-lein ar gyfer Diffyg Atgyweirio Tai Crynodeb o Ddata Monitro a Chyfweliadau Rhanddeiliaid

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2023) Adolygiad o Ganllawiau Cymorth Cyfreithiol Sifil

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2023) Adolygiad o Gylch Gorchwyl Cymorth Cyfreithiol

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2023) Gwerthusiad o Astudiaeth Ddichonoldeb Hybiau Cyngor Integredig Lleoliadau Gofal Iechyd Sylfaenol

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2024) Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad

www.gov.uk/government/publications/review-of-civil-legal-aid-market-research-report

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2024) Cynllun Peilot Cyngor Cyfreithiol Cynnar ar ddyled tai a lles

www.gov.uk/government/publications/moj-early-legal-advice-pilot-on-housing-debt-and-welfare

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Chwefror 2019) Adolygiad Ôl-weithredol Rhan 1 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 CP 37

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Chwefror 2019) Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol
www.gov.uk/government/publications/legal-support-action-plan

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Ebrill 2023) Cyngor Cyfunol a Mynediad at Gyfiawnder
www.gov.uk/government/publications/blended-advice-and-access-to-justice

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mai 2022) Cymorth Cyfreithiol Tai: y ffordd ymlaen: Ymateb i Ymgynghoriad ar Gynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mawrth 2024) Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: Dadansoddiad cymharol o'r adroddiad systemau cymorth cyfreithiol

www.gov.uk/government/publications/review-of-civil-legal-aid-comparative-analysis-of-legal-aid-systems-report

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Medi 2023) Ystadegau Chwarterol y Llys Teulu: Ebrill - Mehefin 2023 – GOV.UK

www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-april-to-june-2023/family-court-statistics-quarterly-april-to-june-2023#legal-representation

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Medi 2024) Ystadegau cymorth cyfreithiol: ffeiliau data Ebrill - Mehefin 2024

www.gov.uk/government/statistics/legal-aid-statistics-april-to-june-2024-data-files

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mehefin 2023) Ystadegau chwarterol cyfiawnder sifil: Ionawr - Mawrth 2023

www.gov.uk/government/statistics/civil-justice-statistics-quarterly-january-to-march-2023

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (n.d.) Ymestyn Costau Sefydlog Adferadwy: nodyn ar y rheol newydd

www.justice.gov.uk/documents/frc-public-notice-updated.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Rhagfyr 2024) Arolwg Problemau a Datrysiaidau Cyfreithiol 2023

www.gov.uk/government/publications/legal-problem-and-resolution-survey-2023

Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol, Strategaeth Gadewch i ni Newid y Ffordd yr Ydym yn Edrych ar Iechyd a Lles 2023-2026

<https://socialprescribingacademy.org.uk/media/j5jfyovd/nasp-strategy-2023-2026.pdf>

Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Comisiwn y Gwasanaethau Cyfreithiol (Gorffennaf 2006) Papur Ymgynghori Legal Aid: a sustainable future Gorffennaf 2006 CP 13/06

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Adroddiad Cryno

Yr Arglwydd Brif Ustus (Ionawr 2019) Llythyr ar ystadegau ar ymgyfreithwyr drostynt eu hunain

www.parliament.uk/globalassets/documents/commons-committees/Justice/correspondence/250119-LCJ-statistics-litigants-in-person.pdf

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (Hydref 2024) 2024 Canlyniadau Contractau Sifil Safonol

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/66fea638a31f45a9c765f0d4/2024_Standard_Civil_Contract_Outcome_2.10.2024.pdf

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (Mehefin 2014) Canllawiau – Achosion costau uchel sifil

www.gov.uk/guidance/legal-aid-high-cost-cases

Atodiad A

Ymgysylltiad yr Adolygiad yng Nghymru

Fel rhan o gam casglu tystiolaeth yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil, gwnaed ymdrech benodol i gynnal ymgysylltiad penodol gydag ymarferwyr, darparwyr ac arbenigwyr yng Nghymru. Y canlyniad bwriadedig oedd creu sylfaen dystiolaeth oedd yn cydnabod y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn profiadau, heriau, ac anghenion rhwng Cymru a Lloegr, ac yn ei dro i gefnogi datblygiad polisi yn y dyfodol a fyddai'n mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn.

Ar draws pedair ffrwd waith casglu tystiolaeth yr Adolygiad, cynhaliwyd ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol Cymru, a chafodd Llywodraeth Cymru ei chynnwys yng Ngrwpiau Cyngor Cenedlaethol Cymru ffurfiol yr Adolygiad a wasanaethodd pob un o'r ffrydiau gwaith. Yn ogystal â hyn, isod nodir yr ymgysylltiad penodol a gynhaliwyd fel rhan o bedair ffrwd waith casglu tystiolaeth yr Adolygiad, yn ogystal â'r Cais am Dystiolaeth:

- Dadansoddiad Economaidd – Un allbwn hollbwysig o'r ffrwd waith hon oedd arolwg a gynhaliwyd gyda darparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil. Derbyniodd yr arolwg hwn ymatebion gan 228 darparwr, gan gynrychioli tua 18% o'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil dan gontract ar adeg yr arolwg. O fewn y grŵp hwn, ymatebodd 23 o ddarparwyr â swyddfeydd yng Nghymru i'r arolwg. Mae hyn yn cynrychioli 10% o'r sampl cyfan, tra bod darparwyr sydd â swyddfeydd yng Nghymru yn cynrychioli 8% o'r farchnad cymorth cyfreithiol sifil gyfan. Felly, roedd darparwyr â swyddfeydd yng Nghymru yn cael eu cynrychioli'n fwy na chyfrannol yn yr arolwg. Mae'r [Adroddiad Arolwg Darparwyr](#) yn defnyddio'r mewnbynnau hyn i gymharu profiadau rhwng y ddarpariaeth cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.
- Yn ogystal, er mwyn hysbysu'r [Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad](#), a ddaeth â'r ffrwd waith hon i ben, cynhaliwyd dau gyfarfod bord gron gyda bargyfreithwyr sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr. Ymchwiliodd hyn i'r cymhellion y maent yn eu

profi i weithio ar gymorth cyfreithiol sifil, yr heriau a brofwyd, a'u canfyddiadau o ragolygon y system.

- Dadansoddiad Cymharol (o systemau cymorth cyfreithiol sifil) – Roedd y ffrwd waith hon yn edrych tuag allan yn bennaf, gan dreiddio i systemau cymorth cyfreithiol sifil domestig a rhyngwladol gan gynnwys yr Alban, UDA, Canada, y Ffindir, yr Iseldiroedd ac Awstralia. Yng nghamau olaf y ffrwd waith, cynhaliwyd gweithdai gydag ymarferwyr ac arbenigwyr yng Nghymru a Lloegr i brofi a fyddai'n bosibl trosglwyddo mentrau a nodwyd yn y systemau cymharu i system cymorth cyfreithiol sifil Cymru a Lloegr, ac roedd hyn yn cynnwys gweithdy a gynhaliwyd yn benodol gydag ymarferwyr ac arbenigwyr yng Nghymru.
- Cyhoeddiadau Data – Er mwyn cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau data a fydd yn cefnogi datblygiad polisi, mae'r ffrwd waith hon yn defnyddio data gweinyddol a ddelir gan yr ACC a chanlyniadau dau ymarfer cyfatebol, un rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chymdeithas y Gyfraith ynghylch cyfreithwyr a darparwyr sy'n gweithio ar achosion cymorth cyfreithiol sifil, a'r ail rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chyngor y Bar ynghylch bargyfreithwyr sy'n gweithio ar achosion cymorth cyfreithiol sifil. Mae'r data hwn ar gyfreithwyr, bargyfreithwyr a darparwyr yn cynnwys y rhai ar draws Cymru a Lloegr.
- Ymchwil Cymdeithasol Taith Defnyddwyr - Mae'r ffrwd waith hon yn cynnwys dau allbwn, gyda nod cyffredin, sef i ymchwilio i brofiadau defnyddwyr gyda'r system cymorth cyfreithiol sifil. Roedd yr allbwn cyntaf yn ceisio archwilio'r cwestiwn hwn drwy safbwyntiau defnyddwyr a'r cyfryngwyr dibynadwy sy'n eu cefnogi. Ceisiodd yr ail allbwn safbwyntiau darparwyr. Profwyd heriau wrth recriwtio cyfranogwyr i'w cyfweld ar gyfer yr ymchwil hwn, ac er gwaethaf yr ymdrechion ar y cyd, ni fu'n bosibl trefnu cyfweiliadau â chyfranogwyr yng Nghymru.
- Cais am Dystiolaeth – Er mwyn bwydo i Gais am Dystiolaeth yr Adolygiad, cynhaliwyd cyfarfodydd bord gron gydag ymarferwyr ac arbenigwyr a oedd yn archwilio strwythurau taliadau a ffioedd, datblygu gyrfa, anghenion defnyddwyr, y defnydd o dechnoleg, a datrys anghydfodau'n gynnar. Fel rhan o hyn, cynhaliwyd un cyfarfod bord gron gydag ymarferwyr ac arbenigwyr yng Nghymru.